ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

Rhagfyr 2018

# Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

## Cynulleidfa

Canllawiau statudol yw'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus canlynol: awdurdodau lleol yng Nghymru neu yn Lloegr; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr (gan gynnwys ysgolion cymunedol, sefydledig neu wirfoddol; ysgolion arbennig cymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty; ysgolion meithrin a gynhelir; ac unedau cyfeirio disgyblion); cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr; perchnogion academïau; timau troseddau ieuenctid ardal yng Nghymru neu yn Lloegr; pobl sy'n gyfrifol am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr; byrddau iechyd lleol; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau comisiynu'r gwasanaeth iechyd gwladol; grwpiau comisiynu clinigol; ymddiriedolaethau sefydledig y GIG; ac awdurdodau iechyd arbennig.

Bydd yn ofynnol i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (a gaiff ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru) roi sylwi i unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod mewn perthynas ag apeliadau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf').

Yn ogystal, bydd yn ofynnol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir, a gyllidir gan awdurdod lleol, roi sylw i ganllawiau perthnasol yn y Cod ADY, yn unol â threfniadau cyllid yr awdurdod lleol.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at y canlynol hefyd: Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru; Comisiynydd Plant Cymru; Comisiynydd y Gymraeg; a Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Trosolwg

Y camau y mae angen eu cymryd Gwneir y Cod hwn o dan y Ddeddf, sydd, ynghyd â'r Cod hwn a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn darparu fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn cael eu nodi'n gynnar ac yn cael sylw yn ddi-oed, er mwyn eu galluogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial.

## Camau i'w cymryd

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn rhanddeiliaid, a restrir o dan y gynulleidfa darged uchod, a'r rheini sydd â diddordeb yn nrafft Llywodraeth Cymru o'r Cod ADY.

Dylai'r drafft hwn o'r Cod ADY gael ei ddarllen ar y cyd â dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru sy'n dwyn y teitl 'Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol ac is-ddeddfwriaeth arfaethedig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018'.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG36130

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Dîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SENreforms@llyw.cymru

Ffôn: 03000 253039

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

## Dogfennau cysylltiedig

Dogfen ymgynghori: 'Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol ac is-ddeddfwriaeth arfaethedig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018'.

## Cynnwys

***Rhagair gan y Gweinidog*** ........ 1
**Pennod 1: Cyflwyniad** ........ **2**
*Canllawiau yn y Cod y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw iddynt* ........ *2*
*Gofynion y mae'r Cod yn eu gosod ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru* ........ *3*
*Dehongli termau allweddol a ddefnyddir yn y Cod* ........ *4*
*Amserlenni* ........ *7*
*Rhoi hysbysiad neu ddogfennau* ........ *9*
*Croesgyfeirio i rannau eraill o'r Cod* ........ *10*
*Trefniadau gweithredu 2020-23* ........ *10*
*Partneriaid darpariaeth – rôl sefydliadau unigol yn y system ADY* ........ *10*
*Strwythur y Cod* ........ *15*
***Rhestr Dermau*** ........ 20
**Pennod 2: Egwyddorion y Cod** ........ **26**
*Rhoi'r egwyddorion ar waith* ........ 26
**Pennod 3: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc** ........ **32**
*Cyflwyniad* ........ *32*
*Cyfranogiad plant a phobl ifanc* ........ *32*
*Y dyletswyddau ar waith* ........ *33*
*Cynnwys a chefnogi rhieni plant ag ADY* ........ *36*
**Pennod 4: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** ........ **39**
*Cyflwyniad* ........ *39*
*Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* ........ *41*
*Dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau* ........ *42*
*Cyflawni'r dyletswyddau yn ymarferol* ........ *43*
**Pennod 5 - Dyletswydd i adolygu DDdY yn rheolaidd** ........ **45**
*Cyflwyniad* ........ *45*
*Cynnal adolygiad* ........ *45*
*Yn dilyn adolygiad o DDdY* ........ *49*
**Pennod 6: Cyngor a gwybodaeth** ........ **51**
*Cyflwyniad* ........ *51*
*Trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth* ........ *51*
*Amcanion a natur y cyngor a'r wybodaeth* ........ *52*
*Codi ymwybyddiaeth o drefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth* ........ *53*
*Hwylustod cael cyngor a gwybodaeth* ........ *54*
*Cynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc* ........ *54*
*Rôl ysgolion, sefydliadau addysg bellach a meithrinfeydd nas cynhelir yn y gwaith o hyrwyddo trefniadau gwybodaeth a chyngor awdurdodau lleol* ........ *55*

**Pennod 7: Y diffiniad o ADY a DDdY, adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol ........ 56**
*Cyflwyniad ........ 56*
*Y diffiniad o ADY ........ 56*
*Plant o oedran ysgol gorfodol a phersonau hŷn ........ 57*
*Plan o dan oedran ysgol gorfodol ........ 59*
*Ystyried p'un a oes gan blentyn neu berson ifanc, neu p'un a allai fod ganddo ADY 59*
*Tystiolaeth ynghylch a allai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ........ 62*
*Penderfynu ar yr ADY a'r DDdY sy'n ofynnol ........ 66*
*Gwaith aml-asiantaeth ........ 67*
*Ystyriaethau o ran DDdY ........ 71*
**Pennod 8: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol, nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru ........ 74**
*Cyflwyniad ........ 74*
*Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol, nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, ADY ........ 74*
*Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY ........ 77*
*Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer plentyn o dan oedran ysgol gorfodol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir ........ 78*
*Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY ........ 80*
*Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ........ 81*
*Swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar ........ 81*
**Pennod 9: Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ........ 85**
*Cyflwyniad ........ 85*
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i benderfynu a oes gan ddisgybl ADY ........ 85*
*Penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ........ 88*
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i lunio CDU ar gyfer disgybl ........ 89*
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer disgybl ag ADY ond sydd heb CDU ........ 91*
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY ........ 92*
*Adolygu'r CDU ........ 93*
*Cyfeirio achosion o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol ........ 93*
*Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ADY ........ 95*
*Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan ddisgybl ADY ........ 99*
*Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer disgybl ag ADY mewn ysgol a gynhelir ........ 100*
*Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer disgybl ag ADY a sicrhau'r DDdY ........ 103*
*Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ar gyfer disgybl ag ADY ........ 104*
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer disgybl gan awdurdod lleol ........ 104*

*Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol i lunio neu gynnal CDU* ... 105
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i lunio neu gynnal CDU os bydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd iddi i wneud hynny* ... 107
*Dyletswydd ysgol a gynhelir i dderbyn plentyn os bydd awdurdod lleol wedi'i henwi at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn* ... 108
*Dyletswydd i sicrhau bod plant ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol* ... 108
**Pennod 10: Dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach ... 110**
*Cyflwyniad* ... 110
*Dyletswydd sefydliad addysg bellach i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY* ... 110
*Penderfyniad sefydliad addysg bellach nad oes gan berson ifanc ADY* ... 113
*Dyletswydd sefydliad addysg bellach i lunio CDU* ... 114
*Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer myfyriwr ag ADY ond sydd heb CDU* ... 115
*Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY* ... 117
*Adolygu'r CDU* ... 117
*Cyfeirio achosion o sefydliad addysg bellach i awdurdod lleol* ... 118
*Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY* ... 119
*Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY* ... 122
*Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach sydd ag ADY* ... 123
*Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach sydd ag ADY* ... 125
*Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ar gyfer myfyriwr sefydliad addysg bellach ag ADY* ... 126
*Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer myfyriwr gan awdurdod lleol* 126
**Pennod 11: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir ... 128**
*Cyflwyniad* ... 128
*Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan blentyn o oedran ysgol gorfodol nad yw'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru* ... 128
*Penderfyniad awdurdod lleol nad oes ADY gan blentyn o oedran ysgol gorfodol* ... 130
*Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer plentyn ag ADY nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir* ... 131
*Ystyriaethau eraill wrth benderfynu lle y dylid cyflwyno'r DDdY* ... 132
*Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau DDdY* ... 140
*Dyletswydd yr awdurdod lleol i adolygu CDU* ... 141
**Pennod 12: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB ... 142**
*Cyflwyniad* ... 142

*Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB anghenion dysgu ychwanegol* ...................................... *142*
*Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol* ............................................................................................................... *145*
*Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a ddylai lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol*................................................................ *146*
*Dyletswydd awdurdod lleol i lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru*.................................................................................................... *153*
*Penderfyniad awdurdod lleol nad oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru* ............................................................ *155*
*Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal cynllun datblygu unigol a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir ynddo* .......................................................... *156*
*Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu cynllun datblygu unigol* ................................ *157*
**Pennod 13: Cynnwys CDU ................................................................... 158**
*Cyflwyniad*.............................................................................................. *158*
*Ffurflen orfodol ar gyfer CDU* .................................................................. *159*
*Cynnwys gorfodol mewn CDU* ................................................................. *160*
*Rhan 1*..................................................................................................... *160*
*Rhan 2*..................................................................................................... *163*
*Rhan 3*..................................................................................................... *168*
*Cynnwys nad yw'n orfodol mewn CDU* ..................................................... *171*
**Pennod 14: Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ........................ 173**
*Cyflwyniad*.............................................................................................. *173*
*Ffurflen orfodol ar gyfer CDU* .................................................................. *174*
*Cynnwys gorfodol mewn CDU* ................................................................. *174*
**Pennod 15: Dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill ...... 176**
*Cyflwyniad*.............................................................................................. *176*
*Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol*.......................................................................................... *176*
*Adnabod ADY mewn plant o dan oedran ysgol gorfodol - rôl cyrff iechyd a'r ddyletswydd i roi gwybod* ....................................................................................... *178*
*DDdY gan gyrff GIG* ................................................................................. *180*
*Byrddau Iechyd Lleol a'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)* ............................................................................................................... *183*
**Pennod 16: Adolygu a diwygio CDUau ................................................... 188**
*Cyflwyniad*.............................................................................................. *188*
*Adolygu CDU* ......................................................................................... *188*
*Cynnal adolygiadau*.................................................................................. *194*
*Camau yn dilyn adolygiad* ....................................................................... *196*
**Pennod 17: Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol a chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDUau......................................................................... 199**

*Cyflwyniad* ........ *199*
*Ailystyriaeth gan yr awdurdod lleol o benderfyniad ysgol a gynhelir am ADY* ........ *199*
*Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o CDUau ysgolion a gynhelir* ........ *201*
*Awdurdod lleol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU* ........ *203*
**Pennod 18: Cyfarfodydd am ADY a CDUau ........ 206**
*Cyflwyniad* ........ *206*
*Egwyddorion arfer da ar gyfer pob cyfarfod ADY* ........ *206*
*Fformat y cyfarfodydd* ........ *208*
*Cyfarfodydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac, os oes gofyn, llunio CDU* ........ *209*
*Cyfarfodydd i adolygu a diwygio CDU* ........ *209*
*Cydlynu cyfarfodydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â mwy nag un cynllun* ........ *211*
**Pennod 19: Cynllunio ar gyfer proses drosglwyddo a'i chefnog ........ 212**
*Cyflwyniad* ........ *212*
*Cynllunio ar gyfer trosglwyddo* ........ *213*
*Cefnogi trosglwyddo* ........ *216*
**Pennod 20: Trosglwyddo CDU ........ 224**
*Cyflwyniad* ........ *224*
*Trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU* ........ *224*
*Y broses ar gyfer trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU* ........ *227*
*Trosglwyddo CDU pan fydd plentyn wedi'i gofrestru mewn dau leoliad* ........ *228*
*Achosion lle nad yw'r ddyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo, ond bod gan blentyn neu berson ifanc CDU blaenorol* ........ *228*
**Pennod 21: Peidio â chynnal CDU ........ 230**
*Cyflwyniad* ........ 230
*Pan fydd dyletswydd ysgol i gynnal CDU yn peidio* ........ *230*
*Pan fydd dyletswydd sefydliad addysg bellach i gynnal CDU yn peidio* ........ *231*
*Pan fydd dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio* ........ *232*
*Penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, bellach* ........ *234*
*Penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc, bellach* ........ *235*
*Hysbysu am benderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU ar gyfer person ifanc* ........ *236*
*Pan fydd awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol i beidio â chynnal CDU237*
**Pennod 22: Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw ........ 240**
*Cyflwyniad* ........ *240*
*Plant a phobl ifanc dan gadwad* ........ *241*
*Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sydd dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983* ........ *248*
**Pennod 23: Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol ........ 255**
*Cyflwyniad* ........ *255*
*Plant a phobl ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru* ........ *255*
*Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)* ........ *256*

*Plant sy'n derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu heblaw yn yr ysgol* ........ *258*
*Plant a phobl ifanc y lluoedd arfog* ........ *258*
**Pennod 24: Rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (y CADY) ........ 260**
*Y ddyletswydd ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i ddynodi CADY* ........ *260*
*Rôl y CADY* ........ *261*
*Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau* ........ *264*
**Pennod 25: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol ........ 265**
*Cyflwyniad* ........ *265*
*Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau* ........ *265*
*Cyfraniad cyrff iechyd at drefniadau osgoi a datrys anghytundebau* ........ *271*
*Dulliau eraill o herio* ........ *272*
*Gwasanaethau eirioli annibynnol* ........ *274*
**Pennod 26: Apeliadau a cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru ........ 279**
*Cyflwyniad* ........ *279*
*Materion y gellir cyflwyno apeliadau amdanynt* ........ *279*
*Gall penderfyniadau'r Tribiwnlys wneud fel a ganlyn* ........ *281*
*Amserlenni sy'n ymwneud â'r broses apeliadau a chydymffurfio â gorchmynion* ... *282*
*Cais am apêl a chyfnod datganiad achos* ........ *283*
*Amserlenni sy'n ymwneud â chydymffurfio â gorchymyn* ........ *283*
*Cyrff y GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys* ........ *285*
*Adolygiadau ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys* ........ *285*
**Pennod 27: Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd ........ 288**
*Cyflwyniad* ........ 288
*Plant nad oes ganddynt alluedd* ........ 289
*Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd* ........ 291
**Atodiad A: Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Ffurflen orfodol ........ 295**
**Atodiad B: Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal: Ffurflen orfodol ........ 302**
**Atodiad C: Y DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG: Ffurflen nad yw'n orfodol ....... 306**

## *Rhagair gan y Gweinidog*

Rwyf wrth fy modd yn cael cyflwyno'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol hwn sy'n amlinellu sut y bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r rheoliadau yn gweithio'n ymarferol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gwbl gynhwysol lle bydd pob dysgwr yn cael ei ysbrydoli, ei ysgogi a'i gefnogi i gyflawni ei botensial. Dylai pob dysgwr gael mynediad i addysg sy’n diwallu ei anghenion ac sy’n ei alluogi i fwynhau addysg, cymryd rhan lawn ynddi ac elwa arni. Ein gweledigaeth yw un system deg nad yw'n ysgogi gwrthdaro, sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyfrannu at yr amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol Cymru sy'n fwy cyfartal, sy'n iachach, sy'n llewyrchus ac yn gydnerth, Cymru sy'n hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy, sef hirdymor, atal, cydweithio a chynnwys.

Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb drwy roi'r hawl i bob dysgwr ag ADY gael cynllun statudol, waeth pa mor ddwys ei angen, a hynny drwy gydol ei addysg - o'r cyfnod cyn mynd i'r ysgol tan iddo fynd i'r coleg - gan ddarparu cysondeb, parhad a'r sicrwydd bod y ddarpariaeth a'i hawliau yn cael eu diogelu. Rhaid i wasanaethau roi gwybodaeth gyflawn i blant a phobl ifanc am benderfyniadau ynghylch eu cefnogaeth, a rhaid eu cynnwys yn llawn yn y penderfyniadau hynny. Mae'r system yn rhoi'r lle canolog i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr yn y broses o gynllunio'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

Mae'r flaenoriaeth a roddir o fewn y system ADY i ymyriadau cynnar, gan sicrhau bod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar, bod y ddarpariaeth iawn yn ei lle yn brydlon, a bod gwaith amlasiantaethol i gefnogi dysgwyr a darparu ymyriadau effeithiol a doeth i gyd yn cyfrannu at y nod o greu Cymru iachach.

Mae'r pwyslais ar annog dysgwyr i godi lefel eu dyheadau, eu cefnogi i gyflawni'n addysgol, a mynd ymlaen i fyw bywydau cyflawn a chyfrannu'n llawn at gymdeithas, gan gynnwys drwy eu gwaith, yn gysylltiedig â'r nodau o greu Cymru lewyrchus a chydnerth.

Rwy'n ddiolchgar am gyfraniad yr ystod helaeth o randdeiliaid, gan gynnwys plant, pobl ifanc, rhieni, partneriaid cyflawni, cynrychiolwyr o'r trydydd sector, undebau, cyrff proffesiynol a chomisiynwyr, sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Cod a'r system ADY drwy gydweithio a chyd-greu.

Rwy'n hyderus y bydd y ddogfen hon o gymorth i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod, ac i'w helpu i weithredu'r system hon i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Gwneir y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ("y Cod")[1] o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf, ynghyd â'r Cod hwn a rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, yn darparu fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol (ADY) dysgwyr yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael sylw yn ddi-oed. Mae'n rhoi'r lle canolog i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr yn y broses o gynllunio'r cymorth sy'n ofynnol i'w galluogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial.

## *Canllawiau yn y Cod y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw iddynt*

1.2 Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau statudol[2] ynghylch cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 y Ddeddf, sy'n nodi prif ddarpariaethau'r system ac yn cynnwys y prif ddyletswyddau a roddwyd i awdurdodau cyhoeddus. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau statudol am faterion eraill sy'n ymwneud ag adnabod ADY a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY, ac mae'n disgrifio'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys rhai yn y Ddeddf.

1.3 **Rhaid**[3] i'r awdurdodau cyhoeddus canlynol (y mae'r Cod yn cyfeirio atynt fel "personau perthnasol") roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf:

- awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
- perchennog Academi;
- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig[4].

[1] Adran 4(1) o'r Ddeddf.
[2] Adran 4(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 4(3) o'r Ddeddf.
[4] Gweler adran 99(1) o'r Ddeddf am ddiffiniadau sy'n ymwneud â'r cyrff hyn. Mae diffiniadau perthnasol pellach yn adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

1.4 **Rhaid**[5] i Dribiwnlys Addysg Cymru ("y Tribiwnlys") roi sylw i unrhyw ddarpariaeth yn y Cod yr ymddengys iddo ei bod yn berthnasol i gwestiwn sy'n codi ar apêl o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

1.5 Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir, a gyllidir gan awdurdod lleol[6], y mae'n ofynnol i ddarparwyr o'r fath, yn unol â gofynion cyllid yr awdurdod lleol, roi sylw iddynt[7].

## *Gofynion y mae'r Cod yn eu gosod ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru*

1.6 Mae'r Cod yn gosod gofynion[8] ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf i wneud trefniadau ar gyfer:

- darparu cyngor a gwybodaeth;
- osgoi a datrys anghytundebau; a
- darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

1.7 Mae'r Cod yn gosod gofynion[9] ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac ar awdurdodau lleol yng Nghymru, mewn perthynas â:

- phenderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY;
- llunio, cynnwys, ffurf, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol ("CDUau"); a
- peidio â chynnal CDUau.

1.8 Mae'r Cod yn gosod gofynion[10] ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru mewn perthynas â darparu gwybodaeth at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf.

1.9 Lluniwyd y Cod ar gyfer y rheini sydd dan orfodaeth i roi sylw iddo. Fodd bynnag, efallai y bydd o ddefnydd i eraill (ee darparwyr addysg eraill yng Nghymru, rhieni, cynghorwyr arbenigol neu eiriolwyr).

[5] Adran 4(10) o'r Ddeddf.
[6] Addysg feithrin a gyllidir gan awdurdod lleol yn unol â'r ddyletswydd o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.
[7] Adran 153 o Ddeddf Addysg 2002.
[8] Adran 4(5)(a) o'r Ddeddf.
[9] Adran 4(5)(b) o'r Ddeddf.
[10] Adran 4(5)(c) o'r Ddeddf.

## *Dehongli termau allweddol a ddefnyddir yn y Cod*

### Ystyr '**rhaid**', '**caiff/caniateir**' a '**dylai**' yn y Cod

1.10 Yn y Cod hwn, lle nodir gofyniad - fel y mae wedi'i nodi yn y Ddeddf, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, y Cod neu ddeddfwriaeth arall - i berson neu gorff wneud rhywbeth, nodir bod yn **rhaid** i'r person neu'r corff gydymffurfio â'r gofyniad, a bydd troednodyn yn nodi ffynhonnell y gofyniad, ee y rhan berthnasol o'r Ddeddf.

1.11 Lle mae'r gyfraith yn gwahardd person neu gorff rhag gwneud rhywbeth, bydd y Cod yn nodi **na chaiff** person neu gorff ei wneud. Lle bo'n briodol, pan ddefnyddir y term **ni chaiff**, bydd troednodyn yn esbonio pam bod hyn wedi'i wahardd.

1.12 Lle rhoddir awdurdod neu ganiatâd i berson neu gorff wneud rhywbeth – ar sail y Ddeddf neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf – nodir hynny drwy'r geiriad y **caiff** y person neu'r corff wneud rhywbeth, neu y **caniateir** iddo'i wneud, ynghyd â throednodyn yn nodi ffynhonnell y pŵer, er enghraifft yr adran berthnasol yn y Ddeddf.

1.13 Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau statudol. **Rhaid** i'r person perthnasol, wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo, wrth wneud penderfyniad, ystyried yr hyn y mae'r Cod yn ei ddweud sy'n berthnasol i'r penderfyniad. Lle bydd y Cod hwn yn dweud y **dylai** y person perthnasol wneud rhywbeth, rhaid i'r person ystyried hyn *a'i* ddilyn oni bai ei fod yn gallu dangos bod cyfiawnhad i beidio â'i ddilyn. Yn yr un modd, lle bydd y Cod hwn yn dweud **na ddylai'r** person perthnasol wneud rhywbeth, oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol, ni ddylai'r person ei wneud. Bydd disgwyl i'r person perthnasol esbonio unrhyw benderfyniad i beidio â dilyn y canllawiau statudol.

1.14 Nid yw'r Cod yn ceisio darparu canllawiau hollgynhwysfawr ar bob agwedd ar y system ADY.

1.15 Wrth gyflawni eu swyddogaethau, bydd angen i'r personau perthnasol sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r gyfraith. Os bydd y person perthnasol yn methu cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion sydd wedi'u gosod gan y Cod, neu gan y Ddeddf neu reoliadau cysylltiedig neu ddeddfwriaeth arall, gallai hynny, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, beri i'r Tribiwnlys wrthdroi penderfyniad, neu arwain at gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru, arfer pwerau ymyrryd awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru, cwyno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu gais llwyddiannus am adolygiad barnwrol.

1.16 Gallai methu cydymffurfio â'r canllawiau yn y Cod hwn arwain at yr un canlyniad os nad yw'r personau perthnasol yn gallu cyfiawnhau peidio â dilyn y canllawiau.

## Plant a phobl ifanc

1.17 At ddibenion y Cod a'r Ddeddf[11], diffinnir "plentyn" fel person nad yw dros oed ysgol gorfodol, a diffinnir "person ifanc" fel person sydd dros oed ysgol gorfodol ond o dan 25 oed.

## Plant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt ('o fewn ardal' yr awdurdod)

1.18 At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw'r plentyn neu'r person ifanc "yn ei ardal"[12], sydd fel rheol yn dibynnu ar lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw fel arfer. Mae hyn yn golygu y gallai awdurdod lleol fod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc sy'n mynychu lleoliad nas cynhelir o fewn ardal awdurdod lleol arall neu hyd yn oed mewn lleoliad yn Lloegr. Yn yr achosion sydd ag elfen drawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr, mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio'r term yn rhannol - nid yw person o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru os yw'r person yn byw yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf, ac eithrio os yw'n byw yn Lloegr am ei fod ar leoliad o dan y Ddeddf, ac y byddai'r person fel arall yn byw'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ac i'r gwrthwyneb[13].

1.19 Mae Pennod 23 yn darparu gwybodaeth am y cyfrifoldebau cyfyngedig sydd ar awdurdodau lleol dros blant a phobl ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac sydd wedi'u cofrestru'n ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sydd wedi'u ymrestru'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

## Plentyn

1.20 Lle mae'r Cod yn cyfeirio at ofyniad i ddarparu rhywbeth ar gyfer plentyn, neu lle mae'n cynnwys hawl plentyn i wneud rhywbeth, dylid darllen y term "plentyn" fel "cyfaill achos" lle mae gan y plentyn gyfaill achos a benodwyd gan y Tribiwnlys Addysg. Nodir unrhyw eithriadau i hyn yn y rhan berthnasol o'r Cod.

## Plant sy'n derbyn gofal

1.21 Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am ADY a chynnal CDU pob plentyn sy'n derbyn gofal ganddo. Fodd bynnag, at ddibenion y Cod a'r Ddeddf, mae ystyr "plentyn sy'n derbyn gofal" ychydig yn wahanol i'w ystyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

[11] Adran 99(1) o'r Ddeddf.
[12] Adran 99(4) o'r Ddeddf
[13] Adrannau 579(3A) a (3B) fel y'u diwygiwyd gan adran 95 o'r Ddeddf. Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r Ddeddf: adran 99(6) o'r Ddeddf.

1.22 At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, mae plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol os yw[14]:

(a) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (yn y bôn, mae hon yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol a phlant sy'n cael eu lletya ganddo fel rhan o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol); ac
(b) nad yw'n berson a gedwir yn gaeth.

1.23 Ond nid yw plentyn yn derbyn gofal at ddibenion y Cod a'r Ddeddf os yw[15]:

(a) wedi'i roi i'w fabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002[16]; neu
(b) yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol am seibiannau byr[17].

1.24 At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, felly, mae ystyr plentyn sy'n derbyn gofal yn fwy cul nag o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, nid yw person ifanc (sydd dros oedran ysgol gorfodol) sy'n derbyn gofal at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf 2014 honno yn derbyn gofal at ddibenion y Cod a'r Ddeddf.

### Cyfeiriadau at sefydliadau a chyrff

1.25 Mae cyfeiriadau at ysgolion a sefydliadau addysg bellach drwy gydol y Cod yn gyfeiriadau at sefydliadau yng Nghymru, oni nodir yn wahanol.

[14] Adran 15(1) o'r Ddeddf
[15] Mae'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 15(2) o'r Ddeddf yn nodi'r categorïau hyn fel rhai nad ydynt yn derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf.
[16] Ac eithrio lle mae'r plentyn (i) wedi'i remandio i lety'r awdurdod lleol neu, (ii) wedi'i euogfarnu o drosedd, yn preswylio mewn safle a gymeradwywyd neu mewn safle arall oherwydd amod mechnïaeth yn sgil achos troseddol, ac yn union cyn gosod y gofyniad i breswylio mewn safle o'r fath, fod y plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol
[17] Mae'r diffiniad o hyn yn adlewyrchu'r diffiniad yn O.S. 2015/1818 (rheoliad 62(2)) Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, sef:
(a) nid yw C yng ngofal yr awdurdod lleol
(b) mae'r awdurdod lleol wedi trefnu i leoli C mewn cyfres o leoliadau byrdymor gyda'r un person neu yn yr un llety, ac
(c) mae'r trefniant wedi ei wneud fel—
(i) na fwriedir i unrhyw un lleoliad barhau am fwy na 4 wythnos,
(ii) bod C, ar ddiwedd pob lleoliad o'r fath, yn dychwelyd i ofal rhiant C neu berson nad yw'n rhiant i C, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant am C, ac
(iii) na fydd cyfanswm y seibiannau byr mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn fwy na 120 o ddiwrnodau.

### Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach

1.26 Fel rheol, caiff gofynion sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach (boed wedi'u gosod gan y Ddeddf, rheoliadau neu'r Cod) eu gosod ar gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad, ac mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau i'r cyrff llywodraethu hynny. Yn yr un modd, pan osodir gofynion ar bersonau eraill sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, fel rheol bydd y gofynion hynny yn cael eu gosod mewn perthynas â chorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach. Fodd bynnag, at ddibenion bod yn gryno, fel rheol mae'r Cod yn cyfeirio at "ysgol(ion) a gynhelir" neu "sefydliad(au) addysg bellach", yn hytrach na chyfeirio at gorff llywodraethu'r ysgol neu'r sefydliad bob tro. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system yn gweithio'n ymarferol, gan mai staff sy'n gweithredu ar ran y corff llywodraethu sy'n cyflawni swyddogaethau'r cyrff llywodraethu gan amlaf. Dylid dehongli darpariaethau'r Cod sy'n gosod gofynion ar ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach fel gofynion a osodir ar y corff llywodraethu perthnasol, felly.

### Cyrff iechyd a chyrff y GIG

1.27 Drwy gydol y Cod, defnyddir dau derm gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau iechyd oherwydd y dyletswyddau gwahanol sydd arnynt mewn perthynas â'r Ddeddf.

1.28 Mae'r term "corff iechyd" yn cyfeirio at:

- Fwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig.

1.29 Mae'r term "corff GIG" yn cyfeirio at:

- Fwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG.

### Termau eraill

1.30 Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y Cod isod.

## *Amserlenni*

1.31 Yn y Cod hwn[18], oni nodir fel arall, lle cyfeirir at gyfnod pan fydd yn **rhaid** gwneud rhywbeth, bydd y cyfnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl dyddiad y digwyddiad dan sylw. Er enghraifft, os bydd yn **rhaid** rhoi hysbysiad o fewn 7 wythnos i ddigwyddiad penodol, os cynhelir y digwyddiad hwnnw ar ddydd

[18] Mae hyn yn berthnasol i ofynion a orfodir gan y Cod, ac i'r rheini mewn rheoliadau.

Llun, bydd y cyfnod 7 wythnos yn dechrau ar y dydd Mawrth, ac yn gorffen ddiwedd y dydd Llun 7 wythnos wedyn.

1.32 Disgrifir y gofynion a osodir gan y Cod mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch ADY ac ar gyfer llunio ac adolygu/diwygio CDU fel a ganlyn:

***Rhaid*** *i'r [corff cyfrifol] [gyflawni'r ddyletswydd] yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o [X wythnos] ar ôl [pwynt dechrau'r amserlen]. Ond nid yw'r gofyniad i [gyflawni'r ddyletswydd] yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r [corff cyfrifol] wneud hynny o fewn y cyfnod a bennwyd oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.*

1.33 Mae gofyniad i gymryd y cam (ee rhoi gwybod am benderfyniad, neu roi copi o'r CDU) *'yn brydlon'*. Er bod y gofynion yn nodi cyfnod penodol ar gyfer cymryd y cam, mewn llawer o achosion byddai gweithredu'n brydlon yn ei gwneud yn bosibl gwneud hyn ymhell cyn diwedd y cyfnod hwnnw. Er enghraifft, mewn rhai achosion efallai y bydd modd rhoi copi o CDU ar ddiwedd cyfarfod i drafod anghenion plentyn neu berson ifanc, lle caiff y CDU ei ddatblygu a'i ysgrifennu fel rhan o'r cyfarfod hwnnw, ac nad oes unrhyw faterion eraill, ac nad yw'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc am ystyried y CDU drafft ymhellach. Hefyd, mewn rhai achosion, mae'r ddyletswydd i weithredu 'yn brydlon' yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff cyfrifol weithredu'n llawer cyflymach, oherwydd yr amgylchiadau, er enghraifft pan fydd plentyn yn agosáu at ddiwedd ei addysg orfodol, neu pan fydd person ifanc yn dilyn cwrs byr.

1.34 Mae'r gofyniad hefyd yn darparu ar gyfer eithriad sy'n ei gwneud yn 'anymarferol' i'r corff cyfrifol gydymffurfio. I osgoi amwysedd, wrth lunio CDU, ni fydd yn 'anymarferol' cytuno'n derfynol ar y CDU a rhoi copi ohono o fewn y cyfnod amser a bennwyd os gellir disgrifio'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Hyd yn oed os oes yna beth tystiolaeth eto i'w derbyn a allai roi darlun mwy cyflawn o raddau'r ADY neu'r DDdY, mae modd llunio'r CDU a **rhaid**[19] gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, wrth i wybodaeth bellach ddod i law, byddai'r corff cyfrifol yn penderfynu a yw'r dystiolaeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol adolygu a diwygio'r CDU (gweler Pennod 16).

1.35 Dim ond lle na fu'n bosibl cymryd y cam o fewn y cyfnod amser a bennwyd oherwydd *'amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y corff cyfrifol'* y mae'r eithriad yn berthnasol. Darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd eithriadol yw hon, er enghraifft lle nad yw plentyn neu berson ifanc ar gael am gyfnod sylweddol oherwydd salwch, ei fod allan o'r wlad neu reswm arall, sy'n ei gwneud yn amhosibl casglu'r dystiolaeth (ee drwy arsylwi neu asesiadau clinigol neu asesiadau eraill) yn ystod y cyfnod a fyddai'n ei gwneud yn bosibl cadw at y cyfnod amser a bennwyd.

[19] Adran 12, adran 14, adran 19 ac adran 40.

1.36 Lle mae’r eithriad yn berthnasol, hynny yw, lle mae’n anymarferol i’r corff gydymffurfio oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i’w reolaeth, mae’r corff yn dal i fod o dan y ddyletswydd i gyflawni’r dasg a’r ddyletswydd i wneud hynny’n brydlon. Er bod yr amgylchiadau yn golygu na all weithredu’n effeithiol am gyfnod penodol, unwaith na fydd yn anymarferol bellach iddo gydymffurfio oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i’w reolaeth, mae’r ddyletswydd i weithredu’n brydlon yn ei gwneud yn ofynnol iddo fwrw ymlaen â’r mater yn ddi-oed.

1.37 Lle mae unrhyw eithriadau eraill i amserlenni penodol o fewn y Cod, cânt eu hesbonio mewn troednodiadau.

## *Rhoi hysbysiad neu ddogfennau*

1.38 Drwy gydol y Cod, cyfeirir at achosion lle mae'n ofynnol i'r person perthnasol (a fynegir yn nhermau '**rhaid**') neu lle yr awdurdodir ef (a fynegir yn nhermau '**caiff**') i:

(a) hysbysu person am rywbeth, neu
(b) rhoi dogfen i berson (gan gynnwys hysbysiad neu gopi o ddogfen).

1.39 Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at achosion lle **dylai** y person perthnasol wneud hyn.

1.40 Ym mhob achos o'r fath, **caniateir**[20] rhoi'r hysbysiad neu'r ddogfen i'r person dan sylw—

(a) drwy ei ddanfon at y person,
(b) drwy ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys ar gyfer y person,
(c) drwy ei adael yn y cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys ar gyfer y person[21], neu
(d) drwy ei anfon at y person yn electronig, ar yr amod bod y person wedi nodi ei fod yn barod i dderbyn yr hysbysiad neu'r ddogfen yn electronig, a'i fod wedi rhoi cyfeiriad i'r diben hwnnw.

1.41 Yn gyffredinol, mae gan blant, yn ogystal â’u rhieni, hawliau i dderbyn dogfennau a hysbysiadau am benderfyniadau o dan y Ddeddf, i gymryd rhan mewn penderfyniadau ac ymdrechion i ddatrys anghydfod, ac i gymryd apelau yn eu henw eu hunain. Drwy gydol y Cod, felly, mae gofynion i ddarparu gwybodaeth, cyngor a hysbysiadau am benderfyniadau i blant yn ogystal â’u rhieni. Mae yna eithriad i hyn, sef pan na fydd gan blentyn alluedd digonol at ddibenion y Ddeddf. Gweler Pennod 27 am esboniad o’r hyn y mae diffyg galluedd yn ei olygu mewn perthynas â phlant at ddibenion y Ddeddf a’r system ADY, yn ogystal â gwybodaeth am ddarpariaeth

---

[20] Mae adran 88 y Ddeddf yn ymdrin â'r hysbysiadau sy'n ofynnol neu a awdurdodir gan ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Ddeddf. Mae'r Cod yn ymestyn hyn i hysbysiadau sy'n ofynnol neu a awdurdodir gan y Cod.
[21] Lle caiff hysbysiad neu ddogfen ei roi i berson drwy ei adael yn y cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys ar gyfer y person, gellir ystyried ei fod wedi'i roi ar yr amser pan gafodd ei adael yn y cyfeiriad hwnnw.

cyfeillion achos i gynrychioli, cefnogi a chymryd penderfyniadau ar ran plant nad oes ganddynt alluedd digonol.

1.42 Mewn perthynas â phobl ifanc, nid yw'r dyletswyddau a'r gofynion yn y Ddeddf a'r Cod yn ymestyn i ddarparu hysbysiadau i rieni.

## *Croesgyfeirio i rannau eraill o'r Cod*

1.43 Drwy gydol y Cod, mae yna drawsgyfeirio i rannau eraill o'r Cod. Bwriad rhai o'r cyfeiriadau hyn yw helpu'r darllenydd drwy dynnu ei sylw at ran arall o'r Cod sy'n berthnasol neu sy'n esbonio term neu gysyniad. Fodd bynnag, ni ddarperir trawsgyfeiriad ar gyfer pob cysylltiad rhwng gwahanol rannau o'r Cod, nac ar gyfer pob diffiniad, gan y byddai hyn yn gwneud y Cod yn anymarferol o hir. Lle na roddir trawsgyfeiriad, felly, ni ddylid tybio nad oes unrhyw beth arall yn y Cod sy'n berthnasol i'r testun dan sylw.

## *Trefniadau gweithredu 2020-23*

1.44 Penderfynwyd cyflwyno'r system ADY yn raddol, rhwng Medi 2020 a Gorffennaf 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system anghenion addysgol arbennig (AAA). Bydd hon yn dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu.

1.45 Mae is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf, a esbonnir mewn canllawiau gweithredu, yn delio â phryd y bydd darpariaethau penodol o dan y system ADY yn berthnasol a'r ffordd y bydd darpariaethau'r system AAA yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod gweithredu.

1.46 Hyd nes y bydd plentyn neu berson ifanc wedi symud i'r system ADY, bydd darpariaethau'r system AAA - fel y'u nodir yn Neddf Addysg 1996, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, a'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig - yn parhau'n berthnasol.

1.47 Mewn perthynas â chymhwyso'r Cod hwn i blant a phobl ifanc unigol yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'r Cod hwn yn berthnasol lle caiff swyddogaethau eu harfer o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Partneriaid darpariaeth – rôl sefydliadau unigol yn y system ADY*

1.48 Bydd cyfraniad nifer o bersonau a chyrff yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu CDUau a chyflwyno'r DDdY gysylltiedig er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.  Caiff prif rôl y personau a'r cyrff hynny o fewn y system ADY ei disgrifio isod.

## Llywodraeth Cymru

1.49 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am alluogi'r cyrff darparu a restrir isod i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag ADY.

1.50 Mae gan Lywodraeth Cymru rôl benodol mewn perthynas â darpariaeth addysg bellach: rhoddwyd dyletswyddau i Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a chyfleusterau rhesymol i'r rheini sy'n 19 oed ac yn hŷn[22].

1.51 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau ymyrryd hefyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1) o ran y ddyletswydd i gynnal ysgolion a gynhelir ac o ran y swyddogaethau addysg a gyflawnir gan awdurdodau lleol.

## Awdurdodau lleol

1.52 Mae'r Ddeddf yn gosod ystod o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag ADY, y gellir eu grwpio fel a ganlyn:

- Dyletswyddau penodol - mewn perthynas â dysgwyr unigol (y rheini o fewn eu hardal fel rheol), ee dyletswyddau i gynnal CDUau rhai dysgwyr (gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn dau leoliad a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth) a'r ddyletswydd i ailystyried penderfyniadau a wneir gan gyrff llywodraethu ysgolion.
- Dyletswyddau cyffredinol - i gefnogi sut mae'r system ADY yn gweithio a'i heffeithiolrwydd - gan gynnwys y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor a'r ddyletswydd i adolygu DDdY yn barhaus.

1.53 Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau addysg cyffredinol - sy'n ymwneud â chynnal ysgolion a darparu addysg, gan gynnwys pwerau ymyrryd lle bydd ysgolion yn methu yn eu dyletswyddau.

1.54 Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a/neu ddwys, y rhai nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru (gan gynnwys y rhai sy'n iau na'r oedran ysgol).

## Ysgolion a gynhelir yng Nghymru

1.55 Mae gan ysgolion a gynhelir yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae o ran adnabod ADY ac o ran sicrhau DDdY i gefnogi dysgwyr ag ADY. Maent yn gyfrifol yn uniongyrchol am adnabod a diwallu anghenion y rhan fwyaf o'u disgyblion sydd ag ADY. Yn achos plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru fodd bynnag, fel rheol dyletswydd yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn fydd adnabod ADY, paratoi CDU a sicrhau'r DDdY. Yn

[22] Adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

yr achosion hynny, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, ond nid dim ond y rheini, lle bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU disgybl mewn ysgol a gynhelir, **rhaid**[23] i'r ysgol gymryd pobl cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a nodir yn y CDU. Bydd perthynas dda gyda'r awdurdod lleol perthnasol ac ag asiantaethau eraill yn helpu'r ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau.

1.56 Mae Penodau 7, 9, 13, 16, 18, 19, 21 a 24 yn rhoi canllawiau ac yn gosod gofynion sy'n berthnasol i ysgolion a gynhelir.

### Unedau cyfeirio disgyblion

1.57 At ddibenion y Ddeddf a'r Cod, mae gan unedau cyfeirio disgyblion yr un dyletswyddau a chyfrifoldebau ag ysgolion a gynhelir[24]. Yn achos uned cyfeirio disgyblion, y pwyllgor rheoli sydd i gyflawni swyddogaethau a osodir ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir[25].

1.58 Mae Penodau 7, 9, 13, 16, 18, 19, 21 a 24 yn rhoi canllawiau i bwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sy'n mynychu'r unedau, ac yn gosod gofynion arnynt.

### Darparwyr addysg feithrin nas cynhelir

1.59 Mae gan ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir a gyllidir gan awdurdodau lleol rôl o ran cefnogi awdurdodau lleol i adnabod ADY ac o ran helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

1.60 Mae Penodau 7, 8, 13, 14, 15 ac 19 yn rhoi canllawiau sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir a gyllidir gan awdurdodau lleol.

1.61 Efallai y bydd y rhannau hyn o'r Cod yn berthnasol i ddarparwyr addysg a gofal plant cyn-ysgol eraill nas cynhelir hefyd.

### Sefydliadau Addysg Bellach

1.62 Mae gan sefydliadau addysg bellach yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae o ran adnabod ADY ac o ran sicrhau DDdY i gefnogi dysgwyr ag ADY. Yn gyffredinol, maent yn gyfrifol yn uniongyrchol am adnabod a diwallu anghenion y rhan fwyaf o'u myfyrwyr sydd ag ADY. Yn yr achosion hynny lle mae awdurdod lleol yn cynnal CDU myfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach, **rhaid**[26] i'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod i sicrhau'r DDdY yn y cynllun. Bydd perthynas dda gyda'r awdurdodau lleol perthnasol ac ag asiantaethau eraill yn helpu sefydliadau addysg bellach i gyflawni eu dyletswyddau.

---

[23] Adrannau 47(4) a (5) o'r Ddeddf.
[24] Gweler y diffiniad o "ysgol a gynhelir" yn adran 99(1) o'r Ddeddf a'r termau isod.
[25] Rheoliadau i'w gwneud o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 i ddarparu ar gyfer dirpwyo swyddogaethau awdurdod lleol mewn perthynas ag Uned Cyfeirio Disgyblion i bwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion.
[26] Adrannau 47(4) a (5).

1.63 Mae Penodau 7, 10, 16, 18, 19, 20, 21 a 24 yn rhoi canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac yn gosod gofynion arnynt.

1.64 Dylai sefydliadau addysg bellach nodi, at ddibenion y Ddeddf, na ddylid trin myfyriwr addysg uwch mewn sefydliad addysg bellach fel pe bai wedi'i gofrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad. Nid yw dyletswyddau'r sefydliad a nodir yn y Ddeddf, felly, yn ymestyn i fyfyrwyr o'r fath i'r graddau y maent yn dilyn addysg uwch[27].

### Ymarferwyr addysgu

1.65 Bydd pob ymarferwr addysgu yn addysgu ac yn cefnogi dysgwyr ag ADY. Dylai pob ymarferwr addysgu fynd ati i ddysgu drwy sesiynau proffesiynol yn rheolaidd am ADY, beth bynnag yw eu profiad blaenorol, eu cymwysterau neu eu lleoliad addysg. Mae ymarferwyr addysgu yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain; yn ogystal, dylid nodi gofynion dysgu proffesiynol fel rhan o broses gynllunio'r lleoliad addysg a phroffiliau dysgu proffesiynol ymarferwyr. Bydd ymarferwyr addysgu sydd angen gwella eu gwybodaeth a/neu eu sgiliau mewn perthynas â gwahanol fathau o ADY yn gallu cael mynediad at wybodaeth, arweiniad, adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol, sydd wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol ac ysgolion. Bydd amrywiaeth eang o gefnogaeth ar gael ar ffurf ddigidol, yn ogystal â thrwy ddigwyddiadau a rhaglenni dysgu proffesiynol.

### Cyrff iechyd

1.66 Mae gan gyrff iechyd rôl hollbwysig o ran adnabod ADY a darparu gwybodaeth neu gymorth arall i ALlau. At hyn, mae gan gyrff y GIG rôl uniongyrchol o ran DDdY mewn achosion lle mae'r DDdY honno yn driniaeth neu'n wasanaeth a gynigir gan y GIG fel rheol ac sy'n debygol o fod o fudd o ran ADY plentyn neu'r person ifanc.

1.67 Mae Penodau 4, 7 , 13, 14, 15, 16, 18, 19 a 25 yn rhoi canllawiau i gyrff y GIG.

### Personau perthnasol yn Lloegr

1.68 Mae gan Fwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, grwpiau comisiynu clinigol, ymddiriedolaethau sefydledig GIG, awdurdodau iechyd arbennig ac awdurdodau lleol yn Lloegr, yn ogystal â chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn Lloegr a pherchnogion academïau swyddogaethau o dan y Ddeddf, sef y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall yn ôl y gofyn[28] a rhoi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod[29]; ac - yn achos grwpiau comisiynu clinigol,

[27] Adran 86 o'r Ddeddf.
[28] Adran 65 o'r Ddeddf.
[29] Adran 4 o'r Ddeddf.

ymddiriedolaethau sefydledig GIG ac awdurdodau iechyd arbennig, y ddyletswydd i roi gwybod i rieni ac awdurdodau lleol eu bod o'r farn bod gan blentyn arbennig sydd o dan oedran ysgol gorfodol ADY neu ei bod yn debygol bod ganddo ADY[30].

1.69 Mae canllawiau i'r cyrff hyn ar gyflawni'r swyddogaethau hyn i'w gweld ym Mhennod 15. Gweler y paragraff nesaf i gael gwybod am ddyletswyddau timau troseddau ieuenctid ardal yn Lloegr a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yn Lloegr.

### Timau troseddau ieuenctid a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol (boed yng Nghymru neu yn Lloegr)

1.70 Mae'r system ADY yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae gan dimau troseddau ieuenctid ardal yng Nghymru neu yn Lloegr, a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr, rôl benodol i'w chwarae o ran adnabod ADY a darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc berthnasol. Eu swyddogaethau o dan y Ddeddf yw darparu gwybodaeth neu gymorth arall yn ôl y gofyn[31] a rhoi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod[32]. Hefyd, yn achos person sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol, mae'r Ddeddf yn hwyluso'r ffordd i'r person hwnnw gyfrannu i benderfyniadau ynghylch a oes gan y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth ADY a'r gwaith o lunio CDU[33].

1.71 Mae canllawiau sy’n arbennig o berthnasol i dimau troseddau ieuenctid a phersonau sydd â chyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol i'w gweld ym Mhenodau 15 a 22.

### Ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

1.72 Mae llawer o blant a phobl ifanc sydd ag ADY yn mynychu ysgolion annibynnol neu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol. Nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol roi sylw i'r Cod, ac nid yw'n gosod unrhyw ofynion arnynt. Serch hynny, mae'r Cod yn darparu canllawiau a gwybodaeth a allai fod o ddefnydd i ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o ran deall y system ADY a'r rhan y gallent ei chwarae er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr ag ADY.

1.73 Mae Penodau 11 a 12 yn arbennig o berthnasol i ysgolion annibynnol, a Phennod 12 i sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol.

[30] Adran 64 o'r Ddeddf.
[31] Adran 65 o'r Ddeddf.
[32] Adran 4 o'r Ddeddf.
[33] Adran 40 o'r Ddeddf.

## *Strwythur y Cod*

1.74 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ynghylch penderfyniadau am p'un a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac, os oes, i lunio a chynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. I helpu ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i ystyried y Cod hwn, disgrifir y dyletswyddau hyn ar wahân ym Mhenodau 8 i 12 a 21 yn ôl amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc y mae dyletswydd yn ddyledus iddo. Er y caiff y dyletswyddau eu disgrifio mewn perthynas â'r sefyllfa y mae'r bennod benodol yn delio â hi, mewn rhai achosion mae'r ddyletswydd y cyfeirir ati yn berthnasol i ystod ehangach o amgylchiadau (hy efallai nad yw'n gyfyngedig i'r union sefyllfa dan sylw). Ymdrinnir â materion cysylltiedig eraill, sydd, yn gyffredinol yn fwy cyffredin i bob sefyllfa (er enghraifft adolygu CDU, cyfarfodydd am ADY) o fewn eu penodau eu hunain ac maent yn berthnasol fel y'u nodir yn y penodau hynny, pwy bynnag sy'n cynnal y CDU a beth bynnag yw amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc.

1.75 **Pennod 2:** Mae **Egwyddorion y Cod** yn nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n sylfaen i gynllunio a darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hadlewyrchu yn y canllawiau a'r gofynion gorfodol sydd wedi'u cynnwys yn y Cod, yn ogystal ag yn y Ddeddf.

1.76 **Pennod 3:** Mae **Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc** yn nodi dyletswyddau sy'n ymwneud â chynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc.

1.77 **Pennod 4:** Mae **Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff GIG i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Mae'n darparu canllawiau ar gamau y gallai awdurdodau lleol a chyrff GIG ystyried eu cymryd wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn.

1.78 **Pennod 5 –** Mae **Dyletswydd i adolygu DDdY yn rheolaidd** yn nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag adolygu DDdY yn rheolaidd. Mae'n darparu cyngor a chanllawiau ar yr hyn y dylai awdurdodau lleol ei ystyried wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei ystyried.

1.79 **Pennod 6:** Mae **Cyngor a gwybodaeth** yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY, a dyletswyddau cysylltiedig ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae'n cynnwys canllawiau ar rôl darparwyr gwasanaethau allanol ac ynghylch natur y cyngor a'r wybodaeth y dylai awdurdodau lleol eu rhoi, sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar y cyngor a'r wybodaeth, a'u cyhoeddi.

1.80 **Pennod 7:** Mae **Y diffiniad o ADY a DDdY, adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy’n ofynnol** yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach ac awdurdod lleol wrth wneud penderfyniadau am ADY. Mae'n amlinellu ystyr ADY a DDdY (mae yna siartiau llif i helpu gyda hyn ar ddiwedd y bennod) ac mae'n darparu canllawiau ar gyfer adnabod ADY a'r DDdY i ddiwallu ADY. Mae angen ei darllen ochr yn ochr â Phenodau 8 i 12 sy'n delio â'r dyletswyddau ar wahanol gyrff o ran dysgwyr mewn amgylchiadau penodol, sy'n ymwneud ag adnabod a diwallu ADY, gan gynnwys pryd y bydd yn rhaid i gorff benderfynu a oes gan berson ADY, pryd y bydd yn rhaid iddo lunio CDU a'r gofynion cysylltiedig (ee rhoi hysbysiadau a therfynau amser ar gyfer cymryd camau) a beth y mae'n rhaid iddo ei wneud er mwyn cynnal CDU.

1.81 **Pennod 8:** Mae **Dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol, nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru** yn delio â'r dyletswyddau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys mewn CDU, ar gyfer plentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru.

1.82 Mae'r bennod hon hefyd yn delio â dyletswydd awdurdod lleol i ddynodi swyddog arweiniol ADY ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.

1.83 **Pennod 9:** Mae **Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru** yn delio â dyletswyddau sy'n berthnasol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau DDdY ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol o'r fath.

1.84 **Pennod 10:** Mae **Dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach** yn delio â'r dyletswyddau sy'n berthnasol i sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau DDdY ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach o'r fath.

1.85 **Pennod 11:** Mae **Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir** yn amlinellu dyletswyddau awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau yn ymwneud ag ADY, llunio a chynnal CDU, a sicrhau'r DDdY a nodir mewn CDU ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru.

1.86 **Pennod 12:** Mae **Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad**

**addysg bellach** yn ymwneud â’r dyletswyddau sy’n berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau yn ymwneud ag ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau’r DDdY sydd wedi’i chynnwys mewn CDU, ar gyfer person ifanc nad yw’n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

1.87 **Pennod 13:** Mae **Cynnwys CDU** yn delio â chynnwys gorfodol CDUau a'r ffurflen orfodol ar gyfer CDU, ac yn darparu canllawiau ar y cynnwys a'r ffurflen.

1.88 **Pennod 14:** Mae **Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal** yn delio â chynnwys gorfodol CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y ffurflen safonol orfodol ar gyfer CDU i blentyn sy'n derbyn gofal. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r canllawiau ar gynnwys CDU a ddarperir ym Mhennod 13, a'r canllawiau perthnasol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).

1.89 **Pennod 15:** Mae **Dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill** yn delio â'r dyletswyddau sydd ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill o fewn neu o dan y Ddeddf. Mae'n cynnwys canllawiau ar rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) mewn Byrddau Iechyd Lleol a sut y gall cyrff iechyd gefnogi'r broses o adnabod a thrin plant a phobl ifanc ag ADY.

1.90 **Pennod 16:** Mae **Adolygu a diwygio CDUau** yn delio ag adolygu a diwygio CDUau, gan gynnwys pryd y mae’n rhaid adolygu CDU a phryd y dylid adolygu CDU.

1.91 **Pennod 17:** Mae **Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol a chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU** yn delio â dyletswyddau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag ailystyried penderfyniad ysgol ynghylch a oes gan ddisgybl ADY, ailystyried CDU y mae ysgol yn ei gynnal ar gyfer disgybl, a chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU a gynhelir gan ysgol neu sefydliad addysg bellach ar gyfer disgybl neu fyfyriwr.

1.92 **Pennod 18:** Mae **Cyfarfodydd am ADY a CDUau** yn rhoi canllawiau ac egwyddorion arfer da ar gyfer cyfarfodydd am ADY a CDUau. Mae yna egwyddorion cyffredinol y dylid eu dilyn ar gyfer pob cyfarfod a rhai prosesau sy'n ymwneud yn benodol ag adolygu CDU neu benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ai peidio.

1.93 **Pennod 19:** Mae **Cynllunio ar gyfer proses drosglwyddo a’i chefnogi** yn canolbwyntio ar brosesau trosglwyddo plant a phobl ifanc sydd ag ADY i mewn i leoliadau addysgol, rhwng un lleoliad addysgol a'r llall, ac allan o leoliadau addysgol.

1.94 **Pennod 20:** Mae **Trosglwyddo CDU** yn ymdrin â throsglwyddo CDU rhwng ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, gan gynnwys

rôl Gweinidogion Cymru o ran penderfynu a ddylid trosglwyddo CDU o awdurdod lleol i sefydliad addysg bellach.

1.95 **Pennod 21:** Mae **Peidio â chynnal CDU** yn disgrifio'r amgylchiadau amrywiol pan fydd y dyletswyddau i gynnal CDU yn peidio. Mae hefyd yn nodi'r camau i'w cymryd cyn ac ar ôl penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU ar gyfer person ifanc, a'r ffyrdd y gellir herio penderfyniadau o'r fath.

1.96 **Pennod 22:** Mae **Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw** yn sôn am y sefyllfa i blant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw. Mae'r rhan gyntaf yn sôn am y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety cadw ieuenctid perthnasol ac mae'r ail ran yn disgrifio beth sy'n digwydd i'r rhai sy'n destun gorchymyn cadw ac yn cael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r bennod yn ymdrin â hawl y plentyn neu'r person ifanc i gael penderfyniad ar ADY, ei hawl i gael DDdY a'i hawl i apelio, ac yn esbonio beth sy'n digwydd i CDU tra'u bod yn cael eu cadw'n gaeth.

1.97 **Pennod 23:** Mae **Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol** yn delio â phlant a phobl ifanc sydd mewn amgylchiadau penodol, sef: plant a phobl ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru; plant o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys plant sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion a disgyblion sy'n derbyn addysg o'r fath oherwydd anghenion gofal iechyd; plant sy'n derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu heblaw yn yr ysgol; a phlant y lluoedd arfog.

1.98 **Pennod 24:** Mae **Rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)** yn amlinellu rôl, cyfrifoldebau a gofynion y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (y CADY).

1.99 **Pennod 25:** Mae **Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol** yn cyflwyno canllawiau a gofynion yn ymwneud â dyletswyddau awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ac ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

1.100 **Pennod 26:** Mae **Apeliadau a cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru** yn ymdrin ag apeliadau a wneir i Dribiwnlys Addysg Cymru ('y Tribiwnlys'), yn cynnwys:

- materion y gellir gwneud apeliadau amdanynt;
- penderfyniadau y gellir eu cymryd i'r Tribiwnlys;
- amserlenni yn ymwneud â'r broses apeliadau a chydymffurfio â gorchmynion;
- pwerau'r Tribiwnlys o ran cyrff y GIG;
- adolygu penderfyniadau'r Tribiwnlys ac apeliadau yn erbyn ei benderfyniadau.

1.101 **Pennod 27:** Mae **Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd** yn egluro sut y gall plentyn nad oes ganddo alluedd, fel y diffinnir yn y Ddeddf, ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am rôl cyfaill achos, a sut y caiff ei benodi a'i ddiswyddo gan y Tribiwnlys.

## *Rhestr Dermau*

1.102. Mae adran 99 o'r Ddeddf yn darparu diffiniadau o'r termau a ddefnyddiwyd yn y Ddeddf ac maent yr un mor berthnasol i'r Cod, ac eithrio lle nodir fel arall isod. Mae'r diffiniadau o'r termau ar gyfer Deddf Addysg 1996 hefyd yn berthnasol i'r ffordd y defnyddir y termau hynny yn y Ddeddf (er enghraifft, y diffiniad o "rhiant"), oni bai bod y term yn cario ystyr gwahanol yn y Ddeddf[34] ac oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu fel arall. Mae'r diffiniadau mwyaf perthnasol o'r termau a ddefnyddiwyd yn y Ddeddf wedi'u cynnwys yn y rhestr dermau hon. Mae hefyd yn cynnwys ambell ddiffiniad arall sy'n berthnasol at ddibenion y Cod, ac mae'n nodi'r talfyriadau a ddefnyddir yn y Cod.

1.103. Yn unol â hynny, mae'r diffiniadau o'r termau canlynol yn berthnasol i ddibenion y Cod, ac eithrio lle (yn achlysurol iawn) mae'r cyd-destun yn awgrymu fel arall.

<table>
<tr><td>Mae "y Ddeddf" yn cyfeirio at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.</td></tr>
<tr><td>Mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("ADY") yr ystyr a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf, sef:<br><br>(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—<br>(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu<br>(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.<br><br>(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.<br><br>(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.</td></tr>
<tr><td>Mae "cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol" ("CADY") yn golygu person a ddynodwyd gan ysgol brif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru i fod yn gyfrifol am gydlynu DDdY i ddysgwyr ag ADY, yn unol ag adran</td></tr>
</table>

[34] Adran 99(6) a (7) o'r Ddeddf.

| |
|---|
| 60 o'r Ddeddf (gweler Pennod 24). |
| Mae **“system ADY”** yn golygu’r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer yn Rhan 2 o’r Ddeddf. |
| Mae i **"darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)"** yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf, sef:<br><br>(1) Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—<br>(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,<br>(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu<br>(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.<br><br>(2) Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.<br><br>(3) Yn is-adran (1), ystyr “addysg feithrin” yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol. |
| Mae i **“DDdY briodol”** ar gyfer person a gedwir yn gaeth yr ystyr a roddir yn adran 42(9) o’r Ddeddf, sef:<br><br>(a) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun datblygu unigol,<br>(b) os ymddengys i’r awdurdod cartref nad yw’n ymarferol i’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun gael ei darparu, darpariaeth addysgol sy’n cyfateb mor agos â phosibl i’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, neu<br>(c) os ymddengys i’r awdurdod cartref nad yw’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun yn briodol mwyach ar gyfer y person sy’n cael ei gadw’n gaeth, darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae’r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol. |
| Mae i **"dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth"** yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef yr ystyr a roddir gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56). |
| Mae **"cyfaill achos"** yn golygu person a benodir gan y Tribiwnlys Addysg o dan adran 85 o'r Ddeddf i blant nad oes ganddynt alluedd. |
| Mae **"plentyn"** yn golygu person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol (yn yr ystyr a roddir gan adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56)). |
| Mae **"grŵp comisiynu clinigol"** yn golygu corff a sefydlir o dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41). |
| Mae **"y Cod"** yn cyfeirio at y Cod hwn. |
| Mae i **“Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (“SACDA”)”** yr ystyr a roddir gan adran 61 o’r Ddeddf, sef swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau’r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. |

| |
|---|
| Mae i **"person sy'n cael ei gadw'n gaeth"** yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef plentyn neu berson ifanc:<br>(a) sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw (o fewn yr ystyr a roddir i "detention order" gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996), a<br>(b) sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr. |
| Mae i **"gorchymyn cadw"** yr ystyr a roddir gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996. |
| Mae **"cofrestriad deuol"** yn cyfeirio at blentyn neu berson ifanc sydd wedi'i gofrestru fel disgybl neu wedi'i ymrestru fel myfyriwr mewn mwy nag un ysgol neu sefydliad addysg bellach, neu mewn ysgol a sefydliad addysg bellach (lle mae o leiaf un o'r sefydliadau yn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n sefydliad addysg bellach yng Nghymru) ar yr un pryd, a lle mae'r plentyn neu'r person ifanc i gael addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad.[35] |
| Mae **"Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar"** yn golygu swyddog a ddynodwyd gan awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir, yn unol ag adran 62 o'r Ddeddf. |
| Mae **"addysg"** yn cynnwys addysg amser llawn a rhan-amser, ond nid yw'n cynnwys addysg uwch; ac mae **"addysgol"** ac **"addysgu"** (a thermau cysylltiedig eraill) i'w dehongli yn unol â hynny. |
| Mae **"Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal"** yn golygu cynllun o fewn adran 37(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd (c. 6) (cynlluniau addysg, iechyd a gofal). |
| Mae **"asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal"** yn asesiad o anghenion addysgol, gofal iechyd a gofal cymdeithasol plentyn neu berson ifanc (adran 36(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014). |
| Mae **"sefydliad addysg bellach"** yn golygu sefydliad o fewn y sector addysg bellach y mae adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn berthnasol iddo.<br><br>At ddibenion y Cod a'r Ddeddf, ystyrir bod sefydliad addysg bellach:<br>(a) yng Nghymru os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;<br>(b) yn Lloegr os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. |
| Mae i **"corff llywodraethu" mewn perthynas â sefydliad o fewn y sector addysg bellach** yr ystyr a roddir gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13). |
| Mae **"corff iechyd"** yn golygu:<br>• Bwrdd Iechyd Lleol; |

[35] Gweler adran 30(1) a (3) o'r Ddeddf.

| |
|---|
| • Ymddiriedolaeth GIG;<br>• grŵp comisiynu clinigol;<br>• ymddiriedolaeth sefydledig GIG;<br>• Awdurdod Iechyd Arbennig[36]. |
| Mae i **"awdurdod cartref"** yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef yr ystyr a roddir gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56), yn ddarostyngedig i reoliadau o dan adran 39(2) o'r Ddeddf. |
| Mae i **"swyddog adolygu annibynnol"** yr ystyr a roddir gan adran 15(3) o'r Ddeddf, sef y swyddog a benodir o dan adran 99 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) i ymdrin ag achos plentyn. |
| Mae i **"sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol"** yr ystyr a roddir gan adran 56(6) o'r Ddeddf, sef sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad yw'n—<br>(a) sefydliad yn y sector addysg bellach,<br>(b) ysgol annibynnol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru (a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)),<br>(c) sefydliad addysgol annibynnol (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25)), sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o’r Ddeddf honno), neu<br>(d) Academi 16 i 19. |
| Mae i **"cynllun datblygu unigol" ("CDU")** yr ystyr a roddir gan adran 10 o'r Ddeddf, sef dogfen sy'n cynnwys:<br>(a) disgrifiad o ADY person;<br>(b) disgrifiad o’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani;<br>(c) unrhyw beth arall sy’n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf. |
| Mae **"awdurdod lleol"** yn golygu cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, ac eithrio lle cyfeirir yn benodol at awdurdod lleol yn Lloegr (i gael gwybod ystyr hynny, gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996 (p.56)).<br><br>At ddibenion y Ddeddf a'r Cod, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os yw o fewn ardal yr awdurdod (adran 99(4) o'r Ddeddf a gweler paragraffau 1.18 – 1.19 uchod). |
| Mae **"Bwrdd Iechyd Lleol"** yn golygu Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (p.42). |
| Mae i **"plentyn sy'n derbyn gofal"** - cyfeiriad yn y Ddeddf (sut bynnag y'i mynegir) at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol - yr ystyr a roddir gan adran 15 o'r |

[36] Gweler adran 64(2) o’r Ddeddf.

| |
|---|
| Ddeddf, sef plentyn-<br>(a) nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ac sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4),<br>(b) nad yw'n berson sy'n cael ei gadw'n gaeth, ac<br>(c) nad yw'n perthyn i gategori o blant sy'n derbyn gofal a ragnodir mewn rheoliadau fel rhai nad ydynt i'w trin fel plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf.<br><br>Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol hefyd i'r cod, ac eithrio lle nad yw'r cyd-destun yn caniatáu hynny. |
| Mae i **“Cydlynydd Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal”** yr ystyr a roddir gan reoliadau a wnaed o dan adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. |
| Mae **"sefydliad prif ffrwd yn y sector addysg bellach"** yn golygu sefydliad yn y sector addysg bellach nad oes ganddo drefniadau arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag ADY. |
| Mae **"ysgol brif ffrwd a gynhelir"** yn golygu ysgol a gynhelir nad yw—<br>(a) yn ysgol arbennig, neu<br>(b) yn uned cyfeirio disgyblion. |
| Mae **"ysgol a gynhelir"** yn golygu—<br>(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,<br>(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,<br>(c) ysgol feithrin a gynhelir, neu<br>(d) uned cyfeirio disgyblion.<br><br>O ran y diffiniad o "ysgol a gynhelir", mae i ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ac ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, yr ystyr a roddir gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). |
| Mae **"Bwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol"** yn golygu'r corff a sefydlwyd o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p41). |
| Mae **"corff GIG"** yn golygu—<br>(a) Bwrdd Iechyd Lleol, neu<br>(b) ymddiriedolaeth GIG. |
| Mae i **"ymddiriedolaeth sefydledig GIG"** yr ystyr a roddir gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p41). |
| Mae **"ymddiriedolaeth GIG"** yn golygu ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p42). |
| Mae i **“rhiant”** yr ystyr a roddir yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 (p56). Mae’r |

| |
|---|
| diffiniad hwnnw yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac unrhyw berson sydd â dyletswydd gofal dros y plentyn[37]. |
| Mae i **"cynllun addysg personol"** yr ystyr a roddir gan adran 15(4) o'r Ddeddf, sef y cynllun sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun gofal a chymorth a gynhelir ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 83(2A) o Ddeddf 2014. |
| Mae **"perchennog"**, mewn perthynas â sefydliad nad yw'n ysgol, yn golygu'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad. |
| Mae i **"uned cyfeirio disgyblion"** yr ystyr a roddir gan adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56). |
| Mae i **"llety ieuenctid perthnasol"** yr ystyr a roddir gan adran 39 o'r Ddeddf, sef yr ystyr a roddir gan adran 562(1A)(b) o Ddeddf Addysg 1996. |
| Mae **"diwrnod ysgol"** yn golygu, mewn perthynas ag ysgol a gynhelir, unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno, ac eithrio mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, lle mae'n golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr uned yn cwrdd. |
| Mae **"diwrnod tymor"** yn golygu diwrnod pan fydd disgwyl i'r sefydliad addysg bellach gyfarfod er mwyn addysgu myfyrwyr cyn belled â bod y diwrnod o fewn cyfnod pan fydd y sefydliad addysg bellach yn cyflwyno'r rhan fwyaf o'i gyrsiau amser llawn. |
| Mae **"hyfforddiant"** yn cynnwys—<br>(a) hyfforddiant amser llawn a rhan-amser;<br>(b) hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden. |
| Mae **"Tribiwnlys"** yn golygu Tribiwnlys Addysg Cymru (gweler adran 91 o'r Ddeddf). |
| Mae **"person ifanc"** yn golygu person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond yn iau na 25 oed. |
| Mae **"tîm troseddwyr ifanc"** yn golygu tîm a sefydlir o dan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37). |

[37] Mae Cylchlythyr Rhif 12/2007 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys canllawiau ar gyfer ysgolion ar ystyr "Rhieni" a "Cyfrifoldeb rhiant" at ddibenion Deddf Addysg 1996, sydd, adeg cyhoeddi'r Cod, i'w weld yn https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/rhieni-a-cyfrifoldeb-rhiant-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-cy.pdf.

# Pennod 2: Egwyddorion y Cod

2.1 Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau.

2.2 Dyma'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt, ac a adlewyrchir yn y Cod a'r Ddeddf:

a) **Gweithredu ar sail hawliau** lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a darparu cymorth, a lle caiff y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau penderfynu.
b) **Adnabod anghenion yn gynnar, trefnu ymyriadau a chynllunio proses drosglwyddo effeithiol** lle caiff anghenion eu hadnabod a darpariaeth ei threfnu cyn gynted â phosibl, a lle caiff prosesau trosglwyddo eu cynllunio ymlaen llaw.
c) **Cydweithredu** lle mae pawb sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn cydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.
d) **Addysg gynhwysol** lle caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi i fanteisio'n llawn ar addysg brif ffrwd, lle bynnag y bo'n ymarferol, a lle mae'r lleoliad cyfan yn ceisio diwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
e) **System ddwyieithog** lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser[1].

## *Rhoi'r egwyddorion ar waith*

### Gweithredu ar sail hawliau

Hawliau Plant, Pobl Ifanc a Phobl Anabl

2.3 Fel sy'n ofynnol gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'r Cod wedi'i ddatblygu gan Weinidogion Cymru gan roi sylw dyledus i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol. Yn ogystal, wrth ddatblygu'r Cod ystyriwyd gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. O dan y Ddeddf, mae dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i roi sylw dyledus i'r ddau gonfensiwn hyn ac maent

[1] Safonau'r Gymraeg, sy'n rhoi sylw i rai agweddau ar y system – er enghraifft, cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a rhieni. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/safonaur-gymraeg

wedi'u hamlinellu ym Mhennod 4.

Cyfranogi

2.4 Yn ganolog i'r egwyddor o weithredu ar sail hawliau ac i'r Ddeddf mae egwyddor cyfranogiad plant a phobl ifanc - gwrando arnynt ac ystyried eu safbwyntiau mewn ffordd ystyrlon. Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â chyfranogiad plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a allai yn y pen draw helpu i sicrhau canlyniadau gwell iddynt, ee:

- Rhoi gwell dealltwriaeth i ymarferwyr sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY o'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys pwy ydynt a beth sy'n bwysig iddynt
- Disgwyliadau uwch oddi wrth blant a phobl ifanc ar sail dealltwriaeth o gryfderau a photensial y plentyn neu'r person ifanc
- Datblygu dysgu sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn ar sail targedau sy'n adeiladu ar gryfderau plant a phobl ifanc ag ADY
- Cynllunio a chyflwyno DDdY fwy effeithiol sy'n helpu plant a phobl ifanc i weithio tuag at ddeilliannau da ar sail eu huchelgais a'u dyheadau.
- Grymuso plant a phobl ifanc drwy ddathlu'r hyn maent yn ei gyflawni a'u gallu, a chanolbwyntio ar y posibiliadau yn hytrach na'r problemau maent yn eu hwynebu.

2.5 Er mwyn sicrhau manteision cyfranogiad, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf; **rhaid**[2] i'r person roi sylw:

- i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc;
- i bwysigrwydd bod y plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth o dan sylw; ac
- i bwysigrwydd bod yr wybodaeth a'r gefnogaeth ofynnol yn cael eu darparu i'r plentyn ac i riant y plentyn neu i'r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

2.6 Mae mwy o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ym Mhennod 3.

2.7 Un ffordd o sicrhau bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc yn cael eu hystyried, a'u bod yn cael cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau yw mabwysiadu arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae amrywiol adnoddau i gefnogi ymarferwyr wrth ddefnyddio dulliau ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael ar-lein[3].

---

[2] Adran 6 o'r Ddeddf

[3] Adeg llunio'r Cod, mae'r rhain yn cynnwys:Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru, http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?skip=1&lang=cy; Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion: offeryn hunanasesu a chamau arferol ar gyfer cynnydd, http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?skip=1&lang=cy;

Gwybodaeth a chyngor, eiriolaeth a chyfeillion achos

2.8 **Rhaid**[4] i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf roi sylw i bwysigrwydd darparu'r wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth ofynnol i'r plentyn ac i riant y plentyn neu i'r person ifanc er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau penderfynu.

2.9 Yn ogystal, **rhaid**[5] i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY i bobl. Mae'r trefniadau hyn yn rhan bwysig o sicrhau bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan lawn ac effeithiol yn y broses. Mae Pennod 6 yn trafod y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a chyngor yn fanwl.

2.10 Yn ogystal, **rhaid**[6] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol – i gefnogi plant a phobl ifanc sydd efallai yn anghytuno â phenderfyniadau neu sy'n ystyried apelio i'r Tribiwnlys Addysg, yn bwriadu apelio neu wrthi'n apelio ar hyn o bryd. Mae Pennod 25 yn darparu mwy o wybodaeth am wasanaethau eirioli.

2.11 Lle mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau i blant dderbyn gwybodaeth neu wneud cais penodol, ond nad oes gan blentyn unigol y galluedd i ddeall y mater o dan sylw, gall y Tribiwnlys Addysg benodi cyfaill achos i gynrychioli a helpu'r plentyn, a gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn. Gweler Pennod 27 i gael gwybod mwy am gyfeillion achos.

2.12 Nod y gofynion uchod – darparu gwybodaeth a chyngor, eiriolaeth a chyfeillion achos – yw sicrhau cyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc yn y system ADY. Yn ganolog i hyn mae gweithredu ar sail hawliau, rhoi hawliau i blant, eu rhieni a phobl ifanc gael cyfrannu at benderfyniadau penodol sy'n ymwneud â'u hanghenion a'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny, rhoi hawliau iddynt ddylanwadu ar y penderfyniadau, eu herio ac apelio yn eu cylch. Mae mwy o wybodaeth am yr hyn y mae gweithredu ar sail hawliau yn ei olygu'n ymarferol ym Mhennod 4 *(ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau).*

### Adnabod anghenion yn gynnar, trefnu ymyriadau a chynllunio proses drosglwyddo effeithiol

2.13 Mae adnabod ADY yn gynnar, rhoi ymyriadau ar waith yn amserol a chynllunio proses drosglwyddo effeithiol yn ganolog i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael y cyfle i lwyddo ac yn cael addysg sy'n diwallu eu hanghenion.

---

Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru, http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?skip=1&lang=cy

[4] Adran 6(c) o'r Ddeddf.

[5] Adran 9 o'r Ddeddf.

[6] Adran 69 o'r Ddeddf.

2.14 Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd adnabod anghenion yn amserol a rhoi'r ddarpariaeth briodol ar waith cyn gynted â phosibl ar gyfer plentyn neu berson ifanc ag ADY. Po gynharaf y gweithredir, y mwyaf tebygol yw'r effaith. Hefyd, gall adnabod ADY yn gynnar a rhoi'r ymyriadau priodol ar waith wneud i ffwrdd â'r angen am ymyriadau mwy costus a llai effeithiol maes o law. **Rhaid**[7] adolygu ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth a drefnir ar ei gyfer bob blwyddyn o leiaf, i sicrhau bod yr ymyriadau'n briodol o hyd. Mae mwy o wybodaeth am adnabod ADY a DDdY ac am adolygu DDdY ym Mhenodau 7 ac 16.

2.15 Mae'r Cod a'r rheoliadau yn pennu terfynau amser amrywiol ar gyfer cyflawni dyletswyddau o dan y Ddeddf er mwyn adnabod anghenion yn gynnar a threfnu ymyriadau. Yn gyffredinol, y nod yw cydymffurfio'n brydlon â'r ddyletswydd, ond yn sicr o fewn cyfnod penodedig. Pennwyd y cyfnodau hyn gan ystyried yr amrywiaeth eang o amgylchiadau a fydd yn berthnasol a'r camau amrywiol y gallai fod angen eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, gan gynnwys cyfranogiad effeithiol y plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc. Mewn llawer o achosion, dylai corff allu cydymffurfio'n gynharach, a dyna pam mai cydymffurfio'n brydlon yw'r gofyniad yn y lle cyntaf. Ar y llaw arall, yn achlysurol gallai fod yna resymau da pam ei bod yn anymarferol i'r corff gydymffurfio o fewn y cyfnod penodedig, a dyna pam mae'r cod a'r rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer eithriadau[8].

2.16 Er mwyn sicrhau prosesau pontio llyfn a pharhad yn y cymorth a roddir i blentyn neu berson ifanc wrth symud i gyfnod addysg, lleoliad neu wasanaeth newydd, **dylai** cyrff sydd â chyfrifoldebau o ran llunio, ailystyried a chynnal CDUau gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn ymhell ymlaen llaw, gan weithio gyda sawl asiantaeth. Bydd newidiadau o'r fath yn cynnwys symud i gyfnod addysg neu leoliad addysg penodol, rhwng cyfnodau neu leoliadau ac allan o gyfnodau neu leoliadau, ee lleoliadau cyn-ysgol, ysgol gynradd, ysgol uwchradd neu addysg ôl-16; neu symud i fath newydd o leoliad neu wasanaeth, rhwng mathau penodol ac allan ohonynt, ee rhwng addysg arbennig ac addysg brif ffrwd, gofal gan yr awdurdod lleol, llety ieuenctid perthnasol, neu i fyd oedolion a byw'n annibynnol. Mae mwy o wybodaeth am gynllunio prosesau pontio ym Mhennod 19.

## Cydweithredu

2.17 Datblygwyd y Ddeddf a'r Cod ar sail yr egwyddor datblygu cynaliadwy a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, feddwl yn fwy hirdymor; cydweithio'n well â phobl, cymunedau ac â'i gilydd; ceisio osgoi problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

2.18 Mae disgwyl i unigolion a sefydliadau sydd â dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r rheini sy'n helpu i ddarparu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY

[7] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf sy'n delio ag adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol.
[8] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.

gydweithio er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc. Nod y canllawiau yn y Cod yw helpu awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ac asiantaethau eraill i hwyluso cydweithredu effeithiol rhwng gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu arferion a dulliau gweithio ar draws asiantaethau sy'n:

- gwella systemau cyfathrebu rhwng y teulu, yr ysgol a gweithwyr proffesiynol;
- symleiddio gwasanaethau i osgoi dyblygu;
- nodi'n glir pa asiantaeth a fydd yn gyfrifol am gyflwyno ac ariannu pob elfen o'r ddarpariaeth;
- annog creadigrwydd a hyblygrwydd;
- ystyried arferion da;
- canolbwyntio ar atebion mewn ffordd holistaidd;
- defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol; ac yn
- sicrhau yr ymgynghorir â'r holl wasanaethau perthnasol.

2.19 Mae mwy o wybodaeth a chanllawiau ar y dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill ym Mhennod 15.

**Addysg gynhwysol**

2.20 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod addysg gynhwysol, lle mae dysgwyr unigol yn derbyn addysg bwrpasol a chymorth ychwanegol i wireddu eu potensial yn llawn, yn fanteisiol i bawb.

2.21 Yn y lle cyntaf, **rhaid**[9] i awdurdodau lleol sicrhau addysg mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir ar gyfer plant ag ADY o oedran ysgol gorfodol sydd i'w haddysgu mewn ysgol, y mae'r awdurdod yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â nhw. Prin iawn yw'r eithriadau i'r gofyniad hwn[10]. Mae trafodaeth bellach am y ddyletswydd i ffafrio addysg brif ffrwd ym Mhennod 11.

2.22 **Rhaid**[11] i'r rheini sy'n ymwneud â chreu DDdY ar gyfer plentyn ag ADY mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ochr yn ochr â phlant eraill nad oes ganddynt ADY. Hyn a hyn o eithriadau sydd yna i'r gofyniad hwn[12]. Mae hyn yn golygu mai'r pwynt cychwyn yw bod yr ysgol yn cynnwys pob disgybl sydd ag ADY yn llawn yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae trafodaeth bellach am y ddyletswydd i gynnwys plant ag ADY yng ngweithgareddau ysgol brif ffrwd a gynhelir ym Mhennod 9.

2.23 Dylai diwallu anghenion dysgwyr ag ADY fod yn rhan o ymdrech yr ysgol/sefydliad cyfan i wella'r ysgol/sefydliad. Mae dulliau ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliad addysg bellach o ddiwallu anghenion eu holl blant neu bobl ifanc yn cael effaith uniongyrchol ar natur y DDdY sydd ei hangen ar

[9] Adran 51 o'r Ddeddf.
[10] Gweler adran 51 o'r Ddeddf.
[11] Adran 52 o'r Ddeddf.
[12] Gweler adran 52 o'r Ddeddf.

ddysgwyr ag ADY, a phryd y mae angen y DDdY. Mae gwybodaeth staff am sgiliau a galluoedd pob plentyn a pherson ifanc yn allweddol i ddiwallu eu hanghenion. Mae gallu'r staff i ddefnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod mynediad priodol i'r cwricwlwm ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yn hanfodol hefyd. Ni ellir gwahaniaethu, felly, rhwng gwella prosesau addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a gwella prosesau addysgu a dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach cyfan. Dylai gwella'r naill helpu i wella'r llall.

**System ddwyieithog**

2.24 **Rhaid**[13] i awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff y GIG ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg a, lle mae angen darpariaeth drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, **rhaid** nodi hyn yn y CDU a **rhaid** cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg[14].

2.25 Mae yna elfennau eraill o'r Ddeddf a luniwyd i hyrwyddo DDdY drwy'r Gymraeg. **Rhaid**[15] i awdurdodau lleol ystyried digonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Os bydd awdurdod lleol yn ystyried nad yw'r DDdY sydd ar gael drwy'r Gymraeg yn ddigonol, **rhaid**[16] iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater. **Rhaid**[17] i Weinidogion Cymru drefnu i adolygu digonolrwydd y DDdY drwy'r Gymraeg bob pum mlynedd a chyhoeddi adroddiadau yn dilyn yr adolygiadau hyn.

2.26 Mae mwy o wybodaeth am ddarpariaethau drwy'r Gymraeg mewn perthynas â threfniadau rhoi cyngor a gwybodaeth, osgoi a datrys anghytundebau, a gwasanaethau eirioli annibynnol ym Mhenodau 6 a 25.

---

[13] Gweler adran 12(6)(a) (ysgolion a sefydliadau addysg bellach); adran 20(5)(b) (cyrff GIG); ac adrannau 14(5)(a), 19(3)(a) a 40(6)(a) (awdurdodau lleol).
[14] Gweler adrannau 12(6)(b) a (7)(b) (ysgolion a sefydliadau addysg bellach); adran 20(5)(b) a (c) (cyrff GIG); ac adrannau 14(5)(b) a (10)(c), 19(3)(b) a (7)(c), 40(6)(b) a 42(8)(b) (awdurdodau lleol)
[15] Adran 63(3)(a) o'r Ddeddf.
[16] Adran 63(4) o'r Ddeddf.
[17] Adran 89 o'r Ddeddf.

# Pennod 3: Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

## *Cyflwyniad*

3.1 Mae'r bennod hon yn esbonio'r dyletswyddau ar bersonau sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc i gynnwys a chefnogi'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny, ac mae'r bennod yn amlinellu beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei olygu yn ymarferol.

3.2 Mae'r dyletswyddau hyn yn rhoi effaith i rai o'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae gan awdurdodau lleol a chyrff GIG ddyletswyddau[1] i roi sylw dyledus i'r Confensiynau hynny wrth gynllunio i gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc. Mae Pennod 4 yn rhoi canllawiau penodol mewn perthynas â'r dyletswyddau hynny. Mae'r dyletswyddau a nodir yn y bennod hon yn berthnasol i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Yn unol â hynny, bydd y bennod hon hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol a chyrff GIG pan fyddant yn cyflawni eu dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiynau hynny.

## *Cyfranogiad plant a phobl ifanc*

3.3 **Rhaid**[2] i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc unigol roi sylw i:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau’r plentyn a’i riant neu’r person ifanc;
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a’i riant neu’r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy’n ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth o dan sylw;
- pwysigrwydd sicrhau bod yr wybodaeth a’r gefnogaeth ofynnol yn cael eu darparu i’r plentyn ac i riant y plentyn neu i’r person ifanc er mwyn eu galluogi neu ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

3.4 Er mwyn bodloni'r dyletswyddau hyn, **dylai** awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff GIG, wrth wneud penderfyniadau am ADY plentyn neu berson ifanc, ei DDdY neu ei CDU:

[1] Adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf.
[2] Adran 6 o'r Ddeddf.

- ofyn i'r plentyn neu'r person ifanc sut y mae am gymryd rhan yn y penderfyniadau sydd i'w gwneud cyn i'r penderfyniadau hynny orfod cael eu gwneud;
- darparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd sy'n ddealladwy iddo;
- annog y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan lawn yn y broses;
- seilio penderfyniadau ar safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc.

3.5 Mae sicrhau bod y lle canolog yn cael ei roi i blant a phobl ifanc ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnynt yn debygol o arwain at well canlyniadau, gan y bydd hyn yn fwy tebygol o sicrhau bod yr anghenion cywir yn cael eu hadnabod a bod y ddarpariaeth yn effeithiol.

## *Y dyletswyddau ar waith*

**Adnabod sut yr hoffai plentyn neu berson ifanc gyfathrebu a chymryd rhan**

3.6 Y man cychwyn ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc yw deall sut mae'r plentyn neu'r person ifanc am gyfathrebu ei safbwyntiau a deall unrhyw gymorth y gallai fod ei angen er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc allu gwneud hynny. Yn ogystal, mae'n hollbwysig deall sut mae'r plentyn neu'r person ifanc am gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys iaith cyfathrebu, y dull cyfathrebu ac ymgysylltu ac, yn achos person ifanc, p'un a yw am gynnwys eraill yn y broses gyfathrebu a sut.

3.7 Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol, beth bynnag yw galluedd y plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Hyd yn oed os, er enghraifft, na fydd gan blentyn y galluedd i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer ei hawliau o dan y Ddeddf, gallai ei gyfraniad i'r broses fod yn bwysig i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu hadnabod yn gywir a bod y ddarpariaeth iawn yn cael ei sefydlu, sy'n effeithiol i ddiwallu ei anghenion.

3.8 Mae deall gofynion a dewisiadau cyfathrebu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn arbennig o bwysig os byddant yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddod i gyfarfodydd neu gymryd rhan mewn penderfyniadau. **Dylai** awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff GIG ddefnyddio'r wybodaeth i sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle i gefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw a mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Yn ogystal, **dylai** awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff GIG ddefnyddio'r wybodaeth uchod i osgoi gwneud trefniadau amhriodol.

3.9 Os penderfynir bod angen CDU ar blentyn neu berson ifanc, bydd angen cofnodi gwybodaeth am y dull cyfathrebu yn y CDU. Gweler Pennod 13 i gael canllawiau pellach.

## Pa ddull ymgysylltu sy'n addas?

3.10 Un o egwyddorion sylfaenol y Ddeddf a'r Cod yw y dylid cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mor gyflawn â phosibl yn y prosesau penderfynu sy'n ymwneud â nhw. Gall rhai plant a phobl ifanc ag ADY ddioddef gorbryder yn wyneb sefyllfaoedd newydd neu anghyfarwydd, neu gallant deimlo bod y sefyllfa yn ormod iddynt neu'n eu gwneud yn anghyfforddus. Efallai y byddant wedyn yn ei chael yn anodd cymryd rhan lawn neu fynegi eu barn, yn enwedig mewn cyfarfodydd gyda nifer fawr o oedolion. **Dylid** ystyried beth y gellid ei wneud i gefnogi plentyn neu berson ifanc penodol i gymryd rhan. Er enghraifft, **dylai** ysgol neu awdurdod lleol ystyried p'un a yw'n briodol i blentyn neu berson ifanc unigol fynd i gyfarfod arfaethedig ac, os nad yw, sut y gellir cynnwys y person yn y broses mewn ffordd arall a chynrychioli ei safbwyntiau yn y cyfarfod.

3.11 Er enghraifft, os nad yw plentyn neu berson ifanc am fynd i gyfarfod, neu os nad yw'n briodol iddo fynd i'r cyfarfod cyfan, **dylid** ystyried rhoi cyfle i'r person fynd i ran o gyfarfod, neu gwrdd ag un neu fwy o'r rheini a fydd yn mynd i'r cyfarfod ymlaen llaw.

3.12 Os na fyddai'n briodol i blentyn neu berson ifanc fod yn bresennol lle caiff penderfyniad ei wneud, **dylid** cael gwybod beth yw ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, a **rhaid**[3] eu hystyried wrth wneud y penderfyniad. Cyn gwneud y penderfyniad, **dylai** person priodol esbonio'r broses i'r plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd sy'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth, a holi ei farn. Os caiff CDU ei lunio neu ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, **rhaid**[4] cofnodi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau yn adran 1C y CDU (gweler Pennod 13).

## Cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan

3.13 Bydd cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon yn eu helpu i:

- deimlo'n hyderus bod pobl yn gwrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau ac yn eu gwerthfawrogi, hyd yn oed os yw'n anodd iddynt eu mynegi;
- bod yn ymwybodol o'u hawliau, a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt;
- datblygu ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb a rheolaeth ar eu dysgu.

3.14 **Dylai** awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrff GIG ystyried sut y gallant annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y system ADY mewn ffordd ystyrlon. Gallai hyn gynnwys:

[3] Adran 6 o'r Ddeddf.
[4] Gofyniad a orfodir gan y Cod

- darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am gyfarfodydd a thrafodaethau, cymorth i baratoi ar eu cyfer a chymorth i fynd iddynt;
- annog plant a phobl ifanc i godi pryderon gydag unrhyw aelod staff;
- sicrhau bod unrhyw bolisïau perthnasol am godi pryderon yn gwneud darpariaeth i bryderon gael eu pasio ymlaen i'r person priodol (er enghraifft, y CADY, swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar neu'r swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg).

**Darparu gwybodaeth**

3.15 Mae awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn ddarostyngedig i ddyletswyddau[5] yn y Ddeddf a gofynion o dan y Cod am ddarparu gwybodaeth am y system ADY. Gweler Pennod 6 i gael canllawiau am y dyletswyddau hyn. Gall y cyrff hyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i esbonio'r system ADY wrth gyflawni eu dyletswyddau[6] i gynnwys a chefnogi plant unigol, eu rhieni a phobl ifanc wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

3.16 Wrth ddarparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc a thrafod ag ef er mwyn hwyluso'r ffordd iddo gymryd rhan, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gyfathrebu yn ôl dewis ddull y plentyn neu'r person ifanc ac mewn ffordd y gall y plentyn neu'r person ifanc ei ddeall.

3.17 Os bydd ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn penderfynu p'un a oes gan berson ADY, o'r dechrau'n deg **dylai** esbonio'r broses i'r plentyn a'i riant[7] neu'r person ifanc. Gellid gwneud hyn drwy'r cydlynydd dynodedig[8]. **Dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gytuno gyda'r plentyn a'i riant neu gyda'r person ifanc ynghylch y ffordd orau o gynnwys y plentyn neu'r person ifanc. Os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynd i gyfarfod, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol baratoi'r plentyn neu'r person ifanc ar gyfer y cyfarfod.

3.18 Mae hawl gan bobl ifanc i beidio â chydsynio i gynllun i ddod i benderfyniad ynghylch a oes ganddynt ADY neu i gynllun i lunio neu gynnal CDU neu, mewn perthynas â pherson ifanc a gedwir yn gaeth, i gadw CDU[9]. Mae'r ddyletswydd[10] uchod ynghylch cynnwys a chefnogi pobl ifanc yn berthnasol pan fydd ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn cyflawni swyddogaeth o dan y Ddeddf mewn perthynas â pherson ifanc, gan gynnwys gofyn am eu cydsyniad ynghylch penderfyniadau neu mewn perthynas â CDUau. **Dylid** rhoi'r cymorth priodol i'r person ifanc, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae

[5] O dan adran 9 o'r Ddeddf.
[6] O dan adran 6 o'r Ddeddf.
[7] Gweler paragraffau 3.22 i 3.32 i weld y drafodaeth am gynnwys a chefnogi rhieni plant ag ADY.
[8] Mae Penodau 8-12 yn delio â rôl y cydlynydd dynodedig.
[9] Os caiff person ifanc ei gadw'n gaeth, nid yw'r dyletswyddau o dan y Ddeddf i gynnal CDU yn berthnasol (gweler Pennod 22 am drafodaeth bellach).
[10] O dan adran 6 o'r Ddeddf.

hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n esbonio ei hawliau, canlyniadau cael CDU neu beidio â chael CDU, a rhoi gwybod iddo y gall newid ei feddwl ar unrhyw adeg.

### Paratoi ar gyfer cyfarfodydd

3.19 Os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i gyfarfod, neu ran o gyfarfod, am ADY (gweler Pennod 18 i gael gwybod mwy am gyfarfodydd), **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad am ADY, neu am lunio neu gynnal y CDU weithio gyda'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfarfod.

3.20 **Dylai'r** gwaith paratoi gynnwys trafod unrhyw drefniadau a gaiff eu sefydlu i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys cynnal y cyfarfod drwy'r Gymraeg, darparu dehonglydd i blant a phobl ifanc nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sicrhau hwylustod mynediad a bod unrhyw gyfarpar arbenigol sydd ei angen ar y plentyn neu'r person ifanc ar gael ar y diwrnod. Gallai'r gwaith paratoi gynnwys hefyd ymweliad â'r ystafell gyfarfod a thrafod pwy fydd yn dod, lle y byddant yn eistedd, a beth yw eu rôl, gan ddefnyddio lluniau o'r unigolion os yw'n briodol.

### Canolbwyntio ar yr unigolyn

3.21 Un ffordd o helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc i gymryd rhan a sicrhau bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael y lle canolog mewn penderfyniadau am ADY yw dilyn egwyddorion ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi'r lle canolog i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wrth wneud penderfyniadau. Mae adnoddau o bob math ar gael ar-lein i helpu ymarferwyr i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn[11].

## *Cynnwys a chefnogi rhieni plant ag ADY*

3.22 Mae gan rieni rôl hanfodol o ran helpu eu plentyn i gyflawni ei botensial. Mae'r plentyn yn llawer mwy tebygol o gyflawni ei ddeilliannau a'i botensial pan fydd rhieni yn ymddiddori ac os bydd ei safbwyntiau, ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu hystyried. Mae angen rhoi cymorth a chyngor i rieni hefyd, felly, ynghylch sut y gallant gefnogi eu plentyn i gyflawni ei botensial.

---

[11] Ar adeg llunio'r Cod, mae'r rhain yn cynnwys: Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?skip=1&lang=cy;
Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion: offeryn hunanasesu a chamau ymarferol ar gyfer cynnydd http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?skip=1&lang=cy;
Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?skip=1&lang=cy

3.23 Mae'r ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant a phobl ifanc hefyd yn berthnasol yn yr un ffordd i rieni'r plant.

3.24 **Rhaid**[12], felly, i berson sy'n cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn (er enghraifft, ysgol sy'n adolygu CDU) roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r rhiant (yn ogystal â safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn). Mae gan rieni wybodaeth allweddol a rôl hollbwysig yn natblygiad ac addysg eu plentyn. Mae ganddynt wybodaeth unigryw am eu plentyn a fydd yn cyfrannu at y farn gyffredinol am anghenion y plentyn a'r ffordd orau o'i gefnogi. Mae yna wahanol ffyrdd i rieni gefnogi dysg y plentyn. Mae gan rieni hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn, a gall agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys rhieni gyfrannu at well proses benderfynu a gwell canlyniadau i'r plentyn.

3.25 **Rhaid**[13] i'r person sy'n cyflawni swyddogaeth sy'n ymwneud â phlentyn roi sylw hefyd i bwysigrwydd sicrhau bod y rhiant yn cymryd rhan mor gyflawn â phosibl yn y penderfyniad sy'n ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth, ac i bwysigrwydd sicrhau bod y rhiant yn cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth ofynnol er mwyn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau o'r fath. Gall y cyfnod cyn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a oes gan blentyn ADY fod yn gyfnod pryderus i'r rhieni a'r teulu, a gall penderfyniadau eraill ynghylch ADY plentyn achosi pryder hefyd. Mae'n bwysig bod y rheini sy'n cyflawni'r swyddogaethau yn sylweddoli hyn.

3.26 Pan fydd gan ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud penderfyniad ynghylch p'un a oes gan blentyn ADY neu i lunio neu adolygu CDU, **dylent** gefnogi rhieni i ddeall y broses a'r penderfyniadau a wneir yn y ffyrdd canlynol:

- drwy esbonio o'r dechrau'n deg, mewn ffordd y gall y rhieni dan sylw ei deall, y penderfyniad y mae'r corff yn ei wneud, y broses o'i wneud a sut y gall y rhiant gyfrannu i'r broses honno;
- mewn cyfarfodydd i benderfynu ynghylch yr ADY a llunio'r CDU, neu mewn cyfarfodydd adolygu, drwy esbonio'r hyn sy'n cael ei gynnig (yr ADY, y DDdY arfaethedig, y deilliannau i'w plentyn anelu atynt, pwrpas yr ymyriadau) mewn ffordd y gall y rhieni ei deall.

3.27 Mae yna ofynion penodol hefyd[14] i roi hysbysiad[15] neu wybodaeth ar adegau arbennig neu i drafod materion arbennig gyda rhieni. Ymdrinnir â'r rhain yn y penodau perthnasol sy'n delio â'r penderfyniad neu'r broses dan sylw.

[12] Adran 6 o'r Ddeddf.
[13] Adran 6 o'r Ddeddf.
[14] Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer rhai, rheoliadau ar gyfer eraill, a rhai yn ofynion a osodir gan y Cod.
[15] Mae canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.

3.28 Er mwyn i rieni gael eu cefnogi a'u grymuso i allu rhannu eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau, ac i gymryd rhan weithredol yn y broses, mae angen rhoi gwybodaeth a chyngor iddynt y gallant ei ddeall.

3.29 Bydd angen gwahanol lefelau o gymorth ar wahanol rieni. Mae angen iddynt deimlo'n ffyddiog y bydd rhywun yn gwrando arnynt a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Dylai awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach roi cefnogaeth i rieni i'w galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y cyfarfodydd priodol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â llunio neu adolygu CDU ar gyfer eu plentyn.

3.30 Efallai y bydd angen helpu rhai rhieni yn fwy na dim ond eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chyngor; er enghraifft, efallai nad oes ganddynt y cyfleusterau i gael gafael ar yr wybodaeth neu fod anawsterau ganddynt o ran dealltwriaeth.

3.31 Efallai y bydd angen cymorth ar rai rhieni i weld eu plant fel partneriaid yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â'u haddysg. Gallent fod yn pryderu, er enghraifft, nad yw eu plentyn mewn sefyllfa i ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Gallai rhoi cefnogaeth ac anogaeth i rieni mewn sefyllfa felly helpu i oresgyn yr anawsterau a sicrhau bod eu plentyn yn cael cymryd rhan yn llawn.

3.32 Yn ogystal, efallai y bydd angen cymorth ar rieni i dderbyn y ffaith bod eu plentyn yn tyfu i fod yn berson ifanc. Gallai hyn godi yn enwedig os bydd person ifanc yn dewis peidio â chael cymorth ei rieni mewn perthynas â'i ADY, ac yn dewis cael cymorth gan weithiwr cymorth, gweithiwr cymdeithasol, cynghorydd gyrfaoedd neu rywun arall. Gyda chefnogaeth, efallai y daw'r rhieni i ddeall bod penderfyniad eu plentyn i ddewis ymwneud yn uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol yn gam pwysig ar ei daith i annibyniaeth fwy, gan ei helpu i reoli ei ddysgu ei hun.

# Pennod 4: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

## *Cyflwyniad*

4.1 Mae'r bennod hon yn delio â'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol a chyrff GIG i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[1] a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau[2] wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Mae'n darparu canllawiau ar y camau y gallai awdurdodau lleol a chyrff GIG ystyried eu cymryd wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn.

4.2 Rhoddir effaith i egwyddorion y Confensiynau yn y Ddeddf a'r Cod, ac felly wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, ac wrth gydymffurfio â'r Ddeddf, mae awdurdodau lleol a chyrff GIG yn debygol o roi effaith i'r erthyglau perthnasol o dan y Confensiynau.

4.3 Er enghraifft, mae erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn darparu:

1. y bydd Partïon Gwladwriaethau yn sicrhau bod gan y plentyn sy'n gallu ffurfio ei safbwyntiau ei hun am fater yr hawl i fynegi'r safbwyntiau hynny yn rhydd ym mhob mater sy'n effeithio arno, gan sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn cario'r pwysau dyledus yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn

2. i'r diben hwn, bod y plentyn yn cael cyfle yn benodol i roi ei safbwynt mewn unrhyw achos barnwrol a gweinyddol sy'n effeithio ar y plentyn, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol cyfraith y wlad.

4.4 Rhoddir effaith i hyn yn y Ddeddf drwy'r canlynol (ymhlith elfennau eraill):

- y ddyletswydd o dan adran 6 o'r Ddeddf am gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc (gweler Pennod 3 o'r Cod);
- dyletswyddau o dan adran 9 o'r Ddeddf am ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY i blant a phobl ifanc (yn ogystal ag eraill) a'r system y

[1] Mabwysiadwyd y Confensiwn hwn a'i agor i'w lofnodi, ei gadarnhau'n swyddogol ac i gydsynio iddo drwy benderfyniad 44/25 Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.
[2] Mabwysiadwyd y Confensiwn hwn a'r protocol dewisol ar 13 Rhagfyr 2006 drwy benderfyniad A/RES/61/106 Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig a chafodd ei agor i'w lofnodi ar 30 Mawrth 2007.

mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn darparu ar ei chyfer (gweler Pennod 6 o'r Cod), i hwyluso eu cyfranogiad;
- hawliau plant a phobl ifanc i apelio i'r Tribiwnlys o dan adrannau 70 a 72 o'r Ddeddf (gweler Pennod 26 o'r Cod), gan gynnwys, yn achos plentyn nad oes ganddo alluedd, drwy gyfaill achos o dan adran 85 o'r Ddeddf (gweler Pennod 27 o'r Cod).

4.5 Gyda golwg ar wreiddio'r hawliau o dan y Confensiynau hynny ymhellach, mae dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a chyrff GIG. **Rhaid**[3] i awdurdodau lleol a chyrff GIG roi sylw dyledus i:

- Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i brotocol dewisol wrth gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc anabl.

4.6 Nid[4] yw'r dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff GIG roi ystyriaeth benodol i'r Confensiynau bob tro y caiff swyddogaeth ei chyflawni.

4.7 Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff GIG (hynny yw, **rhaid**[5] iddynt) roi sylw dyledus i'r Confensiynau wrth gynllunio i gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Byddai'r angen i wneud hyn yn codi wrth gynnal gweithgareddau fel:

- cynllunio'n gyffredinol i gyflwyno DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY y maent yn cyflawni'r swyddogaethau ar eu cyfer (yn hytrach nag mewn perthynas ag unigolyn penodol);
- sefydlu systemau y caiff dyletswyddau o dan y Ddeddf sy'n ddyledus i blant a phobl ifanc eu gweithredu o'u mewn; a/neu
- paratoi, monitro neu werthuso trefniadau o fewn yr awdurdod neu'r corff sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

4.8 Mae rhoi 'sylw dyledus' yn golygu ystyried yr hawliau yn y Confensiynau ac yna ystyried pa gamau i'w cymryd yng ngoleuni'r hawliau hynny i roi effaith bellach iddynt. Os nad yw hawl yn berthnasol mewn cyd-destun penodol, nid oes angen ei hystyried ymhellach. Os yw hawl yn berthnasol, yna **dylid** rhoi sylw dyledus iddi pan fydd yr awdurdod lleol neu'r corff GIG yn penderfynu pa

[3] Adrannau 7 ac 8 o'r Ddeddf
[4] Adran 7(3) o'r Ddeddf
[5] Darpariaeth o dan adrannau 7(4) ac 8(4) o'r Ddeddf yw hon yn nodi'r hyn sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd.

gamau i'w cymryd. Nid oes angen sicrhau canlyniad penodol. Fodd bynnag, drwy roi sylw dyledus, mae'r hawliau o dan y Confensiynau yn debygol o ymwreiddio ymhellach wrth i'r awdurdod lleol neu'r corff GIG gyflawni swyddogaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

4.9 **Dylai'r** awdurdod lleol neu'r corff GIG ystyried sylwedd hawl a'i hystyried yng nghyd-destun cynllunio beth y mae angen ei wneud i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf a'r Cod, er enghraifft y ddyletswydd[6] i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc wrth gyflawni swyddogaethau. Efallai y bydd awdurdod lleol neu gorff GIG yn dod i'r casgliad nad oes mwy y gall ei wneud neu y mae angen ei wneud mewn perthynas â mater penodol ar wahân i gydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf neu'r Cod (a allai fod yn fanwl iawn). Mewn cyd-destunau eraill, gallai'r awdurdod neu'r corff benderfynu cymryd camau pellach, neu gallai ddylanwadu ar ei drefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau, gyda'r nod o roi mwy o effaith i'r hawliau o dan un confensiwn neu'r ddau.

## *Dyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

4.10 Bydd perthnasedd yr hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dibynnu ar yr union gyd-destun. Yn gyffredinol, dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i awdurdod lleol neu gorff GIG[7]:

- Erthygl 2 - Peidio â gwahaniaethu;
- Erthygl 3 - Buddiannau gorau'r plentyn;
- Erthygl 5 - Cyfarwyddyd rhieni a'r ffaith bod gallu plentyn yn datblygu;
- Erthygl 6 – Goroesi a datblygu;
- Erthygl 12 - Parchu safbwyntiau'r plentyn;
- Erthygl 13 - Rhyddid mynegiant;
- Erthygl 16 – Hawl i breifatrwydd;
- Erthygl 18 – Cyfrifoldeb rhieni;
- Erthygl 23 - Plant anabl;
- Erthygl 24 - Iechyd;
- Erthygl 25 - Adolygu triniaeth mewn gofal;
- Erthygl 28 - Addysg;
- Erthygl 29 - Nodau addysg;
- Erthygl 30 – Hawliau lleiafrifoedd a iaith gyntaf;
- Erthygl 31 - Hamdden, chwarae a diwylliant.

4.11 O dan y Confensiwn, person o dan 18 oed yw plentyn oni bai ei fod yn gymwys i gael ei ystyried yn oedolyn yn gynharach o dan y gyfraith sy'n

[6] Yn adran 6 o'r Ddeddf
[7] Crynodeb byr iawn yw'r disgrifiadau isod o'r erthyglau, a'u nod yw rhoi syniad o'r maes cyffredinol y mae'r erthyglau yn ymwneud ag ef; mae'r erthyglau eu hunain yn llawer llawnach ac yn rhoi sylw i fwy o fanylion a allai fod yn berthnasol nag a nodir yn y disgrifiad.

gymwys i'r plentyn. Efallai y bydd llawer o'r egwyddorion, o fewn y cyd-destun, yn berthnasol i bobl ifanc hefyd.

4.12 Mae'r Comisiynydd Plant wedi datblygu'r pum egwyddor ganlynol ar sail hawliau'r Confensiwn. Wrth roi sylw i'r Confensiwn, efallai y bydd ystyried yr egwyddorion hyn yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol a chyrff GIG:

- **gwreiddio hawliau plant** - rhoi'r lle canolog i hawliau plant wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaeth;
- **cydraddoldeb a dim camwahaniaethu** - sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu gystal â phosibl;
  **grymuso plant a phobl ifanc** - gwella sgiliau plant fel unigolion er mwyn cynyddu eu gallu i fanteisio ar eu hawliau, ac ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u dal i gyfrif;
- **cyfranogiad** - gwrando ar blant a phobl ifanc, a rhoi ystyriaeth lawn i'w safbwyntiau;
- **atebolrwydd** - dylai awdurdodau lleol a chyrff GIG fod yn atebol i blant a phobl ifanc am y penderfyniadau a'r camau y maent yn eu cymryd sy'n effeithio ar eu bywydau.

4.13 Gallai canllawiau'r Comisiynydd Plant ar yr egwyddorion hyn fod o ddefnydd i awdurdodau lleol a chyrff GIG hefyd: *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru,* a *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru*[8].

## *Dyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau*

4.14 Bydd perthnasedd yr hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn dibynnu ar yr union gyd-destun. Yn gyffredinol, dyma'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i awdurdod lleol neu gorff GIG[9]:

- Erthygl 5 - Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu;
- Erthygl 7 - Plant ag anableddau;
- Erthygl 8 - Codi ymwybyddiaeth;
- Erthygl 9 - Hygyrchedd;
- Erthygl 12 - Cydnabyddiaeth gyfartal gerbron y gyfraith;
- Erthygl 13 - Mynediad i gyfiawnder;
- Erthygl 17 - Diogelu uniondeb yr unigolyn;

[8] Canllawiau gan y Comisiynydd Plant yw'r rhain sydd ar gael wrth lunio'r Cod hwn. Mae'n bosibl y cânt eu disodli gan ganllawiau eraill maes o law. Wrth lunio'r Cod, maent ar gael yn: https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/y-ffordd-gywir-2/ a https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/dull-gweithredu-seiliedig-ar-hawliau-plant-i-addysg-yng-nghymru/

[9] Crynodeb byr iawn yw'r disgrifiadau isod o'r erthyglau, a'u nod yw rhoi syniad o'r maes cyffredinol y mae'r erthyglau yn ymwneud ag ef; mae'r erthyglau eu hunain yn llawer llawnach ac yn rhoi sylw i fwy o fanylion a allai fod yn berthnasol nag a nodir yn y disgrifiad.

- Erthygl 19 - Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned;
- Erthygl 20 - Symudedd personol;
- Erthygl 21 - Rhyddid mynegiant a barn, a mynediad i wybodaeth;
- Erthygl 23 - Parch tuag at y cartref a'r teulu;
- Erthygl 24 - Addysg;
- Erthygl 25 - Iechyd;
- Erthygl 26 - Sefydlu ac adsefydlu;
- Erthygl 30 - Cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol, hamdden a chwaraeon.

4.15 Wrth gyflawni'r ddyletswydd, efallai y bydd y Model Cymdeithasol o Anabledd[10] o ddefnydd i awdurdodau lleol a chyrff GIG. Mae'r model hwn yn seiliedig ar y gred mai cymdeithas sy'n creu anabledd yn hytrach na'r namau corfforol neu feddyliol sydd gan unigolion, drwy ei hagweddau a'i rhwystrau ffisegol. Mae'r Model Cymdeithasol yn ddull cadarnhaol o ymwneud ag anabledd, sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar y rhwystrau o ran cydraddoldeb.

## _Cyflawni'r dyletswyddau yn ymarferol_

4.16 Fel y disgrifir uchod, mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r hawliau perthnasol yn y Confensiynau yn golygu ystyried pa gamau i'w cymryd wrth gynllunio i gyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mater i'r awdurdod lleol neu'r corff GIG yw penderfynu sut i gyflawni ei swyddogaethau a bydd hyn yn dibynnu ar y cyd-destun.

4.17 Ymhlith y camau gweithredu posibl y bydd am eu hystyried efallai mae:

- camau i sicrhau bod arweinwyr a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY yn ymwybodol o'r hawliau perthnasol o dan gonfensiynau plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini ag anableddau, er enghraifft drwy hyfforddiant staff;
- cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwaith cynllunio strategol ac wrth gyflwyno gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y rheini ag ADY. Gallai hyn helpu i sicrhau bod yr hawliau yn ymwreiddio'n well yn y broses o gyflwyno'r gwasanaethau hynny, er enghraifft drwy roi cyfle i blant esbonio sut y gellid holi eu barn mewn prosesau lle caiff penderfyniadau eu gwneud amdanyn nhw;
- cynnal asesiadau effaith mewn rhai amgylchiadau, lle ystyrir hynny yn briodol. Gall y rhain fod yn ddefnyddiol i asesu a chofnodi ystyriaethau ynghylch effaith unrhyw bolisïau arfaethedig sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY neu a allai fod ag ADY;

[10] Ar adeg llunio'r Cod, mae mwy o wybodaeth am y Model Cymdeithasol o Anabledd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/socialmodel/?skip=1&lang=cy

- adolygu gwasanaethau ac adnoddau ADY er mwyn adnabod unrhyw rwystrau o ran mynediad plant a phobl ifanc i'r gwasanaethau hyn, a chymryd camau a fyddai'n cael gwared ar effaith y rhwystrau hynny neu'n eu lleihau.  I awdurdodau lleol, gallai hyn fod yn rhan o'u gwaith cynllunio strategol a'u hystyriaethau wrth adolygu'r DDdY sydd ar gael i blant a phobl ifanc o fewn eu hardal (gweler Pennod 5 o'r Cod ar ddyletswydd awdurdodau lleol i adolygu DDdY yn rheolaidd);
- darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ag ADY gyfrannu at bolisïau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY, a dylanwadu arnynt. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i blant a phobl ifanc ag ADY gydweithio i ddatblygu syniadau a threialu cynigion.

# Pennod 5 - Dyletswydd i adolygu DDdY yn rheolaidd

## *Cyflwyniad*

5.1 **Rhaid**[1] i awdurdod lleol adolygu'n rheolaidd y trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir o fewn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.

5.2 Fel rhan o'u gwaith adolygu, mae'n **rhaid**[2] i awdurdodau lleol ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt. **Rhaid**[3] iddynt roi sylw hefyd i'r DDdY a all gael ei threfnu'n rhesymol gan eraill (er enghraifft sefydliadau addysg bellach a chyrff GIG).

5.3 Wrth arfer ei swyddogaethau yn y cyswllt hwn, mae'n **rhaid**[4] i'r awdurdod lleol ystyried digonolrwydd y DDdY a gyflwynir drwy'r Gymraeg.

5.4 **Rhaid**[5] ystyried hefyd faint a gallu'r gweithlu sydd ar gael. **Dylai** hyn gynnwys ystyried y gweithlu cyfrwng Cymraeg.

5.5 Os bydd awdurdod lleol o'r farn nad yw'r trefniadau lleol yn ddigonol, **rhaid**[6] iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r sefyllfa.

5.6 **Dylai** awdurdodau lleol gofnodi canfyddiadau eu hadolygiadau. **Dylai** hyn gynnwys lle nad yw'r galw am ddarpariaeth yn cael ei fodloni, neu lle mae perygl o beidio â'i fodloni, yn ogystal â lle mae yna ormod o ryw adnodd penodol. Bydd cofnodi gwybodaeth fel hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i asesu addasrwydd y cymal 'pob cam rhesymol' i sicrhau DDdY, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod adolygiadau awdurdodau lleol yn gwbl gydnaws â'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gweler Pennod 2 o'r Cod i gael gwybod mwy am ddyletswyddau[7] Gweinidogion Cymru i adolygu digonolrwydd y DDdY a gyflwynir drwy'r Gymraeg.

## *Cynnal adolygiad*

5.7 Nid bwriad yr adolygiad yw mesur neu fonitro ansawdd y DDdY i blant a phobl ifanc unigol ag ADY; byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o CDU pob dysgwr (gweler Pennod 16 o'r Cod) a chan CADYau wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â monitro effeithiolrwydd y DDdY ar gyfer dysgwyr yn eu lleoliad (gweler Pennod 24 o'r Cod). Yn hytrach, diben

[1] Adran 63(1) o'r Ddeddf.
[2] Adran 63(2) o'r Ddeddf.
[3] Adran 63(2) o'r Ddeddf.
[4] Adran 63(3)(a) o'r Ddeddf.
[5] Adran 63(3)(b) o'r Ddeddf.
[6] Adran 63(4) o'r Ddeddf.
[7] Adran 89 o'r Ddeddf.

adolygiad yr awdurdod lleol o DDdY yw ei alluogi i asesu p'un a yw'r DDdY gyffredinol o fewn ei ardal yn ddigonol i ddiwallu anghenion cyffredinol ei boblogaeth o ddysgwyr sydd ag ADY.

5.8 Mae adolygu DDdY yn rheolaidd yn rhan allweddol o gynllunio a gwneud penderfyniadau strategol yn lleol, gan alluogi awdurdodau lleol i asesu anghenion tebygol yn y dyfodol a sicrhau darpariaeth a gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

5.9 **Dylai** adolygiadau ategu proses yr awdurdod lleol o wneud penderfyniadau strategol ynglŷn ag a oes gan yr awdurdod y mathau cywir o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion ei boblogaeth sydd ag ADY nawr ac yn y dyfodol, a oes ganddo'r lefel gywir o ddarpariaeth ac a yw'r ddarpariaeth o'r ansawdd cywir. **Dylai'r** adolygiadau hefyd sefydlu'r camau y dylid eu cymryd i unioni unrhyw ddiffygion.

5.10 **Dylid** cynnal yr adolygiadau mewn ffordd a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i asesu'r angen tebygol yn y dyfodol, cynllunio ar gyfer y gofynion o ran darpariaeth yn y dyfodol, ystyried cynlluniau comisiynu ymlaen llaw a rhoi cyfle i ysgolion fynegi barn ar sut i gynllunio'r ddarpariaeth.

5.11 Gallai adolygiad ddarparu gwybodaeth i awdurdod lleol am, er enghraifft, y defnydd o wasanaethau arbenigol penodol o fewn yr ardal a llwyddiant y trefniadau presennol, gan roi cyfle i'r awdurdod ystyried a oes dull mwy effeithlon ar gael o ddiwallu'r anghenion hynny yn y dyfodol.

5.12 **Dylai** adolygiad yr awdurdod lleol geisio darparu tystiolaeth hefyd o'r graddau y mae'r canlynol ar gael mewn ysgolion:

- addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc unigol;
- addasiadau rhesymol priodol i alluogi plant a phobl ifanc sy'n anabl i gael mynediad i amgylchedd yr ysgol, a chael manteisio ar y cwricwlwm a'r cyfleusterau;
- ymyriadau a chymorth wedi'i dargedu i blant a phobl ifanc ag ADY;
- systemau effeithiol i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc ag ADY ac i'w cynnwys ym mywyd bob dydd yr ysgol;
- trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr lle bo angen;
- trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddiwyd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY, a sgiliau ac arbenigedd staff;
- trefniadau ar gyfer cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni ar bob cam.

5.13 Efallai y bydd awdurdodau lleol yn ystyried darparu canllawiau i ysgolion ar y materion hyn ac ar y ddarpariaeth y byddai disgwyl i ysgolion ei chynnig, fel rheol, i blant a phobl ifanc ag ADY. Gallent ystyried cyhoeddi manylion y gefnogaeth y gall ysgolion ei disgwyl gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid, gan gynnwys partneriaid o fewn cyrff GIG, ar gyfer plant a phobl ifanc y mae angen DDdY arnynt. Mae'n bosibl hefyd y byddant am sefydlu grwpiau cymedroli i hybu tryloywder a chysondeb wrth wneud penderfyniadau ynghylch achosion a gyfeirir gan ysgolion.

5.14 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, **rhaid**[8] i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r personau a/neu'r cyrff y mae'n eu hystyried yn briodol, ar adegau y mae'n eu hystyried yn briodol. Ymhlith y cyrff a'r personau y gallai'r awdurdod lleol ymgynghori â nhw mae:

- plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- ysgolion a gynhelir
- sefydliadau addysg bellach
- CADYau
- ysgolion annibynnol
- darparwyr addysg ôl-16 arbennig
- darparwyr addysg feithrin nas cynhelir
- swyddog arweiniol ADY blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol
- seicolegwyr addysg
- gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan yr awdurdod lleol (er enghraifft athrawon arbenigol dysgwyr â nam ar eu clyw, eu golwg neu fwy nag un synnwyr)
- gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau datrys anghytundeb ac anghydfod
- timau troseddau ieuenctid
- cyrff GIG
- swyddogion arweiniol clinigol dynodedig addysg
- consortia addysg rhanbarthol
- sefydliadau'r trydydd sector
- undebau a chyrff proffesiynol

5.15 Mae cynnwys y cyrff a'r personau uchod yn yr adolygiadau hyn yn hanfodol i helpu'r awdurdod lleol i gael darlun clir o gapasiti ac effeithiolrwydd y DDdY bresennol. Gallant gynnig eu safbwyntiau ar yr anghenion sy'n dod i'r amlwg a phatrymau'r anghenion, ynghyd ag addasrwydd y sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael yn y gweithlu. Gallant hefyd gyfrannu at benderfyniadau am y camau rhesymol y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn eu cymryd i unioni unrhyw ddiffygion.

5.16 Mae adolygu DDdY yn broses barhaus a **dylai** awdurdodau lleol gysylltu eu gweithgarwch â chamau a gymerir i gyflawni dyletswyddau strategol ehangach, gan gynnwys:

- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 - sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddrafftio Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ymgynghori arnynt a'u cyhoeddi, gan ddangos sut y byddant yn ceisio sicrhau'r deilliannau a chyrraedd y targedau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg o fewn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys deilliant sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY, ac un arall sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu. **Dylid** defnyddio canfyddiadau adolygiadau awdurdodau lleol o DDdY fel sail i gynlluniau

[8] Adran 63(5) o'r Ddeddf.

awdurdodau lleol o ran y ddau ddeilliant mewn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad ar y cyd o'r boblogaeth i gael gwybod beth yw'r anghenion gofal a chymorth o fewn ardal[9,10];
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - sy'n sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o fewn ardal drwy gryfhau cydweithio ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys aelodau o awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

5.17 **Dylai** adolygu DDdY gynnwys adolygu data a thystiolaeth am effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc, a gwella'u deilliannau. Wrth adolygu digonolrwydd eu trefniadau, gallai awdurdodau lleol ystyried:

- canfyddiadau a deilliannau unrhyw achosion yr apeliwyd i'r Tribiwnlys yn eu cylch yn ddiweddar, ac unrhyw anghytundebau am DDdY yr ymdriniwyd â nhw ar lefel leol;
- nifer y dysgwyr ag ADY o fewn ardal yr awdurdod lleol sydd ar fin trosglwyddo o leoliad cyn-ysgol i'r ysgol, o'r ysgol i addysg bellach, ac o un lleoliad addysg feithrin/ysgol/sefydliad addysg bellach/ardal awdurdod lleol i un arall;
- lleoliadau y tu allan i'r ardal ar gyfer y rheini sydd ag anghenion prin a/neu lefel uchel;
- deilliannau perthnasol asesiadau datblygiad ymwelwyr iechyd a gwybodaeth berthnasol o Raglen Plant Iach Cymru;
- data perthnasol am blant a phobl ifanc anabl o fewn eu hardal o'r gofrestr pobl anabl, y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei chadw[11,12];
- gwybodaeth berthnasol o'r asesiad o anghenion y boblogaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- gwybodaeth berthnasol o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol, yn benodol mewn perthynas â'r deilliannau am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY, a chynllunio'r gweithlu;
- unrhyw rwystrau sydd wedi'u hadnabod sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad at wasanaethau ADY;
- y canllawiau ym Mhennod 4 o’r Cod, sy'n rhoi effaith i'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

[9] Adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[10] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)
[11] Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[12] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)

ar Hawliau Plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau;
- anghenion penodol unrhyw gymunedau sydd yn y Lluoedd Arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n perthyn i deuluoedd staff y Lluoedd Arfog sydd ag ADY (gweler Pennod 23 o'r Cod i gael canllawiau pellach ar blant a phobl ifanc sy'n perthyn i deuluoedd staff y Lluoedd Arfog).

5.18 Gallai ystyried data a gwybodaeth o'r fath helpu awdurdodau lleol i adnabod:

- ystod a lefel y ddarpariaeth sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr o'r fath;
- ystod a lefel y ddarpariaeth sy'n ofynnol er mwyn atal cynnydd yn yr anghenion;
- ystod a lefel y ddarpariaeth Gymraeg sydd ei hangen.

5.19 Mae defnyddio mwy o wasanaethau a gweithio mewn ffordd fwy amlasiantaethol yn help i gynllunio a chomisiynu darpariaeth yn well i blant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys addysg a hyfforddiant a chymorth i bobl ifanc ag ADY sy'n cymryd y cam i fyd oedolion drwy sicrhau mynediad i gyflogaeth, cyfleoedd hamdden a chymdeithasol, a'r cyfle i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl.

## *Yn dilyn adolygiad o DDdY*

5.20 Os bydd awdurdod lleol yn ystyried nad yw'r trefniadau ar gyfer dysgwyr ag ADY (gan gynnwys y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael drwy'r Gymraeg) yn ddigonol, **rhaid**[13] iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater.

5.21 Er enghraifft, efallai y bydd awdurdod lleol yn gweld bod yna nifer uwch o ddysgwyr sydd ag ADY penodol yn agosáu at oedran ysgol gorfodol. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn y gallai fod angen darpariaeth benodol ar y dysgwyr hyn wrth ddechrau'r ysgol, a bod angen arbenigwyr ychwanegol i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn, **rhaid**[14] iddo gymryd camau i ddatrys hyn.

5.22 Wrth ystyried sut i gywiro diffygion yn eu trefniadau ar gyfer dysgwyr ag ADY, **dylai** awdurdodau lleol ystyried a ellid mynd i'r afael â'r diffyg drwy ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, cyrff GIG neu asiantaethau eraill rhanbarthol. Er enghraifft, efallai y gellid diwallu anghenion dysgwyr ag ADY o fewn ardal un awdurdod lleol drwy ddarparu gwasanaeth a fyddai'n diwallu anghenion dysgwyr ag ADY o fewn ardaloedd dau neu fwy o awdurdodau lleol. Yn yr un modd, gallai'r trydydd sector a darparwyr eraill helpu i ddiwallu angen drwy'r gwasanaethau a ddarparant. Efallai y gellid darparu gwasanaethau ar y cyd ag awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.

[13] Adran 63(4) o'r Ddeddf.
[14] Adran 63(4) o'r Ddeddf.

5.23 Yn unol ag egwyddor cydweithredu (gweler Pennod 2 o’r Cod), **dylai** awdurdodau lleol fynd ati'n rhagweithiol i adnabod cyfleoedd i rannu adnoddau ag awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran ateb y galw am ddarpariaeth Gymraeg, a sicrhau digonolrwydd y gweithlu arbenigol.

5.24 Gallai penderfyniadau strategol a gymerir yn sgil adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol gynnwys:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd yn cymryd rhan fwy yn y gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau strategol;
- cefnogi clystyrau o ysgolion i wella cyfleoedd hyfforddi a datblygu, a chynnig cymorth cyfoedion;
- gwella mynediad i gyngor a chymorth arbenigol – er enghraifft, cyngor seicoleg addysgol, therapïau, cymorth synhwyraidd, cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth, neu i'r rheini ag anghenion cymdeithasol, emosiynol a meddyliol;
- sicrhau darpariaeth briodol drwy'r Gymraeg;
- datblygu darpariaeth ag adnoddau arbennig mewn nifer o ysgolion;
- creu cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd er mwyn hybu'r arfer o rannu arbenigedd a dulliau gweithredu;
- meithrin gallu pob ysgol brif ffrwd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth ehangach o anghenion;
- datblygu'r gallu i gynnig pecynnau cymorth addysg, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gallu addysgu mwy o blant yn lleol yn hytrach nag mewn lleoliadau y tu allan i'w hardal.

5.25 Cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn rheolaidd, ond yn aml bydd camau i fynd i'r afael â materion sydd wedi’u hadnabod yn fwy effeithiol o'u cymryd ar y cyd ag eraill. **Dylai** awdurdodau lleol a'u partneriaid o fewn cyrff GIG ystyried gweithio gyda meysydd eraill i ddatblygu trefniadau rhanbarthol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Gallai'r trefniadau rhanbarthol ymwneud ag unrhyw un o'r gweithgareddau strategol uchod neu â phob un ohonynt.

5.26 **Dylai** awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried ar lefel strategol p'un a oes angen newid y trefniadau cyllid ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY yn sgil y gwaith o adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

# Pennod 6: Cyngor a gwybodaeth

## *Cyflwyniad*

6.1 **Rhaid**[1] i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY i bobl. **Rhaid**[2] iddynt roi sylw i'r egwyddor o ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor mewn ffordd ddiduedd.

6.2 **Rhaid**[3] i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'r rhestr o bersonau a chyrff a nodir ym mharagraff 6.12 am drefniadau o'r fath.

6.3 Os caiff ysgol neu sefydliad addysg bellach wybod am y trefniadau hyn, **rhaid**[4] iddo gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'w ddisgyblion, eu rhieni a'u cyfeillion achos neu i'w fyfyrwyr beth yw'r trefniadau.

6.4 **Rhaid**[5] i'r cyngor a'r wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i blant, eu rhieni a phobl ifanc fod yn rhad ac am ddim.

## *Trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth*

6.5 Efallai y bydd awdurdod lleol yn dewis darparu'r cyngor a'r wybodaeth drosto'i hun. Fel arall, gallai'r awdurdod lleol weithio gyda darparwyr gwasanaethau allanol, gan gynnwys y trydydd sector, i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY. Sut bynnag y bydd awdurdodau lleol yn penderfynu darparu'r wybodaeth a'r cyngor, wrth wneud eu trefniadau, **rhaid**[6] iddynt roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid darparu'r wybodaeth a'r cyngor mewn ffordd ddiduedd.

6.6 Mae cyngor a gwybodaeth, ynddynt eu hunain, yn wrthrychol ac yn ddiduedd. Mae'n bwysig eu cyflwyno mewn ffordd ddiduedd gan mai pwrpas eu darparu yw ei gwneud yn haws i blant, eu rhieni a phobl ifanc ddeall y system ac arfer eu hawliau o dani, gan gynnwys herio penderfyniadau.

### Gwybodaeth a chyngor a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol

6.7 Mae llawer o ffyrdd y gall awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor am eu gwasanaethau ADY, gan gynnwys taflenni, posteri, gwefannau, canolfannau cyswllt wyneb yn wyneb, a llinellau cymorth ffôn. Efallai y bydd awdurdod lleol am ystyried sefydlu cyfeiriadur, sef un ffynhonnell wybodaeth ar y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael o fewn yr ardal. Gallai'r cyfeiriadur gynnwys:

- trefniadau gwybodaeth a chyngor;

[1] Adran 9(1) o’r Ddeddf.
[2] Adran 9(2) o’r Ddeddf.
[3] Adran 9(3) o’r Ddeddf.
[4] Adrannau 9(4) a 9(5) o'r Ddeddf.
[5] Adran 49 o'r Ddeddf.
[6] Adran 9(2) o’r Ddeddf.

- trefniadau osgoi a datrys anghytundebau;
- gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth annibynnol a sut i gael gafael arnynt.

6.8 **Dylai'r** wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol fod yn ffeithiol a dylid defnyddio iaith y gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ei deall yn hawdd. **Dylai'r** awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd helaeth iddi, dylai fod yn hawdd cael gafael arni, a dylid ei diweddaru'n rheolaidd. Gweler yr adran isod am ganllawiau pellach ar sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar gyngor a gwybodaeth (paragraffau 6.18-6.21).

**Gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan ddarparwr allanol**

6.9 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyngor a gwybodaeth drwy roi contract i ddarparwr gwasanaeth allanol ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn, **dylai**:

- roi gwybod i blant, eu rhieni a phobl ifanc bod sefydliad arall yn darparu cyngor a gwybodaeth ar ran yr awdurdod lleol - **dylid** gwneud hyn yn glir ar wefan yr awdurdod lleol ac wrth drafod ADY gyda dysgwyr (a'u teuluoedd lle bo'n briodol);
- sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyngor a ddarperir yn hawdd cael gafael arnynt;
- pennu a monitro safon gyffredinol y gwasanaeth;
- sicrhau bod trefniadau llywodraethiant priodol yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth.

## *Amcanion a natur y cyngor a'r wybodaeth*

6.10 **Dylai'r** wybodaeth o dan y trefniadau a sefydlir fod yn glir a chywir a dylai ymwneud â'r system ADY. **Dylai'r** wybodaeth a'r cyngor a ddarperir godi ymwybyddiaeth plant, eu rhieni a phobl ifanc o'r canlynol a'u helpu i'w deall:

- beth yw ADY;
- eu hawliau o dan y system ADY;
- y gwahanol asiantaethau sy'n gysylltiedig a'u rolau (gweler Pennod 15 o'r Cod);
- trosglwyddo a chynllunio trosglwyddo;
- y gwahanol weithdrefnau cwyno (gweler Pennod 25 o'r Cod);
- gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ac eiriolaeth annibynnol (gweler Pennod 25 o'r Cod);
- sut i apelio yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach, gan gynnwys, yn achos penderfyniadau gan ysgol a gynhelir, neu CDUau a gynhelir gan ysgol a gynhelir, sut i wneud cais i awdurdod lleol ailystyried y mater.

6.11 Wrth wneud trefniadau ar gyfer gwybodaeth a chyngor, **dylai** awdurdodau lleol, yn ôl yr hyn y maent yn ei ystyried yn briodol, wneud darpariaeth ar gyfer

cyfeirio plant, eu rhieni a phobl ifanc i ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth amgen ac ychwanegol perthnasol a allai fod ar gael yn lleol neu'n genedlaethol.

## _Codi ymwybyddiaeth o drefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth_

6.12 **Rhaid**[7] i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'r canlynol beth yw ei drefniadau cyngor a gwybodaeth:

(a) plant a phobl ifanc o fewn ei ardal;
(b) rhieni plant o fewn ei ardal;
(c) cyfeillion achos plant o fewn ei ardal;
(d) plant sy'n derbyn gofal ganddo sydd y tu allan i'w ardal;
(e) ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach o fewn ei ardal;
(f) unrhyw bobl eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol rhoi gwybod iddynt.

6.13 Ymhlith personau eraill y gallai awdurdod lleol ystyried ei bod yn briodol rhoi gwybod iddynt am y trefniadau mae:

- darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir o fewn ei ardal;
- swyddogion adolygu annibynnol o fewn yr awdurdod lleol;
- ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir sydd y tu allan i'w ardal, ond y mae plant neu bobl ifanc o fewn ei ardal yn eu defnyddio neu y maent yn debygol o'u defnyddio.

6.14 **Dylai** awdurdodau lleol ystyried y dulliau mwyaf priodol ar gyfer rhoi gwybod i'r personau a restrir uchod am eu trefniadau.

6.15 Gallai awdurdodau lleol ystyried rhannu gwybodaeth am eu trefniadau drwy gylchlythyrau neu fwletinau rheolaidd (gan gynnwys y rheini a gyhoeddir neu a ddosberthir gan, er enghraifft, leoliadau addysg, consortia addysg rhanbarthol, grwpiau trydydd sector neu grwpiau cymunedol) a thrwy bortholion, platfformau electronig neu wefannau a rennir.

6.16 Er mwyn rhoi gwybod am eu trefniadau i blant, eu rhieni a'u cyfeillion achos ac i bobl ifanc, **dylai** awdurdodau lleol ystyried trefnu i wybodaeth ysgrifenedig, fel taflenni a phosteri, gael ei harddangos mewn ardaloedd lle mae dysgwyr a'u teuluoedd yn debygol o'u gweld. Gallai hyn gynnwys ardaloedd cymunedol mewn meithrinfeydd, ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ac mewn lleoliadau iechyd, er enghraifft meddygfeydd teulu. **Dylai** awdurdodau lleol ystyried dosbarthu taflenni i gyrff a phersonau sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc sydd ag ADY a'u teuluoedd. Byddai'r rhain yn cynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach, ymwelwyr iechyd, darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir, meddygfeydd teulu, ac eraill y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn briodol.

[7] Adran 9(3) o'r Ddeddf.

6.17 I sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i gyngor a gwybodaeth yn electronig, **dylai** awdurdod lleol gyhoeddi ar ei wefan dudalen wybodaeth benodol. Mae angen i gyngor a gwybodaeth fod yn hawdd i ddysgwyr, eu teuluoedd ac eraill ddod o hyd iddynt.

## *Hwylustod cael cyngor a gwybodaeth*

6.18 Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf i wneud trefniadau ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth ac i gymryd camau rhesymol i wneud pobl yn ymwybodol o'r trefniadau hynny, **dylai** awdurdodau lleol roi sylw i'r egwyddor y dylai'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir fod yn hawdd cael gafael arnynt.

6.19 Er enghraifft, **dylai** awdurdodau lleol:

- ddefnyddio Cymraeg a Saesneg clir ac osgoi defnyddio jargon diangen;
- creu fersiynau eraill (er enghraifft, hawdd ei ddeall, Braille neu ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg) ar gyfer y rheini sydd eu hangen.

6.20 **Dylai** awdurdodau lleol ddarparu cyngor a gwybodaeth ar amrywiol fformatiau er hwylustod i bob cynulleidfa berthnasol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, llunio taflenni neu bosteri sy'n targedu'r gwahanol gynulleidfaoedd a datblygu apiau sy'n targedu plant hŷn a phobl ifanc.

6.21 Efallai na fydd gan rai plant y galluedd i wneud cais am gyngor a gwybodaeth neu i'w deall (am eu bod yn rhy ifanc, er enghraifft), er y caiff eu rhieni neu eu cyfeillion achos gael gafael ar yr wybodaeth a'r cyngor (gweler Pennod 27 i gael manylion rôl cyfeillion achos). Efallai y bydd plant eraill am gael gafael ar wybodaeth a chyngor yn annibynnol ar eu rhieni. **Dylai** awdurdodau lleol, felly, sicrhau bod y trefniadau yn darparu ar gyfer gwybodaeth a chyngor mewn fformatiau sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn benodol, a **rhaid**[8] iddynt gymryd camau rhesymol i roi gwybod am y trefniadau hynny i blant yn eu hardal yn ogystal â rhoi gwybod i'w rhieni.

## *Cynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc*

6.22 **Dylai** awdurdodau lleol gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc (er enghraifft drwy grwpiau ffocws neu weithdai cyfranogi) yn y gwaith o gynllunio neu gomisiynu trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar y cyngor a'r wybodaeth a bod y trefniadau yn diwallu'r anghenion lleol. Er enghraifft, os bydd awdurdodau lleol yn gwneud eu trefniadau eu hunain i ddarparu cyngor a gwybodaeth ac yn penderfynu datblygu cyfeiriadur (gweler paragraff 6.7), efallai y byddant am gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r cyfeiriadur. Os bydd awdurdod lleol yn dirprwyo'r trefniadau i ddarparwr allanol, **dylai** ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr hwnnw brofi ei ddeunyddiau

[8] Adran 9(3) o'r Ddeddf.

mewn modd tebyg gyda dysgwyr a'u teuluoedd. Mae Pennod 3 yn darparu canllawiau pellach ynghylch cynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc.

## *Rôl ysgolion, sefydliadau addysg bellach a meithrinfeydd nas cynhelir yn y gwaith o hyrwyddo trefniadau gwybodaeth a chyngor awdurdodau lleol*

6.23 Os bydd awdurdod lleol yn rhoi gwybod i ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach beth yw ei drefniadau, **rhaid**[9] i'r ysgol honno neu'r sefydliad addysg bellach gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'w disgyblion a'u rhieni ac i gyfeillion achos ei disgyblion (yn achos ysgolion) beth yw ei drefniadau, ac i'w fyfyrwyr (yn achos sefydliadau addysg bellach).

6.24 Os yw darparwyr addysg feithrin nas cynhelir sy'n derbyn cyllid awdurdodau lleol yn cael gwybod am drefniadau awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor[10], **dylen** nhw hefyd gymryd camau rhesymol i roi gwybod i rieni'r plant sy'n mynychu eu lleoliad beth yw'r trefniadau.

6.25 Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- rhoi dolenni i drefniadau'r awdurdod lleol ar wefan y feithrinfa, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach;
- rhoi dolenni i drefniadau'r awdurdod lleol ym mhrosbectws y feithrinfa, yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach;
- arddangos posteri neu osod taflenni mewn ardaloedd amlwg lle mae dysgwyr a'u teuluoedd yn debygol o'u gweld.

6.26 Mae'r Cod yn gosod gofynion i ddarparu gwybodaeth am sut i gael gafael ar drefniadau awdurdod lleol i roi cyngor a gwybodaeth mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft pan fydd ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY.

---

[9] Adrannau 9(4) a 5 o'r Ddeddf.
[10] O dan adran 9 o'r Ddeddf.

# Pennod 7: Y diffiniad o ADY a DDdY, adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol

## *Cyflwyniad*

7.1 Pryd bynnag y daw i sylw ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach y gallai fod gan un o'i ddisgyblion cofrestredig neu ymrestredig (sy'n berson ifanc) ADY, **rhaid**[1] i'r lleoliad addysg hwnnw benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY oni bai bod yna amgylchiadau penodol. Mewn rhai amgylchiadau, **rhaid**[2] i awdurdodau lleol hefyd benderfynu a oes gan unigolyn ADY. Os penderfynir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, fel rheol bydd angen llunio CDU ar ei gyfer.

7.2 Mae Penodau 8 i 12 yn delio â'r dyletswyddau hyn a dyletswyddau eraill ar ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn gwahanol leoliadau addysg. Mae Pennod 13 yn delio â chynnwys CDU (ac mae Pennod 14 yn delio â chynnwys CDU plentyn sy'n derbyn gofal). Mae'r bennod yn canolbwyntio ar ystyr ADY a DDdY ac ar yr ystyriaethau wrth adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol.

## *Y diffiniad o ADY*

7.3 Mae adran 2 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol', fel y'i nodir yn ffigur 1 isod.

**Ffigur 1: y diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol**

**2 Anghenion dysgu ychwanegol**

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p' un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu

(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

[1] Adran 11 o'r Ddeddf.
[2] Adrannau 13, 18 a 40 o'r Ddeddf.

| | |
|---|---|
| (3) | Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud. |
| (4) | Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd. |
| (5) | Mae'r adran hon yn berthnasol i'r Ddeddf hon. |

## *Plant o oedran ysgol gorfodol a phersonau hŷn*

7.4 Er mwyn sefydlu a oes gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson ifanc ADY, **rhaid**[3] gofyn y cwestiynau canlynol.

**(i) A oes gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd?**

7.5 Yn gyntaf, a oes gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd (a allai neu a allai beidio deillio o gyflwr meddygol)? Mae'r prawf ar gyfer hyn yn amrywio ychydig yn ôl oedran y person. Mae is-adran (2) (a amlinellir yn ffigur 1 uchod) yn delio â sefyllfa plentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw.

7.6 Y cwestiynau allweddol i'w gofyn, felly, yw:

- A yw'r person yn cael anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na'r hyn a welir ymhlith y mwyafrif o blant neu bobl ifanc o'r un oedran?
- A oes gan y person anabledd (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir[4] neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach[5]?

7.7 Os ydych yn ateb y naill gwestiwn neu'r llall yn gadarnhaol, mae gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd at ddibenion y Ddeddf. Os mai 'Na' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn, nid oes gan yr unigolyn ADY.

**(ii) A yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY?**

7.8 Os oes gan yr unigolyn anhawster dysgu neu anabledd, y cam nesaf yw penderfynu a yw'r anhawster neu'r anabledd hwnnw yn galw am DDdY.

---

[3] Fel y'u nodir yn y diffiniad yn adran 2(1) y Ddeddf.
[4] Ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) nad ydynt yn ysgol arbennig neu'n uned cyfeirio disgyblion: adran 99(1) o'r Ddeddf.
[5] Ystyr sefydliad addysg bellach prif ffrwd yw sefydliad yn y sector addysg bellach nad yw wedi'i drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag ADY: adran 99(1) o'r Ddeddf.

7.9 Mae adran 3 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'darpariaeth ddysgu ychwanegol', fel y'i nodir yn ffigur 2 isod.

**Ffigur 2: Y diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol**

**3 Darpariaeth ddysgu ychwanegol**

(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran—

(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,

(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu

(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.

(4) Gallai rheoliadau[6] ddiwygio'r adran hon i ddisodli'r cyfeiriadau at dair oed â chyfeiriadau at oedran gwahanol.

(5) Mae'r adran hon yn berthnasol i'r Ddeddf hon.

7.10 Mae addysgu sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion dysgwyr unigol yn elfen allweddol o addysg o ansawdd, ac mae'n rhywbeth sy'n digwydd yn gyffredinol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru; bydd angen gwahaniaethu rhwng rhai agweddau ar addysg plant a phobl ifanc ar ryw bwynt. Nid yw addysgu gwahaniaethol o'r fath, ynddo'i hun, yn gyfystyr â DDdY. Bydd DDdY yn golygu darpariaeth addysgol neu hyfforddiant ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.

7.11 Gall DDdY fod ar sawl ffurf; gallai gynnwys unrhyw gymorth o fewn yr ystafell ddosbarth brif ffrwd neu'r tu allan iddi, sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn a gynigir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran. Gellir cyflwyno darpariaeth ychwanegol hefyd mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach mewn rhai amgylchiadau a/neu gan weithwyr proffesiynol allanol.

7.12 Os oes gan berson anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY, mae gan yr unigolyn ADY at ddibenion y Ddeddf.

[6] Nid oes unrhyw reoliadau wedi'u gwneud wrth i'r Cod gael ei gyhoeddi.

## *Plan o dan oedran ysgol gorfodol*

7.13 Mae yna brawf ychydig yn wahanol ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol. Y maen prawf cyntaf o hyd yw penderfynu a oes gan y plentyn anhawster dysgu neu anabledd, ond mae ystyr hynny ychydig yn wahanol. Mae'n golygu p'un a yw'r unigolyn, pan fydd o oedran ysgol gorfodol, neu p'un a fyddai pe na châi DDdY, yn debygol o fod ag:

- anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu
- anabledd (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir[7].

7.14 Mae'r ail faen prawf hefyd yr un fath ag ar gyfer plant hŷn, sef p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY. Fodd bynnag, yn achos plant o dan dair oed, mae DDdY yn golygu darpariaeth addysgol *o unrhyw fath*[8]. I'r rheini sy'n dair oed a throsodd, mae i DDdY yr un ystyr ag ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol a phobl ifanc (fel y nodir uchod).

7.15 Mae'r diffiniad o DDdY i blant o dan dair oed ychydig yn wahanol i'r diffiniad o DDdY i blant tair oed a throsodd, a hynny er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad yw addysg a gynhelir ar gael fel mater o drefn i blant o dan dair oed.

7.16 Gall DDdY i'r rheini o dan dair oed fod ar sawl ffurf, ee gwaith grŵp neu gymorth unigol - lle mae'n ddarpariaeth addysgol o unrhyw fath. Gallai hyn gynnwys darpariaeth addysgol ar ffurf grwpiau mam a'i phlentyn, darpariaeth addysgol o fewn Dechrau'n Deg neu gymorth iechyd, corfforol, cyfathrebu neu synhwyraidd arbenigol. Gall hyn ddigwydd o fewn lleoliad addysg neu yn rhywle arall.

## *Ystyried p'un a oes gan blentyn neu berson ifanc, neu p'un a allai fod ganddo ADY*

7.17 Penderfynir p'un a oes gan ddysgwr ADY sy'n galw am DDdY ar sail y diffiniadau a amlinellir yn adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf, beth bynnag yw'r achos, os o gwbl (er enghraifft cyflwr meddygol, neu ddigwyddiadau penodol, fel profedigaeth neu fwlio).

### Anawsterau dysgu

7.18 Os ymddengys bod gan blentyn neu berson ifanc ryw fath o anhawster dysgu, hyd yn oed os mai dros dro yn unig y mae hyn, gall dod i ddeall y rhesymau drosto helpu i adnabod anghenion y person, sut y gellir eu diwallu ac a yw'r anghenion hynny yn gyfystyr ag ADY (sy'n cynnwys ystyried pa mor sylweddol

[7] Gweler adran 2(3) o'r Ddeddf a amlinellir yn ffigur 1 uchod.
[8] Gweler adran 3(2) o'r Ddeddf a amlinellir yn ffigur 2 uchod.

yw'r anhawster ac a yw'n galw am DDdY). Ar ryw adeg, mae llawer o ddysgwyr yn debygol o brofi anawsterau tymor byr wrth ddysgu, boed oherwydd salwch, profedigaeth neu achosion eraill a allai arwain at broblemau dysgu tymor byr (efallai yn sgil cyfnod o absenoldeb o leoliad addysg neu anhawster yn canolbwyntio yn ystod cyfnod o'r fath), ond nad ydynt, neu nad ydynt eto, yn gyfystyr ag ADY. Mewn amgylchiadau felly, efallai y bydd angen i ysgolion a sefydliadau addysg bellach gymryd camau i helpu'r dysgwr i ddal i fyny a/neu ofalu nad yw'r anawsterau yn gwaethygu, ond fel ag yn achos addysgu gwahaniaethol, dylai'r ddarpariaeth hon i ddal i fyny fod ar gael yn gyffredinol i ddysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ac felly ni fyddai'n gyfystyr â DDdY.

7.19 Wrth ystyried p'un a allai anhawster dysgu fod yn ADY, **dylai** ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol bennu amserlenni priodol ar gyfer monitro cynnydd y dysgwr, gan gadw mewn cof bwysigrwydd ymyriadau cynnar. Mae mwy o wybodaeth am ymyriadau cynnar wedi'i nodi ym Mhennod 2 ar egwyddorion y Cod. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn amlwg o'r dechrau ei bod yn reit debygol bod yr anhawster yn gyfystyr ag ADY. Os felly, bydd y ddyletswydd i benderfynu a oes gan y person ADY yn berthnasol.

7.20 Os bydd anawsterau a allai fod yn sylweddol, neu sy'n ymddangos yn sylweddol, yn para am gyfnod hirach, er gwaethaf yr ymyriadau arferol i geisio mynd i'r afael â nhw neu gamau eraill i ddatrys yr achos tebygol (er enghraifft, darpariaeth dal i fyny ar gyfer dysgwr sydd wedi bod yn absennol am rai wythnosau, neu ddelio ag achos o fwlio), mae hyn yn debygol o arwyddo ADY.

7.21 Wrth ystyried yr hyn a olygir wrth *'anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran'*, dylid cofio mai mater o ennill gwybodaeth neu sgiliau yw dysgu, y gellir gwneud hynny mewn llawer o wahanol ffyrdd, ac y gall y broses amrywio yn ôl oedran y dysgwr. Er enghraifft, mae plant bach yn dysgu drwy chwarae a phrofiad, yn hytrach na thrwy ddulliau mwy ffurfiol sy'n fwy cyffredin i blant hŷn, ee cyfarwyddyd gan athro neu astudio.

## Anableddau

7.22 Ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anabledd (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ADY. Fodd bynnag, os yw ei anabledd yn ei atal neu'n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach prif ffrwd, a bod hynny'n galw am DDdY, yna mae ganddo ADY[9]. P'un ai ar y sail honno y mae gan y person ADY ai peidio, os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, bydd ganddo ADY[10].

[9] Adrannau 2(1) a (2)(b) o'r Ddeddf.
[10] Adrannau 2(1) a (2) o'r Ddeddf.

7.23 Mae rhai ffurfiau ar anabledd yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY. Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'r rheini o fewn eu hardal sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw, neu sydd â chyfuniad o'r ddau, i'r graddau y mae'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd[11]. Mae plant neu bobl ifanc ar y gofrestr hon yn fwy tebygol o fod ag ADY, gan fod y nam yn debygol o olygu eu bod yn cyflawni ail ran y diffiniad o anhawster dysgu neu anabledd.

## Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol

7.24 Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd - a bod ganddo ADY[12].

7.25 Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar y rheini y mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt er mwyn cyflawni eu potensial, ond nid yw hynny'n golygu bod ganddynt ADY. Wedi dweud hynny, pan fydd Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol i blentyn neu berson ifanc, a bod ei gynnydd yn araf (er gwaethaf addysgu gwahaniaethol i'w helpu), dylid ystyried a oes problem fwy.

7.26 Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth geisio adnabod a oes gan y rheini nad yw Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt ADY. Mae angen ystyried pob agwedd ar ddysg a datblygiad plentyn neu berson ifanc wrth asesu a yw ei anhawster yn deillio o'r ffaith bod Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddo, neu a yw'n deillio o ADY. Dylai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol edrych yn ofalus ar bob agwedd ar berfformiad plentyn neu berson ifanc mewn gwahanol bynciau er mwyn sefydlu a yw unrhyw anawsterau sydd ganddo yn deillio o gyfyngiadau yn ei allu yn yr iaith a ddefnyddir, neu a yw'n deillio o ADY.

7.27 Dylid asesu i ba raddau y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi dod i gysylltiad yn y gorffennol â phob un o'r ieithoedd y mae'n eu siarad, i ba raddau y mae'n defnyddio'r ieithoedd ar hyn o bryd, a pha mor rhugl y mae. Bydd gwybodaeth am y sgiliau iaith sydd ganddo yn sail i'r holl waith pellach gyda'r plentyn neu'r person ifanc, o ran helpu i ddeall ei anghenion a chynllunio unrhyw gymorth iaith ychwanegol sydd ei angen. Os yw'r gwaith dadansoddi hwn wedi'i wneud ac os penderfynir bod angen cymorth allanol, dylid rhannu'r wybodaeth hon gydag ef.

## Mwy abl a thalentog

7.28 Mae’r term 'mwy abl a thalentog' yn cynnwys dysgwyr sy’n fwy galluog ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â dysgwyr sy’n dangos talent mewn un maes penodol neu fwy. Nid oes gan blant a phobl ifanc a ystyrir yn fwy abl a thalentog ADY ar sail eu gallu neu eu talent mwy. Mae angen cyfleoedd a

[11] Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
[12] Adran 2(4) o'r Ddeddf, sydd wedi'i nodi uchod yn ffigur 1.

heriau mwy ar y plant a'r bobl ifanc hyn er mwyn iddynt gyflawni eu potensial, a dylid eu darparu fel rhan o ddysgu gwahaniaethol.

7.29 Fodd bynnag, gallai plentyn neu berson ifanc fod yn fwy abl a thalentog a bod ag ADY. Er enghraifft, gallai plentyn neu berson ifanc fod yn fedrus iawn mewn un rhan o'i addysg, ond ei fod yn cael *'anhawster sylweddol fwy i ddysgu'* na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran oherwydd anawsterau mewn rhannau eraill o'i addysg, neu efallai ei fod yn perfformio'n dda ar draws y cwricwlwm, ond bod ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio'r cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

**Anghenion gofal iechyd**

7.30 Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd*[13], yn mynd i'r afael â'r trefniadau i'w gwneud gan ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr o dan 18 oed sydd ag anghenion gofal iechyd. Yn ogystal, bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael pecyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG, a ddarperir gan y GIG ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth, sy'n ymwneud â'u hiechyd yn bennaf.

7.31 Mewn rhai achosion, gallai anghenion gofal iechyd (er enghraifft, yn sgil cyflwr meddygol) gael effaith sylweddol ar brofiadau plentyn neu berson ifanc ac ar y ffordd y mae'n ymdopi yn yr ysgol neu mewn addysg bellach. Gallai'r effaith fod yn uniongyrchol, hynny yw ar ei allu gwybyddol neu gorfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Gallai'r effaith fod yn anuniongyrchol ar yr un pryd, neu'n anuniongyrchol yn unig, er enghraifft drwy amharu ar ei allu i fanteisio ar addysg yn sgil effeithiau triniaeth neu'r effeithiau seicolegol y gall salwch neu anabledd difrifol neu gronig eu cael ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu.

7.32 Fodd bynnag, ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen gofal iechyd ADY. Fel yn achos dysgwyr eraill, y cwestiwn bob amser yw p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY. Bydd yna lawer o achosion lle nad oes gan blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd anhawster dysgu nac anabledd, neu os oes ganddo, lle nad yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am ddarpariaeth ychwanegol. Yn yr achosion hyn, dylid diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc drwy ddulliau eraill.

## *Tystiolaeth ynghylch a allai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY*

7.33 Bydd y dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY yn berthnasol pan dynnir sylw ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yng Nghymru at y ffaith y gallai fod gan y person ADY, neu pan ddaw i sylw'r sefydliadau hyn mewn ffordd arall (mae mwy o wybodaeth am y

---

[13] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=cy

dyletswyddau hyn ym Mhenodau 8-12). Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ynghylch yr adeg pan fydd yn ymddangos y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY.

7.34 Efallai y daw'n amlwg i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol bod yna anawsterau neu broblemau penodol a allai effeithio ar allu'r plentyn neu'r person ifanc i ddysgu neu fanteisio ar addysg, ee:

- anhawster cydsymud;
- anawsterau sylweddol yn gweld dilyniant neu'n gwneud synnwyr o'r hyn a welir;
- diffygion o ran cof gweithredol;
- oedi sylweddol wrth ddefnyddio iaith;
- anhawster rhyngweithio cymdeithasol neu gyfathrebu neu ystod cyfyngedig iawn o weithgareddau, diddordebau a datblygiad creadigol;
- tystiolaeth o anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sylweddol, a chofnod clir o enghreifftiau o encilio neu darfu ar eraill;
- anallu amlwg a chyson i ganolbwyntio;
- arwyddion bod y plentyn neu'r person ifanc yn profi cryn rwystredigaeth neu ofid mewn perthynas â dysgu;
- nam ar y synhwyrau, ee y clyw neu'r golwg;
- anawsterau yn creu ac yn cynnal perthynas gytbwys â'i gyd-ddisgyblion neu ag oedolion;
- unrhyw dystiolaeth arall o oedi sylweddol wrth ddatblygu sgiliau bywyd a chymdeithasol.

7.35 Gallai pryderon godi, er enghraifft, os bydd plentyn neu berson ifanc, er gwaethaf cael profiadau addysgol priodol:

- heb wneud llawer o gynnydd, os o gwbl, tuag at gyflawni ei botensial, hyd yn oed pan fydd yr addysgu wedi'i deilwra'n benodol i wella maes anhawster y plentyn neu'r person ifanc;
- yn parhau i weithio ar lefelau sylweddol is na'r rhai sy'n ddisgwyliedig gan blant neu bobl ifanc o oed tebyg, neu'r rhai sy'n ddisgwyliedig gan yr unigolyn ei hun, gan arwain at lefel cyrhaeddiad isel;
- yn arddangos anawsterau emosiynol neu ymddygiadol cyson, nad ydynt yn gwella pan ddefnyddir y technegau rheoli ymddygiad arferol;
- yn arddangos oedi o ran datblygiad personol a chymdeithasol, nad yw'n gwella pan ddefnyddir y strategaethau a'r technegau arferol;
- yn arddangos oedi o ran datblygiad corfforol neu greadigol, nad yw'n gwella pan ddefnyddir y strategaethau a'r technegau arferol;
- yn arddangos problemau synhwyraidd neu gorfforol, ac yn parhau heb wneud llawer o gynnydd, os o gwbl, o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan yr unigolyn, er gwaethaf darparu cyfarpar arbenigol; neu
- yn arddangos anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, ac yn parhau heb wneud llawer o gynnydd, os o gwbl, er gwaethaf addysgu gwahaniaethol neu dechnegau a strategaethau.

7.36 Mae angen i'r broses o geisio adnabod a oes gan berson ADY a'r penderfyniad wedyn ynghylch a oes ganddo ADY ac, os felly, beth yn union yw'r ADY, fod yn seiliedig ar dystiolaeth; gallai'r dystiolaeth hon ddod oddi wrth staff o fewn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, neu gan wasanaethau eraill sydd wedi dod i gysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc; gallai hefyd ddod gan y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc ei hun.

7.37 Bydd systemau arsylwi ac asesu cynnydd plant a phobl ifanc unigol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion neu sefydliadau addysg bellach yn darparu gwybodaeth am feysydd lle nad yw plentyn neu berson ifanc yn datblygu'n foddhaol. Gellir defnyddio nifer o wahanol ffynonellau tystiolaeth i fesur cynnydd plant a phobl ifanc (o ran cyrhaeddiad a meysydd eraill, er enghraifft lle mae angen i ddysgwr ddatblygu ymddygiadau cymdeithasol neu emosiynol ehangach), gan gynnwys:

- adnoddau a fframweithiau sgrinio neu asesu safonedig;
- data arsylwi;
- ansawdd eu gwaith;
- rhestrau gwirio datblygiad;
- holiaduron graddfa;
- asesiadau asiantaethau eraill, ee cyrff iechyd
- holiaduron ymddygiad, holiaduron datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a phrofion safonedig.

7.38 Er enghraifft, bydd rhai plant sydd o dan oedran ysgol gorfodol yn cael addysg cyfnod sylfaen y tu allan i leoliad ysgol a gynhelir. Gall monitro cyfraddau cynnydd y plant hyn drwy ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen helpu i adnabod ADY a helpu i ddeall datblygiad y plentyn. I blant eraill, efallai mai ymwelwyr iechyd fydd ffynhonnell yr wybodaeth allweddol, neu ganlyniadau sgrinio'r blynyddoedd cynnar, neu wybodaeth gan ardal Dechrau'n Deg.

7.39 Yn yr un modd, bydd ysgolion yn asesu cynnydd yn rheolaidd ac yn rhoi adroddiad i rieni ar sgiliau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys, ymhlith dulliau eraill, drwy brofion darllen a rhifedd cenedlaethol a thrwy ddefnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Bydd asesiadau yn erbyn disgrifiadau lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol ym mhob pwnc yn ei gwneud yn bosibl i ysgol ystyried cyrhaeddiad a chynnydd y disgybl unigol yn erbyn y lefelau disgwyliedig ar gyfer disgyblion ei oedran.

7.40 Bydd sefydliadau addysg bellach hefyd yn defnyddio data monitro rheolaidd i olrhain cynnydd dysgwyr. **Dylai** pob ymgeisydd a dysgwr sydd wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach gael cyfle wrth ymgeisio, wrth gofrestru ac yn ystod y cwrs, i godi unrhyw bryderon ynghylch eu hanghenion dysgu.

7.41 Ar sail y dystiolaeth, gan gynnwys y data a gesglir, dylai fod modd adnabod pa ddysgwyr y mae eu cynnydd yn llai na'r disgwyl, hy

- mae eu cynnydd yn sylweddol arafach na chynnydd eu cyfoedion a ddechreuodd o'r un llinell sylfaen;

- nid yw eu cynnydd yn cyfateb i gyfradd cynnydd flaenorol y plentyn neu'r person ifanc, neu nid yw'n well na'r gyfradd flaenorol;
- nid yw eu cynnydd yn cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion, neu mae'n gwneud y bwlch yn fwy, er gwaethaf cymorth penodol i gau'r bwlch (ee addysgu gwahaniaethol).

7.42 Rhaid gwneud dyfarniad ym mhob achos ynghylch yr hyn y mae'n rhesymol disgwyl i blentyn neu berson ifanc ei gyflawni.

7.43 Nid yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel yn golygu o reidrwydd fod gan blentyn ADY ac ni ddylai arwain yn awtomatig at benderfyniad bod gan y dysgwr ADY. Yn yr un modd, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod cyrhaeddiad sy'n arferol ar oedran penodol yn golygu nad oes ADY.

7.44 Mae'n anochel y bydd plant a phobl ifanc mewn dosbarth neu ysgol yn datblygu ar gyfraddau gwahanol, felly nid yw'r ffaith bod plentyn fel pe bai'n tanberfformio o gymharu ag eraill o'r un oedran, ynddo'i hun, yn brawf o ADY. Wrth ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gallai ddod i'r amlwg bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cynnydd da ar ôl dechrau ar linell sylfaen isel.

7.45 Bydd yna ddysgwyr bob amser sydd ar lefelau cyrhaeddiad a gallu is, a fydd yn datblygu ar gyfradd arafach ond cyson. Bydd angen cymorth arnynt i fanteisio ar gwricwlwm gwahaniaethol er mwyn datblygu'n briodol, ond efallai na fydd y cymorth hwnnw yn gyfystyr â DDdY o reidrwydd.

7.46 Os nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd camau ychwanegol neu wahanol er mwyn i'r dysgwr allu dysgu mewn ffordd fwy effeithiol. Yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol, yn aml, fyddai targedu meysydd gwendid penodol dysgwyr. Disgwylir i bob lleoliad addysg gyflwyno addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol eraill, gyda'r nod o sicrhau gwell cynnydd, lle bo'n briodol, i bob dysgwr. Mae hyn yn elfen sylfaenol o addysgu o ansawdd - ond arferol. Dylid ystyried p'un a ddefnyddiwyd strategaethau addysgu addas, ond sydd serch hynny wedi methu â mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion.

7.47 Bydd angen ystyried a oes rhesymau dros danberfformiad, ar wahân i ADY, ac, os felly, a oes ffyrdd eraill mwy priodol o helpu'r plentyn i ddysgu, ee ei gyfeirio at seicolegydd addysg, gwasanaethau llesiant addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu gyrff iechyd.

7.48 Mae'n bwysig cofio bod ffactorau eraill yn cyfrannu at berfformiad academaidd gwael, ee ffactorau allanol ac amgylchiadau. Gall cofnodion presenoldeb gwael gyfrannu, diffyg cyfleoedd dysgu digonol, hanes o symud yn aml, newidiadau yn y staff addysgu/amgylchedd dysgu neu heriau cymdeithasol a theuluol ehangach. Efallai mai ffactorau felly sy'n achosi cynnydd annigonol yn hytrach nag ADY, er y gallai fod gan y dysgwr ADY wrth gwrs, hyd yn oed lle gwelir ffactorau fel hyn. Bydd angen i'r rheini sy'n edrych ar y dystiolaeth ystyried a yw'n pwyntio at anghenion gwaelodol eraill ac nid at ADY ac, os

felly, p'un a oes ffyrdd eraill o gefnogi'r person ifanc a gwasanaethau eraill y mae eu hangen ym mywyd y person ifanc.

7.49 Er enghraifft, gall problemau yng nghartref y dysgwr neu amgylchiadau teuluol gyfrannu at dangyflawni. Er mwyn sefydlu beth sy'n achosi'r tangyflawni, gallai fod yn werth ystyried a yw'r plentyn yn ymddwyn yn wahanol neu'n arddangos gallu gwahanol mewn gwahanol leoliadau a sefyllfaoedd. Drwy ymchwilio i weld a oes unrhyw wahaniaeth amlwg yn nhystiolaeth gwahanol unigolion/asiantaethau a gwahanol leoliadau'r plentyn neu'r person ifanc, bydd modd dod i ddealltwriaeth well o'i anghenion. Os oes gwahaniaeth amlwg, efallai bod angen ymgynghori â gweithwyr proffesiynol sydd â'r arbenigedd perthnasol er mwyn ystyried anghenion y plentyn mewn modd cyfannol.

7.50 Fodd bynnag, os yw'r cynnydd yn parhau i fod yn llai na'r disgwyl, neu os yw'n amlwg na fydd addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau penodol safonol yn ddigonol, yna byddai hyn fel rheol yn arwydd i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol y gallai fod gan y person ADY. Pryd bynnag bydd gan staff addysgu bryderon o'r fath, **dylent** gynnwys CADY yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach (os nad yw eisoes yn rhan o'r darlun). **Dylai** fod yna brosesau clir mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach i dynnu sylw at bryderon a cheisio cyngor a chymorth pellach. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod angen ceisio cyngor allanol hefyd.

7.51 Unwaith y bydd ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn ymwybodol y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd dyletswydd arno i benderfynu. Mae Penodau 8-12 yn delio â'r dyletswyddau hyn. Os bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, fel rheol bydd yn gorfod llunio CDU sy'n disgrifio'r ADY a'r DDdY. Gweler Pennod 13 i gael gwybod mwy am gynnwys CDUau (a Phennod 14 ynghylch CDU plant sy’n derbyn gofal).

## *Penderfynu ar yr ADY a'r DDdY sy'n ofynnol*

7.52 Unwaith y bydd wedi'i sefydlu y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, bydd angen i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol benderfynu p'un a oes gan y person ADY (hynny yw, a oes gan y person anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY), ac os felly, raddau a natur yr ADY, a'r DDdY sy'n ofynnol.

7.53 Mae angen i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth a gasglwyd eisoes fel rhan o'r ystyriaeth gychwynnol, y gallai fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, ond gallai fod angen casglu tystiolaeth bellach yn ystod y broses. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth gan y plentyn, ei rieni, neu'r person ifanc ac eraill fel y bo'n briodol (mae mwy o wybodaeth am y gwahanol fathau o arbenigwyr ac asiantaethau eraill a allai fod yn gysylltiedig yn nes ymlaen yn yr adran hon). Bydd yr hyn sy'n briodol yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Er enghraifft, mewn rhai achosion, gallai fod angen cyngor meddygol gan gorff iechyd am effaith anabledd neu gyflwr meddygol er mwyn helpu i adnabod union natur yr

anhawster dysgu neu'r anabledd (neu a oes anhawster neu anabledd o gwbl) a pha ddarpariaeth y mae galw amdani, a allai fod yn DDdY (mae canllawiau manwl am rôl a dyletswyddau cyrff iechyd ym Mhennod 15).

7.54 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol sy'n ymwneud â chynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY y gallai fod ganddynt a llunio CDUau. Rhoi'r lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o adnabod ADY a phenderfynu ar ei DDdY yw un o amcanion sylfaenol y system ADY (gweler yr egwyddorion ym Mhennod 2). **Dylid** trefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel rheol, felly, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, er mwyn trafod a phenderfynu ar anghenion y person a, lle y penderfynir bod gan y person ADY, er mwyn trafod cynnwys y CDU (mae canllawiau am gyfarfodydd am ADY a CDUau ym Mhennod 18).

7.55 Mewn llawer o achosion, dylai'r lleoliad addysg allu darparu neu drefnu'r ADY angenrheidiol. Pan fydd hyn yn digwydd, efallai na fydd angen cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill na'r awdurdod lleol yn y broses o ddatblygu'r CDU, ei weithredu o ddydd i ddydd, na'i adolygu, er y gallai eu cyngor fod o fudd wrth lunio'r CDU.

7.56 Mewn achosion eraill, i raddau gwahanol, gallai fod angen cymorth asiantaethau gwahanol, gan gynnwys er mwyn cyflwyno DDdY. Yn achos y rheini ag anghenion mwy cymhleth, wrth ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc, gallai fod angen mewnbwn a chymorth asiantaethau gwahanol ar y cyd er mwyn creu pecyn DDdY cynhwysfawr.

## *Gwaith aml-asiantaeth*

7.57 Ar ôl penderfynu y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, **dylai** y corff sy'n gyfrifol am benderfynu a oes gan y person ADY ystyried a oes angen mewnbwn gan asiantaethau allanol neu weithwyr proffesiynol cymwys eraill.

7.58 **Dylai** y corff sy'n gyfrifol am benderfynu a oes gan y person ADY holi'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc a oes unrhyw weithwyr proffesiynol eisoes yn gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc, neu a oes yna weithwyr proffesiynol neu bersonau eraill y dylid ymgynghori â nhw, yn eu barn nhw. **Dylid** cynnal yr ymgynghoriad hwn cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu digon o rybudd ac amser ar gyfer eu mewnbwn. **Dylid** gwahodd unrhyw asiantaeth sy'n delio â'r plentyn neu'r person ifanc (neu sy'n dod i'r farn y gallai fod ganddo ADY) i gyfrannu at y penderfyniad ar ADY ac at y gwaith o ddatblygu a diweddaru unrhyw CDU.

7.59 Os gwelir bod diffyg arbenigedd ymhlith y staff mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach prif ffrwd, yna **dylai'r** ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ystyried ceisio cyngor allanol i helpu yn y broses o benderfynu a oes gan y person ADY. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae gan y plentyn neu'r person ifanc angen prin, ee nam ar y golwg neu nam ar y clyw, neu'r ddau, ac nid oes gan y staff yr wybodaeth a'r arbenigedd i gefnogi'r plentyn neu'r

person ifanc mewn ffordd briodol. Dylai person sy'n gymwys i addysgu disgyblion neu fyfyrwyr sydd â'r namau hyn fod yn rhan o achosion o'r fath. Bydd plant neu bobl ifanc sydd ag anghenion o'r fath ar gofrestr a gynhelir gan yr awdurdod lleol[14].

7.60 Gall asiantaethau allanol helpu yn y broses o benderfynu a oes gan berson ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol mewn nifer o ffyrdd. Gallant gynnig cyngor a chefnogi staff drwy strategaethau neu gael gafael ar fwy o wybodaeth, cynnal asesiadau a/neu sesiynau arsylwi er mwyn darparu mwy o wybodaeth am anghenion y plentyn neu'r person ifanc, ac awgrymu ymyriadau a ffurfiau darpariaeth amgen. Efallai mai asiantaethau allanol hefyd fydd y cyrff priodol i gyflwyno'r DDdY yn uniongyrchol. Mae gan lawer o wahanol asiantaethau, gweithwyr proffesiynol ac unigolion rôl i'w chwarae o ran adnabod a chefnogi plant a phobl ifanc a allai fod ag ADY, gan gynnwys:

- rhieni/gofalwyr;
- aelodau o'r teulu;
- gofalwyr maeth;
- ymwelwyr iechyd;
- pediatregwyr;
- Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod Newydd-anedig;
- meddygon teulu;
- staff Dechrau'n Deg;
- staff Teuluoedd yn Gyntaf;
- Portage;
- y sector gwirfoddol;
- darparwyr gofal plant;
- darparwyr addysg feithrin nas cynhelir a'u sefydliadau ambarél;
- staff lleoliadau cyn-ysgol;
- ysgolion annibynnol;
- staff addysgu;
- cynorthwywyr dysgu;
- athrawon arbenigol/athrawon ymgynghorol;
- CADYau;
- swyddogion arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar;
- swyddogion arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA);
- aelodau o gyrff llywodraethu;
- nyrsys ysgol;
- therapyddion galwedigaethol;
- therapyddion iaith a lleferydd;
- ffisiotherapyddion;
- gweithwyr cymdeithasol;
- ymgynghorwyr;
- seicolegwyr addysg;
- gwasanaethau cwnsela;
- swyddogion llesiant addysg;

[14] Adran 18 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- CAMHS;
- timau troseddau ieuenctid;
- mentoriaid a chynghorwyr gyrfaoedd;
- tiwtoriaid.

7.61 Bydd lefel yr ymgysylltiad sydd ei hangen ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gwahanol, a lefel y cyngor ganddynt, yn amrywio, yn dibynnu ar natur anghenion ac amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc. Gallai gynnwys, er enghraifft:

- cyngor a gwybodaeth addysgol gan bennaeth lleoliad blynyddoedd cynnar, ysgol neu leoliad ôl-16, neu sefydliad arall a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc;
- cyngor gan swyddogion awdurdodau lleol;
- ymgynghoriad â pherson sy'n gymwys i addysgu plant neu bobl ifanc sydd â namau penodol, ee nam ar y golwg a/neu ar y clyw;
- cyngor a gwybodaeth feddygol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â rôl mewn perthynas ag iechyd y plentyn neu'r person ifanc;
- cyngor a gwybodaeth seicolegol gan seicolegydd addysg, y dylai'r awdurdod lleol cyfrifol lle mae'r plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir ei ddarparu fel rheol, ac a **ddylai** ymgynghori ag unrhyw seicolegwyr eraill y mae'n hysbys eu bod mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc, lle bo hyn yn briodol;
- cyngor a gwybodaeth am ofal cymdeithasol gan, neu ar ran, awdurdod lleol os yw'n gysylltiedig ag achos y plentyn neu'r person ifanc a/neu os oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth, a chydlynydd arweiniol;
- cyngor gyrfaoedd arbenigol i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i baratoi ar gyfer dysgu ymhellach, byd oedolion a byw'n annibynnol;
- cyngor a gwybodaeth gan ymarferwyr awtistiaeth arbenigol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol[15];
- yn achos plant a arferai dderbyn gofal gan awdurdod lleol, cyngor gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru;
- cyngor gan dîm troseddwyr ifanc, lle caiff y plentyn neu'r person ifanc ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol, lle mae'r person ifanc yn cyflawni ei ddedfryd yn y gymuned neu lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn hysbys i'r tîm troseddwyr ifanc a bod yna risg o aildroseddu (gweler Pennod 22 i gael gwybodaeth am bersonau a gedwir yn gaeth);
- yn achos plant aelodau o'r Lluoedd Arfog, **dylid** gofyn am gyngor y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant lle bo'n briodol (gweler Pennod 23 i gael gwybodaeth mewn perthynas â phlant teuluoedd y Lluoedd Arfog).

7.62 **Dylai** staff ysgolion a sefydliadau addysg bellach gydweithio ag arbenigwyr proffesiynol, lle bo'n briodol, a gweithio ochr yn ochr â nhw. Bydd CADYau yn

[15] Gwasanaeth cymorth i blant yw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, sydd hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i blant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth cenedlaethol hwn ar gael fesul rhanbarth ac yn darparu cyngor a chefnogaeth o bob math. Ewch i wefan ASDinfowales i gael gwybodaeth am y gwasanaethau ym mhob rhanbarth. www.asdinfowales.co.uk.

darparu llawer o arbenigedd. Fodd bynnag, gallent benderfynu bod angen cyngor a mewnbwn pellach gan arbenigwyr proffesiynol. (Gweler Pennod 24 i gael gwybod mwy am rôl y CADY.)

7.63 Mewn rhai achosion, efallai y bydd asiantaethau yn cyfeirio'r plentyn neu'r person ifanc ymlaen i gael cyngor a/neu asesiadau mwy arbenigol, ee os bydd gan blentyn neu berson ifanc anghenion arbennig o gymhleth, dwys a/neu brin, os yw'n aneglur beth yw anawsterau'r plentyn neu'r person ifanc, ac os oes angen mwy o wybodaeth am union natur ADY y plentyn neu'r person ifanc a pha DDdY sydd ei hangen.

7.64 Gallai fod angen gwasanaethau arbenigol wrth benderfynu yn y cychwyn cyntaf beth yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc a sut i ddiwallu'r anghenion hynny, neu os penderfynir bod angen arbenigedd pellach ar ôl rhoi cynnig ar ymyriadau eraill. Gallai fod yn briodol cyfeirio achos at wasanaeth arbenigol pan fydd anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn galw am fewnbwn neu gyngor sydd y tu hwnt i allu ysgolion, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol i'w ddarparu, neu os ystyrir bod angen cyngor/ymgynghori/asesu/ymyriadau ychwanegol am nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cyflawni'r cynnydd disgwyliedig er gwaethaf ymyriadau priodol yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. Gall gwasanaethau arbenigol:

- helpu lleoliadau addysg i adnabod a diwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc, ee drwy ddarparu cyngor a chymorth ar wahaniaethu wrth gyflwyno'r cwricwlwm a gwahanol strategaethau;
- darparu hyfforddiant ar gyfer yr ysgol/sefydliad addysg bellach cyfan ar ddiwallu anghenion gwahanol blant a phobl ifanc, er enghraifft diwallu anghenion cyfathrebu drwy gefnogi'r ysgol/sefydliad addysg bellach i weithio fel un i sicrhau bod dysgwyr yn meistroli iaith yn gynnar, gwahaniaethu wrth gyflwyno'r cwricwlwm a gweithredu strategaethau;
- darparu cyngor ar CDUau a thargedau;
- cefnogi ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i adnabod anghenion a darparu cyngor ar y DDdY sydd i'w chyflwyno, neu sydd eisoes yn cael ei chyflwyno;
- darparu asesiadau mwy arbenigol o anghenion er mwyn penderfynu ar yr opsiynau cymorth;
- darparu cyngor ar gyfer y rheini â nam ar y synhwyrau;
- darparu cyngor ar ddefnyddio strategaethau a deunyddiau newydd neu arbenigol, a rhoi gwybodaeth am yr arferion diweddaraf;
- darparu cyngor ar gyfarpar arbenigol, gan gynnwys hyfforddiant i staff ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar ei ddefnyddio a'i gynnal, a sut i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i'w ddefnyddio;
- cefnogi rhieni i'w helpu i ddeall anghenion eu plentyn a'r ffordd orau o'u cefnogi;
- meithrin gallu i wella'r hyn y gall ysgolion a sefydliadau addysg bellach ei gyflawni;
- darparu cyswllt gyda sefydliadau arbenigol y trydydd sector;
- darparu cymorth penodol yn ystod unrhyw gyfnod trosglwyddo i blentyn neu berson ifanc, ei helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus, a rhoi gwybod

i'r lleoliadau newydd a helpu i sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol;

- hwyluso cydweithio drwy dynnu ynghyd y gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau cynllunio a gweithredu integredig.

7.65 Bydd angen i weithwyr proffesiynol gydymffurfio â'r ddeddf diogelu data wrth brosesu data personol (gan gynnwys rhannu gwybodaeth ag asiantaethau allanol).

## *Ystyriaethau o ran DDdY*

7.66 Mae Penodau 8 i 12 yn amlinellu'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach mewn perthynas â llunio CDUau, gan gynnwys dyletswyddau ynghylch a ddylid cyflwyno'r DDdY drwy'r Gymraeg, a phryd y dylai cyrff iechyd ei chyflwyno (mae mwy o wybodaeth am ddyletswyddau cyrff iechyd ym Mhennod 15). Mae gofynion CDUau a chanllawiau ar eu llunio i'w gweld ym Mhennod 13 (ac mae Pennod 14 yn delio â chynnwys CDU plant sy’n derbyn gofal).

7.67 Wrth benderfynu pa DDdY y mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdani, **dylid** ystyried arddull dysgu'r plentyn neu'r person ifanc, sut mae ei ADY yn effeithio arno, ac a yw unrhyw DDdY flaenorol/gyfredol yn effeithio'n gadarnhaol neu wedi effeithio'n gadarnhaol ar ei gynnydd.

7.68 Yn achos plant bach, dylai eu dysgu greu'r cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r byd drwy chwarae arbrofol a phrofiadau. Efallai y bydd angen DDdY ar ffurf chwarae arbrofol ar blant ag ADY, neu DDdY arall i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd/gweithgareddau chwarae priodol.

7.69 Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, a bod angen CDU, mae angen adnabod y DDdY y mae'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw amdani, ei disgrifio yn y CDU a'i sicrhau gan y corff sy'n cynnal y CDU (ac eithrio os mai cyfrifoldeb corff GIG yw ei sicrhau). Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i ddarpariaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae ADY y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdano. Gallai’r corff sy'n gyfrifol am lunio a chynnal y CDU ystyried y defnydd effeithiol o adnoddau wrth benderfynu rhwng gwahanol opsiynau'r DDdY neu wahanol ffyrdd o'i chyflawni, lle byddai pob un o'r opsiynau neu'r dulliau gweithredu hynny yn diwallu ADY y person ac yn gydnaws ag unrhyw gyfyngiadau eraill o dan y Ddeddf sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau.

## A oes gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol anghenion dysgu ychwanegol?

Mae'r siart lif hon yn nodi'r cwestiynau i'w gofyn wrth benderfynu a oes gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol ADY:

A oes gan y plentyn anhawster dysgu neu anabledd? A chymryd na chyflwynir darpariaeth ddysgu ychwanegol, pan fydd y plentyn yn cyrraedd yr oedran ysgol gorfodol, a yw'n debygol o:

- fod ag anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran; a/neu
- fod ag anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir?

Nac Oes/ Nac Ydy → Nid oes gan y plentyn ADY

Oes/Ydy ↓

A yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol? Y diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yw:

- os yw'r plentyn yn iau na thair oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath;
- fel arall, darpariaeth addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran yng Nghymru lle darperir addysg feithrin

Nac Oes/ Nac Ydy → Nid oes gan y plentyn ADY

Oes/Ydy ↓

Mae gan y plentyn ADY

## A oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol?

Mae'r siart lif hon yn nodi'r cwestiynau i'w gofyn wrth benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (oni bai bod y plentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol)

A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd?

A oes ganddo:

- anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran; a/neu
- anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach?

Nac Oes → Nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

Oes ↓

A yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd hwnnw yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol? Y diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yw darpariaeth addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran mewn:

- ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru; neu
- sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

Nac Ydy → Nid oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

Ydy ↓

Mae gan y plentyn neu'r person ifanc ADY

# Pennod 8: Dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol, nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru

## *Cyflwyniad*

8.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dyletswyddau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY, llunio a chynnal CDUau, a sicrhau'r DDdY sydd wedi'i chynnwys mewn CDU, ar gyfer plentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru.

8.2 Awdurdod lleol fydd yn llunio ac yn cynnal CDUau i blant o dan oedran ysgol gorfodol, nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, bob amser.

8.3 Os bydd plentyn yn cael addysg feithrin a gyllidir gan yr awdurdod lleol mewn lleoliad nas cynhelir, **dylai'r** darparwr helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau.

8.4 Mae'r bennod hon yn cynnwys canllawiau ar amrywiol ddyletswyddau i hysbysu a rhoi dogfennau. Yn gyffredinol, byddai dyletswyddau o'r fath yn cynnwys hysbysu a rhoi dogfennau i blant, ond dim ond os oes ganddynt y galluedd meddyliol i'w deall. Yn achos plant o dan oedran ysgol gorfodol, ni fydd ganddynt y galluedd i'w deall, ac felly nid yw'r bennod hon yn cyfeirio at blant yn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, lle cyfeirir at hysbysu neu roi dogfennau i riant plentyn, bydd hyn yn cynnwys cyfaill achos os oes un gan y plentyn.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol, nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, ADY*

8.5 Os caiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol, neu os ymddengys iddo fel arall y gallai fod gan blentyn y mae'n gyfrifol amdano, neu sy'n derbyn gofal ganddo, ac sydd:

a) o dan oedran ysgol gorfodol, ac
b) nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru,

ADY, **rhaid**[1] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

i. bod CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn hwnnw;
ii. bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad

[1] Adran 13(1), 13(2), 13(4), 18(1) ac 18(2) o'r Ddeddf (er bod y dyletswyddau hyn ac eraill y cyfeirir atynt yn y bennod hon yn berthnasol i amgylchiadau ehangach).

hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw;

iii. bod y plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall[2] (os felly, **rhaid**[3] cyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn derbyn gofal);

iv. bod y plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ond ei fod o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

8.6 Efallai y caiff y posibilrwydd bod gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ADY ei ddwyn i sylw awdurdod lleol mewn nifer o ffyrdd. Efallai y bydd un o amrywiaeth eang o wahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn cyfeirio'r plentyn i ddechrau. Er enghraifft, gallai darparwr gofal plant neu addysg feithrin nas cynhelir roi gwybod i'r awdurdod lleol ei fod yn amau bod gan blentyn ADY; neu, gallai corff iechyd fod wedi dod i'r farn bod gan y plentyn, neu y gallai fod ganddo ADY, a thynnu sylw'r awdurdod lleol at y peth gan gydymffurfio â'i ddyletswydd yn adran 64 o'r Ddeddf (gweler Pennod 15). Efallai y bydd rhieni'r plentyn hefyd yn mynegi pryderon. Gellir codi'r pryderon hyn drwy ddarparwr addysg feithrin nas cynhelir neu'n uniongyrchol gyda'r awdurdod lleol, yn enwedig yn achos plant nad ydynt eto yn mynychu lleoliad addysg. Mae sylwadau rhieni am eu plentyn yn aml yn hanfodol er mwyn adnabod anghenion yn gynnar. **Dylai** awdurdodau lleol a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir fod yn agored i sgyrsiau sy'n mynegi'r pryderon hyn a dylent fod yn barod i ymateb ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir.

8.7 Nid yw'n bwysig sut y caiff ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol y gallai fod gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ADY, neu sut yr ymddengys iddo fel arall y gallai hyn fod yn wir; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn berthnasol (ac eithrio’r amgylchiadau a restrir yn i-iv o baragraff 8.5). Gallai ddigwydd, er enghraifft, wrth gyflawni swyddogaethau eraill yr awdurdod lleol, er enghraifft ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ac ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn ADY ym Mhennod 7.)

8.8 **Rhaid**[4] i'r awdurdod lleol gofnodi'r dyddiad pan gaiff y ffaith bod gan y plentyn ADY ei ddwyn i'w sylw neu pan wnaeth hynny ymddangos iddo fel arall. **Rhaid**[5] i'r awdurdod lleol gofnodi hefyd grynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y plentyn ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y plentyn ADY.

[2] Gweler adran 15 o'r Ddeddf a phennod 1 o’r Cod am ddiffiniad o blentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf.
[3] Adran 17 o'r Ddeddf
[4] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[5] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

8.9 Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[6] i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor. **Dylai'r** cyngor hwn ymwneud â:

- nodweddion addysgol, seicolegol neu eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol);
- sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn;
- y ddarpariaeth a allai fod yn briodol i'r plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny, boed yn DDdY neu'n ddarpariaeth arall.

8.10 **Dylid** rhoi ystyriaeth hefyd i p'un a yw'r plentyn eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu p'un a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac wrth lunio CDU.

8.11 Os oes gan awdurdod lleol ddyletswydd i benderfynu p'un a oes gan blentyn ADY, **rhaid**[7] iddo ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau angenrheidiol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, dylid dynodi cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y rôl.

8.12 **Rhaid**[8] i'r awdurdod lleol hysbysu rhiant y plentyn yn brydlon ei fod wrthi'n penderfynu a oes gan y plentyn ADY ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol. Y cydlynydd **ddylai** wneud hyn neu drefnu ei fod yn cael ei wneud. **Rhaid**[9] i'r hysbysiad a roddir i'r rhiant gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydlynydd;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[10]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

8.13 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o amserlenni tebygol y broses (gan roi ystyriaeth i'r terfyn amser perthnasol isod).

8.14 Os bydd rhiant yn tynnu sylw awdurdod lleol at y ffaith y gallai fod gan ei blentyn ADY, ond bod yr awdurdod wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** esbonio hyn i'r rhiant a **dylai** roi

[6] Gofyniad a orfodir gan y Cod. Rhaid i seicolegwyr addysg fod wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal.
[7] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[8] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[9] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[10] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.

gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

8.15 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a'u rhieni mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi'r lle canolog i'r plentyn yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda rhiant y plentyn ac, os yw'n briodol, gyda'r plentyn, i drafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY*

8.16 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[11] iddo hysbysu'r rhiant ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. **Rhaid**[12] i'r awdurdod lleol:

(a) wneud y penderfyniad a
(b) rhoi'r hysbysiad

yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 12 wythnos ar ôl i'r ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY gael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu ar ôl i hynny ymddangos iddo fel arall. Ond nid yw'r gofyniad i roi'r hysbysiad o fewn y cyfnod 12 wythnos hwnnw yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[13].

8.17 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[14] i'r hysbysiad a roddir i'r rhiant gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[15]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[16] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[17]; a

[11] Adrannau 13(3) ac 18(3) o'r Ddeddf.
[12] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[13] Gweler pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[14] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[15] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[16] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

8.18 Dylai'r hysbysiad amlinellu hefyd unrhyw gamau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion y plentyn (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.

8.19 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i riant y plentyn drafod y mater ymhellach.

8.20 Gellir apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad gan awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY - gweler Pennod 26.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer plentyn o dan oedran ysgol gorfodol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir*

8.21 Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid**[18] iddo lunio CDU ar gyfer y plentyn oni bai bod y plentyn yn derbyn gofal ac nad yw o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru (er enghraifft, os yw'r plentyn wedi'i leoli'n hirdymor yn Lloegr). (Gweler Pennod 7 i gael gwybodaeth am ystyr ADY, DDdY a sut caiff ADY ei adnabod; a Phennod 13 ynghylch cynnwys CDUau.)

8.22 **Rhaid**[19] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid rhoi DDdY i'r plentyn drwy'r Gymraeg. Os bydd yn penderfynu y dylid darparu math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[20] i'r awdurdod nodi yn y cynllun y dylid ei ddarparu drwy'r Gymraeg.

8.23 Os, ar ôl i achos gael ei gyfeirio at gorff GIG, bydd y corff yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y plentyn, **rhaid**[21] i'r awdurdod lleol ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. **Rhaid**[22] i'r awdurdod lleol nodi hefyd yn y CDU y dylai'r DDdY sydd i'w sicrhau gan y corff GIG fod drwy'r Gymraeg os yw'r corff GIG wedi penderfynu hynny (gweler Pennod 15 i gael gwybod mwy am hyn).

8.24 Os na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau un o'r canlynol neu'r ddau:

(a) lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol;
(b) bwyd a llety, **rhaid**[23] i'r awdurdod lleol gynnwys disgrifiad yn y CDU o'r lle neu'r bwrdd a'r llety (beth bynnag yw'r sefyllfa). Hefyd, gall awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal CDU ar gyfer plentyn enwi ysgol a gynhelir yng

---
[18] Adrannau 14(1) - (2) ac 19(1) - (2) o'r Ddeddf
[19] Adrannau 14(5) ac 19(3) o'r Ddeddf.
[20] Adrannau 14(5) ac (19)(3) o'r Ddeddf
[21] Adran 21(3) o'r Ddeddf.
[22] Adran 21(4) o'r Ddeddf.
[23] Adrannau 14(6) - (8) ac 19(4) - (6) o'r Ddeddf.

Nghymru at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol[24]. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ym Mhennod 11[25].

8.25 Mae gan awdurdod lleol sy'n llunio cynllun ar gyfer plentyn bŵer, mewn rhai amgylchiadau, i enwi ysgol a gynhelir at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn yno. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ffafrio addysg brif-ffrwd a gynhelir ar gyfer plentyn o oedran ysgol gorfodol. Mae'r adrannau ym Mhennod 11 sy'n delio â'r materion hyn hefyd yn berthnasol lle mae awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer plentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol nad yw mewn ysgol a gynhelir.

8.26 **Caiff**[26] awdurdodau lleol drefnu i'r DDdY, neu unrhyw ran o'r DDdY, a ddisgrifir yn y CDU sydd gan blentyn, gael ei chyflwyno y tu allan i ysgol. Mae trefniadau felly yn annhebygol yn gyffredinol, ond mewn perthynas â phlant sydd o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, byddai hyn yn fwy cyffredin. Fodd bynnag, **ni chaiff**[27] awdurdod lleol drefnu i DDdY plentyn gael ei chyflwyno y tu allan i ysgol oni bai ei fod yn fodlon y byddai'n amhriodol ei chyflwyno mewn ysgol.

8.27 **Rhaid**[28] i'r awdurdod lleol lunio'r CDU. Cyn ei gwblhau'n derfynol, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r rhiant roi ei sylwadau ar gopi drafft a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl y gofyn, er enghraifft diweddaru'r CDU drafft neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

8.28 Unwaith y bydd wedi'i lunio, **rhaid**[29] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i riant y plentyn ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, i'r swyddog adolygu annibynnol. **Rhaid**[30] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ynghylch ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi o'r cynllun yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod 12 wythnos ar ôl i'r ffaith y gallai fod gan y plentyn ADY gael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu ar ôl i hynny ymddangos iddo fel arall.

8.29 Ond nid yw'r gofyniad i roi copi o'r CDU o fewn y cyfnod 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[31].

---

[24] Adran 48 o'r Ddeddf.
[25] Er bod pennod 11 yn rhoi sylw i ddyletswyddau awdurdodau lleol o ran plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir, mae'r adrannau yn y bennod honno sy'n delio â'r materion hyn hefyd yn berthnasol lle mae'r awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer plentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol.
[26] Adran 53(1) o'r Ddeddf.
[27] Adran 53(2) o'r Ddeddf.
[28] Adrannau 14(1) - (2) ac 19(1) - (2) o'r Ddeddf.
[29] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[30] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[31] Gweler pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.

8.30 **Rhaid**[32] i'r awdurdod lleol roi'r canlynol hefyd i riant y plentyn:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[33]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[34] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[35]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch elfennau penodol o'r CDU.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY*

8.31 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer y plentyn, **rhaid**[36] iddo gynnal y CDU hwnnw.

8.32 Efallai y bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 21.

8.33 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[37] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (hy lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn ddisgwyliedig yng nghyd-destun DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan gorff GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[38] i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[39] i'r awdurdod lleol (neu'r corff GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

8.34 **Ni chaiff**[40] yr awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn na'i rieni am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y plentyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

8.35 Os bydd plentyn yn derbyn addysg feithrin a gyllidir gan yr awdurdod lleol mewn lleoliad nas cynhelir, **dylai'r** darparwr helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a ddisgrifir yn y CDU.

[32] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[33] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[34] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[35] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[36] Adrannau 14 ac 19 o'r Ddeddf.
[37] Adrannau 14(10) ac (19)(7) o'r Ddeddf.
[38] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[39] Adrannau 14(10)(c), 19(7)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[40] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.

8.36 Os bydd y plentyn yn cofrestru'n ddiweddarach mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, **caiff**[41] yr awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r ysgol gynnal y CDU. Fodd bynnag, **ni chaiff**[42] yr awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol gynnal CDU os yw'n cynnwys darpariaeth arall y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei sicrhau (hy lle mewn ysgol neu sefydliad penodol, neu fwyd a llety) neu os yw'r plentyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lle neu os yw'n derbyn gofal.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU*

8.37 Mae dyletswyddau ar awdurdod lleol i adolygu CDU[43] (gweler Pennod 16 i gael gwybod mwy).

## *Swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar*

8.38 **Rhaid**[44] i bob awdurdod lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Yr enw ar y swyddog hwn yw Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar[45].

8.39 Mae swyddogaethau'r awdurdod lleol yn cynnwys y canlynol:

- penderfynu a oes gan blant ADY[46], llunio a chynnal CDUau[47] (gan gynnwys sicrhau'r DDdY a nodir yn y CDU), a darparu gwybodaeth am CDUau[48] (ymdrinnir â'r swyddogaethau hyn, mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu lleoliad a gynhelir uchod yn y bennod hon);
- adolygu a diwygio CDUau[49] (gweler pennod 16);
- adolygu trefniadau DDdY[50] (gweler pennod 5);
- gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hysbysu rhieni a chyfeillion achos plant o fewn ei ardal (ymhlith eraill) am y trefniadau[51] (gweler pennod 6).

[41] Adran 14(4) o'r Ddeddf.
[42] Adrannau 14(9), 19 a 30(7) o'r Ddeddf.
[43] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf.
[44] Adran 62(1) o'r Ddeddf.
[45] Adran 62(2) o'r Ddeddf.
[46] Adrannau 13(1) ac 18(1) o'r Ddeddf.
[47] Adrannau 14 ac 19 o'r Ddeddf.
[48] Adran 22 o'r Ddeddf.
[49] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf.
[50] Adran 63 o'r Ddeddf.
[51] Adran 9 o'r Ddeddf.

### Profiad ac arbenigedd swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar

8.40 **Dylai** fod gan swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar brofiad o'r canlynol ac arbenigedd ynddynt:

- gweithio'n agos gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar sydd ag ADY a chyda'u teuluoedd; a
- delio â darparu gwasanaethau er mwyn diwallu ADY y plant hyn, ar draws amrywiol leoliadau.

8.41 Dim ond unigolyn y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn ddigon cymwys a phrofiadol i gyflawni disgwyliadau'r rôl a nodir ym mharagraffau 8.42 i 8.47 o'r bennod hon, felly, y **dylai'r** awdurdod ei ddynodi'n swyddog arweiniol ADY ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Yn benodol, **dylai'r** swyddog:

- allu rhoi cyfarwyddyd strategol cyffredinol i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn ysgol a gynhelir;
- gallu gweithredu fel ffynhonnell arbenigedd ar gyfer darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir a'u sefydliadau ambarél ar faterion sy'n ymwneud ag ADY.

### Rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar

8.42 Mae rôl swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar yn rôl strategol a **dylai** awdurdod lleol gynnwys y cyfrifoldebau canlynol o fewn y rôl:

(a) cydweithio â'r personau perthnasol ac ag asiantaethau eraill;
(b) codi ymwybyddiaeth o'r system ADY;
(c) hyrwyddo ymdrechion i adnabod anghenion yn gynnar a'u hatal rhag datblygu;
(d) amrywiaeth o gyfrifoldebau strategol eraill.

8.43 Mae canllawiau ar y materion hyn i'w gweld isod.

*a) Cydweithio*

8.44 **Dylai** fod disgwyl i swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar sefydlu arferion a threfniadau effeithiol ar gyfer cydweithio ag eraill sy'n gweithio gyda phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir o fewn ardal yr awdurdod lleol. Gallai hyn gynnwys darparwyr addysg feithrin, darparwyr gofal plant, sefydliadau ambarél perthnasol ac unrhyw asiantaethau neu wasanaethau eraill sy'n cydweithio'n agos â phlant o'r fath a'u teuluoedd (er enghraifft, cyrff ac ymarferwyr iechyd, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a SACDA; Dechrau'n Deg; Teuluoedd yn Gyntaf; gwasanaethau cymdeithasol; a CADYau ysgolion). **Dylai** fod disgwyl i swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar hyrwyddo cydweithio rhwng y personau hyn a'r awdurdod lleol, gan gynnwys helpu i drosglwyddo plant i'r ysgol yn llwyddiannus.

*b) Codi ymwybyddiaeth o'r system ADY*

8.45 Diben y cydweithio a hyrwyddir gan swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar rhwng yr asiantaethau a'r personau ym mharagraff 8.44 yw codi ymwybyddiaeth o'r system ADY a sut mae'n berthnasol i blant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn ysgol a gynhelir. **Dylai'r** cyfrifoldebau gynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o'r system ADY mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto yn mynychu meithrinfa neu ysgol a gynhelir;
- darparu cymorth, cyngor a chanllawiau mewn perthynas â materion ADY ar gyfer plant o'r fath;
- hyrwyddo trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth am ADY i rieni, cyfeillion achos y plant ac eraill, fel y bo'n briodol (gweler pennod 6 i gael canllawiau manwl am drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth);
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd ar gyrff iechyd i hysbysu'r awdurdod lleol cyfrifol neu'r awdurdod lleol y mae plentyn yn derbyn gofal ganddo os yw'n dod i'r farn bod gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ADY, neu ei bod yn debygol bod ganddo ADY (gweler pennod 15 i gael gwybod mwy);
- gwneud trefniadau ar gyfer hyfforddiant am y system ADY a sut mae'n berthnasol i blant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto yn mynychu ysgol a gynhelir;
- darparu canllawiau, cyngor, cymorth ac arbenigedd yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir i helpu eu staff i adnabod plant y gallai fod ganddynt ADY a diwallu anghenion plant sy'n mynychu eu lleoliadau - mae hyn yn cynnwys mewn perthynas ag ADY ac oedi yn natblygiad plant (gellid darparu cyngor a chyfarwyddyd ar lafar o fewn lleoliadau neu dros y ffôn, neu drwy ganllawiau ysgrifenedig);
- darparu canllawiau a chyngor yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir ar sut y gallant helpu'r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys mewn perthynas â chyflwyno'r DDdY a nodir yn y CDU sydd gan blentyn.

*c) Hyrwyddo ymdrechion i adnabod anghenion yn gynnar a'u hatal rhag datblygu*

8.46 **Dylai** fod gan swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar rôl ragweithiol wrth gefnogi a gweithio gyda darparwyr gofal plant ac addysg feithrin nas cynhelir, cyrff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol (ac unrhyw wasanaethau eraill sy'n gweithio'n agos gyda phlant) i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ADY, eu sgiliau ADY a'u gwybodaeth am ADY. Diben hyn yw eu galluogi i adnabod ADY posibl yn gynnar, gyda'r nod o sefydlu ymyriadau cynnar priodol er mwyn mynd i'r afael ag ADY neu anghenion datblygu eraill ac atal ADY rhag datblygu neu waethygu. **Dylai'r** cyfrifoldebau

gynnwys lledaenu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo sgiliau o fewn gweithlu'r blynyddoedd cynnar er mwyn:

- adnabod arwyddion o oedi o ran datblygiad ac ADY, yn enwedig ADY lefel is;
- hyrwyddo atgyfeirio priodol i'r awdurdod lleol a pheidio â hyrwyddo atgyfeirio amhriodol, er enghraifft oedi o ran datblygiad nad yw'n gyfystyr ag ADY, ond a allai ddatblygu'n ADY os na eir i'r afael â'r mater yn gynnar;
- diwallu anghenion plant ag ADY ac anghenion datblygu eraill.

*d) Cyfrifoldebau strategol*

8.47 **Dylai** swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar:

- fod â rôl yn y gwaith o gynllunio'n strategol ar gyfer a dyrannu unrhyw gyllidebau a/neu gyllid sydd gan yr awdurdod ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn ysgol a gynhelir;
- bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu polisi'r awdurdod ar ddarpariaeth ADY ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto mewn ysgol a gynhelir;
- datblygu a chyflwyno hyfforddiant i leoliadau ar faterion sy'n ymwneud ag ADY, gan ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill lle bo'n briodol er mwyn cael mewnbwn arbenigwyr;
- cynnal ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun ym maes ADY er mwyn parhau i fod yn ffynhonnell wybodaeth awdurdodol ac arbenigol.

# Pennod 9: Dyletswyddau ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru

## *Cyflwyniad*

9.1 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr ysgol neu'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDUau disgyblion sy'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru. Gan amlaf, yr ysgol a gynhelir fydd yn gyfrifol am benderfynu a oes gan ddisgybl ADY ac am lunio a chynnal CDU.

9.2 Fel rheol, dim ond yn yr achosion hynny lle mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn fwy dwys, cymhleth neu brin y bydd awdurdod lleol yn penderfynu p'un a oes gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ADY ac yn llunio a chynnal CDU. Y prif eithriadau yw pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu mwy nag un ysgol neu sefydliad arall ("cofrestriad/ymrestriad deuol") - yn yr achosion hyn, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol fel rheol am benderfyniadau ac am gynnal CDU, beth bynnag yw'r anghenion).

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i benderfynu a oes gan ddisgybl ADY*

9.3 Os caiff y posibilrwydd bod gan ddisgybl yn yr ysgol ADY ei ddwyn i sylw ysgol a gynhelir, neu os bydd hyn yn ymddangos iddo fel arall, **rhaid**[1] i'r ysgol benderfynu a oes gan y disgybl ADY, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) bod CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y disgybl hwnnw;
(b) bod yr ysgol wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y disgybl wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy’n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) bod y disgybl yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad;
(d) bod y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arall yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys ysgolion annibynnol), neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu Loegr ("cofrestriad deuol"), a bod awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc[2]. Os ydynt wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad, **rhaid**[3] i'r corff llywodraethu gyfeirio'r achos i'r

[1] Adrannau 11(1), 11(3) ac 11(5) o'r Ddeddf.
[2] Gweler Pennod 1 i gael mwy o fanylion am blant a phobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt.
[3] Adran 30(2) o’r Ddeddf.

awdurdod lleol cyfrifol, (gweler paragraffau 9.39 – 9.48 isod ar gyfeirio achosion i'r awdurdod lleol);

(e) bod y disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru ac nad yw'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. **Rhaid**[4] i'r ysgol gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol y mae'r plentyn yn derbyn gofal ganddo (gweler paragraffau 9.39 – 9.48 isod ar gyfeirio achosion i'r awdurdod lleol);

(f) bod y disgybl yn destun gorchymyn cadw'n gaeth (gweler Pennod 22);

(g) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl. (Dim ond os yw'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn berthnasol[5].)

9.4 Os bydd gan ysgol ddyletswydd i benderfynu a oes gan ddisgybl ADY, **rhaid**[6] iddi:

(a) ddynodi person i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Gellid dynodi'r CADY, ond does dim rhaid;

(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff y ffaith y gallai fod gan ddisgybl ADY ei dwyn i'w sylw neu pan wnaeth hynny ymddangos iddi fel arall;

(c) cofnodi'r dyddiad pan gydsyniodd y disgybl, os yw'n berson ifanc, i'r bwriad i wneud penderfyniad;

(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y disgybl ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos i'r ysgol fel arall y gallai fod gan y disgybl ADY;

(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau 9.6 a 9.7 isod.

9.5 Gall y disgybl ei hun, rhiant neu aelod arall o'r teulu, neu gorff allanol neu weithiwr proffesiynol, fel yr awdurdod lleol, ddwyn i sylw'r ysgol y posibilrwydd y gallai fod gan ddisgybl ADY. Nid yw'n bwysig sut y caiff ei ddwyn i sylw'r ysgol y gallai fod gan ddisgybl ADY, neu sut yr ymddengys iddi fel arall y gallai hyn fod yn wir; os yw'r ysgol yn ymwybodol o'r posibilrwydd, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn berthnasol (yn amodol ar yr eithriadau a restrir uchod). (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ac ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ym Mhennod 7.)

9.6 Os yw'r disgybl yn blentyn, **rhaid**[7] i'r ysgol hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn fod gofyn iddi benderfynu a oes gan y disgybl ADY.

9.7 Os yw'r disgybl yn berson ifanc, **rhaid**[8] i'r ysgol wneud y canlynol yn brydlon (o'r adeg pan gaiff ei ddwyn i'w sylw y gallai fod gan y person ifanc ADY, neu pan ymddengys fel arall iddi):

---

[4] Adran 17 o'r Ddeddf. Rhaid gwneud hyn hefyd os yw'r plentyn yn derbyn gofal ac o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.
[5] Gweler Pennod 1 i gael mwy o fanylion am sefyllfa lle bydd plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr.
[6] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[7] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[8] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

(a) hysbysu'r person ifanc bod y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY wedi'i ddwyn i'w sylw neu fod hynny wedi ymddangos iddi fel arall;
(b) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r bwriad i wneud penderfyniad ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i'r bwriad i lunio a chynnal CDU; ac
(c) rhoi gwybod i'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad a pheidio â chydsynio.

9.8 Yn y naill achos neu'r llall, **rhaid**[9] i'r hysbysiad gynnwys:

- enw a manylion cyswllt y cydlynydd;
- gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY.[10] Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

9.9 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o amserlenni tebygol y broses (gan roi ystyriaeth i'r terfyn amser perthnasol isod).

9.10 Os na fydd person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad, **rhaid**[11] cofnodi hyn. **Dylai** fod gan ysgolion weithdrefnau priodol i hwyluso hyn, ee gofyn i'r person ifanc lofnodi i gadarnhau nad yw'n cydsynio.

9.11 Os bydd plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc yn tynnu sylw ysgol at y ffaith y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, ond ei bod wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** esbonio hyn i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

9.12 **Dylid** rhoi ystyriaeth i p'un a yw'r disgybl eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu p'un a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y disgybl ADY ac wrth lunio CDU. (Mae mwy o ganllawiau ar rôl gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ym Mhennod 7.)

9.13 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi'r lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o geisio adnabod ei ADY a

---

[9] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[10] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. At ddibenion darpariaethau'r Cod hwn ar drefniadau i roi gwybodaeth a chyngor o dan adran 9, os yw'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol.
[11] Gofyniad a orfodir gan y Cod

phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y disgybl ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18).

## *Penderfyniad ysgol a gynhelir nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY*

9.14 Os bydd yr ysgol yn penderfynu nad oes gan y disgybl ADY, **rhaid**[12] iddi hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. **Rhaid**[13] cymryd y penderfyniad hwnnw a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod ysgol o:

(a) yn achos plentyn, yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y disgybl ADY ei dwyn i sylw'r ysgol, neu pan fydd hynny yn ymddangos iddi fel arall;
(b) yn achos person ifanc, yr adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad.

9.15 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn 35 diwrnod ysgol yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r ysgol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth[14].

9.16 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[15] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[16]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[17] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[18];
(d) gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y mater[19] a'r manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol cyfrifol.

9.17 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd yng ngoleuni ei hystyriaeth i sicrhau bod anghenion y disgybl (nad ydynt yn ADY)

[12] Adran 11(4) o'r Ddeddf.
[13] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[14] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[15] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[16] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[18] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[19] Dyma'r hawl o dan adran 26 o'r Ddeddf.

yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

9.18 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc drafod y mater ymhellach.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i lunio CDU ar gyfer disgybl*

9.19 Os bydd ysgol yn penderfynu bod gan y disgybl ADY, **rhaid**[20] iddi lunio CDU ar gyfer y disgybl hwnnw oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) bod yr ysgol yn ystyried bod gan y disgybl ADY a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol iddi hi ei sicrhau, neu na all benderfynu'n iawn ar raddau neu natur yr ADY, neu na all benderfynu'n iawn ar y DDdY ar ei gyfer; a bod yr ysgol yn cyfeirio achos y disgybl i'r awdurdod lleol cyfrifol benderfynu arno;
(b) bod y CDU yn ymwneud â pherson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad (gweler Pennod 3 i gael gwybodaeth am gydsyniad pobl ifanc);
(c) bod y disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr a bod yr ysgol yn gwneud cais i'r awdurdod lleol hwnnw sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc[21];
(d) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl.

9.20 Os, yn dilyn cais gan ysgol i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer disgybl, bydd yr ysgol yn cael ei hysbysu gan yr awdurdod lleol yn Lloegr nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl, **rhaid**[22] i'r ysgol lunio CDU ar gyfer y disgybl oni bai bod y CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad.

9.21 **Rhaid**[23] i'r ysgol ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r disgybl drwy'r Gymraeg, ac os bydd yn penderfynu y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[24] i'r corff nodi'n benodol yn y cynllun y dylid ei ddarparu drwy'r Gymraeg.

9.22 Os, ar ôl i awdurdod lleol gyfeirio achos at gorff GIG, bydd y corff yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y disgybl, **rhaid**[25] i'r ysgol ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. **Rhaid**[26] i'r ysgol

[20] Adrannau 12(1) a (12)(2) o'r Ddeddf
[21] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014
[22] Adran 12(5) o'r Ddeddf.
[23] Adran 12(6) o'r Ddeddf
[24] Adran 12(6) o'r Ddeddf
[25] Adran 21(3) o'r Ddeddf.
[26] Adran 21(4) o'r Ddeddf.

nodi'n benodol hefyd yn y CDU y dylai'r DDdY sydd i'w sicrhau gan y corff GIG fod drwy'r Gymraeg os yw'r corff GIG wedi penderfynu hynny (gweler Pennod 15 i gael gwybod mwy am hyn).

9.23 **Rhaid**[27] i'r ysgol lunio'r CDU. Cyn ei gwblhau'n derfynol, **dylai'r** ysgol roi cyfle i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft o'r CDU a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** ysgol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl y gofyn, er enghraifft diweddaru'r CDU neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

9.24 Unwaith bydd wedi'i lunio, **rhaid**[28] i'r ysgol roi copi o'r CDU i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc. **Rhaid**[29] i'r ysgol wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod ysgol[30] o:

(a) yn achos disgybl sy'n blentyn, yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y disgybl ADY ei dwyn i sylw'r ysgol, neu pan fydd hynny yn ymddangos iddi fel arall, neu
(b) yn achos disgybl sy'n berson ifanc, yr adeg pan fydd y disgybl yn cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad.

9.25 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod 35 diwrnod ysgol yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r ysgol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth[31].

9.26 **Rhaid**[32] i'r ysgol roi'r canlynol hefyd i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr ysgol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[33]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[34] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[35];
(d) gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU neu gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal, a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol[36].

---

[27] Mae adrannau 12(1) o'r Ddeddf yn gosod y ddyletswydd i lunio'r CDU.
[28] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[29] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[30] Gorfodir y gofyniad hwn ynghylch yr amserlen gan y Cod. Nodir y ddyletswydd i roi copi o'r CDU yn adran 22(1) o'r Ddeddf.
[31] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[32] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[33] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[34] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[35] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[36] Dyma'r hawliau o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer disgybl ag ADY ond sydd heb CDU*

9.27 Os oes gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru ADY, ond nad oes CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, **rhaid**[37] i'r ysgol, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY y mae ADY y disgybl yn galw amdani yn cael ei gweithredu.

9.28 Efallai nad oes gan y disgybl CDU oherwydd:

- bod yr ysgol wrthi'n llunio CDU ar gyfer y disgybl;
- bod yr ysgol wedi cyfeirio'i achos i awdurdod lleol a bod yr awdurdod wrthi'n llunio CDU;
- bod y disgybl yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad am ADY nac yn cydsynio i'r bwriad i lunio neu gynnal cynllun;
- bod awdurdod lleol yn Lloegr wrthi'n cynnal asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu'n llunio cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl (yn dilyn cais gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal); neu
- bod gan y plentyn neu'r person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

9.29 Bydd angen i'r ysgol benderfynu beth y mae angen iddi ei wneud er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer pob disgybl sydd ag ADY yng ngoleuni'r amgylchiadau penodol.

9.30 Os bydd gan y disgybl gynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn amlinellu ei hanghenion, ar sail asesiadau, ac yn nodi'r union ddarpariaeth addysgol arbennig i'w diwallu. Mewn amgylchiadau felly, efallai y gall yr ysgol gyflawni ei dyletswydd, drwy gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol hwnnw i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd yn y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

9.31 Mewn achosion lle eir ati i benderfynu a oes gan y dysgwr ADY neu i lunio CDU (neu, mewn perthynas â disgyblion o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, os yw asesiad Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei ystyried neu ei gynnal neu gynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei lunio), dylid bod wedi cynnal asesiad cychwynnol o anghenion y disgybl. Dylai fod gan yr ysgol wybodaeth gan y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc ac, o bosibl, gyngor gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft seicolegydd addysg (boed yn benodol mewn perthynas â'r disgybl, neu'n fwy cyffredinol am anghenion ymddangosiadol y disgybl), a safbwyntiau staff addysgu yn yr ysgol mewn perthynas â'r disgybl, ynghyd â thystiolaeth ganddynt. Gallai'r dystiolaeth honno gynnwys sut mae'r disgybl wedi ymateb i ymyriadau penodol (gan gynnwys addysgu gwahaniaethol) yn y gorffennol. Mewn rhai

[37] Adran 47(1) - (2) o'r Ddeddf

achosion, efallai fod gan y person gynllun, a gynhelid yn ddiweddar, er enghraifft os yw'r person wedi symud o Loegr i Gymru a bod yr awdurdod lleol yn Lloegr wedi cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

9.32 Ar sail yr ystod hwn o wybodaeth a chyngor, dylai'r ysgol fod â dealltwriaeth eang o'r math o ADY sydd gan y plentyn neu'r person ifanc a **dylai**:

- wneud trefniadau i roi gwybod am yr anghenion hynny i'r holl staff sy'n ymwneud â'r disgybl;
- cynnwys y CADY wrth gynghori staff addysgu ar y dulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r disgybl er mwyn diwallu'r anghenion;
- gwneud addasiadau priodol i amgylchedd yr ysgol er mwyn ei gwneud yn haws i'r plentyn neu'r person ifanc gael ei addysg;
- darparu cymorth ychwanegol a/neu wahanol priodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr allanol;
- monitro effaith y cymorth a ddarperir ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc a'i addasu os daw i'r amlwg y byddai hyn yn briodol.

9.33 Caiff y DDdY y mae'r anghenion yn galw amdani ei hadnabod yn ystod y broses o lunio CDU. Efallai y caiff y DDdY, neu fathau arbennig o'r ddarpariaeth, eu hadnabod yn gynnar yn y broses a pheth amser cyn y bydd y CDU wedi'i gwblhau. Lle bydd hynny'n digwydd, **ni ddylai** ysgolion aros tan y bydd y CDU wedi'i gwblhau'n derfynol cyn cymryd camau i sicrhau'r DDdY sydd wedi'i hadnabod ar gyfer plentyn.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY*

9.34 Os bydd ysgol wedi llunio CDU ar gyfer disgybl, **rhaid**[38] iddi gynnal y CDU hwnnw oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) bod y CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n cydsynio y dylai'r CDU gael ei gynnal;
(b) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl.

9.35 Gall dyletswydd yr ysgol i gynnal CDU beidio am resymau eraill, gan gynnwys os yw'r ddyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo i gorff arall (er enghraifft, pan fydd disgybl yn dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu'n cael ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad). Mae gwybodaeth am drosglwyddo CDUau ym Mhennod 20 a gwybodaeth am beidio â chynnal CDU ym Mhennod 21.

9.36 Os yw ysgol yn cynnal cynllun, **rhaid**[39] iddi sicrhau'r DDdY a ddisgrifir ynddo, ac eithrio unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd

[38] Adrannau 12(1) a (12)(2) o'r Ddeddf
[39] Adran 12(7)(a) o'r Ddeddf

gan gorff GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[40] i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[41] i'r ysgol (neu'r corff GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

9.37 **Ni chaiff**[42] yr ysgol godi tâl ar y plentyn, ei rieni, na'r person ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Adolygu'r CDU*

9.38 Mae dyletswyddau ar ysgol[43] i adolygu CDU (gweler Pennod 16 i gael gwybod mwy).

## *Cyfeirio achosion o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol*

9.39 Os bydd dyletswydd ar ysgol i benderfynu a oes gan un o'i disgyblion cofrestredig ADY, **caiff** gyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol cyfrifol[44] ar y sail ei bod yn ystyried bod gan y disgybl ADY ac[45]:

- y gallai'r ADY alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau
- na all benderfynu'n iawn ar raddau neu natur ADY y disgybl, neu
- na all benderfynu'n iawn ar y DDdY y gallai ADY y disgybl alw amdani.

9.40 Os caiff y ffaith y gallai fod gan un o'i disgyblion cofrestredig ADY ei dwyn i sylw ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu os bydd hynny'n ymddangos iddi fel arall, ond nad oes gan y disgybl CDU, **rhaid**[46] i'r ysgol gyfeirio achos y disgybl i'r awdurdod lleol cyfrifol, os yw'r disgybl:

(a) yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arall yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys ysgolion annibynnol), neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu Loegr, a'i fod i gael addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad ("cofrestriad deuol") (os felly, rhaid cyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol cyfrifol); neu

(b) yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru (os felly, rhaid cyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn derbyn gofal).

9.41 Os bydd yr ysgol yn dechrau dod yn ymwybodol bod sail dros gyfeirio achos disgybl i'r awdurdod lleol, **dylai** weithredu'n brydlon i'w gyfeirio. Dylai allu

[40] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf
[41] Adrannau 12(7)(b), 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf
[42] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.
[43] Adran 23 o'r Ddeddf.
[44] Dim ond os yw'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol y gellir gwneud hyn. Os yw'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, efallai y bydd yr ysgol yn gwneud cais am i'r awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad Addysg, Iechyd a Gofal: adran 12(2)(c) o'r Ddeddf.
[45] Adran 12(2)(a) o'r Ddeddf.
[46] Adrannau 30(1) - (2) ac 17 o'r Ddeddf.

gwneud hynny ar unwaith mewn achosion lle mae disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu lle mae plentyn yn derbyn gofal. Yn yr achosion eraill (lle mae'r ysgol o dan ddyletswydd i benderfynu hyd nes y bydd yn cyfeirio'r achos), dylai'r ysgol allu cyfeirio'r achos o fewn 20 diwrnod ysgol o

- yn achos disgybl sy'n blentyn, y dyddiad pan gaiff y ffaith bod gan y disgybl ADY ei dwyn i'w sylw neu pan wnaeth hynny ymddangos iddi fel arall, neu
- yn achos disgybl sy'n berson ifanc, y dyddiad pan gaiff gydsyniad y disgybl i'r bwriad i wneud penderfyniad.

9.42 Wrth gyfeirio achos o'r fath o dan baragraff 9.40, **dylai'r** ysgol hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ei bod yn gwneud hynny. Ar yr un pryd, yn achos person ifanc, **dylai'r** ysgol hefyd geisio cydsyniad y person ifanc i'r bwriad i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY, ac yna roi gwybod i'r awdurdod lleol p'un a gafwyd cydsyniad.

9.43 Yn achlysurol, efallai mai dim ond yn nes ymlaen yn y broses o benderfynu a oes gan y disgybl ADY neu o lunio CDU y daw'r sail dros gyfeirio'r achos, o dan baragraff 9.39 i'r amlwg. Er enghraifft, efallai mai dim ond pan fydd cyngor penodol yn dod i law gan wasanaeth arbenigol y bydd yr ysgol yn sylweddoli bod natur ADY y disgybl yn fwy sylweddol nag yr oedd wedi'i feddwl, neu fod angen DDdY ar y disgybl na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau. Os bydd y sail dros gyfeirio achos yn dod i'r amlwg lawer yn ddiweddarach yn y broses, **caiff** yr ysgol gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol o hyd, ond os bydd yn gwneud hynny, **dylai'r** ysgol weithredu'n brydlon er mwyn lleihau'r oedi cyn sefydlu CDU.

9.44 Gallai amgylchiadau'r ysgol (hy ei lleoliad, ei maint, ei chyllideb, ei phrofiad ac ati) effeithio ar safbwynt yr ysgol o ran a fyddai'n rhesymol iddi sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, os yw'r disgybl:

- yn dioddef o gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all yr ysgol ei ddarparu;
- angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan yr ysgol;
- angen cyfarpar na ellir ei ddefnyddio ond gan un disgybl neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol yr ysgol; neu
- angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido neu ei sicrhau o gyllideb yr ysgol.

9.45 **Dylai** awdurdodau lleol sefydlu, mewn ymgynghoriad ag ysgolion a gynhelir ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn eu tŷb nhw, a chyhoeddi cyfres o egwyddorion i'w dilyn wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar blentyn neu berson ifanc neu a ddylai'r awdurdod wneud hynny. **Dylai'r** egwyddorion ymwneud â:

- graddau a hyd cyfnod y ddarpariaeth a gynghorir gan arbenigwyr allanol sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei sicrhau;
- y cyfarpar sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu;
- dwyster a hyd cyfnod y cymorth a graddfa ymgysylltiad y staff (gan gynnwys y CADY) yn yr ysgol sy'n debygol o fod yn afresymol i ysgol ei ddarparu.

9.46 Cyn cyfeirio achos i'r awdurdod lleol o dan baragraff 9.39, **dylai'r** ysgol ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg i weld a yw hyn yn briodol.

9.47 Os cyfeirir achos i awdurdod lleol o dan baragraff 9.39 neu baragraff 9.40, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i benderfynu[47] (yr ymdrinnir â hi isod) yn berthnasol.

9.48 Os bydd ysgol yn cyfeirio penderfyniad am ADY i'r awdurdod lleol, **dylai** ddarparu unrhyw wybodaeth i'r awdurdod lleol sydd ganddi sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch a oes gan y disgybl ADY ai peidio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i ddiwallu anghenion y disgybl, er enghraifft unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig a sefydlwyd. Byddai hefyd yn cynnwys unrhyw adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig a dderbyniwyd gan asiantaethau allanol yn ogystal â ph'un a yw person ifanc wedi cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ADY*

9.49 Os caiff y ffaith y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc a gofrestrwyd yn ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru y mae'n gyfrifol amdano, neu fod gan blentyn sy'n derbyn gofal ganddo, ADY, ei dwyn i sylw awdurdod lleol, neu os yw hynny'n ymddangos iddo fel arall, **rhaid**[48] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y disgybl ADY ai peidio, oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) bod CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y disgybl;
(b) bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y disgybl wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod cwestiwn a oes gan y disgybl ADY ai peidio yn cael ei benderfynu gan yr ysgol (o dan adran 11 o'r Ddeddf);
(d) bod y disgybl yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad;

[47] Adran 13 (yn rhinwedd adran 30(2) mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc a gofrestrwyd mewn mwy nag un lleoliad) ac adran 18 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal.
[48] Adrannau 13(1), 13(2), 13(4), 18(1) ac 18(2) o'r Ddeddf

(e) bod y disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol arall (os felly, **rhaid**[49] i'r awdurdod lleol gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn derbyn gofal;
(f) bod y plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ond ei fod o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr;
(g) bod y disgybl yn destun gorchymyn cadw'n gaeth (er y gallai'r awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i benderfynu o dan ddarpariaethau gwahanol - gweler Pennod 22).

9.50 At hyn, os bydd plentyn neu berson ifanc neu, yn achos plentyn, rhiant y plentyn yn gwneud cais am i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad a wnaed gan ysgol a gynhelir yng Nghymru ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY (neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad ynghylch y mater hwnnw), **rhaid**[50] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y disgybl ADY ai peidio (gweler Pennod 17 ar ailystyried, gan gynnwys eithriadau i'r ddyletswydd hon).

9.51 Os oes dyletswydd ar awdurdod lleol i benderfynu a oes gan ddisgybl ADY, **rhaid**[51] iddo:

(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, **dylid** dynodi cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y rôl;
(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff y ffaith y gallai fod gan ddisgybl ADY ei dwyn i'w sylw neu pan wnaeth hynny ymddangos iddo fel arall;
(c) cofnodi'r dyddiad pan gydsyniodd y disgybl, os yw'n berson ifanc, i'r bwriad i wneud penderfyniad;
(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y plentyn ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y plentyn ADY;
(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau 9.57 a 9.58 isod.

9.52 Fel yn achos dyletswydd ysgol i benderfynu, nid yw sut y caiff y posibilrwydd bod gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ADY ei ddwyn i sylw awdurdod lleol yn bwysig neu sut y bydd yn ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y disgybl ADY; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna, yn amodol ar eithriadau, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn berthnasol. Fel rheol, bydd yn dod i'w sylw pan fydd ysgol yn cyfeirio achos y disgybl.

9.53 Ar adegau eraill, efallai y bydd y disgybl, neu riant neu aelod arall o'r teulu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod, neu bydd corff allanol neu weithiwr proffesiynol yn cyfeirio'r achos. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried mai'r ysgol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu, yn y lle cyntaf o leiaf (efallai am ei bod yn amlwg ei bod yn annhebygol bod

[49] Adran 17 o'r Ddeddf.
[50] Adran 26 o'r Ddeddf
[51] Gofyniad a orfodir gan y Cod

angen CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer unrhyw ADY a allai fod gan y disgybl) ac yn dod â'r mater i sylw'r ysgol. Wrth wneud hyn, bydd yn ysgogi'r ddyletswydd sydd gan yr ysgol i benderfynu ac, os bydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod yr ysgol yn penderfynu ar y mater, ni fydd dyletswydd yr awdurdod yn berthnasol (gweler yr eithriad ym mharagraff 9.49 uchod).

9.54 Efallai y bydd y posibilrwydd bod gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ADY yn "ymddangos fel arall" i awdurdod lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau eraill, er enghraifft ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Unwaith eto, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cyfeirio'r mater i'r ysgol berthnasol yn y lle cyntaf. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ac ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ym Mhennod 7.)

9.55 Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan ddisgybl ADY, **rhaid**[52] i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor. **Dylai'r** cyngor hwn ymwneud â:

(a) nodweddion addysgol, seicolegol neu eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn neu'r person ifanc (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol);
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn neu'r person ifanc;
(c) y ddarpariaeth a allai fod yn briodol i'r plentyn neu'r person ifanc yng ngoleuni'r nodweddion hynny, boed yn DDdY neu'n ddarpariaeth arall.

9.56 **Dylid** rhoi ystyriaeth hefyd i p'un a yw'r disgybl mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu p'un a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y disgybl ADY ac wrth lunio CDU. (Mae mwy o ganllawiau ar rôl gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ym Mhennod 7.)

9.57 Os yw'r disgybl yn blentyn, neu'n berson ifanc sydd eisoes wedi rhoi ei gydsyniad i'r bwriad i wneud penderfyniad, **rhaid**[53] i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn brydlon ei fod wrthi'n penderfynu a oes gan y disgybl ADY ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol.

9.58 Os yw'r disgybl yn berson ifanc nad yw wedi rhoi ei gydsyniad i'r bwriad i benderfynu a oes ganddo ADY, **rhaid**[54] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon (o'r adeg pan fydd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY wedi ei ddwyn i'w sylw, neu pan fydd yn ymddangos iddo fel arall):

(a) hysbysu'r person ifanc bod y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY wedi'i ddwyn i'w sylw neu fod hynny wedi ymddangos iddo fel arall;
(b) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r bwriad i wneud penderfyniad ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i'r bwriad i lunio a chynnal CDU neu, yn achos person ifanc a gedwir yn gaeth, i'r bwriad i lunio a chadw CDU;

[52] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[53] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[54] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

(c) rhoi gwybod i'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad a pheidio â chydsynio.

9.59 Yn y naill achos neu'r llall, **rhaid**[55] i'r hysbysiad a roddir i'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydlynydd;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[56]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

9.60 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o amserlenni tebygol y broses (gan roi ystyriaeth i'r terfyn amser perthnasol isod).

9.61 Os na fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad, **rhaid**[57] cofnodi hyn. Dylai fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau priodol i hwyluso hyn, a allai gynnwys gofyn i'r person ifanc lofnodi i gadarnhau nad yw'n cydsynio.

9.62 Os bydd plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc yn tynnu sylw awdurdod lleol at y ffaith y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, ond bod yr awdurdod wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** esbonio hyn i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

9.63 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi'r lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y disgybl ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18.

[55] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[56] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[57] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

## Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan ddisgybl ADY

9.64 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y disgybl ADY, **rhaid**[58] iddo hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. **Rhaid**[59] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod perthnasol (gweler paragraff 9.66 isod) o:

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12(2)(a) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 9.39 uchod), yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais i ailystyried;
(c) fel arall –
  (i) yn achos disgybl sy'n blentyn, yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y disgybl ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
  (ii) yn achos disgybl sy'n berson ifanc, pa un bynnag o'r ddau opsiwn canlynol fydd yn digwydd ddiwethaf:
    (aa) yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
    (bb) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

9.65 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn y cyfnod a nodwyd yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[60].

9.66 Y cyfnod perthnasol at ddibenion paragraffau 9.64 a 9.65 yw:

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

9.67 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[61] i'r hysbysiad a roddir i'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[62]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;

[58] Adrannau 13(3) ac 18(3) o'r Ddeddf.
[59] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[60] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[61] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[62] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.

(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[63] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[64]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

9.68 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni eu hystyriaeth i sicrhau bod anghenion y disgybl (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

9.69 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc drafod y mater ymhellach.

9.70 Gellir apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad gan awdurdod lleol nad oes gan ddisgybl ADY - gweler Pennod 26.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer disgybl ag ADY mewn ysgol a gynhelir*

9.71 Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru ADY, **rhaid**[65] iddo lunio CDU, oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) bod yr awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol i lunio a chynnal CDU[66];
(b) bod y disgybl yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i lunio neu gynnal CDU;
(c) bod y disgybl yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, ond nad yw o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru (oni bai bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu ailystyried penderfyniad ysgol ynghylch ADY, ac os felly **rhaid**[67] i'r awdurdod lleol lunio CDU, ac eithrio yn yr amgylchiadau a restrir yma);
(d) yn achos disgybl sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, bod yr awdurdod lleol yn gwneud cais am i'r awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc[68];
(e) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl[69].

---

[63] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[64] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[65] Adrannau 14(1) i (4) ac 19(1) i (2) o'r Ddeddf.
[66] Ni all wneud hyn mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, oni bai bod y plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, a bod yr awdurdod lleol yng Nghymru yn ailystyried penderfyniad gan ysgol. Os felly, gweler is-baragraff (c).
[67] Adran 87 o'r Ddeddf.
[68] Adran 87(3)(d)(i) o’r Ddeddf. Dim ond pan wneir y penderfyniad yn sgil ailystyried o dan adran 26 o'r Ddeddf y bydd yr eithriad hwn yn berthnasol.
[69] Adran 87(3)(d)(ii) o’r Ddeddf. Dim ond pan wneir y penderfyniad yn sgil ailystyried o dan adran 26 o'r Ddeddf y bydd yr eithriad hwn yn berthnasol.

9.72 Gweler paragraffau 9.92 – 9.105 i gael gwybod mwy am bŵer awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i ysgol.

9.73 Os, yn dilyn cais gan awdurdod lleol am i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer disgybl, caiff yr awdurdod lleol ei hysbysu gan yr awdurdod lleol yn Lloegr nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl, bydd dyletswydd yr awdurdod lleol o dan baragraff 9.71 yn berthnasol eto[70].

9.74 **Rhaid**[71] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r disgybl drwy'r Gymraeg, ac os bydd yn penderfynu y dylid cyflwyno math penodol o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[72] i'r corff nodi'n benodol yn y cynllun y dylid ei gyflwyno drwy'r Gymraeg.

9.75 Os, ar ôl i achos gael ei gyfeirio i gorff GIG, bydd y corff yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y disgybl, **rhaid**[73] i'r awdurdod lleol ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. **Rhaid**[74] i'r awdurdod lleol nodi hefyd yn y CDU y dylai'r DDdY sydd i'w sicrhau gan y corff GIG fod drwy'r Gymraeg os yw'r corff GIG wedi penderfynu hynny (gweler Pennod 15 i gael gwybod mwy am hyn).

9.76 Mae gan awdurdod lleol sy'n llunio CDU swyddogaethau sy'n ymwneud â lle y mae'r plentyn neu'r person ifanc i'w addysgu neu ei hyfforddi a chael DDdY. Wrth gyfeirio achosion rhai disgyblion o ysgol a gynhelir, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid addysgu neu hyfforddi'r disgybl yn rhywle arall.

9.77 Os na ellir diwallu anghenion rhesymol y disgybl am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau un o'r canlynol neu'r ddau:

(a) lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol;
(b) bwyd a llety,

**rhaid**[75] i'r awdurdod lleol gynnwys disgrifiad yn y CDU o'r lle neu'r bwyd a'r llety (beth bynnag yw'r sefyllfa). Hefyd, gall awdurdod lleol sy'n llunio neu'n cynnal CDU ar gyfer plentyn enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol[76]. Mae mwy o wybodaeth am ystyried a oes angen lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety, er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am DDdY ym Mhennod 11 (yn achos plant) ac ym Mhennod 12 (yn achos pobl ifanc), ac mae mwy o wybodaeth am enwi ysgol at ddibenion trefniadau

[70] Adran 97(3)(e) o'r Ddeddf
[71] Adrannau 14(5) ac 19(3) o'r Ddeddf
[72] Adrannau 14(5) ac 19(3) o'r Ddeddf
[73] Adran 21(3) o'r Ddeddf.
[74] Adran 21(4) o'r Ddeddf.
[75] Adrannau 14(6) - (8) ac 19(4) - (6) o'r Ddeddf.
[76] Adran 48 o'r Ddeddf.

derbyn plant ym Mhennod 11. Mae'r penodau hynny yn delio â dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, a phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir na sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r adrannau yn y penodau hynny sy'n delio â phwerau a chyfyngiadau mewn perthynas â lleoliadau hefyd yn berthnasol lle mae awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

9.78 **Rhaid**[77] i'r awdurdod lleol lunio'r CDU. Cyn ei gwblhau'n derfynol, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl y gofyn, er enghraifft diweddaru'r CDU drafft neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

9.79 Unwaith y bydd wedi'i lunio, **rhaid**[78] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, i'r swyddog adolygu annibynnol. **Rhaid**[79] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi o'r cynllun yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod perthnasol (gweler paragraff 9.81 isod) o:

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12(2)(a) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 9.39 uchod), yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais i ailystyried;
(c) fel arall, -
  (i) yn achos disgybl sy'n blentyn, yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y disgybl ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
  (ii) yn achos disgybl sy'n berson ifanc, pa un bynnag o'r ddau opsiwn canlynol fydd yn digwydd ddiwethaf-
    (aa) pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
    (bb) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

9.80 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod a nodwyd yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[80].

[77] Adrannau 14(1) - (2) ac 19(1) - (2) o'r Ddeddf.
[78] Adran 22 o'r Ddeddf.
[79] Gofyniad ynghylch yr amserlen a orfodir gan y Cod.
[80] Gweler pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.

9.81 Y cyfnod perthnasol ym mharagraffau 9.79 a 9.80 yw

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

9.82 **Rhaid**[81] i'r awdurdod lleol roi'r canlynol hefyd i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[82]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[83] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[84]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch elfennau penodol o'r CDU.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer disgybl ag ADY a sicrhau'r DDdY*

9.83 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer disgybl mewn ysgol a gynhelir, **rhaid**[85] iddo gynnal y CDU hwnnw oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) ei fod yn rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol gynnal y CDU;
(b) bod y disgybl yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i gynnal CDU.

9.84 Gweler paragraffau 9.92 – 9.104 i gael gwybod mwy am bŵer awdurdod lleol i roi cyfarwyddyd i ysgol.

9.85 Efallai y bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio am resymau eraill. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 21.

9.86 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[86] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (hy lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc am DDdY) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn ddisgwyliedig yng nghyd-destun DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan gorff GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[87] i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU

[81] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[82] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[83] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[84] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[85] Adrannau 14(1) i 14(4) ac 19(1) i (2) o'r Ddeddf
[86] Adrannau 14(10)(a) a (b) ac 19(7)(a) a (b) o'r Ddeddf
[87] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf

yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[88] i'r awdurdod lleol (neu'r corff GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

9.87 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer disgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, **rhaid**[89] i'r ysgol gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a nodwyd yn y cynllun. Gweler paragraffau 9.90 – 9.91 i gael gwybod mwy.

9.88 **Ni chaiff**[90] yr awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn, ei riant na'r person ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ar gyfer disgybl ag ADY*

9.89 Mae dyletswyddau ar awdurdod lleol[91] i adolygu CDU (gweler Pennod 16 i gael gwybod mwy).

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer disgybl gan awdurdod lleol*

9.90 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer disgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, **rhaid**[92] i'r ysgol gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a nodwyd yn y cynllun. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod unrhyw DDdY y mae'r CDU yn nodi y dylid ei chyflwyno drwy'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

9.91 **Dylai'r** camau rhesymol gynnwys trefniadau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol a/neu'r corff iechyd am y camau ymarferol i'w cymryd i gyflwyno'r DDdY a nodwyd yn y CDU. Byddai hyn yn cynnwys gwneud trefniadau o fewn yr ysgol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY drwy gyflwyno'r DDdY y mae'n rhesymol i'r ysgol ei chyflwyno, a thrwy hwyluso'r broses o gyflwyno'r DDdY y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdani. Gallai hyn olygu, er enghraifft:

- cynnwys rhiant plentyn yn y broses o gyflwyno DDdY;
- sicrhau bod pawb sy'n addysgu'r disgybl yn ymwybodol o'i ADY a'r DDdY a nodwyd;

[88] Adrannau 14(10)(c), 19(7)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf
[89] Adran 47 o'r Ddeddf.
[90] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.
[91] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf.
[92] Adrannau 47(4) a (5) o'r Ddeddf.

- sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi a'u datblygu er mwyn meithrin yr arbenigedd a'r sgiliau gofynnol i gyflwyno'r DDdY y mae'r ysgol i'w chyflwyno;
- defnyddio'r cyfarpar priodol a nodwyd yn CDU y plentyn neu'r person ifanc, lle bo gofyn;
- integreiddio cyngor allanol a chymorth arbenigol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc i'w rhaglenni addysgu a dysgu mewn ffordd nad yw'n amharu;
- monitro effeithiolrwydd DDdY o ran diwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc a'i helpu i wneud cynnydd a chyflawni'r deilliannau a nodwyd yn ei CDU;
- cyfrannu at y gwaith o adolygu'r CDU a chynllunio prosesau trosglwyddo i sefydliadau eraill ac i fyd oedolion.

## *Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol i lunio neu gynnal CDU*

9.92 **Caiff**[93] awdurdod lleol sydd wedi penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY neu sydd wedi llunio CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc roi cyfarwyddyd i ysgol a gynhelir yng Nghymru lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl, neu lle bydd yn ddisgybl, i lunio a chynnal CDU neu, os bydd yr awdurdod wedi llunio CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, i'w gynnal. Hefyd, **caiff**[94] awdurdod lleol sy'n cynnal CDU ar gyfer disgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru roi cyfarwyddyd i'r ysgol ei gynnal (ac eithrio os yw'r disgybl yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol).

9.93 **Ni chaiff**[95] yr awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i'r ysgol lunio'r CDU os:

(a) yw'r disgybl wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad
(b) os yw'r disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yng Nghymru (ac eithrio os yw'r plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr - gweler paragraff 9.95 isod); neu
(c) os na ellir diwallu anghenion rhesymol y disgybl am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol yn sicrhau naill ai le mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety (neu'r ddau).

9.94 Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu[96] bod gan blentyn neu berson ifanc sydd neu a fydd yn ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru ADY, ac yn rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol lunio CDU, **dylai'r** awdurdod lleol wneud hynny'n brydlon o fewn y cyfnod pan fyddai fel arall wedi bod yn ofynnol iddo roi copi o'r CDU (gweler paragraffau 9.81 uchod).

9.95 Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan ddisgybl, sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ADY (dim ond lle bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei ddyletswydd i ailystyried y bydd hyn yn digwydd - gweler Pennod 17), **rhaid**[97]

---

[93] Adran 14(2)(b) o'r Ddeddf.
[94] Adran 14(4) o'r Ddeddf.
[95] Adrannau 30(7), 19(2) ac 14(9) o'r Ddeddf.
[96] O dan adran 13 o'r Ddeddf.
[97] Adrannau 14(2) ac 87(3)(c) o'r Ddeddf.

i'r awdurdod lleol naill ai lunio CDU a rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol ei gynnal, neu roi cyfarwyddyd i'r ysgol lunio a chynnal CDU.

9.96 Os bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i ysgol lunio a chynnal CDU, **rhaid**[98] i'r ysgol lunio a rhoi copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod perthnasol o:

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12(2)(a) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 9.39 uchod), yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio;
(b) yn achos ailystyried penderfyniad gan ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf, yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais i ailystyried;
(c) fel arall-,
 (i) yn achos disgybl sy'n blentyn, yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y disgybl ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
 (ii) yn achos disgybl sy'n berson ifanc, pa un bynnag o'r ddau opsiwn canlynol fydd yn digwydd ddiwethaf-
  (aa) yr adeg pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddo fel arall;
  (bb) pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad;

9.97 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r ysgol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth[99].

9.98 Y cyfnod perthnasol ym mharagraffau 9.96 a 9.97 yw

(a) 7 wythnos yn achos awdurdod lleol sy'n ailystyried penderfyniad ysgol o dan adran 26 o'r Ddeddf;
(b) 12 wythnos ym mhob achos arall.

9.99 Yr un cyfnod fyddai wedi ei roi i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU, pe bai wedi ei lunio ei hun yn lle rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol wneud hynny.

9.100 **Rhaid**[100] i'r awdurdod lleol, wrth roi cyfarwyddyd i'r ysgol, roi gwybod iddi beth oedd y dyddiad pan ddigwyddodd yr hyn y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 9.96(a), (b) neu (c) (pa un bynnag sy'n berthnasol). Y rheswm am hyn yw bod yr ysgol wedyn yn gwybod erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol iddi roi copi o'r CDU.

[98] Adran 12(3) o'r Ddeddf yw'r ddyletswydd i lunio a chynnal CDU, adran 22(1) yw'r ddyletswydd i roi copi ohono, a chaiff y gofyniad i wneud hynny o fewn y cyfnod a nodwyd ei orfodi gan y Cod.
[99] Gweler pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[100] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

9.101 Os bydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd i ysgol gynnal CDU y mae wedi'i lunio, **rhaid** iddo[101] anfon copi o'r CDU i'r ysgol ar yr un pryd ag y bydd yn rhoi'r cyfarwyddyd i'r ysgol.

9.102 **Ni ddylai** awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio a chynnal CDU os na fydd yn rhesymol i'r ysgol lunio a rhoi copi o'r cynllun i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc o fewn y cyfyngiad amser a nodwyd ym mharagraff 9.98. Mewn achos felly, **dylai'r** awdurdod lleol lunio'r cynllun ei hun (gan ymgynghori â'r ysgol i'r graddau sy'n bosibl ac yn briodol), a **chaiff**[102], os yw'n briodol, roi cyfarwyddyd iddi wedyn i gynnal y cynllun os yw'r plentyn eisoes yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol.

9.103 Hefyd, **ni ddylai** awdurdod lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio CDU oni bai ei fod yn ystyried:

- bod gan y disgybl ADY sy'n galw am DDdY y byddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau;
- y gallai'r ysgol benderfynu'n iawn ar raddau a natur yr ADY; ac
- y gallai'r ysgol benderfynu'n iawn ar y DDdY.

9.104 Os caiff yr ysgol a gynhelir ei chynnal gan awdurdod lleol arall, **rhaid**[103] i'r awdurdod lleol ymgynghori'n gyntaf â'r awdurdod lleol arall hwnnw am ei fwriad i roi cyfarwyddyd i'r ysgol.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i lunio neu gynnal CDU os bydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd iddi i wneud hynny*

9.105 Os bydd awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddyd iddi i lunio a chynnal CDU, neu i'w lunio yn unig, **rhaid**[104] i'r ysgol a gynhelir wneud hynny oni bai:

(a) bod y disgybl yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r bwriad i lunio neu gynnal CDU; neu
(b) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y disgybl.

(Gweler paragraff 9.96 uchod i weld y gofynion i roi copi o'r cynllun o fewn cyfnod penodol lle rhoddir cyfarwyddyd i lunio a chynnal cynllun.)

9.106 Efallai y bydd dyletswydd yr ysgol i gynnal CDU yn peidio am resymau eraill. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 21.

[101] Gofyniad i'w orfodi gan reoliadau a wneir o dan adran 82.
[102] O dan adran 14(4) o'r Ddeddf.
[103] Adran 38 o'r Ddeddf.
[104] Adran 12(3) o'r Ddeddf.

## *Dyletswydd ysgol a gynhelir i dderbyn plentyn os bydd awdurdod lleol wedi'i henwi at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn*

9.107 **Caiff**[105] awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru mewn CDU y bydd yn ei lunio neu'n ei gynnal at ddibenion sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol honno (i gael gwybod mwy, gweler Pennod 11). Os caiff ysgol a gynhelir yng Nghymru ei henwi i'r dibenion hyn, **rhaid**[106] iddi dderbyn y plentyn, beth bynnag yw ei dyletswydd o ran y cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod[107]. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw bŵer i wahardd disgybl o ysgol[108].

## *Dyletswydd i sicrhau bod plant ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol*


9.108 **Rhaid**[109] i bawb sy'n ymwneud â chreu DDdY ar gyfer plentyn ag ADY mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ochr yn ochr â phlant nad oes ganddynt ADY. Dim ond i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'r canlynol y mae hyn yn berthnasol:

(a) bod y plentyn yn cael y DDdY y mae ei ADY yn galw amdani;
(b) bod addysg effeithlon yn cael ei darparu i'r plant y bydd ef neu hi yn cael ei (h)addysgu gyda nhw;
(c) bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

[105] Adran 48 o'r Ddeddf.
[106] Adran 48(2) o'r Ddeddf.
[107] Adran 48(5) o'r Ddeddf.
[108] Adran 48(6) o'r Ddeddf.
[109] Adran 52 o'r Ddeddf

## Penderfyniad ynghylch anghenion dysgu ychwanegol

Pan gaiff y ffaith y gallai fod gan un o'i disgyblion (nad oes ganddo CDU na chynllun Addysg, Iechyd a Gofal) ADY ei dwyn i sylw ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu pan fydd hynny'n ymddangos iddi fel arall, rhaid dilyn y broses ganlynol (bydd trefniadau gwahanol ar gyfer myfyriwr sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, sy'n derbyn gofal, sy'n cael ei gadw'n gaeth, sy'n byw yn Lloegr heb gynllun Addysg, Iechyd a Gofal):



# Pennod 10: Dyletswyddau ar sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc mewn sefydliad addysg bellach

## *Cyflwyniad*

10.1 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol lunio a chynnal CDUau pobl ifanc ag ADY sydd wedi ymrestru'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Gan amlaf, y sefydliad addysg bellach fydd yn gyfrifol am lunio a chynnal CDU.

10.2 Fel rheol, dim ond yn yr achosion hynny pan fydd anghenion y person ifanc yn fwy dwys neu gymhleth y bydd awdurdodau lleol yn llunio ac yn cynnal CDU, neu pan fydd y person ifanc hefyd yn ddisgybl neu'n fyfyriwr mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach arall.

10.3 Nid yw'r bennod hon yn berthnasol mewn perthynas â myfyriwr sy'n dilyn cwrs addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach, oni bai bod y myfyriwr hefyd yn cael addysg a hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliad addysg bellach. Os felly, ymdrinnir ag anghenion y myfyriwr mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw, ond ddim mewn perthynas â'r cwrs addysg uwch[1].

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY*

10.4 Os caiff y ffaith y gallai fod gan berson ifanc a ymrestrwyd yn fyfyriwr yn y sefydliad addysg bellach ADY ei dwyn i sylw sefydliad addysg bellach yng Nghymru, neu os bydd hyn yn ymddangos iddo fel arall, **rhaid**[2] i'r sefydliad addysg bellach benderfynu a oes gan y myfyriwr ADY, oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) bod CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc hwnnw;
(b) bod y sefydliad addysg bellach wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad;
(d) bod y person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys ysgolion annibynnol), neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach arall yng Nghymru neu Loegr

[1] Adran 86 o'r Ddeddf.
[2] Adrannau 11(2) a (3) o'r Ddeddf.

("cofrestriad deuol"), a bod awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y person ifanc[3]. Os yw wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad, **rhaid**[4] i'r corff llywodraethu gyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol cyfrifol, (gweler paragraffau 10.37 – 10.45 isod ar gyfeirio achosion i'r awdurdod lleol);

(e) bod y person ifanc yn destun gorchymyn cadw (gweler Pennod 22);

(f) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.

10.5 Os bydd gan sefydliad addysg bellach ddyletswydd i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY, **rhaid**[5] iddo:

(a) ddynodi person i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Gellid dynodi'r cydlynydd ADY, ond does dim rhaid;

(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY ei dwyn i'w sylw neu pan wnaeth hynny ymddangos iddo fel arall;

(c) cofnodi'r dyddiad pan gydsyniodd y person ifanc i'r bwriad i wneud y penderfyniad;

(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos i'r sefydliad addysg bellach fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;

(e) rhoi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff 10.6 isod.

Gall y person ifanc ei hun neu rywun arall ddwyn i sylw'r sefydliad addysg bellach y posibilrwydd bod gan berson ifanc ADY. Nid yw'n bwysig sut y caiff ei ddwyn i sylw'r sefydliad addysg bellach y gallai fod gan berson ifanc ADY, neu sut yr ymddengys iddo fel arall y gallai hyn fod yn wir; os yw'r sefydliad addysg bellach yn ymwybodol o'r posibilrwydd, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn berthnasol (yn amodol ar yr eithriadau a restrir uchod). (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ac ar geisio adnabod a allai fod gan berson ifanc ADY ym Mhennod 7.)

10.6 **Rhaid**[6] i'r sefydliad addysg bellach wneud y canlynol yn brydlon (o'r adeg pan gaiff ei ddwyn i sylw'r sefydliad addysg bellach y gallai fod gan y person ifanc ADY, neu pan ymddengys fel arall iddo):

(a) hysbysu'r person ifanc bod y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY wedi'i dwyn i'w sylw neu fod hynny wedi ymddangos iddo fel arall;

(b) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r bwriad i wneud y penderfyniad ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i'r bwriad i lunio a chynnal CDU neu, yn achos person ifanc a gedwir yn gaeth, i'r bwriad i lunio a chadw CDU; a

[3]Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros y plentyn neu'r person ifanc (hy yr awdurdod lleol y mae'r person o fewn ei ardal) (adran 99(4) o'r Ddeddf). Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am ystyr "yn ardal".
[4] Adran 30(2) o'r Ddeddf.
[5] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[6] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

(c) rhoi gwybod i'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad a pheidio â chydsynio.

10.7 **Rhaid**[7] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydlynydd;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[8]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

10.8 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o amserlenni tebygol y broses (gan roi ystyriaeth i'r terfyn amser perthnasol isod).

10.9 Os nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad, **rhaid**[9] cofnodi hyn. **Dylai** fod gan sefydliadau addysg bellach weithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a allai gynnwys gofyn i'r person ifanc lofnodi i gadarnhau nad yw'n cydsynio.

10.10 Os bydd person ifanc yn tynnu sylw sefydliad addysg bellach at y ffaith y gallai fod ganddo ADY, ond bod y sefydliad addysg bellach wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** esbonio hyn i'r person ifanc a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

10.11 **Dylid** rhoi ystyriaeth i p'un a yw'r person ifanc eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu p'un a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac wrth lunio CDU. (Mae mwy o ganllawiau ar rôl gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ym Mhennod 7.)

10.12 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi'r lle canolog i'r person ifanc yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc ac, os

[7] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[8] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. At ddibenion darpariaethau'r Cod hwn ar drefniadau i roi gwybodaeth a chyngor o dan adran 9, os yw'r myfyriwr o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r awdurdod lleol lle mae'r sefydliad addysg bellach.
[9] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. (Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18.)

## *Penderfyniad sefydliad addysg bellach nad oes gan berson ifanc ADY*

10.13 Os bydd y sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, **rhaid**[10] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. **Rhaid**[11] gwneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor[12] o'r dyddiad pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

10.14 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn 35 diwrnod tymor yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r sefydliad addysg bellach wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[13].

10.15 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto, **rhaid**[14] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt y sefydliad addysg bellach;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[15]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi[16] a datrys anghytundebau[17] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol;
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

10.16 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd y camau y bydd y sefydliad addysg bellach yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion y person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu. Gallai hyn gynnwys strategaethau addysgu gwahaniaethol yn y dosbarth.

10.17 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i'r person ifanc drafod y mater ymhellach.

10.18 Os bydd sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes gan berson ifanc ADY, gall y person ifanc apelio i'r Tribiwnlys Addysg - gweler Pennod 26.

[10] Adran 11(4) o'r Ddeddf.
[11] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[12] Gofyniad ynghylch yr amserlen a orfodir gan y Cod.
[13] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[14] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[15] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[16] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[17] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i lunio CDU*

10.19 Os bydd sefydliad addysg bellach yn penderfynu bod gan y person ifanc ADY, **rhaid**[18] iddo lunio a chynnal CDU ar gyfer y person ifanc oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) bod y sefydliad addysg bellach yn ystyried bod gan y person ifanc ADY a allai alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad ei sicrhau, neu na all benderfynu'n iawn ar raddau neu natur yr ADY, neu na all benderfynu'n iawn ar y DDdY ar ei gyfer; a bod y sefydliad addysg bellach yn cyfeirio achos y person ifanc i'r awdurdod lleol cyfrifol benderfynu arno;
(b) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad;
(c) bod y person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr a bod y sefydliad addysg bellach yn gwneud cais i'r awdurdod lleol hwnnw sicrhau asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc[19];
(d) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.

10.20 **Rhaid**[20] i'r sefydliad addysg bellach ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r person ifanc drwy'r Gymraeg, ac os bydd yn penderfynu y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[21] i'r corff nodi'n benodol yn y cynllun y dylid ei ddarparu drwy'r Gymraeg.

10.21 Os, ar ôl i'r sefydliad addysg bellach gyfeirio achos i gorff GIG, bydd y corff GIG yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y person ifanc, **rhaid**[22] i'r sefydliad addysg bellach ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. **Rhaid**[23] i'r sefydliad addysg bellach nodi'n benodol hefyd y dylai'r DDdY sydd i'w sicrhau gan y corff GIG fod drwy'r Gymraeg os yw'r corff GIG wedi penderfynu hynny (gweler Pennod 15 i gael gwybod mwy am hyn).

10.22 **Rhaid**[24] i'r sefydliad addysg bellach lunio'r CDU. Cyn ei gwblhau'n derfynol, **dylai'r** sefydliad addysg bellach roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** sefydliad addysg bellach ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl y gofyn, er enghraifft diweddaru'r copi drafft, neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

10.23 Unwaith bydd wedi'i lunio, **rhaid**[25] i'r sefydliad addysg bellach roi copi o'r CDU i'r person ifanc. **Rhaid**[26] i'r sefydliad addysg bellach wneud y penderfyniad

[18] Adran 12(1) (2) o'r Ddeddf
[19] O dan adran 36(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014
[20] Adran 12(6) o'r Ddeddf.
[21] Adran 12(6) o'r Ddeddf.
[22] Adran 21(3) o'r Ddeddf.
[23] Adran 21(4) o'r Ddeddf.
[24] Adran 12(1) o'r Ddeddf.
[25] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[26] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 35 diwrnod tymor o'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

10.24 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod 35 diwrnod tymor yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r sefydliad addysg bellach wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[27].

10.25 **Rhaid**[28] i'r sefydliad addysg bellach roi'r canlynol hefyd i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt y sefydliad addysg bellach;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[29]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu dudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[30] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[31];
(d) gwybodaeth am yr hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros gynnal y CDU, a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol[32];
(e) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch elfennau penodol o'r CDU.

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer myfyriwr ag ADY ond sydd heb CDU*

10.26 Os oes gan berson ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru ADY, ond nad oes CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, **rhaid**[33] i'r sefydliad addysg bellach, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r sefydliad addysg bellach, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY y mae ADY y person ifanc yn galw amdani yn cael ei gweithredu.

10.27 Efallai nad oes gan y person ifanc CDU oherwydd:

- bod y sefydliad addysg bellach wrthi'n llunio CDU ar gyfer y person ifanc;
- bod y sefydliad addysg bellach wedi cyfeirio'i achos i awdurdod lleol a bod yr awdurdod wrthi'n llunio CDU;
- bod awdurdod lleol yn Lloegr wrthi'n cynnal asesiad o anghenion Addysg, Iechyd a Gofal neu'n llunio cynllun Addysg, Iechyd a Gofal;

[27] Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[28] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[29] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[30] O dan adran 68.
[31] O dan adran 69.
[32] Dyma'r hawl o dan adran 28 o'r Ddeddf.
[33] Adran 47(1) - (2) o’r Ddeddf.

- bod gan y person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

10.28 Os bydd gan y person ifanc gynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr, bydd y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn amlinellu ei anghenion, ar sail asesiadau, ac yn nodi'r union ddarpariaeth addysgol arbennig i'w diwallu. Mewn amgylchiadau felly, efallai y gall y sefydliad addysg bellach gyflawni ei ddyletswydd drwy gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol yn Lloegr i sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd yn y cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

10.29 Mewn achosion lle eir ati i benderfynu a oes gan y person ADY neu i lunio CDU (neu, mewn perthynas â disgyblion o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, os yw asesiad Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei ystyried neu ei gynnal neu gynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael ei lunio), dylid bod wedi cynnal asesiad cychwynnol o anghenion y person ifanc. Byddai gan y sefydliad addysg bellach wybodaeth gan y person ifanc ac, o bosibl, gyngor gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol, er enghraifft seicolegydd addysg (boed yn benodol mewn perthynas â'r person ifanc, neu'n fwy cyffredinol am anghenion ymddangosiadol y person ifanc), a safbwyntiau staff addysgu yn y sefydliad addysg bellach mewn perthynas â'r myfyriwr, ynghyd â thystiolaeth ganddynt. Gallai'r dystiolaeth honno gynnwys sut mae'r myfyriwr wedi ymateb i ymyriadau penodol (gan gynnwys addysgu gwahaniaethol) yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, gallai'r person ifanc rannu cynllun hyd yn oed, sydd â gwybodaeth berthnasol, er enghraifft cynllun Addysg, Iechyd a Gofal a gynhelid yn ddiweddar os yw'r person newydd symud o Loegr i Gymru.

10.30 O'r amrywiaeth hon o wybodaeth a chyngor, gan gynnwys yr hyn a ddysgir drwy ymwneud â'r person ifanc ei hun, dylai'r sefydliad addysg bellach fod â dealltwriaeth eang o'r math o ADY sydd ganddo. Yng ngoleuni'r ddealltwriaeth honno, **dylai'r** sefydliad addysg bellach:

- wneud trefniadau i roi gwybod am yr anghenion hynny i'r holl staff sy'n ymwneud â'r person;
- cynnwys y cydlynydd ADY wrth gynghori staff addysgu ar y dulliau addysgu priodol i'w defnyddio mewn perthynas â'r person er mwyn diwallu'r anghenion ac ar lle i gael mwy o wybodaeth a chyngor os oes gofyn;
- gwneud addasiadau priodol i amgylchedd y sefydliad addysg bellach er mwyn ei gwneud yn haws i'r person gael ei addysg;
- darparu cymorth ychwanegol a/neu wahanol priodol ar gyfer y person o'r adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr allanol;
- monitro effaith y cymorth a ddarperir ar gyfer y person a'i addasu os daw i'r amlwg y byddai hyn yn briodol.

10.31 Caiff y DDdY y mae'r anghenion yn galw amdani ei hadnabod yn ystod y broses o lunio CDU. Efallai y caiff y DDdY, neu fathau arbennig o'r ddarpariaeth, eu hadnabod yn gynharach yn y broses a pheth amser cyn y

bydd y CDU wedi'i gwblhau. Lle bydd hynny'n digwydd, **ni ddylai** sefydliadau addysg bellach aros tan y bydd y CDU wedi'i gwblhau'n derfynol cyn cymryd camau i sicrhau'r DDdY sydd wedi'i hadnabod ar gyfer person ifanc.

## *Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY*

10.32 Os bydd sefydliad addysg bellach wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc, **rhaid**[34] iddo gynnal y CDU hwnnw oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i gynnal y CDU;
(b) bod awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc.

10.33 Efallai y bydd dyletswydd y sefydliad addysg bellach i gynnal CDU yn peidio am resymau eraill. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 21.

10.34 Os yw sefydliad addysg bellach yn cynnal cynllun, **rhaid**[35] iddo sicrhau'r DDdY a ddisgrifir ynddo, ac eithrio unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan gorff GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[36] i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[37] i'r sefydliad addysg bellach (neu'r corff GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

10.35 **Ni chaiff**[38] sefydliad addysg bellach godi tâl ar berson ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y person o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## *Adolygu'r CDU*

10.36 Mae dyletswyddau ar sefydliad addysg bellach[39] i adolygu CDU (gweler Pennod 16 i gael gwybod mwy).

[34] Adrannau 12(1) a (2) o'r Ddeddf
[35] Adran 12(7)(a) o’r Ddeddf.
[36] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[37] Adrannau 12(7)(b), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[38] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.
[39] Adran 23 o’r Ddeddf.

## *Cyfeirio achosion o sefydliad addysg bellach i awdurdod lleol*

10.37 Os bydd dyletswydd ar sefydliad addysg bellach i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY, **caiff**[40] gyfeirio achos y person ifanc i'r awdurdod lleol cyfrifol ar y sail ei fod yn ystyried bod gan y person ifanc ADY ac:

- y gallai'r ADY alw am DDdY na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach ei sicrhau
- na all benderfynu'n iawn ar raddau neu natur ADY y disgybl, neu
- na all benderfynu'n iawn ar y DDdY y gallai ADY y disgybl alw amdani.

10.38 Os caiff y ffaith y gallai fod gan un o'i fyfyrwyr ADY ei dwyn i sylw sefydliad addysg bellach yng Nghymru, neu os bydd hynny'n ymddangos iddo fel arall, ond nad oes gan y myfyriwr CDU, **rhaid**[41] i'r sefydliad addysg bellach gyfeirio achos y person ifanc i'r awdurdod lleol lle mae'r person ifanc wedi'i ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach arall yng Nghymru neu Loegr, neu'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yng Nghymru neu Loegr (gan gynnwys ysgol annibynnol) ac am gael addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad ("cofrestriad deuol").

10.39 Os bydd y sefydliad addysg bellach yn dechrau dod yn ymwybodol bod sail dros gyfeirio[42] achos person ifanc i'r awdurdod lleol, **dylai** weithredu'n brydlon i'w gyfeirio. Dylai allu gwneud hynny ar unwaith mewn achosion lle mae myfyriwr wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Yn yr achosion eraill (lle mae'r sefydliad addysg bellach o dan ddyletswydd i benderfynu hyd nes y bydd yn cyfeirio'r achos), dylai'r sefydliad addysg bellach allu cyfeirio'r achos o fewn 20 diwrnod tymor o'r adeg pan fydd y myfyriwr yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

10.40 Wrth gyfeirio achos o'r fath o dan baragraff 10.38, **dylai'r** sefydliad addysg bellach hysbysu'r person ifanc ei fod yn gwneud hynny. Ar yr un pryd, yn achos person ifanc, **dylai'r** sefydliad addysg bellach hefyd geisio cydsyniad y person ifanc i'r bwriad i wneud penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY, ac yna roi gwybod i'r awdurdod lleol p'un a gafwyd cydsyniad.

10.41 Yn achlysurol, efallai mai dim ond yn nes ymlaen yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY neu o lunio CDU y daw'r sail dros gyfeirio'r achos, o dan baragraff 10.37 i'r amlwg. Er enghraifft, efallai mai dim ond pan fydd cyngor penodol yn dod i law gan wasanaeth arbenigol y bydd y sefydliad addysg bellach yn sylweddoli bod natur ADY y person ifanc yn fwy sylweddol nag yr oedd wedi'i feddwl, neu fod angen DDdY ar y person ifanc na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad ei sicrhau. Os bydd y sail dros gyfeirio achos yn dod i'r

[40] Adran 12(2)(a) o’r Ddeddf.
[41] Adrannau 30(1) - (2) o'r Ddeddf.
[42] Yng ngweddill y bennod hon, pan gyfeirir at gyfeirio achos gan sefydliad addysg bellach, cyfeirir at gyfeirio achos o dan adran 12(2)(a) o'r Ddeddf, hynny yw lle mae'r sefydliad addysg bellach o dan ddyletswydd i benderfynu ac yn cyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol cyfrifol o dan yr adran honno, i'r awdurdod lleol benderfynu yn ei gylch o dan adran 13.

amlwg lawer yn ddiweddarach yn y broses, gall y sefydliad addysg bellach gyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol o hyd, ond os bydd yn gwneud hynny, **dylai'r** sefydliad addysg bellach weithredu'n brydlon er mwyn lleihau'r oedi cyn sefydlu CDU.

10.42 Gallai amgylchiadau'r sefydliad addysg bellach (hy ei leoliad, ei faint, ei gyllideb, ei brofiad ac ati) effeithio ar safbwynt y sefydliad addysg bellach o ran a fyddai'n rhesymol iddo sicrhau'r DDdY. Er enghraifft, os yw'r person ifanc:

- yn dioddef o gyflwr prin sy'n galw am arbenigedd na all y sefydliad addysg bellach ei ddarparu;
- angen cyngor a chymorth rheolaidd gan asiantaethau allanol sydd y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drefnu'n rhesymol gan y sefydliad addysg bellach;
- angen cyfarpar na ellir ei ddefnyddio ond gan un myfyriwr neu na ellir ei ailddefnyddio neu sydd y tu hwnt i adnoddau rhesymol y sefydliad addysg bellach; neu,
- angen cymorth dyddiol dwys iawn na ellir yn rhesymol ei gyllido neu ei sicrhau o gyllideb y sefydliad addysg bellach.

10.43 Cyn cyfeirio achos i'r awdurdod lleol o dan baragraff 10.37, **dylai'r** sefydliad addysg bellach ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg i weld a yw hyn yn briodol.

10.44 Os cyfeirir achos i awdurdod lleol o dan baragraff 10.37 neu baragraff 10.38, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i benderfynu[43] (yr ymdrinnir â hi isod) yn berthnasol.

10.45 Os bydd sefydliad addysg bellach yn cyfeirio penderfyniad am ADY i'r awdurdod lleol, **dylai** ddarparu unrhyw wybodaeth i'r awdurdod lleol sydd ganddo sy'n berthnasol i benderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch a oes gan y person ifanc ADY ai peidio. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i ddiwallu anghenion y person ifanc, er enghraifft unrhyw adnoddau neu drefniadau arbennig a sefydlwyd. Byddai hefyd yn cynnwys unrhyw adroddiadau neu gyngor ysgrifenedig a dderbyniwyd gan asiantaethau allanol yn ogystal â ph'un a yw person ifanc wedi cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY*

10.46 Os caiff y ffaith y gallai fod gan berson ifanc a ymrestrwyd yn fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, ac y mae'n gyfrifol amdano, ADY ei dwyn i sylw awdurdod lleol, neu os yw hynny'n ymddangos iddo fel arall,

[43] Adran 13 o'r Ddeddf (yn rhinwedd adran 30(2) mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc sydd wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad).

**rhaid**[44] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ai peidio, oni bai am unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

(a) bod CDU eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc (er na ddylai hyn fod yn wir os yw'r sefydliad addysg bellach wedi cyfeirio ei achos);
(b) bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu eisoes ar y mater ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad;
(d) nid yw'r person ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un lleoliad (hy hefyd yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol neu wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach arall) ac nid yw'r sefydliad addysg bellach wedi cyfeirio achos y person ifanc i'r awdurdod lleol o dan baragraff 10.37 uchod;
(e) bod y person ifanc yn destun gorchymyn cadw (er y gallai'r awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i benderfynu o dan ddarpariaethau gwahanol - gweler Pennod 22).

10.47 Os oes dyletswydd ar awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc ADY, **rhaid**[45] iddo:

(a) ddynodi person i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gofynnol er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw ac, os bydd angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad pan ddaw'r cais atgyfeirio i law;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu pam ei bod yn ymddangos iddo fel arall y gallai fod gan y person ifanc ADY;
(d) rhoi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraffau 10.48 neu 10.49 isod.

10.48 Os yw'r person ifanc wedi cydsynio eisoes i'r bwriad i wneud y penderfyniad ynghylch a oes ganddo ADY, **rhaid**[46] i'r awdurdod lleol ei hysbysu ei fod yn penderfynu a oes ganddo ADY.

10.49 Os nad yw'r person ifanc wedi cydsynio eisoes i'r bwriad i wneud y penderfyniad, **rhaid**[47] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon (o'r adeg pan gaiff ei ddwyn i'w sylw y gallai fod gan y person ifanc ADY, neu pan ymddengys fel arall iddo):

(a) hysbysu'r person ifanc bod y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY wedi'i dwyn i'w sylw neu fod hynny wedi ymddangos iddo fel arall;
(b) gofyn i'r person ifanc am ei gydsyniad i'r bwriad i wneud y penderfyniad ac, os mai'r penderfyniad yw bod gan y person ifanc ADY, i'r bwriad i lunio

[44] Adrannau 13(1) a (2) o'r Ddeddf.
[45] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[46] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[47] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

a chynnal CDU neu, yn achos person ifanc a gedwir yn gaeth, i'r bwriad i lunio a chadw CDU; a

(c) rhoi gwybod i'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad a pheidio â chydsynio.

10.50 Yn y naill achos neu'r llall, **rhaid**[48] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydlynydd;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY.[49] Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

10.51 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o amserlenni tebygol y broses (gan roi ystyriaeth i'r terfyn amser perthnasol isod).

10.52 Os nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad, **rhaid**[50] cofnodi hyn. **Dylai** fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a allai gynnwys gofyn i'r person ifanc lofnodi i gadarnhau nad yw'n cydsynio.

10.53 Os bydd person ifanc yn tynnu sylw awdurdod lleol at y ffaith y gallai fod gan y person ifanc ADY, ond bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater eisoes, ac yn fodlon nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** esbonio hyn i'r person ifanc a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddo am ADY a'r system ADY os nad yw eisoes wedi gwneud hynny neu os nad yw wedi gwneud hynny yn ddiweddar.

10.54 Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY, **rhaid**[51] i awdurdod lleol holi seicolegydd addysg am gyngor. **Dylai'r** cyngor hwn ymwneud â:

(a) nodweddion addysgol, seicolegol neu eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y person ifanc (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol);
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y person ifanc;
(c) y ddarpariaeth a allai fod yn briodol i'r person ifanc yng ngoleuni'r nodweddion hynny, boed yn DDdY neu'n ddarpariaeth arall.

[48] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[49] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[50] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[51] Gofyniad a orfodir gan y Cod. Rhaid i seicolegwyr addysg fod wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal.

10.55 **Dylid** rhoi ystyriaeth hefyd i p'un a yw'r person ifanc eisoes mewn cysylltiad ag asiantaethau eraill neu p'un a yw'n derbyn cymorth ganddynt, a chynnwys y rheini fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc ADY ac wrth lunio CDU. (Mae mwy o ganllawiau ar rôl gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ym Mhennod 7).

10.56 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn wir, mae rhoi'r lle canolog i'r person ifanc yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a'r amcan hwn, fel rheol **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel y bo'n briodol, gyda'r person ifanc, i drafod a phenderfynu ar anghenion y person ifanc ac, os oes angen, i lunio CDU ar ei gyfer. Mae canllawiau ar gynnal y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc mewn sefydliad addysg bellach ADY*

10.57 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, **rhaid**[52] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. **Rhaid**[53] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 12 wythnos o:

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12(2)(a) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 10.37), yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio;
(b) os cyfeirir achos o dan adran 30(2) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 10.38), pa un bynnag o'r ddau opsiwn canlynol fydd yn digwydd ddiwethaf: yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio neu'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

10.58 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad o fewn y cyfnod 12 wythnos hwnnw yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[54].

10.59 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto, **rhaid**[55] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[56]. Gellid darparu

[52] Adran 13(3) o'r Ddeddf
[53] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[54] Gweler pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[55] Gofyniad a orfodir gan y Cod

taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu dudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;

(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[57] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[58];

(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

10.60 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd unrhyw gamau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni ei ystyriaeth i sicrhau bod anghenion eraill y person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.

10.61 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i'r person ifanc drafod y mater ymhellach.

10.62 Gellir apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad gan awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc ADY - gweler Pennod 26.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach sydd ag ADY*

10.63 Os bydd awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan berson ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru ADY, **rhaid**[59] iddo lunio CDU ar gyfer y person hwnnw oni bai nad yw'r person yn cydsynio i'r bwriad i lunio neu gynnal y cynllun.

10.64 **Rhaid**[60] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r person ifanc drwy'r Gymraeg, ac os bydd yn penderfynu y dylid cyflwyno math penodol o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[61] i'r corff nodi'n benodol yn y cynllun y dylid ei gyflwyno drwy'r Gymraeg.

10.65 Os, ar ôl i achos gael ei gyfeirio i gorff GIG, bydd y corff yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY y person ifanc, **rhaid**[62] i'r awdurdod lleol ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. **Rhaid**[63] i'r awdurdod lleol nodi hefyd yn y CDU y dylai'r DDdY sydd i'w sicrhau gan y corff GIG fod drwy'r Gymraeg os yw'r corff GIG wedi penderfynu hynny (gweler Pennod 15 i gael gwybod mwy am hyn).

[56] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[57] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[58] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[59] Adrannau 14(1)(c), (2) a (3).
[60] Adran 14(5) o'r Ddeddf
[61] Adran 14(5) o'r Ddeddf
[62] Adran 21(3).
[63] Adran 21(4)

10.66 Mae gan awdurdod lleol sy'n llunio CDU ar gyfer person ifanc swyddogaethau sy'n ymwneud â lle y mae'r person ifanc i'w addysgu neu ei hyfforddi a chael DDdY. Wrth gyfeirio achos myfyriwr o sefydliad addysg bellach, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid addysgu neu hyfforddi'r myfyriwr yn rhywle arall.

10.67 Os na ellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau un o'r canlynol neu'r ddau:

(a) lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol;
(b) bwyd a llety

**rhaid**[64] i'r awdurdod lleol gynnwys disgrifiad yn y CDU o'r lle neu'r bwyd a'r llety (beth bynnag yw'r sefyllfa). Mae mwy o wybodaeth am ystyried a oes angen lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety, er mwyn diwallu anghenion rhesymol person ifanc am DDdY ym Mhennod 12. Mae'r bennod honno yn delio â dyletswyddau awdurdod lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r adrannau yn y bennod honno sy'n delio â phwerau a chyfyngiadau mewn perthynas â lleoliadau hefyd yn berthnasol lle mae awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer person ifanc sy'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

10.68 **Rhaid**[65] i'r awdurdod lleol lunio'r CDU. Cyn ei gwblhau'n derfynol, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r person ifanc roi ei sylwadau ar gopi drafft a **dylai** ei annog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl y gofyn, er enghraifft diweddaru'r CDU drafft neu esbonio penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

10.69 Unwaith bydd wedi'i lunio, **rhaid**[66] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r person ifanc. **Rhaid**[67] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad am ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o 12 wythnos o:

(a) os cyfeirir achos o dan adran 12(2)(a) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 10.37 uchod), yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio;
(b) os cyfeirir achos o dan adran 30(2) o'r Ddeddf (a ddisgrifir ym mharagraff 10.38), pa un bynnag o'r ddau opsiwn canlynol fydd yn digwydd ddiwethaf: yr adeg pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn y cais atgyfeirio neu'r adeg pan fydd y person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i wneud y penderfyniad.

[64] Adran 14(6) - (8) o'r Ddeddf.
[65] Adrannau 14(1) a (2).
[66] Adran 22(1) o'r Ddeddf.
[67] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

10.70 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[68].

10.71 **Rhaid**[69] i'r awdurdod lleol roi'r canlynol hefyd i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[70]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu dudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[71] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[72]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch elfennau penodol o'r CDU.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau'r DDdY ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach sydd ag ADY*

10.72 Os bydd awdurdod lleol wedi llunio CDU ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, **rhaid**[73] iddo gynnal y CDU hwnnw oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i'r bwriad i gynnal y CDU.

10.73 Efallai y bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio am resymau eraill. Rhoddir sylw i hyn ym Mhennod 21 (ar beidio â chynnal CDU). Hefyd, efallai y bydd yr awdurdod lleol yn gwneud cais i'r sefydliad addysg bellach ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal cynllun, neu efallai y bydd yn trosglwyddo'r CDU i awdurdod lleol arall, lle mae'r person ifanc yn symud i ardal awdurdod lleol arall (gweler Pennod 20 ar drosglwyddo CDU).

10.74 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[74] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (hy lle mewn ysgol neu sefydliad arall penodol, neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn ddisgwyliedig yng nghyd-destun DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol a nodwyd gan gorff GIG. Mewn sefyllfa felly, **rhaid**[75] i'r corff GIG sicrhau'r ddarpariaeth. Os yw'r CDU yn nodi'n benodol y dylid cyflwyno math arbennig o DDdY drwy'r Gymraeg, **rhaid**[76] i'r

[68] Gweler pennod 1 i gael gwybod mwy am sut i ddehongli amserlenni yn y Cod hwn.
[69] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[70] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[71] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[72] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[73] Adrannau 14(2) a (3) o'r Ddeddf.
[74] Adrannau 14(10)(a) a (b) o'r Ddeddf.
[75] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[76] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.

awdurdod lleol (neu'r corff GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

10.75 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, **rhaid**[77] i'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a nodwyd yn y cynllun. Gweler paragraffau 10.78 i 10.79 i gael gwybod mwy.

10.76 **Ni chaiff**[78] yr awdurdod lleol godi tâl ar berson ifanc am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y bydd yn ei sicrhau ar gyfer y person o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## _Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ar gyfer myfyriwr sefydliad addysg bellach ag ADY_

10.77 Mae dyletswyddau ar awdurdod lleol[79] i adolygu CDU (gweler Pennod 16 i gael gwybod mwy).

## _Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i helpu awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY mewn CDU a gynhelir ar gyfer myfyriwr gan awdurdod lleol_

10.78 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, **rhaid**[80] i'r sefydliad addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY a nodwyd yn y cynllun. Mae hyn yn cynnwys cymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau bod unrhyw DDdY y mae'r CDU yn nodi y dylid ei chyflwyno drwy'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg.

10.79 **Dylai'r** camau rhesymol gynnwys trefniadau i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y sefydliad addysg bellach a'r awdurdod lleol a/neu'r corff iechyd am y camau ymarferol i'w cymryd i gyflwyno'r DDdY a nodwyd yn y CDU. Byddai hyn yn cynnwys gwneud trefniadau o fewn y sefydliad addysg bellach i helpu'r awdurdod lleol i sicrhau'r DDdY drwy gyflwyno'r DDdY y mae'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach ei chyflwyno, a thrwy hwyluso'r broses o gyflwyno'r DDdY y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdani. Gallai hyn olygu, er enghraifft:

- sicrhau bod pawb sy'n addysgu'r myfyriwr yn ymwybodol o'i ADY a'r DDdY a nodwyd;

[77] Adran 47 o'r Ddeddf.
[78] Adran 49 o'r Ddeddf.
[79] Adran 23 o’r Ddeddf.
[80] Adrannau 47(4) a (5) o'r Ddeddf

- sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi a'u datblygu er mwyn meithrin yr arbenigedd a'r sgiliau angenrheidiol i gyflwyno'r DDdY y mae'r sefydliad addysg bellach i'w chyflwyno;
- defnyddio'r cyfarpar priodol a nodwyd yn CDU y person ifanc, lle bo gofyn;
- integreiddio cyngor allanol a chymorth arbenigol ar gyfer y person ifanc i'w rhaglenni addysgu a dysgu mewn ffordd nad yw'n amharu;
- monitro effeithiolrwydd DDdY o ran diwallu ADY y person ifanc a'i helpu i wneud cynnydd a chyflawni'r deilliannau a nodwyd yn ei CDU;
- cyfrannu at y gwaith o adolygu'r CDU a chynllunio unrhyw brosesau trosglwyddo i sefydliadau eraill ac i fyd oedolion.

# Pennod 11: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir

## _Cyflwyniad_

11.1 Yn achos plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt fydd yn llunio ac yn cynnal y CDU ar eu cyfer bron bob amser. Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft, plant sy'n mynychu ysgolion annibynnol neu'n derbyn addysg yn y cartref. Yr eithriadau i hyn yw pan fo plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall yng Nghymru, ac felly'r awdurdod lleol arall fydd yn gyfrifol am gynnal CDU, a phan fo plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn cadw (ac felly gallai dyletswyddau'r awdurdod cartref fod ychydig yn wahanol - gweler Pennod 22).

## _Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan blentyn o oedran ysgol gorfodol nad yw'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru_

11.2 Pan fo'n cael ei ddwyn i'w sylw neu pan fo'n ymddangos fel arall i awdurdod lleol y gall fod ADY gan blentyn o oedran ysgol gorfodol nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ond mae'n gyfrifol am y plentyn hwnnw neu mae'r plentyn yn derbyn gofal ganddo, **rhaid**[1] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes ganddo ADY ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) mae CDU yn cael ei gynnal eisoes ar gyfer y plentyn;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw;
(c) os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall, **rhaid**[2] i'r awdurdod atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn;
(d) os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ond ei fod o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr;
(e) os yw'r plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn cadw (er y gallai fod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i benderfynu o dan ddarpariaethau gwahanol - gweler Pennod 22).

11.3 Gall y posibilrwydd fod gan blentyn ADY gael ei "ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Efallai bod y plentyn, rhiant y plentyn neu aelod arall o'r teulu wedi gwneud cais uniongyrchol. Fel arall, efallai bod atgyfeiriad wedi'i

[1] Adrannau 13(1), (2) a (4) ac 18(1) a (2) o'r Ddeddf.
[2] Adran 17 o'r Ddeddf.

wneud gan gorff allanol neu weithiwr proffesiynol o wasanaethau eraill yr awdurdod lleol, fel y gwasanaethau cymdeithasol. Waeth sut y daw'r posibilrwydd bod gan blentyn ADY i sylw awdurdod lleol neu sut y mae'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan blentyn ADY; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu'n berthnasol (yn amodol ar yr eithriadau uchod). (Ceir canllawiau ar y diffiniad o ADY ac adnabod plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY ym Mhennod 7.)

11.4 Os yw'n ddyletswydd ar awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y plentyn ADY, **rhaid** iddo[3]:

(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwn ac, os bydd angen CDU yn sgil hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio. Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, cydlynydd LACE yr awdurdod lleol ddylai gael ei ddynodi fel y swyddog hwn;
(b) cofnodi'r dyddiad pan gaiff ei dynnu i'w sylw neu pan fo'n ymddangos fel arall y gall fod gan blentyn ADY;
(c) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan blentyn ADY ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu pam ei fod yn ymddangos fel arall iddo y gall fod gan blentyn ADY;
(d) hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol sy'n penderfynu a oes gan y plentyn ADY (gweler paragraff 11.7 isod am ragor o wybodaeth).

11.5 Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan blentyn ADY, **rhaid**[4] i'r awdurdod lleol gael cyngor gan seicolegydd addysg. **Dylai'r** cyngor hwn ymwneud â'r canlynol:

- nodweddion addysgol, seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol);
- sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn;
- y ddarpariaeth a allai fod yn briodol i'r plentyn yng ngoleuni'r nodweddion ei achos, p'un ai drwy DDdY neu ddarpariaeth arall;

11.6 **Dylid** hefyd ystyried p'un a yw'r plentyn eisoes yn cael unrhyw gymorth gan asiantaethau eraill er mwyn eu cynnwys, fel y bo'n briodol, yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY a llunio unrhyw CDU. (Ceir rhagor o ganllawiau ar rôl gwahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol ym Mhennod 7)

11.7 **Rhaid**[5] i hysbysiad yr awdurdod lleol i'r plentyn a rhiant y plentyn ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, gynnwys:

[3] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[4] Gofyniad a orfodir gan y Cod. Rhaid i seicolegwyr addysg fod wedi'u cofrestru â Chyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal.
[5] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

(a) enw a manylion cyswllt y cydlynydd ;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor yn ymwneud ag ADY a'r system ADY[6]. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan nodi sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor.

11.8 **Dylai'r** hysbysiad hefyd roi syniad o'r amserlen debygol ar gyfer y broses (gan gymryd i ystyriaeth y dyddiad cau isod).

11.9 Pan fo'n cael ei ddwyn i sylw awdurdod lleol gan blentyn neu riant plentyn y gall fod gan blentyn ADY, ond y gwnaed penderfyniad ar y mater o'r blaen ac mae'n fodlon nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** egluro hyn wrth y plentyn a rhiant y plentyn a **dylai** darparu gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu'n ddiweddar.

11.10 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant, eu rhieni, a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Yn ogystal, mae rhoi lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. I gyflawni'r ddyletswydd hon, **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel rheol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn er mwyn trafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn a, lle bo angen, llunio CDU ar ei gyfer. Ceir canllawiau ar y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18 ar benderfynu ynghylch ADY a llunio CDU.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes ADY gan blentyn o oedran ysgol gorfodol*

11.11 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn ADY, **rhaid**[7] iddo hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y swyddog adolygu annibynnol, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. **Rhaid**[8] i'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad, a rhoi'r hysbysiad yn brydlon ac yn sicr o fewn cyfnod o 12 wythnos ar ôl cael gwybod am y posibilrwydd fod gan blentyn ADY neu pan fo'n ymddangos fel arall iddo y gall fod gan blentyn ADY.

11.12 Ond nid yw'r gofyniad i wneud penderfyniad a rhoi hysbysiad o fewn y cyfnod o 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[9].

---

[6] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[7] Adrannau 13(3) a 18(3) o'r Ddeddf.
[8] Gofyniad o ran amser a orfodir gan y Cod
[9] Gweler Pennod 1 am ragor o wybodaeth ynghylch sut i ddehongli'r amserlenni yn y Cod hwn.

11.13 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a’r rheswm/rhesymau drosto, **rhaid**[10] i’r hysbysiad i'r plentyn a'r rhiant gynnwys:

(a) y manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau’r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor yn ymwneud ag ADY a’r system ADY[11]. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan nodi sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[12], a'i wasanaethau eirioli annibynnol[13]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i’r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

11.14 Hefyd, **dylai’r** hysbysiad gynnwys amlinelliad o’r hyn y bydd yr awdurdod lleol yn ei wneud i sicrhau bod anghenion eraill (nad ydynt yn ADY) y plentyn yn cael eu diwallu.

11.15 Gall fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i’r plentyn a’i riant fynychu cyfarfod i drafod y mater ymhellach.

11.16 Mae modd cyflwyno apêl i’r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn ADY – gweler Pennod 26.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i lunio CDU ar gyfer plentyn ag ADY nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir*

11.17 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn ADY, **rhaid**[14] iddo lunio CDU ar ei gyfer. Yr eithriad i hyn yw lle mae'r plentyn yn derbyn gofal ac nad yw mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

11.18 **Rhaid**[15] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg ac, os yw'n penderfynu bod angen darpariaeth benodol yn Gymraeg, **rhaid**[16] nodi hynny yn y CDU.

11.19 Os caiff mater ei atgyfeirio i gorff GIG, a bod y corff yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy’n debygol o ddiwallu ADY y plentyn, **rhaid**[17] i'r awdurdod lleol ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai

[10] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[11] Dyma’r trefniadau y mae’n rhaid i’r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o’r Ddeddf.
[12] O dan adran 68 o’r Ddeddf.
[13] O dan adran 69 y Ddeddf.
[14] Adrannau 14(1) - (2) a 19(1) - (2) o’r Ddeddf.
[15] Adrannau 14(5) a 19(3) o’r Ddeddf
[16] Adrannau 14(5) a 19(3) o’r Ddeddf
[17] Adran 21(3) o’r Ddeddf.

DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. Os yw'r corff iechyd yn credu bod angen DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[18] i'r awdurdod lleol hefyd nodi yn y CDU y dylai'r DDdY gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg (ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 5 ).

11.20 **Rhaid**[19] i'r awdurdod lleol lunio'r CDU. Cyn ei gwblhau, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r plentyn a'i riant wneud sylwadau ar y fersiwn ddrafft a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a mynd i'r afael â nhw fel y bo angen, er enghraifft diweddaru'r CDU drafft neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill ymhellach.

11.21 Pan fydd yn barod, **rhaid**[20] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a'i riant a hefyd, os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y swyddog adolygu annibynnol. **Rhaid**[21] i'r awdurdod lleol benderfynu ynghylch ADY, llunio'r cynllun a rhoi copi ohono'n brydlon ac yn sicr o fewn cyfnod o 12 wythnos ar ôl cael gwybod am y posibilrwydd fod gan blentyn ADY neu pan fo'n ymddangos fel arall iddo y gall fod gan blentyn ADY.

11.22 Ond nid yw'r gofyniad i wneud penderfyniad a rhoi copi o'r CDU o fewn y cyfnod o 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[22].

11.23 **Rhaid**[23] i'r awdurdod lleol hefyd roi'r canlynol i'r plentyn a'i riant:

(a) enw a manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor yn ymwneud ag ADY a'r system ADY[24]. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan nodi sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[25], a'i wasanaethau eirioli annibynnol[26];
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn agweddau penodol ar y CDU.

## *Ystyriaethau eraill wrth benderfynu lle y dylid cyflwyno'r DDdY*

11.24 Wrth baratoi CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar anghenion ac amgylchiadau unigol y plentyn. Ceir gwybodaeth gyffredinol ynghylch llunio

---

[18] Adran 21(4) o'r Ddeddf.
[19] Adrannau 14(1) - (2) a 19(1) - (2) o'r Ddeddf.
[20] Adran 22 o'r Ddeddf.
[21] Gofyniad o ran amser a orfodir gan y Cod.
[22] Gweler Pennod 1 am ragor o wybodaeth ynghylch sut i ddehongli'r amserlenni yn y Cod.
[23] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[24] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[25] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[26] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

CDU ym Mhennod 7. Bydd angen i'r awdurdod ystyried lle y dylai'r plentyn dderbyn y DDdY a cheir cyfyngiadau yn y Ddeddf o ran lle y gall plentyn (a pherson ifanc) dderbyn addysg a DDdY. Ymdrinnir â'r rhain yn y paragraffau canlynol.

**Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir**

11.25 **Rhaid**[27] i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 mewn perthynas â phlentyn o oedran ysgol gorfodol a fydd yn derbyn addysg mewn ysgol, sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir (hynny yw, ysgol a gynhelir nad yw'n ysgol arbennig nac yn Uned Cyfeirio Disgyblion). Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor y bydd addysg brif ffrwd er budd pennaf y plentyn yn y rhan fwyaf o achosion.

11.26 Ceir tri eithriad i'r ddyletswydd hon[28]:

(a) bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
(b) bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
(c) bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.

11.27 Oni bai bod un o'r eithriadau hyn yn berthnasol, **rhaid**[29] i'r awdurdod lleol sicrhau bod plentyn o oedran ysgol gorfodol a ddylai gael ei addysgu mewn ysgol yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir, ac ni fyddai modd i'r awdurdod enwi (*at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn*) ysgol arbennig a gynhelir neu Uned Cyfeirio Disgyblion yn y CDU.

11.28 Ni chaiff awdurdod lleol ond ddibynnu ar yr eithriad cyntaf uchod os nad oes unrhyw gamau rhesymol y gallai eu cymryd i atal yr anghydnawsedd[30]. Felly, os oes camau rhesymol y gallai awdurdod lleol eu cymryd i sicrhau nad yw lleoli plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol gymryd y camau hynny, yn hytrach na lleoli plentyn mewn ysgol nas cynhelir.

11.29 Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gam rhesymol i atal yr anghydnawsedd yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos unigol, ond dyma rai o'r ffactorau a all gael eu hystyried:

- a fyddai cymryd y cam yn ffordd effeithiol o ddileu'r anghydnawsedd â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;
- i ba raddau y mae'n ymarferol i'r awdurdod lleol gymryd y cam;

[27] Adran 51 o'r Ddeddf.
[28] Adran 51(2) o'r Ddeddf.
[29] Adran 51(1) o'r Ddeddf
[30] Adran 51(3) o'r Ddeddf.

- i ba raddau y mae camau eisoes wedi'u cymryd mewn perthynas â phlentyn penodol, a pha mor effeithiol oedd y camau hynny;
- y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o safbwynt adnoddau eraill sy'n deillio o gymryd y cam, yn benodol a fyddai'r cam yn arwain at newid anghymesur mewn adnoddau tuag at ddiwallu anghenion un dysgwr, gyda'r posibilrwydd o amharu ar addysg plant eraill;
- graddau unrhyw amhariaeth a fyddai'n deillio o gymryd y cam; ac
- i ba raddau y mae'r cam yn gydnaws ag anghenion y plentyn - er enghraifft, mewn rhai achosion o blant ag ADY, gall darparu cymorth un i un llawn amser hwyluso presenoldeb plentyn mewn ysgol neu ystafell ddosbarth brif ffrwd, ond byddai'n atgyfnerthu dibyniaeth ac yn amharu ar y broses o fagu annibyniaeth.

11.30 Mae'n anochel na fydd unrhyw gamau rhesymol ar gael mewn rhai amgylchiadau i sicrhau na fydd lleoli plentyn mewn ysgol brif ffrwd yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill (er enghraifft, os yw ymddygiad y plentyn yn bygwth diogelwch a/neu'n amharu ar ddysgu eraill mewn ffordd gyson neu sylweddol ac y byddai'r gost o ddarparu unrhyw fesurau diogelwch i fynd i'r afael â'r risgiau hynny yn anghymesur neu ni fyddai'r mesurau diogelwch yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau hyn).

11.31 Fodd bynnag, mae angen ystyried yn ofalus bob amser cyn penderfynu peidio ag addysgu plentyn mewn lleoliad prif ffrwd, yn enwedig os yw'n well gan y rhiant fod y plentyn yn derbyn addysg mewn ysgol brif ffrwd. **Rhaid**[31] i'r awdurdod lleol roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant, a bydd angen ystyried ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys gallu'r lleoliad i gynnig DDdY briodol a sylwadau seicolegwyr addysg a gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn penderfynu a yw un o'r eithriadau'n berthnasol. Mae'n bwysig bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar sail amgylchiadau achosion unigol.

11.32 Pan fydd plentyn ag ADY yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, **rhaid**[32] i'r rhai sy'n gysylltiedig â gwneud DDdY ar gyfer y plentyn sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ar y cyd â phlant nad oes ganddynt ADY. Nid yw'r ddyletswydd hon ond yn berthnasol i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol a'i bod yn gydnaws â'r:

(a) DDdY y mae ADY y plentyn yn galw amdani;
(b) darparu addysg effeithlon ar gyfer y plant y caiff ei addysgu gyda hwy; a'r
(c) defnydd effeithlon o adnoddau[33].

11.33 Nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol yn berthnasol os yw rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir. Yn yr achos hwn, nid yw o reidrwydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod y plentyn yn derbyn addysg o'r fath[34]; **rhaid**[35] iddo roi sylw i'r

[31] Adran 6 o'r Ddeddf.
[32] Adran 52(1) o'r Ddeddf.
[33] Adran 52(2) o'r Ddeddf.
[34] Adran 51(4) o'r Ddeddf.

dymuniad hwn, a bydd angen iddo ystyried amgylchiadau'r achos a chydymffurfio â'i ddyletswyddau addysgol[36].

11.34 Nid yw'r ddyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn atal plant rhag cael eu haddysgu mewn ysgol annibynnol, neu mewn ysgol a gymeradwyir o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 (hynny yw, ysgol arbennig nas cynhelir), os telir y gost ac eithrio gan awdurdod lleol[37].

## Enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol

11.35 Mewn rhai achosion, bydd natur anghenion ac amgylchiadau plentyn ag ADY yn golygu bod angen sicrhau lle iddynt mewn ysgol benodol a gynhelir. Gall awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru mewn CDU at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol honno. Cyfeirir at hyn isod fel 'enwi ysgol'.

11.36 Wrth reswm, bydd y CDU yn cyfeirio at ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill lle bydd y plentyn yn derbyn DDdY am resymau eraill, ac felly os yw awdurdod lleol yn enwi ysgol *at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi*, mae'n rhaid nodi hynny yn adran 2D o'r CDU yn unol â'r gofynion ym Mhennod 13.

11.37 **Ni chaiff**[38] awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir at ddibenion sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol, oni bai:

(a) ei fod yn fodlon ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r DDdY a nodir yn ei CDU gael ei gwneud yn yr ysgol honno; a
(b) ei bod yn briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol honno.

11.38 Mae'r ystyriaethau canlynol yn debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried a ddylid enwi ysgol (gall fod ystyriaethau perthnasol eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau):

- a yw nodweddion penodol yr ysgol yn ei gwneud yn arbennig o addas i wneud y DDdY ofynnol o'i gymharu ag ysgolion eraill a gynhelir y gallai'r plentyn eu mynychu – gallai hyn gynnwys amrywiaeth o faterion gwahanol, gan gynnwys nodweddion ffisegol yr ysgol;
- a oes gan yr ysgol aelodau staff sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol;

[35] Adran 6 o'r Ddeddf.
[36] Yn benodol, adran 9 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg, ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni, ond dim ond os oes modd darparu'r addysg a'r hyfforddiant mewn ffordd effeithlon a chan osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.
[37] Adran 51(5) o'r Ddeddf.
[38] Adran 48(4) o'r Ddeddf.

- a oes gan yr ysgol yr arbenigedd gofynnol mewn darpariaeth lai cyffredin, fel nam ar y golwg neu nam ar y clyw;
- a fyddai'n afresymol i ysgol fwy lleol gyflwyno DDdY y plentyn.

11.39 Os nad oes modd bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 11.37, **ni chaiff**[39] awdurdod lleol enwi'r ysgol yn adran 2D o'r CDU (gweler Pennod 13).

11.40 Cyn enwi ysgol, **rhaid**[40] i'r awdurdod lleol ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol ac, os nad yr awdurdod lleol na'r ysgol ei hun yw'r awdurdod derbyn, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r ysgol wedi'i lleoli. Os yw'r ysgol wedi'i lleoli mewn ardal awdurdod lleol arall, ond mai'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, **dylai'r** awdurdod lleol arall gael ei hysbysu gan yr awdurdod lleol cartref sy'n llunio'r CDU ei fod yn ystyried enwi'r ysgol.

11.41 Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau gan y corff llywodraethu a, lle bo'n berthnasol, yr awdurdod lleol arall.

11.42 Os caiff ysgol a gynhelir yng Nghymru ei henwi, **rhaid**[41] i gorff llywodraethu'r ysgol dderbyn y plentyn waeth beth yw ei dyletswydd mewn perthynas â therfynau statudol ar faint dosbarthiadau babanod[42]. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw bŵer i wahardd dysgwr o ysgol[43].

**Darpariaeth arall i ddiwallu anghenion rhesymol plentyn am DDdY**

11.43 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plant ag ADY yn gallu cael y DDdY sydd ei hangen arnynt yn unrhyw ysgol a gynhelir. Fodd bynnag, bydd natur anghenion ac amgylchiadau rhai plant yn golygu y dylent fynd i ysgol benodol neu sefydliad arall, neu efallai bod angen lleoliad preswyl arnynt (y cyfeirir ato yma fel 'bwyd neu lety').

11.44 Os na all anghenion rhesymol y plentyn gael eu diwallu oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau un o'r canlynol neu'r ddau:

(a) lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall;
(b) bwyd a llety;

**rhaid**[44] i'r awdurdod gynnwys disgrifiad yn y CDU o'r lleoliad neu'r bwyd a llety (fel sy'n briodol)[45].

[39] Adran 48(4) o'r Ddeddf
[40] Adran 48(3) o'r Ddeddf
[41] Adran 48(2) o'r Ddeddf.
[42] Adran 48(5) o'r Ddeddf.
[43] Adran 48(6) o'r Ddeddf.
[44] Adrannau 14(6) - (8) a 19(4) - (6) o'r Ddeddf.
[45] Er bod y bennod hon yn ymwneud â phlant, mae'r sefyllfa a ddisgrifir yn yr adran hon hefyd yn berthnasol os yw'r awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer person ifanc.

*Lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall*

11.45 Mae'r ystyriaethau canlynol yn debygol o fod yn berthnasol wrth ystyried a oes angen lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn am DDdY (efallai y bydd ystyriaethau perthnasol eraill yn dibynnu ar yr amgylchiadau):

- a yw nodweddion penodol yr ysgol neu'r sefydliad arall yn ei gwneud yn arbennig o addas i gyflwyno'r DDdY ofynnol o'i gymharu ag ysgolion neu sefydliadau eraill y gallai'r plentyn eu mynychu – gallai hyn gynnwys amrywiaeth o faterion, gan gynnwys nodweddion ffisegol yr ysgol neu'r sefydliad;
- a oes gan yr ysgol aelodau staff sydd ag arbenigedd neu hyfforddiant arbenigol;
- a oes gan yr ysgol yr arbenigedd gofynnol mewn darpariaeth lai cyffredin, fel nam ar y golwg neu nam ar y clyw; neu
- a fyddai'n afresymol i ysgol neu sefydliad arall gyflwyno DDdY y plentyn.

11.46 Mae hyn yn amodol ar y cyfyngiadau ar leoli plentyn neu berson ifanc mewn ysgol annibynnol yng Nghymru neu sefydliad addysgol annibynnol yn Lloegr, neu mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, neu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol (ISPI)[46]. Rhoddir sylw pellach i'r materion hyn isod. Hefyd, os nad yw'r sefydliad yn ysgol a gynhelir yng Nghymru, nid yw'r ddyletswydd i'w ddisgrifio yn y CDU yn berthnasol os nad yw'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r sefydliad yn cydsynio[47].

11.47 Mae adran G y CDU yn ymdrin â lleoliadau, gan gynnwys enwi ysgol neu sefydliad arall (gweler Pennod 13 ar gynnwys CDU).

*Bwyd a llety*

11.48 Bydd angen lleoliad preswyl ar rai plant oherwydd natur eu hanghenion a'u hamgylchiadau. O ystyried y gall fod yn ofynnol i'r plentyn breswylio yn bell oddi wrth ei deulu, bydd y ddyletswydd i gynnwys a chynorthwyo plant a'u rhieni a ddisgrifir ym Mhennod 3 yn bwysig iawn.

11.49 Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried holl amgylchiadau perthnasol yr achos penodol. Os na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn am DDdY heb sicrhau bwyd a llety hefyd, **rhaid**[48] i'r awdurdod lleol gynnwys disgrifiad o hyn yn adran 2D o'r CDU (gweler Pennod 13).

11.50 Wrth benderfynu a oes angen bwyd a llety, dylai'r awdurdod lleol ystyried y ffactorau canlynol:

- a oes modd diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY mewn darpariaeth ddydd;

[46] Adrannau 14(8)(b) ac 19(6)(b) a'r cyfyngiadau yn adrannau 55, 59 a 56 o'r Ddeddf.
[47] Adrannau 14(8)(a) a 19(6)(a) o'r Ddeddf.
[48] Adrannau 14(6) - (7) a 19(4) - (5) o'r Ddeddf.

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod modd darparu elfen hanfodol o addysg a hyfforddiant y plentyn mewn lleoliad preswyl yn unig (er enghraifft, mae angen rhaglen gyson ar y plentyn yn ystod ac ar ôl oriau ysgol na ellir ei darparu gan rieni ac ysgol brif ffrwd gyda chymorth asiantaethau eraill);
- os oes modd diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY mewn ffordd arall, a fyddai sicrhau'r bwyd a llety arfaethedig yn gydnaws â darparu'r addysg a'r hyfforddiant mewn ffordd effeithlon a chan osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

11.51 Os penderfynir sicrhau lleoliad preswyl, bydd yr awdurdod lleol eisiau gwneud yn siwr bod trefniadau cymorth priodol yn eu lle hefyd, gan gynnwys trefniadau i gynnal cyswllt y plentyn â'i deulu.

11.52 Bydd yr awdurdod lleol am sicrhau bod unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen ochr yn ochr ag addysg, DDdY a bwyd a llety ar gael o'r cychwyn cyntaf. Gall hyn gynnwys:

- gofal iechyd;
- gofal personol;
- gofal cymdeithasol; a
- chludiant (gweler Pennod 13).

11.53 Bydd cydweithio rhwng asiantaethau ac ar draws adrannau yn hynod bwysig yn y maes hwn. Yn benodol, gall awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried trefniadau cyllido ar y cyd priodol, a bydd yr awdurdodau lleol am sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd gydlynol yn fewnol wrth gyllido elfennau addysg a gofal cymdeithasol y lleoliad[49].

11.54 Os yw lleoliad preswyl plentyn neu berson ifanc mewn ysgol neu sefydliad y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, bydd yr awdurdod lleol am ystyried pa wybodaeth y gall fod ei hangen ar ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithredu yn yr ardal arall.

## Lleoliadau mewn ysgolion annibynnol[50]

11.55 Weithiau, bydd awdurdod lleol yn ystyried a ddylai sicrhau addysg i blentyn (neu berson ifanc) mewn ysgol annibynnol oherwydd natur anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn[51].

11.56 Os yw'r ysgol annibynnol yng Nghymru, **rhaid**[52] i'r awdurdod lleol fodloni dau amod cyn y gall arfer ei swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf i sicrhau addysg ar gyfer plentyn (neu berson ifanc) yn yr ysgol:

[49] Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf yn sail i ddarpariaeth gofal cymdeithasol.
[50] Er bod y bennod hon yn ymwneud â phlant, mae'r sefyllfa a ddisgrifir yn yr adran hon hefyd yn berthnasol os yw'r awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer person ifanc.
[51] Yn achos plentyn, dim ond os nad yw'r ddyletswydd i ffafrio addysg mewn ysgol briff ffrwd yn berthnasol y byddai hyn yn digwydd - gweler uchod.

(a) Mae'n rhaid bod yr ysgol wedi'i chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru[53]; ac
(b) Mae'n rhaid bod yr awdurdod lleol yn fodlon y gall yr ysgol gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU y plentyn (neu'r person ifanc)[54].

11.57 **Rhaid**[55] bodloni amodau tebyg ar gyfer lleoliadau mewn sefydliadau addysg annibynnol yn Lloegr, sef:

(a) bod y sefydliad wedi'i gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysg annibynnol yn Lloegr[56];
(b) bod yr awdurdod lleol yn fodlon y gall y sefydliad gyflwyno'r DDdY a nodir yn CDU y plentyn (neu'r person ifanc).

11.58 Os byddai'n well gan y rhiant (neu berson ifanc) ysgol annibynnol ond bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod modd diwallu anghenion y plentyn mewn lleoliad addysg a gynhelir, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol ariannu lle'r dysgwr yn yr ysgol annibynnol. Fodd bynnag, mewn sefyllfa o'r fath, **dylai'r** awdurdod lleol egluro'n llawn i'r rhiant a'r plentyn (neu'r person ifanc) sut y gellir diwallu anghenion y dysgwr heb osod y plentyn mewn ysgol annibynnol.

11.59 Os yw awdurdod lleol yn ystyried a ddylai osod y plentyn mewn ysgol annibynnol, dylai ystyried y canlynol:

- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod y DDdY sy'n ofynnol i ddiwallu ADY y plentyn ar gael yn yr ysgol annibynnol honno yn unig;
- a oes gan y plentyn anghenion meddygol a/neu anghenion gofal cymdeithasol na ellir eu diwallu gan, neu ar y cyd â, darparwyr lleol mewn lleoliad addysg prif ffrwd ac a fyddai'n atal yr unigolyn rhag derbyn addysg neu hyfforddiant addas i ddiwallu ei anghenion penodol;
- a oes modd sicrhau darpariaeth i ddiwallu anghenion y plentyn yn rhywle arall hefyd, ac y byddai'r ddarpariaeth yn y lleoliad hwnnw'n gydnaws â darparu'r addysg a'r hyfforddiant mewn ffordd effeithlon a chan osgoi gwariant cyhoeddus afresymol[57].

11.60 Rydym yn disgwyl y bydd ysgolion annibynnol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyflwyno'r DDdY sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc. Mae'n bosibl bod gan ysgolion annibynnol eu polisi ADY eu hunain ac, os felly, efallai y bydd yr awdurdodau lleol am ei ystyried wrth benderfynu p'un ai lleoli dysgwr yn yr ysgol ai peidio.

---

[52] Adran 55(1)(a) o'r Ddeddf
[53] O dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002
[54] Adran 55(1)(b)).
[55] Adran 55(2) o'r Ddeddf.
[56] O dan adran 95 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008. Yn y cyd-destun hwn, mae i "sefydliad addysg annibynnol" yr ystyr a roddir ym Mhennod 1 o Ran 4 o'r Ddeddf.
[57] Gweler y ddyletswydd yn adran 9 o Ddeddf Addysg 1996 ynghylch dymuniadau'r rhieni, y cyfeirir ati yn nhroednodyn xx uchod.

**DDdY ar gyfer plentyn mewn mannau heblaw yn yr ysgol**

11.61 **Caiff**[58] awdurdodau lleol drefnu i'r DDdY a nodir mewn CDU plentyn, neu i unrhyw ran o'r DDdY, gael ei chyflwyno mewn man heblaw yn yr ysgol. Nid yw'r cyfryw drefniadau'n debygol o fod yn gyffredin (ac eithrio mewn perthynas â phlant nad ydynt wedi dechrau ysgol eto). **Ni chaiff**[59] awdurdodau lleol drefnu i DDdY gael ei gwneud mewn man heblaw yn yr ysgol oni bai ei fod yn fodlon y byddai'n amhriodol cyflwyno'r ddarpariaeth mewn ysgol.

**DDdY y tu allan i Gymru a Lloegr**[60]

11.62 Mewn achosion prin iawn, gall fod yn briodol i blentyn (neu berson ifanc) y mae angen DDdY arbenigol arno gael ei osod mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, **ni chaiff**[61] awdurdod lleol wneud trefniadau i blentyn neu berson ifanc fynychu'r cyfryw sefydliad oni bai bod y sefydliad wedi'i drefnu i gyflwyno DDdY sy'n cyfateb i'r ADY a ddisgrifir yn CDU y plentyn.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau DDdY*

11.63 Os yw awdurdod lleol wedi paratoi CDU ar gyfer plentyn nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, **rhaid**[62] iddo gynnal y CDU.

11.64 Os nad yw'r plentyn, pan fydd bellach yn berson ifanc, yn cydsynio bod y cynllun yn cael ei gynnal, byddai dyletswydd yr awdurdod lleol i'w gynnal yn dod i ben[63]. Gallai dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ddod i ben am resymau eraill hefyd, sydd wedi'u disgrifio ym Mhennod 21.

11.65 Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU, **rhaid**[64] iddo sicrhau'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol neu sefydliad penodol neu fwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn) a ddisgrifir ynddo. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw DDdY sy'n driniaeth neu wasanaeth a nodir gan gorff GIG. Yn yr achos hwn, **rhaid**[65] i'r corff GIG sicrhau'r DDdY. Os yw'r CDU yn nodi y dylid cyflwyno math penodol o DDdY trwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid**[66] i'r awdurdod lleol (neu'r corff GIG lle bo'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg.

[58] Adran 53(1) o'r Ddeddf.
[59] Adran 53(2) o'r Ddeddf.
[60] Er bod y bennod hon yn ymwneud â phlant, mae'r sefyllfa a ddisgrifir yn yr adran hon hefyd yn berthnasol os yw'r awdurdod lleol yn llunio cynllun ar gyfer person ifanc.
[61] Adran 59 o'r Ddeddf.
[62] Adrannau 14(1) - (2) a 19(1) - (2) o'r Ddeddf.
[63] Adran 14(1) – (3) o'r Ddeddf.
[64] Adrannau 14(10) a 19(7) o'r Ddeddf
[65] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf
[66] Adrannau 14(10)(c) a 19(7)(c) a (20)(5)(c) and 21(5)(b) o'r Ddeddf

11.66 **Ni chaiff**[67] awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn na'r rhiant am y DDdY a ddisgrifir yn y CDU, nac am unrhyw beth arall y mae'n ei sicrhau o dan Ran 2 y Ddeddf.

11.67 Os yw'r plentyn yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru yn ddiweddarach, **caiff**[68] yr awdurdod lleol gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y CDU. Fodd bynnag, **ni chaiff**[69] awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i gynnal CDU os yw'n cynnwys darpariaeth arall y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei sicrhau (h.y. lle mewn ysgol neu sefydliad penodol neu fwyd a llety), neu os yw'r person yn blentyn sy'n derbyn gofal ganddo neu wedi'i gofrestru mewn dau le.

## *Dyletswydd yr awdurdod lleol i adolygu CDU*

11.68 Mae awdurdod lleol yn ddarostyngedig i ddyletswyddau[70] i adolygu CDU (gweler Pennod 16 am ragor o wybodaeth).

[67] Adran 49 o'r Ddeddf. At y dibenion hyn, nid yw "rhiant" yn cynnwys rhiant nad yw'n unigolyn.
[68] Adran 14(4) o'r Ddeddf.
[69] Adrannau 14(9) a 19(2) a 30(7) o'r Ddeddf.
[70] Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf.

# Pennod 12: Dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB

## *Cyflwyniad*

12.1 Bydd cynlluniau datblygu unigol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru yn cael eu llunio a'u cynnal bob amser gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y person ifanc. Os oes awdurdod lleol wedi penderfynu bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, mae'n **rhaid**[1] iddo benderfynu yn unol â rheoliadau a oes angen iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan berson ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB anghenion dysgu ychwanegol*

12.2 Pan fo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn SAB yng Nghymru anghenion dysgu ychwanegol, mae'n **rhaid**[2] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol ai peidio, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) mae cynllun datblygu unigol eisoes yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc;
(b) mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y mater o'r blaen a'i fod wedi'i fodloni nad yw anghenion y person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad;
(c) nid yw'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud; neu
(d) mae'r person ifanc yn wrthrych gorchymyn cadw (er mae'n bosibl y bydd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i benderfynu o dan ddarpariaethau gwahanol - gweler Pennod 22).

[1] Adran 14(1)(c)(ii) o'r Ddeddf.
[2] Adran 13(1) a 13(2) o'r Ddeddf

12.3 Os oes gan awdurdod lleol ddyletswydd i benderfynu a oes gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, mae'n **rhaid** iddo[3]:

(a) ddynodi person i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau gofynnol i wneud y penderfyniad, ac os oes angen cynllun datblygu unigol wedyn, i fod yn gyfrifol am ei lunio;
(b) cofnodi'r dyddiad pan fydd yr achos yn dod i'w sylw, neu pan fo'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol;
(c) cofnodi crynodeb o sut mae'r posibilrwydd bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol wedi dod i'w sylw, neu pam y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol fel arall y gall fod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol; a
(d) rhoi copi o'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff 12.4.

12.4 Pan fo'n cael ei dwyn i sylw awdurdod lleol y gall fod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, neu pan fo'r posibilrwydd yn ymddangos iddo fel arall, mae'n **rhaid**[4] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon:

(a) hysbysu'r person ifanc ei bod wedi dod i sylw'r awdurdod lleol, neu'n ymddangos iddo fel arall, y gall fod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol;
(b) gofyn am gydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad, ac os penderfynir bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, gofyn am ei gydsyniad i lunio a chynnal cynllun datblygu unigol; a
(c) hysbysu'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio a pheidio â chydsynio i wneud y penderfyniad.

12.5 Mae'n **rhaid**[5] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydlynydd;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r sustem anghenion dysgu ychwanegol[6]. Gellid gwneud hyn trwy ddarparu taflen awdurdod lleol yn ymwneud â'r system anghenion dysgu ychwanegol, neu ddarparu cyfeiriad tudalennau gwe perthnasol yr awdurdod lleol a rhoi manylion ar sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor.

12.6 Hefyd, **dylai'r** hysbysiad nodi'r amserlenni tebygol ar gyfer y broses (gan ystyried y dyddiad cau isod.)

[3] Gofyniad y Cod.
[4] Gofyniad y Cod.
[5] Gofyniad y Cod.
[6] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.

12.7 Pan na fo'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad, mae'n **rhaid**[7] cofnodi hyn. **Dylai** fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau priodol i hwyluso hyn, a allai gynnwys y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau ei fod yn gwrthod rhoi cydsyniad

12.8 Gall y posibilrwydd bod gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol "gael ei ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Gallai'r person ifanc ei hun, ei riant neu aelod arall o'i deulu gysylltu â'r awdurdod lleol yn uniongyrchol. Fel arall, gall person ifanc gael ei atgyfeirio gan gorff neu weithiwr proffesiynol allanol, fel corff iechyd, neu ei atgyfeirio gan wasanaeth arall yr awdurdod lleol, fel y gwasanaethau cymdeithasol. Nid oes ots sut mae'n dod i sylw'r awdurdod lleol y gall fod gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, neu sut mae hynny'n ymddangos iddo fel arall; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu yn berthnasol. (Ewch i Bennod 7 ar gyfer canllawiau ar y diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol ac ar sut i nodi'r posibilrwydd bod gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol).

12.9 Fel rhan o'r broses o benderfynu a oes gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol, mae'n **rhaid**[8] i awdurdod lleol ystyried gofyn am gyngor seicolegydd addysg. **Dylai'r** cyngor hwn ymwneud â:

(a) nodweddion addysgol, seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y person ifanc (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol);
(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y person ifanc; ac
(c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol i'r person ifanc ar sail nodweddion yr achos, naill ai drwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol neu ddarpariaeth arall.

12.10 Hefyd, **dylid** ystyried a yw'r person ifanc eisoes wedi ymgysylltu ag asiantaethau eraill neu'n derbyn cymorth ganddynt, a'u cynnwys fel sy'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, a oes angen i'r awdurdod lleol lunio cynllun datblygu unigol, ac os felly, ei lunio. (Mae rhagor o ganllawiau ar rôl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gwahanol ar gael ym Mhennod 7.)

12.11 Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt o bosibl, ac yn y broses o lunio cynlluniau datblygu unigol. Yn ogystal, mae sicrhau bod y person ifanc yn ganolog i'r broses sy'n nodi ei anghenion dysgu ychwanegol ac yn pennu ei ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn un o amcanion sylfaenol y system anghenion dysgu ychwanegol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, fel arfer **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd â'r person ifanc i drafod a

[7] Gofyniad y Cod.
[8] Gofyniad y Cod. Mae'n rhaid Seicolegwyr Addysg gael eu cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynol Iechyd a Gofal.

phenderfynu anghenion y person ifanc, a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, ac os felly, llunio'r cynllun datblygu unigol. Mae canllawiau ar y cyfarfodydd hyn wedi'u darparu ym Mhennod 18).

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol*

12.12 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, mae'n **rhaid**[9] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. Mae'n **rhaid**[10] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad a chyflwyno'r hysbysiad yn brydlon, gan wneud hynny o fewn 12 wythnos i gael cydsyniad y person ifanc i wneud y penderfyniad.

12.13 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a chyflwyno'r hysbysiad o fewn 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth[11].

12.14 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rheswm/rhesymau drsoto, mae'n **rhaid**[12] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r sustem anghenion dysgu ychwanegol[13]. Gellid gwneud hyn trwy ddarparu taflen awdurdod lleol yn ymwneud â'r system anghenion dysgu ychwanegol, neu ddarparu cyfeiriad tudalennau gwe perthnasol yr awdurdod lleol a rhoi manylion ar sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau,[14] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[15]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

12.15 Gall fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod hyn ymhellach.

12.16 Gellir apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan unigolyn anghenion dysgu ychwanegol[16] – gweler Pennod 26.

[9] Adran 13(3) o'r Ddeddf
[10] Gofyniad y Cod.
[11] I gael rhagor o wybodaeth am gydymffurfio ag amserlenni yn y Cod, gweler Pennod 1.
[12] Gofyniad y Cod.
[13] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[14] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[15] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[16] Adran 70 o'r Ddeddf.

## _Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a ddylai lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol_

12.17 Er mwyn gwireddu eu potensial, mae'n bosibl y bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn cael mynediad i addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran, neu mae'n bosibl y bydd angen addysg neu hyfforddiant arnynt a gynllunnir yn benodol ar gyfer pobl ag anghenion dysgu ychwanegol.

12.18 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod gan berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano anghenion dysgu ychwanegol, ac nad yw'r unigolyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu nad yw wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn SAB yng Nghymru, mae'n **rhaid**[17] iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc os:

- yw'n penderfynu yn unol â rheoliadau (gweler paragraffau 12.22-12.51 isod) bod angen iddo lunio a chynnal cynnal datblygu unigol i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant; a
- bod y person ifanc yn cydsynio i lunio a chynnal y cynllun.

12.19 Y cwestiynau perthnasol i'r awdurdod lleol yw beth yw anghenion *rhesymol* y person ifanc am addysg neu hyfforddiant a beth sy'n *angenrheidiol* i'w diwallu. Nid oes gan unrhyw berson hawl i addysg neu hyfforddiant parhaus pan fydd yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol hyd at 25 oed, ac nid oes ganddo hawl i gael y ddarpariaeth o'i ddewis (ond mae'n **rhaid**[18] ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc). Y bwriad sylfaenol yw sicrhau bod gan bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad cyfartal i addysg neu hyfforddiant o'i gymharu â phobl ifanc nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

12.20 Er mwyn penderfynu a oes angen llunio cynllun datblygu unigol, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried y canlynol:

- a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, ac os felly, beth ydynt;
- y ddarpariaeth sydd ar gael o bosibl i ddiwallu'r anghenion; ac
- a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu'r anghenion.

12.21 Trafodir y materion hyn isod.

[17] Adran 14(1) i (3) o'r Ddeddf.
[18] Adran 6 o'r Ddeddf.

## Penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, ac os felly, beth ydynt

12.22 Mae'n **rhaid**[19] i'r awdurdod lleol ystyried a oes posibilrwydd realistig y bydd person ifanc yn cyflawni amcan dymunol mewn cyfnod o amser rhesymol trwy ddilyn cwrs addysg neu hyfforddiant.

12.23 **Dylai** amcanion ymwneud â galluogi'r person ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, gan gynnwys datblygu sgiliau byw'n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol; paratoi ar gyfer byd gwaith; neu symud ymlaen i gyfleoedd addysg (gan gynnwys addysg uwch) neu hyfforddiant eraill. Hefyd, mae'n bosibl y bydd ganddynt ffocws ehangach, fel cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol a chadernid a sefydlogrwydd emosiynol. Mae amcanion posibl yn cynnwys cwblhau cymhwyster galwedigaethol penodol neu ddatblygu rhai sgiliau byw'n annibynnol.

12.24 Wrth nodi amcan dymunol, mae'n hollbwysig ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddo a beth y mae eisiau ei gyflawni. Os yw'r person wedi cael cynllun datblygu unigol o'r blaen, gall hynny lywio amcanion dymunol y person hefyd.

12.25 Wrth ystyried y mater hwn, mae'n **rhaid**[20] i'r awdurdod lleol dybio y byddai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer anghenion y person ifanc yn cael ei llunio ar gyfer y person ifanc tra ei fod yn mynychu cwrs addysg neu hyfforddiant.

12.26 Mae cynnydd addysgol blaenorol y person ifanc, ac unrhyw gynllun datblygu unigol blaenorol sydd ganddo, yn debygol o fod yn berthnasol i lywio a oes gan y person ifanc y galluedd i ddatblygu a chyflawni'r amcan dymunol. Hefyd, gall cyngor gan seicolegydd addysg neu weithwyr proffesiynol eraill fod yn ddefnyddiol i lywio'r mater hwn.

12.27 Mae'r broses o benderfynu beth yw cyfnod rhesymol ar gyfer disgwyl i'r person ifanc gyflawni'r amcan yn debygol o ddibynnu ar natur yr amcan. Os yw'r amcan dymunol yn gymharol gyffredinol (fel dysgu sgiliau byw'n annibynnol), ni fyddai cyfnod o amser rhesymol ar gyfer cwrs yn fwy na dwy flynedd academaidd fel arfer. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol nad yw darpariaeth mewn SAB prif ffrwd yn para mwy na dwy flynedd academaidd fel arfer. Os yw'r amcan yn ymwneud ag ennill cymhwyster galwedigaethol trwy ddilyn cwrs addysg bellach prif ffrwd, mae cyfnod y cwrs prif ffrwd sy'n arwain at y cymhwyster yn debygol o fod yn berthnasol i beth yw cyfnod rhesymol. Wrth ystyried beth yw cyfnod rhesymol, mae'n **rhaid**[21] i'r awdurdod lleol ystyried a oes angen amser ychwanegol ar y person ifanc i gwblhau addysg neu hyfforddiant ôl-16 na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

[19] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[20] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.

12.28 Os yw'r person ifanc wedi dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant ôl-16 blaenorol, mae'n **rhaid**[22] i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r addysg neu'r hyfforddiant ôl-16 blaenorol wedi rhoi mynediad effeithiol i addysg ôl-16 i'r person ifanc, neu oherwydd amgylchiadau eithriadol iawn, bod y person ifanc wedi'i amddifadu o werth yr addysg neu'r hyfforddiant mewn gwirionedd.

12.29 Gall hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, mewn achos lle mae person ifanc wedi datblygu anghenion dysgu ychwanegol yn ddiweddar (yn dilyn damwain o bosibl) neu os yw ei anghenion dysgu ychwanegol wedi dwysau, ac o ganlyniad nid yw'n gallu defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn yr addysg neu'r hyfforddiant blaenorol, neu fod angen cwrs addysg neu hyfforddiant arno i ddysgu sgiliau er mwyn goresgyn neu leihau'r rhwystrau sy'n deillio o'i anghenion dysgu ychwanegol newydd. Hefyd, gall fod yn berthnasol mewn achos lle mae safon yr addysg neu'r hyfforddiant blaenorol yn is o lawer na'r safon ddisgwyliedig ar gyfer y person ifanc, ac na ellir honni yn wrthrychol bod yr addysg neu'r hyfforddiant wedi cynnig y ddarpariaeth ofynnol i ddiwallu anghenion y person ifanc.

12.30 Mewn achos o'r fath, wrth benderfynu anghenion rhesymol y person am addysg neu hyfforddiant, mae'n **rhaid**[23] i'r awdurdod lleol ystyried:

(a) cyfnod yr addysg neu'r hyfforddiant ôl-16, ac
(b) a oes angen amser ychwanegol ar y person ifanc i gwblhau ei addysg neu hyfforddiant na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

## Penderfynu pa ddarpariaeth sydd ar gael o bosibl i ddiwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant

12.31 Os yw awdurdod lleol wedi nodi angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant, bydd angen iddo ystyried pa gyrsiau sydd ar gael y disgwylir iddynt baratoi'r person ifanc i gyflawni'r amcan dymunol mewn cyfnod amser rhesymol.

12.32 Dylai'r awdurdod lleol ystyried addasrwydd y cyrsiau posibl sydd ar gael, yn lleol ac yn bellach i ffwrdd. Gallent drafod â SAB a allai'r person ifanc ddilyn cwrs yno, a pha ddarpariaeth dysgu ychwanegol sydd ei hangen o bosibl i alluogi'r person i ddilyn cwrs. Efallai y bydd angen ystyried lleoliad ar gyfer person ifanc, gan gynnwys lleoliad preswyl, mewn ysgol annibynnol, mewn sefydliad addysgol annibynnol yn Lloegr, mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, neu weithiau mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr.

12.33 Mae sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau dros oedran ysgol gorfodol, ac mae'n cael ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath ar gyfer unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

[22] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[23] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.

yn cynnwys SAB, ysgolion annibynnol yng Nghymru, sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr, neu Academïau 16-19 oed[24].

12.34 Bydd angen i'r awdurdod lleol ddeall sut y disgwylir i unrhyw gwrs baratoi'r person ifanc i gyflawni ei amcanion dymunol mewn cyfnod amser rhesymol.

12.35 Hefyd, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a oes unrhyw leoliad posibl yn addas i'r person ifanc. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau cydsyniad y person ifanc ar gyfer lleoliad arfaethedig neu ar gyfer unrhyw awdurdodiadau sydd eu hangen o bosibl. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried a yw'r lleoliad yn debygol o barhau i fod yn addas i'r person ifanc gydol y cyfnod disgwyliedig. Bydd angen ystyried a yw unrhyw leoliad preswyl posibl yn cydymffurfio â safonau rheoleiddio ar gyfer sefydliadau preswyl.

12.36 Wrth ystyried anghenion rhesymol y person ifanc am addysg a hyfforddiant ac ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol, gall yr awdurdod lleol ystyried a yw dewisiadau amgen yn gydnaws ag osgoi gwariant cyhoeddus afresymol.

**Penderfynu a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant**

12.37 Gall nodi lleoliadau posibl ar gyfer y person ifanc helpu i lywio'r broses o benderfynu a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol. Ni fydd angen o reidrwydd i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol dim ond oherwydd bod ganddo anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. Ond mae angen gwneud hyn mewn achos lle na fyddai anghenion rhesymol y person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu diwallu heb i'r awdurdod lleol gynnal cynllun datblygu unigol, yn enwedig yn yr achosion canlynol[25]:

(i) mae'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn SAB yng Nghymru yn dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant, ac na fyddai'n rhesymol i'r ysgol neu'r SAB sicrhau'r holl ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc;
(ii) ni ellir diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall neu ddarpariaeth bwyd a llety[26] (ac mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau'r ddarpariaeth honno yn unol â'r cyfyngiadau ar ei swyddogaethau yn y Ddeddf)[27]; neu

[24] Adran 56(6) o'r Ddeddf.
[25] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[26] Yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 14(6) a (7) o'r Ddeddf.
[27] Sef y rhai a nodir yn adrannau 55 (lleoliadau mewn ysgolion annibynnol), 56(3) (lleoliadau mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol) a 59 (lleoliadau y tu allan i Gymru a Lloegr) o'r Ddeddf, ac os nad yw'r ysgol yn ysgol a gynhelir, bod y person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r sefydliad yn cydsynio (adran 14(8)(a) o'r Ddeddf).

(iii) os yw'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr/mewn Academi, neu ei fod am fod yn ddisgybl o'r fath, neu os yw'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn SAB yn Lloegr, neu ei fod am ymrestru mewn sefydliad o'r fath, er mwyn dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant, nid fyddai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc yn cael ei rhoi ar waith oni bai bod yr awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc.

12.38 Trafodir y materion hyn isod.

(i) _Addysg neu hyfforddiant a ddarperir mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu mewn SAU yng Nghymru_

12.39 Gall awdurdod lleol nodi bod modd diwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg neu hyfforddiant mewn SAB yng Nghymru neu ysgol a gynhelir yng Nghymru. Y cwestiwn wedyn yw a fyddai'n rhesymol i'r SAB neu'r ysgol a gynhelir sicrhau'r holl ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion y person ifanc. Os yw'n rhesymol iddynt wneud hynny, byddai angen i'r SAB neu'r ysgol a gynhelir gyflawni'r dyletswyddau[28] i benderfynu, llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar ôl i'r person ifanc gofrestru yn yr ysgol neu ymrestru yn y SAB (gweler Penodau 9 a 10). Fodd bynnag, os penderfynir na fyddai'n rhesymol i'r SAB neu'r ysgol a gynhelir sicrhau'r holl ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc, yr awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol am lunio a chynnal y cynllun.

12.40 Os byddai'n well gan berson ifanc mynychu ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ond bod yr awdurdod lleol wedi'i fodloni bod modd diwallu ei anghenion mewn ysgol a gynhelir neu SAB, nid oes angen i'r awdurdod lleol sicrhau lle mewn ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol. Fodd bynnag, mewn sefyllfa o'r fath, **dylai'r** awdurdod lleol sicrhau ei fod yn egluro i'r person ifanc sut y gellid diwallu ei anghenion heb sicrhau lle iddo mewn ysgol annibynnol neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

(ii) _Sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall neu ddarpariaeth bwyd a llety_

12.41 Bydd y canlynol yn berthnasol os yw awdurdod lleol yn ystyried a oes angen iddo sicrhau lle i berson ifanc mewn sefydliad penodol er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (mae'n bosibl y bydd ystyriaethau eraill yn berthnasol hefyd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau):

- mae'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen yn rhesymol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc dim ond ar gael mewn ysgol neu sefydliad addysgol annibynnol neu mewn sefydliad ôl-

[28] O dan adrannau 11 a 12 o'r Ddeddf.

16 arbennig annibynnol, neu nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gael yn gyffredinol ar gyfer pobl ifanc eraill mewn SAB neu ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, ac na fyddai modd rhesymol cyflwyno'r ddarpariaeth yn yr ysgolion neu'r SAB hynny;

- mae elfen hanfodol o addysg neu hyfforddiant y person ifanc ar gael mewn lleoliad preswyl yn unig;
- mae gan y person ifanc anghenion meddygol a/neu anghenion gofal cymdeithasol na ellir eu diwallu gan, neu ar y cyd â, darparwyr lleol mewn lleoliad addysg prif ffrwd, ac y byddai hynny'n atal y person ifanc rhag cael mynediad i'r addysg neu'r hyfforddiant sy'n addas i ddiwallu ei anghenion.

12.42 Mae lleoliadau mewn ysgolion a sefydliadau penodol yn amodol ar gyfyngiadau[29]. Ni all awdurdod lleol leoli plentyn neu berson ifanc yn y canlynol:

- ysgol annibynnol yng Nghymru neu sefydliad addysgol annibynnol yn Lloegr oni bai bod yr ysgol wedi'i chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru neu fod y sefydliad wedi'i gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr; ac (yn y naill achos neu'r llall) bod yr awdurdod lleol wedi'i fodloni bod yr ysgol neu'r sefydliad yn gallu cynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei disgrifio yng nghynllun datblygu unigol y person ifanc;
- sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oni bai ei fod wedi'i gynnwys yn y rhestr o'r cyfryw sefydliadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru[30] neu fod y rheoliadau yn rhagnodi eithriad perthnasol;
- sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr oni bai ei fod wedi'i drefnu i gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cael ei disgrifio yng nghynllun datblygu unigol y person ifanc.

12.43 Os nad yw'r sefydliad yn ysgol a gynhelir yng Nghymru, nid yw'r ddyletswydd i'w ddisgrifio yn y cynllun datblygu unigol yn berthnasol os nad yw'r person neu'r corff sy'n gyfrifol am dderbyniadau i'r sefydliad yn cydsynio[31].

12.44 Wrth benderfynu a oes angen sicrhau darpariaeth bwyd a llety er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried:

- a oes modd diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn darpariaeth ddydd yn lleol;
- a yw'r dystiolaeth yn dangos bod elfen hanfodol o addysg a hyfforddiant y person ifanc ar gael mewn lleoliad preswyl yn unig (er enghraifft, mae angen rhaglen gyson ar y person ifanc yn ystod ac ar ôl oriau ysgol/SAB

[29] Adran 14(8)(b) a'r cyfyngiadau yn adrannau 55, 56 a 59 o'r Ddeddf.
[30] Mae'r rhestr hon yn cael ei llunio a'i chynnal o dan adran 56(1) o'r Ddeddf, a'i chyhoeddi o dan adran 56(2).
[31] Adran 14(8)(a) o'r Ddeddf.

nad oes modd ei darparu gan leoliad addysg amhreswyl na'r rhai sy'n gofalu am berson ifanc, ar y cyd â chymorth gan asiantaethau eraill).

12.45 Cyn gwneud penderfyniad bod lleoliad preswyl yn briodol, bydd angen ystyried yr holl amgylchiadau, ac o ystyried y gall fod angen i'r person ifanc breswylio ar wahân i'w deulu, bydd y ddyletswydd i gynnwys a chefnogi pobl ifanc sy'n cael ei hegluro ym Mhennod 3 yn bwysig iawn.

12.46 Os penderfynir bod angen sicrhau lleoliad preswyl, bydd yr awdurdod lleol yn awyddus i sicrhau bod trefniadau cymorth priodol ar waith, fel trefniadau sy'n sicrhau bod y person ifanc yn gallu parhau i gysylltu â'i deulu.

12.47 Bydd yr awdurdod lleol yn awyddus i sicrhau bod unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen ochr yn ochr â darpariaeth addysg, darpariaeth ddysgu ychwanegol a bwyd a llety ar gael o'r dechrau. Gallai'r gwasanaethau hyn gynnwys:

- gofal iechyd;
- gofal personol;
- gofal cymdeithasol; a
- thrafnidiaeth.

12.48 Bydd gwaith amlasiantaeth a thrawsadrannol yn hynod bwysig yn y maes hwn. Yn benodol, gallai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ystyried trefniadau cyd ariannu priodol, a bydd awdurdodau lleol eisiau sicrhau eu bod yn defnyddio dull cydgysylltiedig yn fewnol o ariannu elfennau addysg a gofal cymdeithasol y lleoliad[32].

12.49 Os mai ysgol neu sefydliad y tu allan i ardal yr awdurdod lleol yw lleoliad preswyl person ifanc, bydd yr awdurdod lleol eisiau ystyried pa wybodaeth sydd angen ei darparu o bosibl i ddarparwyr gwasanaethau lleol sy'n gweithredu yn yr ardal honno.

12.50 Mewn achosion prin, gall fod yn briodol lleoli person ifanc y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arbenigol arno mewn sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, **ni ddylai'r**[33] awdurdod lleol wneud trefniadau i berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu sefydliad o'r fath oni bai bod y sefydliad wedi'i drefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu unigol y person ifanc.

(iii) _Addysg neu hyfforddiant a ddarperir mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr, mewn Academi neu mewn SAB yn Lloegr_

12.51 Yn achos person ifanc ag angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant sydd, neu sy'n mynd i fod, yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn Lloegr,

[32] Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf yn sylfaen i ddarpariaeth gofal cymdeithasol.
[33] Adran 59 o'r Ddeddf.

mewn Academi neu'n fyfyriwr wedi'i ymrestru mewn SAB yn Lloegr, ni fyddai angen i'r awdurdod lleol yng Nghymru lunio a chynnal cynllun datblygu unigol oni bai na fyddai'r sefydliad yn gallu darparu'r holl ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc. O dan y Ddeddf Plant a Theuluoedd[34] mae'n ofynnol i awdurdodau priodol y sefydliadau hyn ymdrechu o'u gorau i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion addysgol arbennig eu disgyblion neu fyfyrwyr yn cael ei darparu.

## _Dyletswydd awdurdod lleol i lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru_

12.52 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod angen iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant, mae'n **rhaid**[35] iddo lunio cynllun datblygu unigol ar gyfer y person ifanc hwnnw oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio iddo lunio'r cynllun. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gallu diwallu anghenion rhesymol person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol heb sicrhau lle iddo mewn sefydliad penodol a/neu ddarpariaeth bwyd a llety, mae'n **rhaid**[36] iddo gynnwys disgrifiad o hyn yn Adran G o'r cynllun datblygu unigol (gweler Pennod 13).

12.53 Mae'n **rhaid**[37] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg i'r person ifanc, ac os yw'n penderfynu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, mae'n **rhaid**[38] iddo bennu yn y cynllun y dylai gael ei ddarparu yn Gymraeg.

12.54 Yn dilyn atgyfeiriad i gorff y GIG, os yw'r corff yn nodi bod triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol yn debygol o fod o fudd o ran ymdrin ag anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc, mae'n **rhaid**[39] i'r awdurdod lleol ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y cynllun datblygu unigol, gan bennu bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i gael ei sicrhau gan gorff y GIG. Hefyd, mae'n **rhaid**[40] i'r awdurdod lleol bennu yn y cynllun datblygu unigol y dylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd i'w sicrhau gan gorff y GIG gael ei darparu yn Gymraeg os yw corff y GIG wedi penderfynu hynny (gweler Pennod 15 ar gyfer rhagor o wybodaeth am hyn).

[34] Adran 66 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014
[35] Adran 14(1) i (3) o'r Ddeddf.
[36] Adrannau 14(6) a (7) o'r Ddeddf. Os yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol, **ni chaiff** awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i lunio a/neu gynnal cynllun datblygu unigol – gweler adran 14(9) o'r Ddeddf.
[37] Adran 14(5) o'r Ddeddf.
[38] Adran 14(5) o'r Ddeddf.
[39] Adran 21(3).
[40] Adran 21(4).

12.55 Mae gan awdurdod lleol sy'n llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc swyddogaethau yn ymwneud â ble mae'r person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant a darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd yr awdurdod lleol eisoes wedi ystyried y mater hwn wrth benderfynu a oedd angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant. Os yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol lunio'r cynllun ar sail yr amod ym mharagraff 12.37(ii), bydd angen i'r awdurdod lleol ddisgrifio'r lle yn yr ysgol benodol neu'r sefydliad arall a/neu'r ddarpariaeth bwyd a llety yn y cynllun datblygu unigol. Mae pwerau a chyfyngiadau yn ymwneud â lleoliadau yn cael eu trafod ym mharagraffau 12.42 i 12.51.

12.56 Cyn cwblhau'r cynllun datblygu unigol, **dylai'r** awdurdod lleol roi cyfle i'r person ifanc fynegi barn ar gopi drafft ohono, a **dylai** annog y person ifanc i fynegi unrhyw bryderon cyn gynted ag y bo modd. **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt yn ôl y gofyn, gan gynnwys o bosibl diweddaru copi drafft y cynllun datblygu unigol, neu egluro penderfyniadau neu faterion eraill.

12.57 Mae'n **rhaid**[41] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon ac o fewn 12 wythnos i'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad ynglŷn ag a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol:

(a) gwneud y penderfyniad ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol;
(b) gwneud y penderfyniad ynglŷn ag a oes angen i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol;
(c) paratoi'r cynllun datblygu unigol; a
(d) rhoi copi o'r cynllun datblygu unigol i'r person ifanc.

12.58 Nid yw'r gofyniad i wneud y pethau hyn o fewn cyfnod 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[42].

12.59 Hefyd, mae'n **rhaid**[43] i'r awdurdod lleol roi'r canlynol i'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r sustem anghenion dysgu ychwanegol[44]. Gellid gwneud hyn trwy ddarparu taflen awdurdod lleol yn ymwneud â'r system anghenion dysgu ychwanegol, neu ddarparu cyfeiriad tudalennau gwe perthnasol yr awdurdod lleol a rhoi manylion ar sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor;

[41] Mae'r gofynion i wneud y penderfyniadau hyn, llunio'r cynllun datblygu unigol a darparu copi ohono wedi'u cynnwys yn adrannau 13, 14 a 22 o'r Ddeddf. Mae'r amserlen ofynnol wedi'i phennu gan y Cod.
[42] Gweler Pennod 1 am ragor o wybodaeth am sut i ddehongli amserlenni'r Cod hwn.
[43] Gofyniad y Cod.
[44] Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud y trefniadau hyn o dan adran 9 o'r Ddeddf.

(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[45] a'i wasanaethau eirioli annibynnol[46]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynglŷn ag elfennau penodol o'r cynllun datblygu unigol.

## *Penderfyniad awdurdod lleol nad oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru*

12.60 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol er mwyn diwallu anghenion rhesymol person ifanc am addysg a hyfforddiant, mae'n **rhaid**[47] iddo hysbysu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. Mae'n **rhaid**[48] i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad hwnnw (gan gynnwys y penderfyniad blaenorol bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol) a rhoi gwybod i'r person ifanc yn brydlon ac o fewn 12 wythnos i'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad ynglŷn ag a oes gan y person anghenion dysgu ychwanegol ai peidio.

12.61 Nid yw'r gofyniad i wneud y penderfyniad a chyflwyno'r hysbysiad o fewn cyfnod 12 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[49].

12.62 Yn ogystal â nodi'r penderfyniad a'r rheswm/rhesymau drosto, mae'n **rhaid**[50] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r sustem anghenion dysgu ychwanegol.[51] Gellid gwneud hyn trwy ddarparu taflen awdurdod lleol yn ymwneud â'r system anghenion dysgu ychwanegol, neu ddarparu cyfeiriad tudalennau gwe perthnasol yr awdurdod lleol a rhoi manylion ar sut i gael gafael ar ragor o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[52], a'i wasanaethau eirioli annibynnol[53]; a

[45] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[46] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[47] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[48] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[49] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf Gweler Pennod 1 am ragor o wybodaeth am sut i ddehongli amserlenni'r Cod.
[50] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[51] Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud y trefniadau hyn o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[52] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[53] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

12.63 Gallai fod yn ddefnyddiol cynnig cyfle i'r person ifanc drafod hyn ymhellach. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio'r person ifanc i ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill ynglŷn â chyrsiau addysg bellach neu gyngor ar yrfaoedd.

12.64 Gellir apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol nad oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol[54] – gweler Pennod 26.

## _Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal cynllun datblygu unigol a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir ynddo_

12.65 Os yw awdurdod lleol wedi paratoi cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn SAB, mae'n **rhaid**[55] iddo gynnal y cynllun datblygu unigol oni bai nad yw'r person ifanc yn cydsynio i hynny.

12.66 Gall dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal cynllun datblygu unigol ddod i ben am resymau eraill, sydd wedi'u nodi ym Mhennod 21 (peidio â chynnal cynllun datblygu unigol) neu gall y ddyletswydd drosglwyddo i gorff arall (gweler Pennod 20 ar drosglwyddo cynllun datblygu unigol).

12.67 Os yw awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol, mae'n **rhaid**[56] iddo sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ac unrhyw ddarpariaeth arall (h.y. lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall neu ddarpariaeth bwyd a llety i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol) a ddisgrifir yn y cynllun. Nid yw hyn yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n driniaeth berthnasol neu'n wasanaeth perthnasol a nodir gan gorff y GIG. Mewn achos o'r fath, mae'n **rhaid**[57] i gorff y GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Os yw'r cynllun datblygu unigol yn pennu y dylai math penodol o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei ddarparu yn Gymraeg, mae'n **rhaid**[58] i'r awdurdod lleol (neu gorff y GIG lle bo hynny'n berthnasol) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg.

12.68 **Ni chaiff**[59] awdurdod lleol godi tâl ar y person ifanc am unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y cynllun datblygu unigol, nac am unrhyw beth y mae'n ei sicrhau ar gyfer y person ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

[54] Adran 70 o'r Ddeddf.
[55] Adran 14(2) a (3) o'r Ddeddf.
[56] Adran 14(10)(a) a (b) o'r Ddeddf.
[57] Adrannau 20(5) a 21(5) o'r Ddeddf.
[58] Adrannau 14(10)(c), 20(5)(c) a 21(5)(b) o'r Ddeddf.
[59] Adran 49(1) o'r Ddeddf.

12.69 Os yw person ifanc â chynllun datblygu unigol a gynhelir gan awdurdod lleol yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, **gall**[60] yr awdurdod lleol gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i gynnal y cynllun datblygu unigol. Fodd bynnag, **ni chaiff**[61] yr awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol i gynnal cynllun datblygu unigol os yw'n cynnwys darpariaeth arall y mae angen i'r awdurdod lleol ei sicrhau (h.y. lle mewn ysgol neu sefydliad penodol neu ddarpariaeth bwyd a llety).

12.70 Os yw'r person ifanc yn ymrestru'n fyfyriwr mewn SAB, **gall**[62] yr awdurdod lleol ofyn i'r SAB dderbyn cyfrifoldeb am gynnal y cynllun datblygu unigol (gweler Pennod 20 ar drosglwyddiadau).

## *Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu cynllun datblygu unigol*

12.71 Mae gan awdurdod lleol ddyletswyddau[63] i adolygu cynllun datblygu unigol (gweler Pennod 16 am ragor o wybodaeth.)

[60] Adran 14(4) o'r Ddeddf.
[61] Adran 14(9) o'r Ddeddf.
[62] Adran 36(2) o'r Ddeddf.
[63] Adran 23 o'r Ddeddf.

# Pennod 13: Cynnwys CDU

## _Cyflwyniad_

13.1. Mae CDU[1] yn ddogfen sy'n cynnwys disgrifiad o'r ADY sy'n rhwystro plentyn neu berson ifanc rhag cyrraedd ei botensial addysgol, y DDdY sydd ei hangen i oresgyn neu liniaru'r rhwystr hwnnw, ac unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu sydd wedi ei awdurdodi gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Mae'n "gynllun" - hynny yw, mae'n cynllunio'r camau gweithredu sy'n rhaid eu cymryd, sef y DDdY sy'n rhaid ei sicrhau ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Yn ogystal, mae'n gofnod sydd i'w ddefnyddio i fonitro ac adolygu cynnydd plentyn neu berson ifanc. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal CDU fod yn ymwybodol nad oes unrhyw werth i CDU oni bai ei fod yn arwain at ddarpariaeth lwyddiannus sy'n diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

13.2. Bwriedir i CDU fod yn ddogfen hyblyg. Er enghraifft, mae CDU plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion llai dwys neu gymhleth yn debygol o fod yn symlach (ac felly'n fyrrach) na CDU plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion mwy dwys neu gymhleth, neu anghenion llai cyffredin. Mae plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dwys neu gymhleth neu anghenion llai cyffredin yn debygol o fod angen mewnbwn a chyngor arbenigol, ac mae ei CDU yn debygol o gynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau a nodi amrywiaeth lawer ehangach o ymyriadau. Serch hynny, **dylai'r** wybodaeth gael ei hysgrifennu mewn iaith glir nad yw'n cynnwys jargon er mwyn ceisio sicrhau bod pawb sy'n debygol o ddarllen y CDU gan gynnwys, lle bo modd, y plentyn neu'r person ifanc, yn gallu ei deall.

13.3. **Dylid** sicrhau bod cynnwys CDU:

- yn cael ei greu gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio i adnabod ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny;
- yn cael ei greu drwy gydweithio â'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc;
- yn cael ei ddatblygu ar sail hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion y plentyn neu'r person ifanc;
- yn cael ei ysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cynllun y plentyn neu'r person ifanc ydyw, a'i fod yn llawer mwy na rhan o broses weinyddol yn unig. Dylai'r arddull, a'r iaith os yn bosibl, adlewyrchu oedran y plentyn neu'r person ifanc, gan wahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i ddweud a'r hyn nad yw wedi'i ddweud;
- yn cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg a/neu Saesneg clir, gan osgoi defnyddio jargon ac egluro perthnasedd unrhyw derminoleg dechnegol sydd angen ei chynnwys; ac
- yn cael ei gadw dan ystyriaeth er mwyn penderfynu a ddylid ei adolygu'n gynharach na'r disgwyl (gweler Pennod 16 ar adolygiadau).

[1] Mae'r diffiniad yn Adran 10 o'r Ddeddf.

13.4. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol penodol ac yn cadw at yr un strwythur. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb cyffredinol o ran sut mae dysgwyr yn cael eu trin, a bydd yn sylfaen i gydlyniant y system ADY yn ei chyfanrwydd a chludadwyedd cynlluniau unigol. Mae'r Bennod hon yn disgrifio'r elfennau hynny a'r ffurflen safonol - dyma'r drefn a'r strwythur ar gyfer cyflwyno'r elfennau hynny.

13.5. Lle'n briodol, gellir cynnwys y CDU mewn cynlluniau eraill a gellir cynnwys cynlluniau eraill yn y CDU, fel yr amlinellir ym Mhennod 16.

## _Ffurflen orfodol ar gyfer CDU_

13.6. **Rhaid**[2] i awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach sy'n llunio neu'n diwygio CDU ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad A - ac eithrio lle mae'r CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal (yn yr achos hwnnw, **rhaid**[3] i’r awdurdod lleol ddefnyddio’r templed yn Atodiad B – gweler Pennod 14). I gydymffurfio â'r gofyniad hwn, **rhaid**[4] i'r CDU gynnwys y penawdau a nodir yn y ffurflen safonol ar gyfer y rhannau, yr adrannau a'r is-adrannau a **rhaid**[5] defnyddio'r rhain yn yr un drefn ag y maent yn ymddangos yn y ffurflen safonol.

13.7. **Caniateir** addasu arddull y ffurflen yn ôl dewisiadau lleol (drwy gynnwys logo'r awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach) neu ddewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc (drwy ddefnyddio ffont mwy o faint neu ffont gwahanol, osgoi defnyddio lliwiau penodol etc), a gellir hefyd addasu'r modd y caiff yr wybodaeth ei mewnosod i'r adrannau a'r is-adrannau hynny (er enghraifft, os defnyddir proffil un tudalen ar gyfer adran C - gweler paragraffau 13.19 i 13.26 isod).

13.8. **Caiff** y corff sy'n llunio neu'n diwygio'r CDU gynnwys adrannau pellach ar ôl adran 3C neu'r atodiadau, os yw'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny (er enghraifft, os oes angen cynnwys gwybodaeth am drefniadau cludo neu wybodaeth arall nad yw'n orfodol ei rhoi yn y CDU - gweler paragraffau 13.71 - 13.76 ar ddiwedd y bennod hon).

13.9. Er hwylustod, mae'r ffurflen yn Atodiad A yn gwahaniaethu'r elfennau hynny o'r CDU y gellir apelio yn eu herbyn i Dribiwnlys Addysg Cymru drwy eu marcio mewn print coch a thrwm a'u tanlinellu. Nid oes angen marcio'r wybodaeth fel hyn, ond **dylai'r** adrannau hyn gael eu marcio mewn rhyw ffordd er mwyn ei gwneud yn glir i'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc pa adrannau y mae hawl apelio yn eu herbyn.

---

[2] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[3] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[4] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[5] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

## *Cynnwys gorfodol mewn CDU*

13.10. **Rhaid**[6] i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n llunio neu'n diwygio CDU roi'r wybodaeth berthnasol o dan benawdau'r adrannau a'r is-adrannau cyfatebol (1A i 3C) yn y CDU.

13.11. Mae'r penawdau hynny wedi'u nodi isod (wedi'u tanlinellu) yn y drefn y maent yn ymddangos yn y CDU.

## *Rhan 1.*

13.12. **Dylid** cadw'r manylion yn adrannau 1A a 1B yn gyfoes. Gellir gwneud newidiadau i'r adrannau hyn heb gynnal adolygiad ac nid oes angen rhoi copi arall o'r CDU llawn i'r plentyn, ei riant, neu'r person ifanc ar ôl gwneud y newidiadau (ond gellir darparu copi o'r wybodaeth sydd wedi'i diweddaru, fel y bo'n briodol).

### Adran 1A: Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc a manylion cyswllt

13.13. Diben cynnwys gwybodaeth fywgraffyddol yw sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyson ar gael i'r holl asiantaethau sy'n cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc.

13.14. Mae adran 1A y CDU yn cynnwys yr is-adrannau canlynol:

1A.1) Enw llawn. Hynny yw, enw'r plentyn neu'r person ifanc y mae'r CDU wedi'i lunio ar ei gyfer.
1A.2) Enw a ffefrir. Dyma'r enw y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei ffafrio.
1A.3) Dyddiad geni. Dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc.
1A.4) Rhywedd. Rhywedd y plentyn neu'r person ifanc.
1A.5) Lleoliad(au) addysgol presennol. Enw unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall (ynghyd â'r cyfeiriad neu unrhyw fanylion eraill sydd eu hangen i'w adnabod) a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc ar hyn o bryd. Os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynychu lleoliad addysgol ar hyn o bryd, dylid nodi bod yr is-adran hon yn "amherthnasol".
1A.6) Cyfeiriad cartref a rhif ffôn. Cyfeiriad a rhif ffôn y plentyn neu'r person ifanc.
1A.7) Enwau'r rhieni. Ar gyfer plentyn, dylid nodi enwau ei rieni yma. Ar gyfer person ifanc, dylid ond nodi manylion y rhieni yma ac yn 1A.8 ac 1A.9 os yw'r person ifanc yn cydsynio i'r corff sy'n cynnal y CDU rannu gwybodaeth am y cynllun a'i ADY â nhw. Os yw'n cydsynio, dylid nodi yn 1A.10 yr wybodaeth y mae'r person ifanc yn fodlon ei rhannu â'i rieni.
1A.8) Cyfeiriad e-bost (dim ond os yw'r plentyn/rhiant/person ifanc yn fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau'n electronig). Os felly, dylid nodi yn

[6] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

1A.8 y cyfeiriad e-bost y mae'r plentyn/rhiant/person ifanc wedi'i ddarparu at y diben hwn.

1A.9) Cyfeiriad(au) y rhieni a rhif(au) ffôn (os yn wahanol). Dylid nodi hyn os yw'n wahanol i fanylion y plentyn. Os yw'r CDU ar gyfer person ifanc, gweler y nodiadau ar is-adran 1A.7.

1A.10) Gofynion a dewisiadau cyfathrebu. Gofynion a dewisiadau'r plentyn, ei rieni, neu'r person ifanc.

13.15. **Dylid** cynnwys y canlynol, lle bo'n berthnasol, yn Adran 1A.10:

- iaith ar gyfer cyfathrebu - gan gynnwys, er enghraifft, y Gymraeg a iaith arwyddion Prydain. Os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, **dylid** ystyried a oes angen dehonglwr ar y plentyn neu'r person ifanc er mwyn cymryd rhan yn y broses o lunio'r CDU.
- dull cyfathrebu - **dylid** ystyried a oes angen i gyfathrebu ar lafar, yn ysgrifenedig, drwy arwyddion, yn weledol a/neu'n electronig, ynghyd ag unrhyw ofynion penodol megis cymhorthion gweledol, maint ffont neu Braille ac a oes angen unrhyw offer arbenigol megis offer TG arbenigol. Mae'n bosibl y bydd angen dulliau cyfathrebu mwy anffurfiol ar rai plant neu bobl ifanc er mwyn eu helpu i gymryd rhan. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio chwarae neu gelf.
- dull ymgysylltu - gan gynnwys, er enghraifft, a fyddai'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno cwrdd yn unigol, mewn grwp bach a/neu gyda grwpiau amlasiantaeth mawr. **Dylid** hefyd ystyried gofynion ymarferol megis amser a lleoliad unrhyw gyfarfodydd, unrhyw ofynion mynediad megis mynediad hawdd, dolen sain a/neu math penodol o olau.

1A.11) Ar gyfer person ifanc, manylion ei gydsyniad i lunio/cynnal CDU

13.16. Os yw'r CDU ar gyfer person ifanc, dylid nodi yn adran 1A.11 manylion ei gydsyniad i lunio neu gynnal CDU (gan gynnwys pryd y rhoddodd y cydsyniad).

1A.12) Materion galluedd

13.17. Mae adran 1A.12 yn cwmpasu'r canlynol, lle bo'n berthnasol:

- galluedd y plentyn (y mae'r CDU yn cael ei lunio ar ei gyfer) i ddeall yr wybodaeth neu'r dogfennau y mae'n rhaid eu rhoi iddo a beth y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau sydd ganddo o dan y Ddeddf; a manylion unrhyw gyfaill achos a benodwyd ar gyfer y plentyn;
- unrhyw ddiffyg galluedd sydd gan rieni'r plentyn;
- unrhyw ddiffyg galluedd sydd gan y person ifanc y mae'r CDU yn cael ei lunio ar ei gyfer.

**Adran 1B: Cyfrifoldeb am y CDU**

13.18. Mae adran 1B o'r CDU yn cynnwys yr is-adrannau canlynol:

1B.1) Y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal y CDU. I gofnodi'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU. Gallai'r adran hon gynnwys manylion cyswllt perthnasol, er enghraifft y person a oedd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o lunio'r CDU, CADY yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, neu unrhyw berson arall fel y bo'n briodol.
1B.2) Y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r CDU. Dyma'r dyddiad y mae'r 'cyfnod adolygu' yn dod i ben. Gweler Pennod 16 am ragor o wybodaeth ynghylch adolygiadau.
1B.3) Y dyddiad adolygu arfaethedig. Dyma'r dyddiad arfaethedig ar gyfer cynnal yr adolygiad nesaf o'r CDU, er na fydd yr adolygiad nesaf o reidrwydd yn dechrau bryd hynny. Gweler Pennod 16 i gael gwybod mwy am yr adolygiadau.

**Adran 1C: Proffil un dudalen**

13.19. Mae adran 1C y CDU yn crynhoi safbwyntiau, dymuniadau a theimladau’r plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc yn bennaf mewn perthynas â’r ADY, y DDdY ac addysg a hyfforddiant.

13.20. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am chwarae, iechyd, annibyniaeth, cyfathrebu, y bobl y mae’r plentyn neu’r person ifanc yn eu hystyried yn bwysig iddo (teulu, ffrindiau neu staff sy’n derbyn tâl), cyfeillgarwch, dyheadau ar gyfer, er enghraifft, addysg a gyrfa, byw’n annibynnol a chyfranogiad cymunedol, neu unrhyw beth arall sy’n bwysig i’r plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc.

13.21. **Dylai’r** CDU nodi’n glir a yw’r plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc yn cael ei ddyfynnu’n uniongyrchol, naill ai ar sail rhywbeth y mae wedi’i ddweud neu ei ysgrifennu.

13.22. Mae’r cyfryw broffiliau yn darparu gwybodaeth allweddol am blentyn neu berson ifanc mewn fformat y mae modd ei rannu a’i ddeall yn gyflym. Maent yn disgrifio cymeriad, doniau a thalentau plentyn neu berson ifanc, yr hyn sy’n bwysig iddo a’r ffordd orau o’i gynorthwyo.

13.23. Caiff proffiliau un dudalen eu datblygu a’u diwygio drwy gynnwys y plentyn neu’r person ifanc mewn ffordd weithredol er mwyn sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed. Mae’r proffiliau’n creu darlun cadarnhaol a chynhwysfawr o ddiddordebau’r plentyn neu’r person ifanc, gan amlinellu’r hyn sy’n bwysig iddo a’r hyn sy’n bwysig ar ei gyfer. Gall rhieni plant o oedran ysgol gorfodol helpu i ddatblygu'r proffiliau un dudalen, a bydd rhieni plant ifanc iawn yn darparu gwybodaeth am ddiddordebau ac anghenion cymorth y plentyn.

13.24. Byddai proffil un dudalen da yn cynnwys:

- beth mae pobl eraill yn ei barchu, ei edmygu a’i werthfawrogi ynghylch y plentyn neu’r person ifanc;

- beth sy’n bwysig i’r plentyn neu’r person ifanc o’i safbwynt ei hun; a
- beth sy’n bwysig i’r plentyn neu’r person ifanc o safbwynt gwrthrychol.

13.25. Gall fod yn ddefnyddiol trefnu’r wybodaeth sy’n cael ei chasglu o dan y penawdau canlynol:

- Beth sy’n bwysig i’r dysgwr;
- Beth sy’n bwysig ar gyfer y dysgwr;
- Beth sy’n gweithio ac angen ei ddatblygu;
- Beth nad yw’n gweithio ac angen ei newid.

13.26. Mae mwy nag un ffordd o ddatblygu a chyflwyno proffil un dudalen, a dylai’r arddull a’r iaith adlewyrchu cymeriad unigol y plentyn neu’r person ifanc. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y proffil yn gweithio’n effeithiol, mae’n bwysig bod popeth yn cael ei nodi’n gywir, yn glir ac mewn ffordd sy’n hawdd ei ddarllen. Dylai’r proffil ganolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol a bod yn gryno ac yn benodol, ond mae angen iddo gynnwys digon o fanylion fel bod unrhyw un yn gallu defnyddio’r wybodaeth ar unwaith.

## *Rhan 2.*

### Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu’r person ifanc

13.27. **Dylai’r** disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc fod mor glir a chynhwysfawr â phosibl a chynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl am effaith yr angen ar ddysgu’r plentyn neu’r person ifanc. Os oes diagnosis perthnasol wedi’i wneud, **dylid** ei gynnwys fel rhan o’r disgrifiad. Er mai'r diffiniad o ADY yw bod yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am DDdY, yr anhawster dysgu neu'r anabledd y dylid ei nodi yn yr adran hon gan bydd y DDdY yn cael ei disgrifio yn yr adran nesaf. Dylai'r rheini sy’n gyfrifol am ddrafftio’r CDU sicrhau nad ydynt yn camgymryd y disgrifiad o ADY am y DDdY sydd ei hangen i ddiwallu’r anghenion hynny. Mae’n bosibl y bydd y disgrifiad o ADY yn datblygu wrth wneud atgyfeiriadau a derbyn cyngor/asesiadau.

13.28. Gallai’r adran hon gynnwys y rhesymau dros benderfynu bod gan y plentyn neu’r person ifanc ADY, a **dylid** cynnwys hyn os oes rhesymau penodol dros benderfyniad na fyddai'n amlwg o bosibl i rywun sy’n ystyried yr achos yn y dyfodol, neu os oedd anghytuno ynghylch yr ADY neu’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu bod plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc wedi anghytuno â’r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywun arall. Gellid egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu ystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.

**Adran 2B: Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc (DDdY)**

13.29. Mae adran 2B yn cynnwys yr is-adrannau canlynol ar gyfer pob elfen o DDdY y plentyn neu'r person ifanc. Os oes elfennau gwahanol i'r DDdY, **rhaid**[7] darparu gwybodaeth ym mhob un o'r is-adrannau canlynol ar gyfer pob elfen o'r ddarpariaeth:

2B.1) Y canlyniad a fwriedir. Cofnod o'r canlyniad a fwriedir yn sgil cyflwyno'r DDdY a ddisgrifir yn y CDU

13.30. **Dylai'r** canlyniadau a fwriedir ganolbwyntio ar alluogi plant a phobl ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, boed yn gyflogaeth neu'n addysg bellach neu uwch, byw'n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol. Felly, mae'n hanfodol ystyried beth sy'n bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc a beth y mae am ei gyflawni. Hefyd, gall CDUau gynnwys canlyniadau â ffocws ehangach, fel cydberthnasau cymdeithasol cadarnhaol a chryfder a sefydlogrwydd emosiynol. I rai plant a phobl ifanc, gall canlyniad a fwriedir ymwneud â lleihau effaith unrhyw amhariaeth ar eu dysgu.

13.31. **Dylid** nodi'r holl ganlyniadau a fwriedir yn y CDU mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl mesur a ydynt wedi'u cyflawni'n llwyddiannus ai peidio, a dylent fod yn ymarferol ac yn heriol. Dylid gwneud hyn drwy sicrhau bod y canlyniadau'n rhai "CAMPUS" (Credadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol).

13.32. Ceir canllawiau ar sut i ddatblygu canlyniadau, ynghyd ag enghreifftiau, yn nogfen Llywodraeth Cymru, Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru[8].

13.33. I nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniad(au) a fwriedir, mae'n bosibl y bydd angen pennu targedau neu gerrig milltir interim a monitro effaith y DDdY ar gynnydd y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys proses dracio barhaus neu unrhyw asesiad a gynhelir yn rheolaidd yn y lleoliad addysgol. Gall unrhyw bryderon a godir o ganlyniad i'r gwaith monitro hwn arwain at adolygiad o'r CDU yn ei gyfanrwydd (gweler Pennod 16).

2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno. Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno er mwyn cyflawni'r canlyniad a fwriedir.

13.34. **Dylai'r** adran hon gynnwys, lle bo'n berthnasol, gwybodaeth am ba mor aml y bydd y DDdY yn cael ei chyflwyno (er enghraifft, a fydd yn cael ei chyflwyno bob dydd, ar y penwythnos, yn ystod y penwythnosau, ar ddiwrnodau ysgol yn unig neu unwaith y tymor, etc).

[7] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[8] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150909-reviews-toolkit-cy.pdf

13.35. Lle bo'n berthnasol, **rhaid**[9] i adran 2B.2 o'r CDU gynnwys gwybodaeth am unrhyw ddatgymhwyso neu addasiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol[10] sy'n angenrheidiol i ddiwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc. **Dylai** hyn gynnwys gwybodaeth am sut y bydd y DDdY a fydd yn cael ei chyflwyno tra bod y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael ei ddatgymhwyso neu ei addasu yn cyfrannu at gynnal cwricwlwm eang a chytbwys.

13.36. Gallai'r DDdY a gofnodir gynnwys ystod o weithgareddau neu wahanol fathau o gymorth, gan gynnwys:

- gweithiwr proffesiynol yn darparu strategaeth neu hyfforddiant a fydd yn cael ei roi ar waith gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc o ddydd i ddydd; neu
- arweiniad neu gymorth a ddarperir gan y lleoliad addysgol neu eraill ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

13.37. Gall y DDdY sy'n diwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc orau fod yn wahanol gan ddibynnu ar y math o sefydliad y mae'n ei fynychu. Er enghraifft, gall darpariaeth ysgol arbennig fod yn wahanol i ddarpariaeth ysgol brif ffrwd gan fod ysgol arbennig yn cael ei threfnu'n wahanol.

13.38. Bydd yr wybodaeth a gofnodir am y DDdY yn fwy defnyddiol os yw'n cael ei chyflwyno mewn ffordd glir. Dylai'r wybodaeth fod yn fanwl, yn benodol ac yn fesuradwy. Er enghraifft, gellir disgrifio'r tasgau neu'r camau gweithredu penodol y bwriedir ymgymryd â nhw; a gellir hefyd nodi'r hyfforddiant neu'r cymwysterau gofynnol ar gyfer unrhyw aelodau staff. Ni fydd datgan y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn unig yn ddigon clir; mae'n bwysig disgrifio'r tasgau y bydd unrhyw staff yn eu cyflawni neu'n eu hwyluso, beth fydd eu cyfrifoldebau ac, os oes angen, pa gymwysterau neu hyfforddiant fydd yn ofynnol.

13.39. Mae gan y corff sy'n cynnal y CDU ddyletswyddau'n ymwneud â sicrhau'r DDdY a nodir ynddo[11]. Lle bydd eraill yn cyflwyno a/neu ariannu'r ddarpariaeth, efallai y bydd angen i'r corff wirio'r materion hyn â nhw er mwyn gallu disgrifio'r ddarpariaeth yn ddigon manwl a'i sicrhau. Wedyn, gall manylion y CDU adlewyrchu hyn.

2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg

13.40. Mae'n ddyletswydd ar y corff sy'n llunio, cynnal neu ailystyried CDU i ystyried a ddylid cyflwyno DDdY yn Gymraeg ac, os yw'n penderfynu y dylid gwneud hynny, **rhaid**[12] nodi hyn yn y CDU. Wedyn, mae'n ddyletswydd ar y corff sy'n

9 Gofyniad a orfodir gan y Cod.
10 O dan neu yn rhinwedd Deddf Addysg 2002.
11 Gweler Penodau 8-12 o'r Cod.
12 Adrannau 12(6), 14(5), 19(3) a 40(6) o'r Ddeddf. Rhaid i gorff GIG sydd wedi nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i ddiwallu ADY y plentyn neu'r person ifanc hefyd benderfynu a ddylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Os yw'n penderfynu y dylid gwneud hynny, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff ei ddarparu yn Gymraeg: adran 20(5) o'r Ddeddf.

cynnal y CDU i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg (gweler Penodau 8-12).

2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yw'n wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun).
2B.5) Dyddiad dechrau. Dyddiad dechrau cyflwyno'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
2B.6) Dyddiad gorffen/adolygu. Dyddiad gorffen cyflwyno'r DDdY neu'r dyddiad y caiff ei hadolygu (os pennir dyddiad gorffen neu ddyddiad adolygu).

13.41. Mae dyddiad dechrau a dyddiad gorffen (os ydynt wedi'u pennu) y DDdY, er eu bod wedi'u nodi ar wahân yn yr is-adrannau hyn yn adran E, yn rhan o'r disgrifiad o'r ddarpariaeth.

2B.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod

13.42. **Dylai'r** adran hon egluro pam y mae rhai penderfyniadau wedi'u gwneud, yn enwedig os oedd anghytuno ynghylch y DDdY. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wedi anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywun arall. Gallai'r adran hon egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu hystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.

13.43. Os nad oedd anghytuno ynghylch y mater neu unrhyw angen arall i egluro penderfyniad, gall yr adran hon o'r CDU gyfeirio at y cofnod gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU.

**Adran 2C: Disgrifiad o'r DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG**

13.44. Yn yr adran hon, dylid disgrifio unrhyw DDdY y mae'n **rhaid**[13] i gorff GIG ei sicrhau, ar ôl cael ei nodi gan y corff hwnnw fel triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd i fynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc. (Gweler Pennod 15 am ganllawiau ar hyn.) **Rhaid**[14] i'r corff sy'n gyfrifol am baratoi'r CDU sicrhau bod y corff iechyd yn fodlon â'r disgrifiad o unrhyw DDdY i'w sicrhau gan y corff iechyd hwnnw cyn cwblhau'r CDU.

13.45. Mae adran 2C yn cynnwys yr is-adrannau canlynol ar gyfer yr elfennau o'r DDdY sy'n driniaeth neu'n wasanaeth perthnasol. Os oes elfennau gwahanol i'r ddarpariaeth hon, **rhaid**[15] darparu gwybodaeth o dan bob un o'r is-adrannau hyn ar gyfer pob elfen o'r ddarpariaeth.

- 2C.1) Y canlyniad a fwriedir
- 2C.2) Y DDdY i'w gyflwyno
- 2C.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler paragraff 15.28 o Bennod 15)

[13] Mae'r gofyniad ar y corff GIG i sicrhau'r ddarpariaeth wedi'i gynnwys yn adran 20(5) o'r Ddeddf.
[14] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[15] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

- 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol)
- 2C.5) Dyddiad dechrau
- 2C.6) Dyddiad gorffen. Dyddiad gorffen cyflwyno'r DDdY neu'r dyddiad y caiff ei hadolygu (os pennir dyddiad gorffen neu ddyddiad adolygu)
- 2C.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod

13.46. Mae'r canllawiau ar gwblhau Adran 2B yn berthnasol wrth gwblhau'r adran hon.

13.47. Os nad oes darpariaeth i'w sicrhau gan gorff GIG, **dylid** rhoi "*amherthnasol*" yn yr adran hon.

**Adran 2D: Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir neu bwyd/llety**

13.48. Os yw awdurdod lleol (sy'n llunio neu'n cynnal CDU ar gyfer plentyn) yn enwi ysgol a gynhelir yng Nghymru at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei derbyn iddi, **rhaid**[16] i adran 2D.1 o'r CDU gynnwys y canlynol:

- 2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi.

13.49. Os caiff ysgol ei henwi yn yr is-adran hon, **dylai'r** awdurdod lleol amlinellu pam ei fod yn fodlon ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r DDdY a nodir yn ei CDU gael ei gwneud yn yr ysgol honno, a pham ei bod yn briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol honno. Gweler Pennod 11 am ragor o wybodaeth ynghylch enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi.

13.50. Yn achos CDU sy'n cael ei lunio neu ei gynnal gan awdurdod lleol, mae is-adrannau 2D.2 a 2D.3 yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- 2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddi/o
- 2D.3) Disgrifiad o unrhyw fwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau

13.51. **Rhaid**[17] ond cynnwys yr wybodaeth hon os na ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc am DDdY oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau lle yn yr ysgol honno neu'r sefydliad arall neu'n sicrhau'r bwyd a llety perthnasol, ac mae'n ddarostyngedig i amodau eraill. Gweler Penodau 11 a 12 am ragor o wybodaeth ynghylch enwi ysgol benodol neu sefydliad arall, lleoliadau preswyl a darparu bwyd a llety.

[16] Mae adran 48 o'r Ddeddf yn rhoi swyddogaeth i awdurdod lleol o ran enwi ysgol at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi ac mae'r gofyniad i'w henwi yn adran 2D yn cael ei orfodi gan y Cod.

[17] Adrannau 14(6) - (8), 19(5) - (7) ac, ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth, adran 40(7) - (9) o'r Ddeddf. Yn achos person sy'n cael ei gadw'n gaeth, mae'r ddyletswydd i ddisgrifio'r materion hyn yn y CDU yn berthnasol os *na fydd yn bosibl* diwallu anghenion rhesymol y person am DDdY *pan gaiff ei ryddhau* oni bai bod yr awdurdod hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir. Gweler Pennod 22 am ragor o wybodaeth ynghylch llunio CDU ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth.

13.52. Gall adran 2D o'r CDU hefyd gynnwys y rhesymau am unrhyw leoliad penodol neu'r bwyd a llety, yn enwedig os oedd anghytuno yn ei gylch. Efallai fod y gweithwyr proffesiynol wedi anghytuno neu bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wedi anghytuno â'r gweithwyr proffesiynol, neu efallai fod gwahaniaeth barn rhwng rhywun arall. Gellir egluro sut y cafodd safbwyntiau gwahanol eu ystyried cyn gwneud penderfyniad penodol.

13.53. Os nad oes angen y ddarpariaeth a nodir yn 2D.1 – 2D.3 o gwbl, neu os oes angen rhan ohoni'n unig, **dylid** nodi "amherthnasol" yn yr adran hon neu yn yr is-adran benodol. Os ystyriwyd darpariaeth o'r fath ond penderfynwyd nad oedd ei hangen, gellir nodi'r rhesymau am y penderfyniad yn yr adran hon.

## *Rhan 3.*

### Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU

13.54. **Rhaid**[18] i adran 3A o'r CDU gynnwys cofnod cryno o'r trafodaethau mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd i lunio neu ddiwygio'r CDU, unrhyw gyngor perthnasol a chyfoes y mae'r corff sy'n llunio neu'n cynnal y CDU yn ei ystyried yn berthnasol, a manylion y rheini sydd wedi cyfrannu at lunio neu ddiwygio'r CDU neu sydd wedi darparu gwybodaeth neu dystiolaeth yn ymwneud â'r cynllun.

13.55. Nid oes angen i'r cofnod o'r trafodaethau a gynhaliwyd i lunio neu ddiwygio'r CDU fod yn gofnod gair-am-air; bydd crynodeb o'r hyn a drafodwyd a chan bwy yn ddigon.

13.56. Bydd y cyngor neu'r dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau ac asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y CDU a gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill, fel adroddiadau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol. Gallai hefyd gynnwys unrhyw ddata sy'n helpu i adnabod ADY, fel data yn ymwneud â chyrhaeddiad. Gellir cynnwys yr adroddiad(au) llawn mewn atodiad.

13.57. Yn achos CDUau sydd wedi'u lunio ers cryn amser, bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth sy'n deillio o waith monitro diweddar ar y DDdY ac olrhain data a thargedau lle mae hyn wedi arwain at ddiwygio'r CDU.

13.58. Os oes gan weithwyr proffesiynol, plant, rhieni plant neu bobl ifanc safbwyntiau gwahanol, **dylid** eu cofnodi. **Dylid** eu cofnodi drwy ddefnyddio termau cyffredinol fel rhieni, athrawon neu'r uwch dîm arwain. **Ni ddylid** defnyddio enwau neu deitlau penodol oni bai bod yr unigolyn sy'n mynegi'r safbwynt yn dymuno hynny.

[18] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

13.59. Os yw rhieni wedi derbyn cyngor gan weithwyr proffesiynol yn uniongyrchol, **dylid** ei gofnodi'n glir a'i ystyried yn briodol, a gellir ei gynnwys mewn atodiad.

**Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol**

13.60. **Rhaid**[19] i adran 3B o'r CDU gynnwys crynodeb o'r digwyddiadau allweddol ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc sy'n berthnasol i'w ADY (ac, os oes angen, gellir darparu gwybodaeth bellach neu fanylach mewn atodiad), gan gynnwys:

- 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY.

13.61. **Dylai'r** wybodaeth a ddarperir yn 3B.1 gynnwys yr holl ddigwyddiadau sy'n arwyddocaol ac yn berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc, ac er mwyn cynllunio'r DDdY angenrheidiol a helpu i nodi pryd y dylid cynnal adolygiadau. Dyma enghreifftiau o ddigwyddiadau posibl:

- enw'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol a luniodd y CDU (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd);
- enw unrhyw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol a oedd yn gyfrifol am ei gynnal o'r blaen (os yw'n wahanol i'r corff sy'n ei gynnal ar hyn o bryd);
- penderfyniadau blaenorol arwyddocaol a wnaed mewn perthynas â CDU y plentyn neu'r person ifanc gan gynnwys adegau pan gynhaliwyd adolygiad yn dilyn cais gan blentyn, rhiant y plentyn, neu berson ifanc, neu phan fo awdurdod lleol wedi ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol, a phenderfynwyd peidio â diwygio'r cynllun;
- atgyfeiriad ar gyfer asesiad/archwiliad gan weithiwr proffesiynol;
- unrhyw asesiad ynghyd â chanlyniadau a/neu gyngor;
- prawf neu arsylwi gan weithiwr proffesiynol a/neu asiantaeth neu gynghorydd allanol;
- diagnosis o gyflwr;
- salwch;
- dechrau defnyddio cyfarpar neu fewnblaniadau newydd er mwyn helpu i fanteisio ar addysg; neu
- ddigwyddiad sydd wedi cael effaith emosiynol neu ymddygiadol neu effaith ar gyrhaeddiad.

13.62. Nid oes angen cofnodi'r digwyddiadau'n fanwl, ond **dylid** nodi'r wybodaeth ganlynol:

- beth a ddigwyddodd neu natur y digwyddiad;
- y sefydliad/gwasanaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am y digwyddiad, fel diagnosis, sgrinio neu brawf, lle bo hynny'n briodol; a
- dyddiad y digwyddiad.

[19] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

13.63. **Dylid** hefyd cynnwys digwyddiadau cyn datblygu’r CDU cyntaf os ydynt yn ymwneud ag ADY y plentyn neu’r person ifanc a’r DDdY ofynnol.

13.64. Yn ogystal, **dylid** cynnwys digwyddiadau y disgwylir iddynt ddigwydd yn y flwyddyn nesaf a allai helpu i nodi pryd y dylid cynnal yr adolygiad nesaf. Dylai'r wybodaeth gynnwys yr hyn a ddisgwylir, a pham y gallai fod angen adolygu'r CDU o ganlyniad.

- 3B.2) Lleoliadau addysgol blaenorol a fynychwyd gan y plentyn (a'r dyddiadau). Dylid cofnodi'r lleoliadau addysgol a fynychwyd gan y plentyn neu'r person ifanc ers y nodwyd bod ganddynt ADY.

**Adran 3C: Trosglwyddo**

13.65. Yn adran 3C o'r CDU, gellir disgrifio unrhyw wybodaeth neu drefniadau a all fod yn angenrheidiol neu'n briodol pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn symud ymlaen i gyfnodau eraill yn ei addysg (ee, o ysgol uwchradd i sefydliad addysg bellach).

13.66. Bwriedir i'r adran hon fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ymlaen llaw ar gyfer trosglwyddo’r plentyn neu'r person ifanc i'r cyfnod nesaf. Gellir ei defnyddio i gofnodi'r canlynol:

- unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r broses o drosglwyddo plentyn neu berson ifanc i'r cyfnod nesaf ac a fyddai'n ddefnyddiol i'r rheini sy'n gysylltiedig â darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn neu'r person ifanc; ac
- unrhyw drefniadau dymunol ar gyfer hwyluso'r broses o helpu'r plentyn a'r person ifanc i drosglwyddo i'r cyfnod nesaf.

13.67. Gallai hyn gynnwys DDdY bosibl yn y dyfodol pan fydd y plentyn neu'r person ifanc mewn lleoliad newydd. Gall gwneud hyn helpu corff sy'n dod yn gyfrifol am gynnal y CDU ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc symud i leoliad newydd i arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf e.e. adolygu'r CDU. Fodd bynnag, os gellir penderfynu ar DDdY cyn i blentyn neu berson ifanc symud, hyd yn oed os bydd yn parhau ar ôl iddo symud, **rhaid**[20] ei gynnwys yn adran 2B o'r CDU yn hytrach na'r adran hon. **Ni chaiff**[21] yr adran hon gael ei defnyddio i nodi unrhyw DDdY - dylid rhoi gwybodaeth o'r fath yn adran 2B. Ni ellir apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adran hon.

13.68. Os ystyriwyd unrhyw wybodaeth neu drefniadau i helpu plentyn neu berson ifanc i drosglwyddo i'r cyfnod nesaf, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am lunio'r CDU eu nodi yn yr adran hon. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y trosglwyddiad(au) a ddisgwylir
- Unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu'r trefniadau trosglwyddo

[20] Adran 10 o’r Ddeddf: y DDdY y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani.
[21] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

- Y camau y cytunwyd y byddai'r holl weithwyr proffesiynol a/neu'r asiantaethau sy'n cefnogi'r trosglwyddiad(au) yn eu cymryd
- Yr amcanion a'r canlyniadau a ddisgwylir

13.69. Os nad oes disgwyl i'r plentyn neu'r person ifanc drosglwyddo yn y dyfodol agos, **dylid** nodi "amherthnasol" yn yr adran hon.

13.70. Ceir rhagor o wybodaeth am gynllunio ar gyfer proses drosglwyddo a chefnogi trosglwyddiadau ym Mhennod 19.

## *Cynnwys nad yw'n orfodol mewn CDU*

13.71. Fel y nodir ym mharagraff 13.8 uchod, yn ychwanegol i'r cynnwys gorfodol mewn CDU, gall fod materion eraill i'w cynnwys hefyd a hynny mewn adran arall, mewn atodiad neu fel dogfen ategol.

13.72. Er enghraifft, fel rhan o’r drafodaeth ar bennu DDdY, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am lunio'r CDU ystyried unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel manylion cynnal a chadw ac yswirio unrhyw gyfarpar arbenigol a phwy sy’n gyfrifol am y materion hyn.

### Trefniadau mynediad

13.73. Os yw plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn debygol o ddechrau'n fuan ar gwrs sy'n arwain at asesiadau a chymwysterau, neu os yw eisoes yn dilyn cwrs o'r fath, dylid ystyried pa drefniadau mynediad a all fod eu hangen yn sgil y DDdY neu'r ADY wrth fynd ati i osod yr amcanion a phennu'r ddarpariaeth. Dylid gwneud cais (i'r corff dyfarnu) am y trefniadau hyn cyn asesiad neu arholiad, ond ar ddechrau cwrs yn ddelfrydol er mwyn iddynt fod yn eu lle drwy gydol y cwrs. Gellir cynnwys hyn yn y cynnwys nad yw'n orfodol yn y CDU.

### Cludiant

13.74. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r rheini sy'n llunio neu'n cynnal CDUau ar gyfer plant neu bobl ifanc gofnodi mewn adran ychwanegol o'r CDU unrhyw drefniadau teithio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc rhwng ei gartref a'r sefydliad addysgol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn mewn rhai achosion, er enghraifft os yw’n llywio’r broses o gyflwyno’r DDdY.

13.75. Amlinellir y trefniadau cludo ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd o dan adran 15 o'r Mesur.

13.76. Os yw awdurdod lleol yn llunio neu’n adolygu CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc ac yn ystyried lle y dylid addysgu’r plentyn neu’r person ifanc, neu os yw’n cynllunio ar gyfer ei drosglwyddo, gall fod angen ystyried y trefniadau teithio ar ei gyfer er mwyn cyrraedd unrhyw ysgol arfaethedig neu sefydliad arall. Os codir cwestiwn ynghylch p’un a fydd awdurdod lleol yn

gwneud trefniadau teithio o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc allu cyrraedd y lleoliad addysgol, **dylai'r** awdurdod lleol sy'n llunio neu'n adolygu'r CDU godi'r mater â'r swyddogion trafnidiaeth perthnasol o'r awdurdod lleol dan sylw a'u gwahodd i drafod yr opsiynau sydd ar gael.

# Pennod 14: Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal

## *Cyflwyniad*

14.1. Mae Pennod 13 yn darparu canllawiau ar CDUau, gan gynnwys y ffurflen safonol orfodol ar gyfer CDUau i blant a phobl ifanc ag ADY nad ydynt yn derbyn gofal, a chynnwys y ffurflen honno. Mae'r bennod hon yn delio â chynnwys gorfodol CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y ffurflen safonol orfodol ar gyfer CDU i blentyn sy'n derbyn gofal.

14.2. **Rhaid**[1] ymgorffori CDU plentyn sy'n derbyn gofal yng nghynllun addysg personol y plentyn[2]. I gael canllawiau ar gynlluniau addysg personol, gweler Cod Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya).

14.3. Bwriedir i CDU fod yn ddogfen hyblyg. Er enghraifft, mae CDU plentyn sydd ag anghenion llai dwys neu gymhleth yn debygol o fod yn symlach (ac felly'n fyrrach) na CDU plentyn sydd ag anghenion mwy dwys neu gymhleth, neu anghenion llai cyffredin. Mae plentyn sydd ag anghenion dwys neu gymhleth neu anghenion llai cyffredin yn debygol o fod angen mewnbwn a chyngor arbenigol, ac mae ei CDU yn debygol o gynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau a nodi amrywiaeth lawer ehangach o ymyriadau. Serch hynny, **dylai'r** wybodaeth gael ei hysgrifennu mewn iaith glir nad yw'n cynnwys jargon er mwyn ceisio sicrhau bod pawb sy'n debygol o ddarllen y CDU gan gynnwys, lle bo modd, y plentyn, yn gallu ei deall.

14.4. **Dylid** sicrhau bod cynnwys CDU:

- yn cael ei greu gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio i nodi ADY y plentyn a'r ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny;
- yn cael ei greu drwy gydweithio â'r plentyn a rhieni'r plentyn;
- yn cael ei ddatblygu ar sail hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion y plentyn;
- yn cael ei ysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cynllun y plentyn ydyw, a'i fod yn llawer mwy na rhan o broses weinyddol yn unig. Dylai'r arddull, a'r iaith os yn bosibl, adlewyrchu oedran y plentyn, gan wahaniaethu'n glir rhwng yr hyn y mae'r plentyn wedi'i ddweud a'r hyn nad yw wedi'i ddweud;
- yn cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg a/neu Saesneg clir, gan osgoi defnyddio jargon ac egluro perthnasedd unrhyw derminoleg dechnegol sydd angen ei chynnwys; ac
- yn cael ei gadw dan ystyriaeth er mwyn penderfynu a ddylid ei adolygu'n gynharach na'r disgwyl (gweler Pennod 16 ar adolygiadau).

[1] Adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
[2] Gofyniad o dan Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

14.5. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod pob CDU yn cynnwys elfennau allweddol penodol ac yn cadw at yr un strwythur. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a chydraddoldeb cyffredinol o ran sut mae dysgwyr yn cael eu trin, a bydd yn sylfaen i gydlyniant y system ADY yn ei chyfanrwydd a chludadwyedd cynlluniau unigol. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r elfennau hynny a'r ffurflen safonol - dyma'r drefn a'r strwythur ar gyfer cyflwyno'r elfennau hynny.

14.6. Lle bo'n briodol, gellir cynnwys y CDU mewn cynlluniau eraill a gellir cynnwys cynlluniau eraill yn y CDU, fel yr amlinellir ym Mhennod 16.

## *Ffurflen orfodol ar gyfer CDU*

14.7. **Rhaid**[3] i awdurdod lleol sy'n llunio neu'n adolygu CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal ddefnyddio'r ffurflen safonol yn Atodiad B ar gyfer y CDU. I gydymffurfio â'r gofyniad hwn, mae'n **rhaid**[4] i'r CDU gynnwys y penawdau a nodir yn y ffurflen safonol ar gyfer y rhannau, yr adrannau a'r is-adrannau a **rhaid**[5] defnyddio'r rhain yn yr un drefn ag y maent yn ymddangos yn y ffurflen safonol.

14.8. **Caniateir** addasu arddull y ffurflen yn ôl dewisiadau lleol (drwy gynnwys logo'r awdurdod lleol) neu ddewisiadau'r plentyn (drwy ddefnyddio ffont mwy o faint neu ffont gwahanol, osgoi defnyddio lliwiau penodol etc), a gellir hefyd addasu'r modd y caiff yr wybodaeth ei mewnosod i'r adrannau a'r is-adrannau hynny.

14.9. **Caiff** yr awdurdod lleol gynnwys adrannau pellach ar ôl adran F neu'r atodiadau, os yw'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny (er enghraifft, os oes angen cynnwys gwybodaeth am elfennau nad yw'n orfodol eu rhoi yn y CDU - gweler paragraffau 13.71-13.76 o Bennod 13).

14.10. Er hwylustod, mae'r ffurflen yn Atodiad B yn gwahaniaethu'r elfennau hynny o'r CDU y gellir apelio yn eu herbyn i Dribiwnlys Addysg Cymru drwy eu marcio mewn print coch a thrwm a'u tanlinellu. Nid oes angen marcio'r wybodaeth fel hyn, ond **dylai'r** adrannau hyn gael eu marcio mewn rhyw ffordd er mwyn ei gwneud yn glir i'r plentyn a'i rieni pa adrannau y mae hawl apelio yn eu herbyn.

## *Cynnwys gorfodol mewn CDU*

14.11. Mae'n **rhaid**[6] i awdurdod lleol sy'n llunio neu'n diwygio CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal roi'r wybodaeth berthnasol o dan benawdau'r adrannau a'r is-adrannau cyfatebol (2A i 3B.1) yn y CDU (tanlinellir penawdau'r is-adrannau), fel y nodir isod yn y drefn y maent yn ymddangos yn y CDU:

[3] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[4] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[5] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[6] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

- **Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol y plentyn**
- **Adran 2B: Disgrifiad o DDdY y plentyn**
  - 2B1) Y canlyniad a fwriedir
  - 2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno
  - 2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg
  - 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yn wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun).
  - 2B.5) Dyddiad dechrau
  - 2B.6) Dyddiad gorffen
  - 2B.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod
- **Adran 2C: Disgrifiad o'r DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG**
  - 2C.1) Y canlyniad a fwriedir
  - 2C.2) Y DDdY i'w chyflwyno
  - 2C.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler paragraff 15.28 o Bennod 15)
  - 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol)
  - 2C.5) Dyddiad dechrau
  - 2C.6 Dyddiad gorffen  Dyddiad gorffen cyflwyno'r DDdY neu'r dyddiad y caiff ei hadolygu (os pennir dyddiad gorffen neu ddyddiad adolygu)
  - 2C.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod
- **Adran 2D: Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir a darpariaeth bwyd/llety**
  - 2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi.
  - 2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddi/o
  - 2D.3) Disgrifiad o unrhyw ddarpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau
- **Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU**
- **Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol**
  - 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY

14.12. Mae'r adrannau a'r is-adrannau uchod yn cyfateb yn union i adrannau 2A - 2D, a 3A i 3B o'r ffurflen safonol CDU ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal a phobl ifanc (yn Atodiad A o'r Cod). Mae'r canllawiau ar gwblhau pob un o'r adrannau hyn ym Mhennod 13.

14.13. Nid yw adrannau eraill y ffurflen safonol yn Atodiad A wedi'u cynnwys yn yr un ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan fod disgwyl i'r wybodaeth ar gyfer y rheini gael ei chynnwys yng ngweddill cynllun addysg personol y plentyn (y mae'n rhaid ymgorffori CDU y plentyn iddo).

# Pennod 15: Dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill

## _Cyflwyniad_

15.1 Un o egwyddorion allweddol y system ADY yw'r cydweithredu rhwng pawb sy'n ymwneud ag adnabod anghenion ac â chynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag ADY (gweler Pennod 2 i gael gwybod mwy am egwyddorion y Cod).

15.2 Mae paragraffau 15.6 - 15.15 yn delio â'r ddyletswydd sydd ar bersonau perthnasol i gydymffurfio â chais am wybodaeth neu gymorth arall. Maent yn berthnasol i bob person perthnasol.

15.3 Mae paragraffau 15.16 - 15.21 yn delio â'r dyletswyddau sydd ar gyrff iechyd[1] sy'n ymwneud ag adnabod plant o dan oedran ysgol gorfodol a allai fod ag ADY.

15.4 Mae paragraffau 15.22 - 15.36 yn berthnasol i gyrff GIG ac yn delio ag achosion a gyfeirir atynt i ganfod a oes DDdY y gallant ei chynnig.

15.5 Mae paragraffau 15.37 - 15.54 yn berthnasol i Fyrddau Iechyd Lleol ac yn delio â rôl y swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (SACDA).

## _Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol_

15.6 **Caiff**[2] awdurdod lleol wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol, sydd ei angen er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Dyma'r personau perthnasol y gallant ofyn iddynt[3]:

- awdurdod lleol arall;
- awdurdod lleol yn Lloegr;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
- corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
- perchennog Academi;
- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
- person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;

[1] Gweler paragraff 1.26 i gael gwybod pa gyrff y mae'r term hwn yn cyfeirio atynt (sy'n cynnwys rhai cyrff yn Lloegr) at ddibenion y Cod a'r rheini y mae "corff GIG" yn cyfeirio atynt (Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG).
[2] Adran 65 o'r Ddeddf.
[3] Cyfeirir at y cyrff hyn fel "personau perthnasol" drwy gydol y Cod a rhaid iddynt i gyd roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o’r Ddeddf: gweler paragraff 1.3

- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG;
- Bwrdd Comisiynu’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- grŵp comisiynu clinigol;
- ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
- Awdurdod Iechyd Arbennig.

15.7 **Rhaid**[4] i berson perthnasol gydymffurfio â chais o'r fath oni bai ei fod yn ystyried y byddai hynny'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu y byddai'n cael effaith andwyol mewn ffordd arall ar gyflawni ei swyddogaethau.

15.8 Os bydd y corff perthnasol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â chais yr awdurdod lleol, **rhaid**[5] iddo roi rhesymau ysgrifenedig i'r awdurdod am ei benderfyniad.

15.9 Dim ond pan fydd awdurdod lleol yn gwneud cais am gymorth neu wybodaeth y bydd y ddyletswydd hon i ymateb yn berthnasol. Serch hynny, gall ysgolion a sefydliadau addysg bellach ddal i wneud ceisiadau am wybodaeth neu gymorth arall i bersonau perthnasol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o ran ADY. Os bydd y person perthnasol yn ymateb, efallai y gellir delio'n gynt â'r mater, heb orfod cynnwys awdurdod lleol.

15.10 Os bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yn llunio'r CDU, ond nad yw'n gallu cael y cymorth neu'r wybodaeth sydd ei hangen oddi wrth berson perthnasol, **dylai** godi'r mater gyda'r awdurdod lleol cyfrifol. Efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros lunio[6] neu gynnal[7] y CDU, ac yna wneud cais i'r person perthnasol am yr wybodaeth neu'r cymorth arall.

15.11 Efallai y bydd cais am wybodaeth gan awdurdod lleol, neu am fath arall o gymorth gan bersonau perthnasol, yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol, neu efallai y bydd yn cyfeirio at fater mwy cyffredinol i gefnogi’r awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau.

15.12 Os mai cyflawni swyddogaeth sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol yw diben cais yr awdurdod lleol, ac os yw'r person perthnasol o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r cais, **rhaid**[8] i'r person perthnasol gydymffurfio'n brydlon, ac yn sicr o fewn chwe wythnos i gael y cais. Ond nid yw'r gofyniad i gydymffurfio o fewn y cyfnod 6 wythnos hwnnw yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r person perthnasol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

---

[4] Adran 65(2) o’r Ddeddf.
[5] Adran 65(3) o’r Ddeddf.
[6] Os na all yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ddod i benderfyniad digon pendant ynghylch graddau neu natur yr ADY neu am y DDdY, gall gyfeirio achos y plentyn neu'r person ifanc i'r awdurdod lleol i benderfynu ynghylch ADY a llunio CDU: adran 12(2) o'r Ddeddf.
[7] Byddai angen i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach wneud cais i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb o dan adran 28 o'r Ddeddf.
[8] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 65(5).

15.13 Os nad yw cais yr awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol, **rhaid**[9] i'r person perthnasol sydd o dan ddyletswydd i gydymffurfio wneud hynny yn brydlon. Gallai cais o'r fath, er enghraifft, ymwneud ag adolygiad awdurdod lleol o'r trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY[10] neu sefydlu mecanwaith ar gyfer cyfathrebu effeithiol sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf yn gyffredinol.

15.14 Wrth wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall, **dylai** awdurdod lleol roi gwybod i'r person perthnasol ei fod yn gais o dan adran 65 o'r Ddeddf ac, oni bai ei bod yn amlwg, dylid nodi p'un a yw'r cais yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol ai peidio. **Dylai'r** awdurdod lleol hefyd roi gwybod i'r person perthnasol am y gofyniad i ymateb yn brydlon ac, os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc penodol, o fewn y cyfnod 6 wythnos oni bai bod yr eithriad yn berthnasol. **Caiff** yr awdurdod lleol hefyd roi gwybod i'r person perthnasol am unrhyw amser cynharach pan fyddai'n fuddiol i'r awdurdod lleol gael yr ymateb, a **chaiff** dynnu sylw'r person perthnasol at y Cod. Byddai hyn yn rhybuddio'r person perthnasol am ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ac yn rhoi mwy o wybodaeth iddo ynghylch natur y cais er mwyn gallu ymateb yn briodol, er enghraifft drwy ymateb yn gynharach na'r terfyn amser o 6 wythnos os yw'r cais yn un brys. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig wrth wneud cais am wybodaeth neu gymorth arall gan bersonau perthnasol nad ydynt, efallai, yn cael llawer o geisiadau o dan y system ADY. Er enghraifft, wrth lunio neu adolygu CDU, efallai y bydd awdurdod lleol yng Nghymru yn gwneud cais am wybodaeth gan berson perthnasol y tu allan i Gymru, er enghraifft am blentyn neu berson ifanc o dîm troseddwyr ifanc yn Lloegr.

15.15 Pan fydd person perthnasol o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall, **dylai** ateb y cais yn llawn gan roi'r lefel briodol o fanylion.

## _Adnabod ADY mewn plant o dan oedran ysgol gorfodol - rôl cyrff iechyd a'r ddyletswydd i roi gwybod_

15.16 Gall cyrff iechyd helpu i adnabod y plant bach hynny a allai fod ag ADY yn gynnar drwy wasanaethau o bob math. Efallai y caiff plant sydd ag anghenion mwy cymhleth o ran eu datblygiad a'u synhwyrau eu hadnabod pan gânt eu geni. Yn aml, mae gweithwyr iechyd proffesiynol, fel pediatregwyr ac ymwelwyr iechyd, yn dod i gysylltiad â'r plentyn cyn gweithwyr addysg proffesiynol. Yn aml, maen nhw, felly, mewn sefyllfa i adnabod ADY cyn unrhyw un arall. Mae asesiadau iechyd safonol, er enghraifft y prawf sgrinio clyw, a ddefnyddir i wirio clyw pob baban newydd, yn ei gwneud yn bosibl adnabod anawsterau meddygol a chorfforol o bob math yn gynnar iawn.

15.17 Os bydd corff iechyd, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac y mae awdurdod lleol yn gyfrifol

[9] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 65(5).
[10] O dan adran 63 o'r Ddeddf.

amdano, yn dod i'r casgliad bod gan y plentyn ADY (neu fod ganddo ADY yn fwy na thebyg), **rhaid**[11] iddo roi gwybod i riant y plentyn am y peth ac am ei ddyletswydd (a ddisgrifir yn y paragraff nesaf) i dynnu sylw'r awdurdod lleol perthnasol at hyn. **Rhaid**[12] iddo roi cyfle i'r rhiant drafod y mater gydag un o'i swyddogion.

15.18 Wedi cael y drafodaeth honno, os bydd y corff iechyd yn dal i fod o'r farn bod gan y plentyn ADY neu ei bod yn fwy na thebyg bod ganddo ADY a'i fod yn fodlon mai tynnu sylw'r awdurdod lleol perthnasol at hyn fyddai'n dod â'r budd pennaf i'r plentyn, **rhaid**[13] iddo wneud hynny. At y dibenion hyn, yr awdurdod lleol perthnasol yw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn[14] neu, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

15.19 Mater i'r corff iechyd yw penderfynu ai rhoi gwybod[15] i'r awdurdod lleol fyddai'n dod â'r budd pennaf i'r plentyn. Ymhlith y ffactorau perthnasol, gellid ystyried:

- a fydd rhoi gwybod i'r awdurdod lleol yn helpu'r awdurdod i gynllunio ar gyfer darpariaeth y bydd ei hangen ar y plentyn pan fydd yn mynychu lleoliad blynyddoedd cynnar neu ysgol gynradd;
- a allai rhoi gwybod i'r awdurdod lleol ei alluogi i greu darpariaeth cyn i'r plentyn gyrraedd yr oedran ysgol gorfodol - gallai'r ymyriad cynnar hwn leihau effaith debygol ADY ar y plentyn neu osgoi gwaethygu effaith ADY ar y plentyn; neu
- a allai'r awdurdod lleol gyflwyno ymyriad cynnar a fyddai'n cefnogi rhieni wrth iddyn nhw, yn eu tro, gefnogi eu plentyn eu hunain - gallai hyn fod yn gefnogaeth emosiynol neu gymorth i sefydlu perthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r rhiant.

15.20 Os bydd y corff iechyd o'r farn bod corff gwirfoddol penodol yn debygol o allu rhoi cyngor neu gymorth arall i'r rhiant mewn perthynas ag unrhyw ADY a allai fod gan y plentyn, **rhaid**[16] iddo roi gwybod i'r rhiant.

15.21 Pryd bynnag y bydd corff iechyd yn cysylltu ag awdurdod lleol yn y ffordd hon, bydd yr awdurdod lleol wedi cael gwybod bod gan y plentyn ADY, neu y gallai fod ganddo ADY. **Rhaid**[17] i awdurdodau lleol benderfynu wedyn a oes gan y plentyn ADY, yn amodol ar unrhyw eithriadau i'r ddyletswydd honno.

[11] Adran 64 o'r Ddeddf.
[12] Adran 64(4) o'r Ddeddf.
[13] Adran 64(4) o'r Ddeddf.
[14] Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc yw hwn (hy yr awdurdod lleol y mae'r person o fewn ei ardal) (adran 99(4) o'r Ddeddf). Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am ystyr "yn ardal".
[15] Mae canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[16] Adran 64(5) o'r Ddeddf.
[17] Adrannau 13(1) ac 18(1) o'r Ddeddf.

## _DDdY gan gyrff GIG_

15.22 Bydd angen cymorth cyrff GIG er mwyn diwallu anghenion rhai plant a phobl ifanc. Gall cyrff GIG helpu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn pob math o ffyrdd. Er enghraifft, gallant:

- ddarparu cyngor ar y DDdY i'w chyflwyno;
- darparu cyngor er mwyn helpu i adnabod anghenion dysgu ychwanegol plentyn neu berson ifanc yn fwy effeithiol ac amserol;
- darparu cyngor i staff ar addasu amgylchedd addysg y plentyn neu'r person ifanc;
- darparu hyfforddiant i staff mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol penodol plentyn neu berson ifanc;
- cefnogi'r gwaith o fonitro cynnydd y plentyn a darparu adroddiadau yn ôl y gofyn.

15.23 Efallai mai chwilio am fewnbwn o'r math hwn gan gorff GIG y bydd awdurdod lleol wrth wneud cais statudol am wybodaeth o'r fath neu gymorth arall (gweler paragraffau 15.6 i 15.15 uchod).

15.24 Yn ogystal, o dan y system ADY, mae gan gyrff GIG rôl i'w chwarae wrth gyflwyno DDdY, os yw'r ddarpariaeth yn rhywbeth y byddent yn ei chyflwyno'n arferol fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru (gweler Pennod 13 i gael gwybod mwy am DDdY a'r canlyniadau a fwriedir). Gellid dirprwyo'r broses o gyflwyno rhai mathau o DDdY i staff eraill yn ysgol neu sefydliad addysg bellach plentyn neu berson ifanc er mwyn diwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc o fewn ei leoliad addysg.

15.25 **Caiff**[18] awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach gyfeirio mater i gorff GIG, gan ofyn iddo a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o helpu i fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc. Byddai'n gwneud hyn pan fyddai'n ystyried y gallai corff GIG fod mewn sefyllfa i gyflwyno DDdY i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc. Ystyr triniaeth neu wasanaeth perthnasol yw triniaeth neu wasanaeth y byddai corff GIG yn ei ddarparu'n arferol fel rhan o wasanaeth iechyd cynhwysfawr Cymru[19].

[18] Adran 20(1) o'r Ddeddf.
[19] Hynny yw, y gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru sy'n parhau o dan adran 1(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006: adran 20(6) o'r Ddeddf.

**Pwy all gyfeirio achos i gorff GIG?**

| Mae'r achos yn ymwneud â | Y corff sy'n gallu cyfeirio[20] |
|---|---|
| Plentyn | Awdurdod lleol |
| Person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir | Awdurdod lleol |
| Person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir (ee sy'n cael ei addysgu mewn sefydliad addysg bellach neu leoliad arbenigol) | Y corff sy'n llunio neu'n cynnal CDU y person ifanc, sef naill ai awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach |

15.26 **Ni chaiff**[21] awdurdod lleol na sefydliad addysg bellach gyfeirio achos i gorff GIG oni bai:

- ei fod wedi rhoi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, ei fod yn bwriadu cyfeirio'r achos;
- ei fod wedi rhoi cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, i drafod p'un a ddylid cyfeirio'r achos;
- ei fod yn fodlon mai cyfeirio'r achos sy'n sicrhau budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

15.27 Wrth gyfeirio mater i gorff GIG, **dylai** awdurdod lleol roi gwybod i'r corff GIG bod yr achos yn cael ei gyfeirio o dan adran 20 o'r Ddeddf.

15.28 Os caiff mater ei gyfeirio, **rhaid**[22] i'r corff GIG ystyried p'un a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd i fynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc. Os bydd y corff GIG yn nodi triniaeth neu wasanaeth o'r fath, **rhaid**[23] iddo:

- sicrhau'r driniaeth neu'r gwasanaeth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;
- penderfynu a ddylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg;
- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy'r Gymraeg, os yw'n penderfynu y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg.

15.29 **Rhaid**[24] iddo hefyd:

- roi gwybod i'r sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol a gyfeiriodd yr achos am y driniaeth neu'r gwasanaeth;
- os na chyfeiriwyd yr achos gan gorff sy'n cynnal y CDU, rhoi gwybod i'r corff sy'n cynnal y CDU am y driniaeth neu'r gwasanaeth;

[20] Adran 20(2) o'r Ddeddf.
[21] Adran 20(3) o'r Ddeddf.
[22] Adran 20(4) o'r Ddeddf.
[23] Adran 20(5) o'r Ddeddf.
[24] Adran 21(1) o'r Ddeddf.

- os yw'r corff GIG o'r farn y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg, rhoi gwybod i'r rheini a restrwyd uchod (y ddau bwynt bwled diwethaf) y dylid ei ddarparu drwy'r Gymraeg.

15.30 Ar ôl i achos gael ei gyfeirio, os na fydd corff GIG yn nodi triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd er mwyn mynd i'r afael ag ADY y plentyn neu'r person ifanc, **rhaid**[25] iddo:

- roi gwybod am hynny i'r corff a gyfeiriodd yr achos
- os na chyfeiriwyd yr achos gan gorff sy'n cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, rhoi gwybod am hynny i'r corff sy'n cynnal y cynllun datblygu unigol.

15.31 **Rhaid**[26] i'r corff GIG gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi gwybod am ganlyniad ei drafodaeth (a ddisgrifir ym mharagraffau 15.29 - 15.30 uchod) yn brydlon, ac yn sicr o fewn y cyfnod o chwe wythnos ar ôl i'r atgyfeiriad ddod i law. Ond nid yw'r gofyniad i wneud hynny o fewn y cyfnod chwe wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r corff GIG wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

15.32 Os nodir triniaeth neu wasanaeth perthnasol, **rhaid**[27] i'r corff sy'n cynnal y cynllun wedyn ddisgrifio'r driniaeth neu'r gwasanaeth yn y CDU, gan nodi mai DDdY i'w sicrhau gan y corff GIG ydyw. Os bydd y corff GIG o'r farn y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth drwy'r Gymraeg, **rhaid**[28] i'r corff sy'n cynnal y cynllun wedyn nodi yn y CDU mai DDdY i'w chyflwyno drwy'r Gymraeg yw'r driniaeth neu'r gwasanaeth.

15.33 I ategu'r broses hon, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU anfon templed at y corff GIG y gall y corff GIG ei lenwi i ddisgrifio'r DDdY sydd wedi’i hadnabod ganddo. Ar ôl ei lenwi, **dylai'r** corff GIG anfon y templed yn ôl at y corff sy'n cynnal y CDU i sicrhau bod y disgrifiad yn y CDU yn gywir. Darperir templed yn Atodiad C, ond nid yw’n orfodol ei ddefnyddio.

15.34 Fel y nodir uchod, **rhaid**[29] i'r corff GIG sicrhau'r DDdY ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc sy'n driniaeth neu'n wasanaeth a nodwyd ganddo. **Ni cheir**[30] tynnu'r DDdY hon o'r CDU na'i diwygio ac eithrio ar ôl adolygu'r CDU[31] ac os bydd y corff GIG yn cytuno neu'n gwneud cais am hynny. **Caiff** y corff GIG wneud cais am adolygiad ar unrhyw adeg ac, os gwnaiff hynny, **rhaid**[32] i'r corff sy'n cynnal y CDU ei adolygu. Os, ar ôl ei adolygu, bydd y corff GIG yn gwneud cais i'r corff sy'n cynnal y CDU dynnu neu newid y disgrifiad o'r DDdY y mae'n rhaid i'r corff GIG ei sicrhau, **rhaid**[33] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU wneud hynny.

[25] Adran 21(2) o’r Ddeddf.
[26] Rheoliad i'w wneud o dan adran 21(10) o'r Ddeddf.
[27] Adran 21(3) o’r Ddeddf.
[28] Adran 21(4) o’r Ddeddf.
[29] Adran 20(5) o’r Ddeddf.
[30] Adran 21(6) o’r Ddeddf.
[31] O dan adran 23 neu 24 o'r Ddeddf.
[32] Adrannau 23(7) a 24(6) o'r Ddeddf.
[33] Adran 21(7) o’r Ddeddf.

15.35 **Rhaid**[34] i bawb sy'n ymwneud â chreu DDdY ar gyfer plentyn ag ADY sy'n cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ochr yn ochr â phlant nad oes ganddynt ADY. Dim ond i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'r canlynol y mae hyn yn berthnasol:

- bod y plentyn yn derbyn DDdY sydd ei hangen oherwydd ei ADY;
- bod addysg effeithlon yn cael ei darparu i'r plant y bydd ef neu hi yn cael ei (h)addysgu gyda nhw;
- bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

15.36 Os bydd y Tribiwnlys yn gorchymyn diwygio CDU mewn perthynas â DDdY y nodwyd ei bod yn DDdY y mae'n rhaid i gorff GIG ei sicrhau, nid yw'n ofynnol i gorff GIG sicrhau'r DDdY ddiwygiedig oni bai ei fod yn cytuno i wneud hynny[35]. **Dylai'r** corff sy'n cynnal y CDU weithio gyda'r corff GIG er mwyn dod i gytundeb mewn amgylchiadau o'r fath.

## *Byrddau Iechyd Lleol a'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)*

### Trosolwg o rôl y SACDA

15.37 **Rhaid**[36] i Fyrddau Iechyd Lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Gelwir y person hwnnw yn "swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg" (a dalfyrrir yn y Cod i "SACDA").

15.38 **Rhaid**[37] i'r SACDA fod un ai'n ymarferwr meddygol cofrestredig neu'n nyrs cofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall.

15.39 **Rhaid**[38] i'r swyddog a ddynodir yn SACDA gan y Bwrdd Iechyd Lleol fod yn un y mae'n ei ystyried yn ddigon cymwys a phrofiadol ym maes darparu gofal iechyd i blant a phobl ifanc ag ADY.

[34] Adran 52 o'r Ddeddf.
[35] Adran 21(9) o'r Ddeddf.
[36] Adran 61(1) o'r Ddeddf.
[37] Adran 61(2) o'r Ddeddf.
[38] Adran 61(3) o'r Ddeddf - dim ond swyddog y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei ystyried yn ddigon cymwys a phrofiadol y caiff ei ddynodi.

15.40 Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, **dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ystyried cynnwys y canlynol o fewn rôl y SACDA:

- gweithredu'n strategol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ADY ar lefel weithredol o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol a hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio;
- rhannu arferion gorau â'r swyddogion SACDA eraill er mwyn helpu i sicrhau dulliau gweithredu sydd wedi'u safoni ledled Cymru;
- hyrwyddo dull strategol cyson, o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol, o adnabod ac asesu ADY, llunio ac adolygu CDUau, cynllunio a chyflwyno DDdY, a monitro'r effaith ar blant a phobl ifanc;
- rheoli a monitro i ba raddau y cydymffurfir â dyletswyddau'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan y Ddeddf;
- mesur llwyddiant ymyriadau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

15.41 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y swyddog y mae'n ei ddynodi fel SACDA:

- wedi cael profiad o arweinyddiaeth ar lefel uwch yn y gwasanaeth iechyd;
- yn abl i gynnig cyfeiriad strategol cyffredinol i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau o ran ADY;
- yn gallu adnabod a datrys problemau a gwrthdaro cyn gynted â phosibl;
- yn gallu cyfeirio materion i Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd Lleol, fel y bo'n briodol;
- wedi cael profiad ar lefel uwch o agwedd o ofal iechyd sy'n berthnasol i ADY, er enghraifft mewn maes fel Meddygol (gofal sylfaenol neu eilaidd), Nyrsio, Bydwreigiaeth, Gwaith Proffesiynol Perthynol i Iechyd, neu fel ymarferwr Iechyd Cyhoeddus.

15.42 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ei gwneud yn ofynnol i'r SACDA fod yn atebol i Gyfarwyddwr Gweithredol o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol a **dylai** ddarparu rhyddid i'r SACDA gyfeirio materion i Fwrdd Gweithredol y Bwrdd Iechyd Lleol. Nid oes angen i'r SACDA fod yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd, ond yn hytrach am eu cydlynu. Gall swyddogion eraill gyflawni'r swyddogaethau hynny o ddydd i ddydd, ac efallai y bydd hyn yn arbennig o briodol ar gyfer materion gweinyddol neu weithredol, neu os oes angen gwybodaeth dechnegol sy'n benodol i bwnc, neu os oes gweithiwr iechyd proffesiynol eisoes yn gysylltiedig â gofal y plentyn neu'r person ifanc. Er enghraifft, ni fydd disgwyl i'r SACDA ddod i bob cyfarfod CDU, ond **dylai** fod yn gyfrifol am sefydlu a chynnal strwythurau a systemau effeithlon o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol i alluogi'r gweithiwr iechyd proffesiynol priodol i fynd i gyfarfodydd CDU lle bo modd. Os na all gweithwyr iechyd proffesiynol fynd i gyfarfod, **dylent** ddarparu eu cyngor a’u tystiolaeth cyn y cyfarfod (gweler Pennod 18 i gael gwybod mwy am gyfarfodydd am ADY a CDU).

### Gweithio mewn partneriaeth

15.43 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithio â gwasanaethau eraill er mwyn hyrwyddo gwell

canlyniadau addysg ymhlith plant a phobl ifanc sydd ag ADY, drwy hyrwyddo gwaith amlasiantaethol effeithiol rhwng meysydd iechyd (gofal sylfaenol ac eilaidd), iechyd cyhoeddus, adrannau addysg a gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a'r trydydd sector.

15.44 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn gweithio gyda gwasanaethau plant ac oedolion i sicrhau bod trefniadau llwyddiannus ar waith ar gyfer trosglwyddo dysgwyr o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

15.45 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn cydweithio â'i swyddogion cyfatebol ledled Cymru er mwyn rhannu arferion gorau a sefydlu llwybrau gofal clir a chyson i blant ag ADY ledled Cymru, er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng ardaloedd byrddau iechyd, yn enwedig i unigolion sy'n symud i ardal arall neu a osodir y tu allan i'w hardal.

## Cynlluniau Datblygu Unigol

15.46 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn sefydlu ac yn rheoli systemau effeithlon a chyson er mwyn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i gyfrannu at y gwaith o lunio CDUau a sicrhau DDdY drwy:

- gynnal asesiadau priodol, amserol;
- gwneud argymhellion ar ymyriadau effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth;
- darparu gwasanaethau iechyd y cytunwyd arnynt;
- monitro canlyniadau;
- sicrhau ansawdd cyngor er mwyn lleihau'r amrywiaeth o ran arferion a hyrwyddo disgwyliadau realistig.

15.47 **Dylai** hyn gynnwys:

- ystyried y ffordd orau i weithwyr iechyd proffesiynol fynd ati i gyfrannu at ddatblygu CDUau (lle bo angen cyfraniad, cymorth a chyngor gweithwyr iechyd proffesiynol);
- gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol a chynnwys pob gweithiwr iechyd proffesiynol (gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, pediatregwyr cymunedol, gwasanaethau anabledd dysgu, a thimau gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol a nyrsys plant cymunedol) i sicrhau bod yr ymyriadau iechyd y cytunwyd arnynt mewn CDUau yn holistaidd ac yn synhwyrol;
- cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros reoli ymatebion y Bwrdd Iechyd Lleol i geisiadau am wybodaeth neu gymorth arall gan awdurdodau lleol[39], er enghraifft, drwy sefydlu system rheoli atgyfeiriadau er mwyn cydlynu a rheoli achosion a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau yn hyn o beth;

[39] O dan adran 65 o'r Ddeddf.

- gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach mewn perthynas ag achosion a gyfeirir i'r Bwrdd Iechyd Lleol i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol yn debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc, gan gynnwys, yn benodol:
  - ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol ar gyfer yr achos dan sylw;
  - sicrhau dull cyson o wneud penderfyniadau o'r fath;
  - sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth a gaiff ei ddisgrifio yn y CDU fel DDdY y mae'r corff GIG i'w chyflwyno yn realistig, yn benodol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau;
  - sicrhau bod dyletswydd gyfreithiol y Bwrdd Iechyd Lleol i sicrhau'r DDdY (hynny yw, y driniaeth neu/a'r gwasanaeth perthnasol) yn cael ei chyflawni.

**Rheoli cwynion, anghydfodau ac apelau i'r Tribiwnlys**

15.48 Bydd sgiliau datrys problemau, negodi a chyfathrebu cryf yn hanfodol i'r SACDA wrth ganfod a gweithredu dulliau arloesol a chydweithredol ar draws asiantaethau a gwasanaethau o fewn y bwrdd iechyd.

15.49 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn goruchwylio hynt unrhyw gŵyn neu anghydfod sy'n ymwneud â'r DDdY y mae'n ei chyflwyno ar gyfer CDU plentyn neu berson ifanc. Gallai hyn gynnwys cymryd camau uniongychol i ddatrys y gŵyn neu'r anghydfod, neu sicrhau bod system gadarn yn ei lle i dynnu ynghyd bartïon perthnasol er mwyn ceisio datrys y sefyllfa yn gynnar.

15.50 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y SACDA yn hyrwyddo'r defnydd o system gwynion y GIG (Gweithio i Wella) mewn perthynas ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â thriniaeth neu wasanaeth a ddarperir gan y GIG, a ddisgrifir mewn CDU fel darpariaeth i'w chyflwyno gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Gellid hyrwyddo Gweithio i Wella hefyd ar adegau priodol, er enghraifft mewn cyfarfod adolygu CDU lle trafodir darpariaeth iechyd.

15.51 Pan fydd awdurdod lleol o'r farn y byddai o fudd i gorff GIG fod yn rhan o drefniadau osgoi a datrys anghytundeb, gallai gysylltu â'r SACDA perthnasol i drafod y mater.

15.52 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ddisgwyl i'r SACDA gydlynu rhan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn apelau i'r Tribiwnlys, gan gynnwys sicrhau ei fod yn darparu tystiolaeth yn ôl y gofyn a goruchwylio cyfraniad y Bwrdd Iechyd Lleol yn gyffredinol i apelau.

## Mesur llwyddiant

15.53 **Dylai'r** Bwrdd Iechyd Lleol ddisgwyl i'r SACDA oruchwylio'r gwaith o ddatblygu prosesau i gasglu a dadansoddi data dibynadwy i fesur i ba raddau y mae gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd Lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY yn cydymffurfio â'r gofynion a beth yw'r prosesau sicrhau ansawdd. Gallai monitro'r canlynol fod yn sail i fesurau llwyddiant:

- adborth gan blant, pobl ifanc a rhieni;
- canlyniadau plant a phobl ifanc;
- mesurau effeithiolrwydd gwaith partneriaeth;
- niferoedd y cwynion, yr anghydfodau a'r apelau i'r Tribiwnlys a faint o amser y mae'n ei gymryd i'w datrys.

# Pennod 16: Adolygu a diwygio CDUau

## *Cyflwyniad*

16.1. I sicrhau bod y CDU yn parhau i adlewyrchu'n gywir anghenion y plentyn neu'r person ifanc a manylion y ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol adolygu CDUau o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'n caniatáu eu diwygio yng ngoleuni pob adolygiad.

16.2. I gyd-fynd â'r gofyniad sylfaenol hwn i adolygu CDU, rhoddir pwerau sy'n caniatáu i CDUau gael eu hadolygu ar unrhyw adeg a gofynion pellach sy'n ymwneud â cheisiadau am adolygiad gan blentyn, rhiant y plentyn, neu berson ifanc, neu gan gorff GIG.

16.3. Yn ymarferol, **dylai'r** corff sy'n gyfrifol am gynnal CDU fonitro ac asesu ei effeithlonrwydd yn barhaus, a **dylai** gynnal adolygiadau mor aml ag sy'n ofynnol yn ôl yr amgylchiadau.

## *Adolygu CDU*

16.4. Mae'r adran hon yn nodi canllawiau'r broses a'r amserlenni i'w dilyn yn y tair sefyllfa wahanol lle cynhelir adolygiad o CDU:

- adolygiadau a ysgogir gan ysgol, sefydliad addysg bellach ac awdurdod lleol;
- ceisiadau am adolygiadau gan blant, eu rhieni a phobl ifanc;
- ceisiadau am adolygiadau gan gyrff GIG.

### Adolygiadau a ysgogir gan ysgol, sefydliad addysg bellach ac awdurdod lleol (gan gynnwys adolygiadau blynyddol gorfodol)

16.5. Gall ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal CDU ei adolygu ar unrhyw adeg[1], ond **rhaid**[2] iddo wneud hynny cyn diwedd pob "cyfnod adolygu", fel y nodir ym mharagraff 16.12 isod. Gall yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU ddiwygio'r CDU yn dilyn yr adolygiad[3].

16.6. **Dylid** cynnal adolygiad o fewn cyfnod o amser sy'n adlewyrchu'r canlynol:

- y deilliannau arfaethedig a nodir yn y CDU a'r dyddiad targed ar gyfer eu cyflawni, neu gerrig milltir tuag at eu cyflawni;
- yr amserlenni ar gyfer cyflwyno unrhyw weithgareddau neu ddarpariaeth yn y CDU;

[1] Adrannau 23(9) a 24(8) o'r Ddeddf
[2] Adrannau 23(1) a 24(1) o'r Ddeddf
[3] Adrannau 23(9) a 24(8) o'r Ddeddf

- newidiadau sylweddol a ragwelir sy'n debygol o effeithio ar ADY neu DDdY y plentyn neu'r person ifanc - er enghraifft, os yw'r plentyn neu'r person ifanc ar fin symud ymlaen i gam newydd yn ei addysg, yn enwedig lle gallai fod angen gwneud penderfyniad cynnar mewn perthynas â sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am DDdY (gweler Pennod 19 i gael gwybod mwy am gynllunio trefniadau trosglwyddo);
- a oes asesiadau neu brofion arfaethedig y byddai eu canlyniadau'n effeithio ar y deilliannau arfaethedig, y gweithgaredd a gynllunnir neu'r ddarpariaeth;
- oedran a chyfradd ddatblygu debygol y plentyn neu'r person ifanc – er enghraifft, ar gyfer plant bach iawn, gellid pennu uchafswm o dri i chwe mis er mwyn sicrhau bod y DDdY yn parhau i fod yn briodol;
- yng ngoleuni cymhlethdod yr achos a ffactorau eraill, hyd tebygol adolygiad, gyda'r bwriad o sicrhau y gellir ei gwblhau erbyn diwedd y cyfnod adolygu.

16.7. Efallai y bydd ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol am ystyried yr effaith ar adnoddau staff ac effeithiau eraill wrth gynllunio adolygiadau, ac efallai y byddant yn awyddus i'w trefnu fel nad ydynt yn digwydd ar yr un pryd neu'n agos at ei gilydd, ar yr amod nad yw hynny'n cyfaddawdu effeithiolrwydd tebygol pob adolygiad unigol.

16.8. Gellir newid dyddiad adolygiad arfaethedig i ddyddiad cynharach neu ddiweddarach (cyn belled â bod y dyddiad diweddarach yn caniatáu i'r adolygiad gael ei gynnal oddi mewn i'r cyfnod adolygu).

16.9. Yn aml, bydd adolygiad cynharach, heb ei drefnu, yn briodol os yw'r amgylchiadau wedi newid yn sylweddol neu os oes gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg. Hefyd, gall adolygiad cynharach fod yn briodol os yw deilliant arfaethedig wedi'i gyflawni, neu os yw'n dod i'r amlwg na fydd deilliant arfaethedig yn cael ei gyflawni, neu os na chredir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, ac felly nad oes angen CDU arno. Bydd olrhain a monitro cynnydd dysgwr yn gyson yn hanfodol i'r broses o nodi newidiadau sydyn. Gall fod yn briodol newid dyddiad adolygiad i ddyddiad diweddarach, er enghraifft os credir bod angen amser ychwanegol i ystyried effaith ymyriad penodol, wrth aros am ganlyniadau prawf neu archwiliad meddygol sy'n berthnasol i'r adolygiad, neu os yw plentyn neu berson ifanc yn rhy sâl ar hyn o bryd i gyfrannu i'r adolygiad.

16.10. Er mwyn gallu gwneud unrhyw baratoadau angenrheidiol i gyfrannu i adolygiad, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol sy'n cynnal CDUau yn trafod gydag unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach a fynychir gan blentyn neu berson ifanc cyn i'r adolygiad gael ei gynnal. Gallai hyn gynnwys darparu rhestr o'r holl blant a'r bobl ifanc â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y bwriedir adolygu eu CDU, i benaethiaid unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach a fynychir ganddynt, cyn dechrau pob tymor.

16.11. Os bydd plentyn neu berson ifanc sydd â CDU yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru, gan gynnwys y rheini y mae eu

CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol, **dylai'r** ysgol neu'r sefydliad addysg bellach siarad â'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn rheolaidd er mwyn trafod ei gynnydd. Mae’r trafodaethau hyn yn cyfrannu at waith monitro cyson, a gall y dystiolaeth sy’n cael ei chasglu yn eu sgil gael ei defnyddio i lywio’r adolygiad.  Hefyd, gallant ddatblygu hyder yn y DDdY sy’n cael ei gwneud a chryfhau ei heffaith drwy gynyddu cyfraniad y plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc at y dulliau a’r strategaethau sy’n cael eu defnyddio. Hefyd, gall y plentyn, rhiant y plentyn, neu’r person ifanc ddarparu gwybodaeth hanfodol am effaith DDdY y tu allan i’r lleoliad addysg ac am unrhyw newidiadau i ADY y plentyn neu’r person ifanc. Bydd y ddeialog reolaidd hon yn elfen bwysig o’r broses o benderfynu pryd y bydd adolygiad cynnar yn briodol o bosibl.

16.12. **Rhaid**[4] i gorff y mae'n ofynnol iddo gynnal CDU ei adolygu cyn diwedd pob cyfnod adolygu.  Diffinnir cyfnodau adolygu fel a ganlyn[5]:

(a) Cyfnod o 12 mis sy'n dechrau pan roddir copi o'r CDU am y tro cyntaf i'r plentyn ac i eraill[6];
(b) Mae pob cyfnod adolygu pellach yn gyfnod 12 mis sy'n dechrau ar—
  (i) y dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol pan roddwyd copi o CDU diwygiedig am y tro cyntaf mewn perthynas â'r cyfnod adolygu hwnnw[7],
  (ii) os na chafodd y CDU ei ddiwygio yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol—
    (1) y dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw pan roddwyd hysbysiad o benderfyniad am y tro cyntaf mewn perthynas â'r cyfnod adolygu hwnnw na ddylid diwygio'r CDU yn dilyn adolygiad[8], neu
    (2) y dyddiad yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw pan roddwyd hysbysiad o benderfyniad am y tro cyntaf mewn perthynas â'r cyfnod adolygu hwnnw na ddylid diwygio'r CDU ar ôl i awdurdod lleol ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol[9],

  neu
(c) os na roddwyd unrhyw un o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) a (b) yn ystod y cyfnod adolygu blaenorol, y cyfnod adolygu wedyn yw

[4] Adrannau 23(1) a 24(1) o’r Ddeddf.
[5] Adrannau 23(2) - (5) a 24(2) – (4) o’r Ddeddf
[6] Mae adran 22 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol rhoi copi o'r cynllun i'r plentyn, i riant y plentyn, neu i’r person ifanc ac, os yw’r plentyn yn derbyn gofal, i’r swyddog adolygu annibynnol.
[7] Mae adran 23(11) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol sy'n diwygio CDU (gan gynnwys awdurdod lleol sy'n diwygio CDU a gynhelir gan ysgol y mae wedi'i ailystyried o dan adran 27) roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc. Mae adran 24(10) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy’n diwygio CDU ar gyfer plentyn sy’n derbyn gofal ganddo roi copi o’r CDU diwygiedig i’r plentyn, ei riant a’r swyddog adolygu annibynnol.
[8] Dyma'r hysbysiad o dan adran 23(10) neu adran 24(9) o'r Ddeddf.  Mae'r adrannau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, sydd ar ôl adolygiad yn penderfynu peidio â diwygio cynllun, roi gwybod am y penderfyniad hwn a'r rhesymau drosto i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc ac, os yw’r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, i’r swyddog adolygu annibynnol.
[9] Dyma'r hysbysiad o dan adran 27(4) o'r Ddeddf.  Mae adran 27(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sydd wedi ailystyried cynllun a gynhelir gan ysgol o dan adran 27, roi hysbysiad o'i benderfyniad (a'r rhesymau drosto) na ddylid diwygio'r cynllun, i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc.

cyfnod o 12 mis sy'n dechrau y diwrnod cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod adolygu blaenorol hwnnw.

16.13. Ystyrir bod y ddyletswydd i adolygu CDU cyn diwedd cyfnod adolygu wedi'i chyflawni os, cyn diwedd y cyfnod hwnnw[10]—

(a) caiff y CDU ei ailystyried gan awdurdod lleol (dim ond yn achos CDU a gynhelir gan ysgol y byddai hyn yn digwydd)[11];
(b) bydd Tribiwnlys Addysg Cymru yn gorchymyn i awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach ddiwygio'r CDU; neu
(c) yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, bydd Tribiwnlys Addysg Cymru yn gorchymyn i awdurdod lleol adolygu'r CDU.

16.14. Yn y bôn, nod y gofynion hyn yw sicrhau bod CDU yn cael ei adolygu o fewn blwyddyn i gwblhau (neu baratoi) ei adolygiad diwethaf bob amser. I'r dibenion hyn, cyfrifir ystyriaeth a roddir i'r CDU o dan y Ddeddf gan gorff gwahanol i'r corff sy'n ei gynnal fel yr adolygiad diwethaf. Os bydd awdurdod lleol yn ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol, felly, ac os bydd y Tribiwnlys yn gorchymyn diwygio'r CDU neu'n gorchymyn i awdurdod lleol adolygu CDU a gynhelir gan ysgol, bydd cyfnod adolygu newydd yn dechrau.

16.15. Er enghraifft, os bydd ysgol yn paratoi CDU ac yn rhoi copi ohono ar 5 Ionawr, bydd yr ysgol o dan ddyletswydd i'w adolygu cyn diwedd 4 Ionawr y flwyddyn nesaf. Os, yn y cyfamser, bydd y disgybl yn gwneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU, a bod yr awdurdod lleol naill ai'n rhoi copi o CDU diwygiedig neu hysbysiad o'i benderfyniad na ddylid ei ddiwygio ar 5 Ebrill, bydd y cyfnod adolygu nesaf yn dechrau ar y 5 Ebrill hwnnw ac yn dod i ben y 4 Ebrill canlynol. Yn unol â hynny, ni fydd yr ysgol dan ddyletswydd, bellach, i adolygu'r CDU yn ystod y cyfnod adolygu cyntaf (hy erbyn diwedd y 4 Ionawr canlynol, gan fod y ffaith bod yr awdurdod lleol wedi'i ailystyried yn golygu bod y ddyletswydd i adolygu wedi'i chyflawni). Yn hytrach rhaid iddi ei adolygu erbyn diwedd y 4 Ebrill canlynol (a chymryd nad yw'n cael ei ailystyried ymhellach yn y cyfamser gan yr awdurdod lleol na bod y Tribiwnlys Addysg yn gorchymyn ei ddiwygio nac yn gorchymyn bod yr awdurdod lleol yn ei adolygu). Os bydd yr ysgol wedyn yn cynnal adolygiad rhwng Ionawr a Mawrth, gan roi copi o'r CDU diwygiedig ar 10 Mawrth, yna daw'r cyfnod adolygu nesaf i ben ar ddiwedd y 9 Mawrth canlynol.

16.16. Mae'r cyfeiriadau uchod at yr hysbysiadau neu'r copïau o CDUau a roddir gyntaf wedi'u nodi i ddarparu ar gyfer sefyllfa lle caiff hysbysiad neu CDU ei roi i fwy nag un person (hy plentyn a'i riant ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol), a hynny ar wahanol ddyddiad. Y dyddiad pan roddir y cyntaf sy'n cyfrif, felly[12].

[10] Adrannau 23(6) a 24(5) o'r Ddeddf.
[11] O dan adran 27 o'r Ddeddf.
[12] Adrannau 23(5) a 24(3) o'r Ddeddf.

## Ceisiadau am adolygiadau gan blant, eu rhieni a phobl ifanc

16.17. **Rhaid**[13] i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc adolygu'r CDU os gofynnir iddo wneud hynny gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, oni bai ei fod yn ystyried bod adolygiad yn ddiangen. Mewn ymateb i geisiadau o'r fath, **rhaid**[14] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU ystyried y cais ac:

(a) os yw'n penderfynu bod adolygiad yn ddiangen, hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, ei riant, o'r penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto (ynghyd â'r wybodaeth arall a nodir ym mharagraff 16.20 isod); neu

(b) os yw'n penderfynu cynnal adolygiad, cynnal yr adolygiad ac:

   i. os yw'n penderfynu diwygio'r CDU, rhoi copi o'r CDU diwygiedig yn unol â pharagraff 16.39;
   ii. os yw'n penderfynu na ddylid diwygio'r CDU, rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â pharagraff 16.38;
   iii. os yw'n penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach, rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â pharagraff 16.36 (gweler Pennod 21 i weld gofynion eraill sy'n ymwneud â phenderfyniad o'r fath);
   iv. os, lle bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, bydd yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU, bellach, i ddiwallu anghenion addysg neu hyfforddiant rhesymol y person ifanc, rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â pharagaraff 16.36 (gweler Pennod 12 i weld gofynion eraill sy'n ymwneud â phenderfyniad o'r fath).

16.18. **Rhaid**[15] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gwblhau'r adolygiad (gan gynnwys, yn ôl y sefyllfa, rhoi hysbysiad o'r canlyniad neu gopi o'r CDU diwygiedig) yn brydlon ac o fewn y cyfnod perthnasol yn sicr (gweler paragraff 16.19). Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod perthnasol yn dal os yw'n anymarferol i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[16].

16.19. At ddiben paragraff 16.18 ac 16.25 y cyfnod perthnasol yw-

i. yn achos ysgol, 35 diwrnod ysgol
ii. yn achos sefydliad addysg bellach, 35 diwrnod yn ystod y tymor

[13] Adrannau 23(8) a 24(7) o'r Ddeddf
[14] Mae'r gofyniad i ystyried y cais yn deillio o adrannau 23(8) a 24(7) o'r Ddeddf; mae'r gofyniad i roi hysbysiad os yw'n penderfynu bod adolygiad yn ddiangen (is-baragraff (a)) o dan y Cod; mae'r gofynion yn is-baragraff (b) i'w gweld yn adrannau 23(11) a 24(10), 23(10) a 24(9) ac, yn achos paragraff (iii) a (iv), 31(8) o'r Ddeddf.
[15] Gofyniad ynghylch yr amserlen a orfodir gan y Cod.
[16] I gael gwybod mwy am gydymffurfio ag amserlenni yn y Cod, gweler paragraffau 1.30 – 1.36 ym Mhennod 1

iii. yn achos awdurdod lleol, 7 wythnos;
o'r dyddiad y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol (pa un bynnag sy'n berthnasol) yn cael y cais am adolygiad;

16.20. Os rhoddir hysbysiad bod adolygiad yn ddiangen, **rhaid**[17] cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn yr hysbysiad hefyd:

(a) manylion cyswllt yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, pa un bynnag sy'n berthnasol;
(b) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[18]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[19] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[20];
(d) yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, gwybodaeth am hawl y plentyn, ei riant neu'r person ifanc i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU neu gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal, a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol;
(e) yn achos CDU a gynhelir gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch elfennau penodol o'r CDU.

16.21. Bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen adolygiad yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Ymhlith y ffactorau sy'n debygol o fod yn berthnasol mae faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r cynllun gael ei lunio neu ei adolygu, a yw'r amgylchiadau wedi newid mewn ffordd a allai effeithio ar y cynllun, neu a oes tystiolaeth neu wybodaeth newydd wedi dod i'r golau a allai effeithio ar y cynllun.

### Ceisiadau am adolygiadau gan gyrff GIG

16.22. **Rhaid**[21] i ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol adolygu CDU y mae’n ei gynnal os yw’r cynllun yn cynnwys DDdY y mae’n ofynnol i gorff GIG ei sicrhau a bod y corff GIG yn gwneud cais iddo adolygu’r CDU.

16.23. At hynny, os, pan adolygir CDU, bydd y corff GIG yn gwneud cais am i'r disgrifiad o'r DDdY y mae'n ofynnol iddo ei sicrhau gael ei dynnu oddi yno neu ei newid, **rhaid**[22] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais hwnnw.

[17] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[18] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. Yn achos plentyn sy’n derbyn gofal, efallai mai trefniadau’r awdurdod lleol sy’n cynnal y cynllun fydd y rhain neu drefniadau’r awdurdod lleol (os yw’n wahanol) y mae’r plentyn o fewn ei ardal.
[19] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[20] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[21] Adrannau 23(7) a 24(6) o’r Ddeddf
[22] Adran 21(7) o’r Ddeddf

16.24. Yn dilyn yr adolygiad, **rhaid**[23] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU:

(a) os yw'n penderfynu diwygio'r CDU, roi copi o'r CDU diwygiedig yn unol â pharagraff 16.39;
(b) os yw'n penderfynu na ddylid diwygio'r CDU, rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â pharagraff 16.38;
(c) os yw'n penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach, rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â pharagraff 16.36 (gweler Pennod 21 i weld gofynion eraill sy'n ymwneud â phenderfyniad o'r fath);
(d) os, lle bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, bydd yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU, bellach, i ddiwallu anghenion addysg neu hyfforddiant rhesymol y person ifanc, rhoi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw yn unol â pharagraff 16.36 (gweler Pennod 12 i weld gofynion eraill sy'n ymwneud â phenderfyniad o'r fath).

16.25. **Rhaid**[24] i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gwblhau'r adolygiad (gan gynnwys, yn ôl y sefyllfa, rhoi hysbysiad o'r canlyniad neu gopi o'r CDU diwygiedig) yn brydlon ac o fewn y cyfnod perthnasol yn sicr (gweler paragraff 16.19). Ond nid yw'r gofyniad i gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod perthnasol yn dal os yw'n anymarferol i'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth[25].

## *Cynnal adolygiadau*

16.26. Diben adolygiad yw ystyried:

- cynnydd y plentyn neu'r person ifanc tuag at gyflawni'r deilliannau arfaethedig;
- a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY o hyd, ac os felly, a yw ei anghenion wedi newid;
- a yw'r DDdY ac unrhyw ddarpariaeth arall i ddiwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc am DDdY yn dal yn briodol;
- a allai fod angen i'r plentyn neu'r person ifanc gael DDdY mewn ysgol benodol neu sefydliad arall;
- a yw'r deilliannau arfaethedig yn addas o hyd, a phenderfynu ar ddeilliannau newydd neu ddiwygiedig, os yw hynny'n briodol;
- yn achos person ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, a oes angen cynnal CDU o dan adran 14 o'r Ddeddf er

[23] Mae'r gofynion hyn i'w gweld yn adrannau 23(11) a 24(10), 23(10) a 24(9) ac, yn achos is-baragraffau (c) a (d), 31(8) o'r Ddeddf.
[24] Gofyniad ynghylch yr amserlen a orfodir gan y Cod. Mae paragraffau 16.36 - 16.41 yn berthnasol.
[25] I gael gwybod mwy am gydymffurfio ag amserlenni yn y Cod, gweler paragraffau 1.30 – 1.36 ym Mhennod 1

mwyn diwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant (gweler Pennod 12).

16.27. Mae'n bwysig cofio bod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac y gall eu hanghenion newid dros amser. Bydd angen i gymorth neu arbenigedd gwahanol fod ar gael fel rhan o gylch parhaus o gynllunio, gweithredu ac adolygu. Dylid cynyddu neu leihau amrediad ac arddulliau'r cymorth, felly, yn ôl anghenion a chynnydd y plentyn neu'r person ifanc.

16.28. Er mwyn cyflawni'r diben hwnnw, **dylid** cynnal adolygiadau fel rhan o gyfarfod, fel rheol, gan ddefnyddio'r dull a nodir ym Mhennod 18.

16.29. Ar ddiwedd yr adolygiad, **dylid** cytuno ar ddyddiad, o leiaf mewn egwyddor, ar gyfer yr adolygiad nesaf. Dylid ystyried y ffactorau a nodir ym mharagraff 16.6 uchod, a dylai fod o fewn y cyfnod adolygu yn hawdd. Wrth gwrs, efallai y bydd angen ei newid, os bydd yr amgylchiadau yn newid yn y cyfamser.

16.30. Wrth adolygu'r CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, **rhaid**[26] i'r awdurdod lleol wneud unrhyw benderfyniad ynghylch a oes dal i fod angen ei gynnal i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant yn unol â'r rheoliadau. Mae Pennod 12 yn delio â phryd y bydd angen i awdurdod lleol barhau i gynnal CDU ar gyfer person ifanc.Mae Pennod 21 yn delio â'r broses ar gyfer peidio â chynnal CDU, lle penderfynwyd nad oes angen ei gynnal bellach.

16.31. **Caiff**[27] ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol adolygu CDU ar yr un pryd ag y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, a gall gynnwys y ddogfen arall o fewn y CDU, a'r CDU yn y ddogfen

16.32. Os bydd awdurdod lleol yn adolygu CDU plentyn sy'n derbyn gofal ganddo, caiff y CDU ei ymgorffori yng nghynllun addysg personol y plentyn, sydd ynddo'i hun yn rhan o gynllun gofal a chymorth y plentyn. Yn aml, bydd yn briodol adolygu'r CDU fel rhan o'r adolygiad ehangach o achos y plentyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: cod ymarfer rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya)[28] yn cynnwys canllawiau ar adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o dan y Ddeddf honno, gan gynnwys lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal CDU y plentyn a'i ymgorffori o fewn y cynllun addysg personol.

16.33. Mewn achosion eraill, os bydd gan blentyn neu berson ifanc gynllun hefyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (er enghraifft, cynllun gofal a chymorth o dan Ran 4) a bod awdurdod lleol yn

[26] Adran 31(6)(b).
[27] Adran 25 o'r Ddeddf. Yn ogystal ag adolygu CDU, caiff yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol hefyd lunio neu ddiwygio'r CDU ar yr un pryd ag y bydd hi/ef neu gorff arall yn gwneud pethau mewn perthynas â dogfen arall.
[28] https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy

gyfrifol am y cynllun hwnnw a'r CDU, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried a ddylid cynnal yr adolygiad o'r CDU ar yr un pryd â'r adolygiad o'r cynllun arall (gweler Pennod 16). Gellid cynnal un cyfarfod ar gyfer y ddau adolygiad. Gallai ystyried yr anghenion o ran gofal a chymorth a'r ADY gyda'i gilydd helpu i asesu pa gymorth a DDdY fyddai fwyaf addas i ddiwallu'r anghenion mewn ffordd fwy holistaidd.

16.34. Mewn achosion eraill lle mae gan y plentyn neu'r person ifanc ddogfen neu gynllun arall, gallai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU geisio cydlynu'r gwaith o adolygu'r CDU â'r gwaith o lunio neu adolygu'r ddogfen arall os yw hynny'n briodol (p'un a yw'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y ddogfen arall ai peidio).

16.35. Os yw adolygiadau neu brosesau tebyg yn cael eu cynnal ar yr un pryd, rhaid iddynt ddilyn gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol. Er gwaethaf manteision posibl cynnal adolygiadau o wahanol gynlluniau ar yr un pryd, **ni ddylid** gohirio adolygiad o CDUau os bydd hynny'n niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn hwyluso cydadolygu ac **ni cheir**[29] ei ohirio os bydd hynny'n torri'r gofynion cyfreithiol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r cynlluniau ar wahanol adegau er mwyn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau.

## *Camau yn dilyn adolygiad*

16.36. Os daw'r adolygiad i'r casgliad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach ac nad oes angen CDU arno, felly, neu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc bellach, bydd y darpariaethau penodol ar beidio â chynnal CDU ar y sail hon yn berthnasol. Gweler Pennod 21 i gael y manylion am hyn[30].

16.37. Os bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yn adolygu'r CDU, gall ddod i'r amlwg bod angen i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU oherwydd natur anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Gweler Pennod 17 i gael gwybod mwy am hyn.

16.38. Os daw'r adolygiad i'r casgliad na ddylid diwygio'r CDU, **rhaid**[31] i'r corff sy'n cynnal y cynllun hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, y swyddog adolygu annibynnol, ynghylch y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

16.39. Os daw'r adolygiad i'r casgliad y dylid diwygio'r CDU, **rhaid**[32] rhoi copi o'r CDU diwygiedig i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ac, os yw'r

[29] Oherwydd y gofyniad cyfreithiol (er enghraifft, i adolygu CDU cyn diwedd y cyfnod adolygu o dan adran 23(1) o'r Ddeddf), os yw'n gymwys, mae rhaid cydymffurfio.
[30] Ceir gofynion penodol ynglŷn â pheidio â chynnal CDU am y rheswm yma yn adrannau 31 - 33 o'r Ddeddf.
[31] Adrannau 23(10) a 24(9) o'r Ddeddf
[32] Adrannau 23(11) a 24(10) o'r Ddeddf

plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, i'r swyddog adolygu annibynnol.

16.40. **Dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol hefyd ystyried a ddylid rhoi'r CDU, neu rannau ohono, i unrhyw un arall.

16.41. Yn dilyn adolygiad, pan fydd ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn hysbysu plentyn, ei riant neu berson ifanc ynghylch ei benderfyniad i beidio â diwygio CDU neu'n rhoi copi o CDU diwygiedig i blentyn, ei riant neu berson ifanc, **rhaid**[33] iddo roi'r canlynol hefyd i'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc:

(a) y dyddiad arfaethedig pan ellir cynnal yr adolygiad nesaf;
(b) manylion cyswllt yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, pa un bynnag sy'n berthnasol;
(c) gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[34]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(d) manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[35] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[36];
(e) yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, gwybodaeth am hawl y plentyn, ei riant neu'r person ifanc i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried y CDU neu gymryd drosodd y cyfrifoldeb dros ei gynnal, a manylion cyswllt yr awdurdod lleol cyfrifol;
(f) yn achos CDU a gynhelir gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch elfennau penodol o'r CDU.

[33] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[34] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, efallai mai trefniadau'r awdurdod lleol sy'n cynnal y cynllun fydd y rhain neu drefniadau'r awdurdod lleol (os yw'n wahanol) y mae'r plentyn o fewn ei ardal.
[35] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[36] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

## Y broses ar gyfer adolygu CDU lle mae cais wedi'i wneud gan y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc



# Pennod 17: Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol a chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDUau

## *Cyflwyniad*

17.1 Os yw plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc yn anfodlon â phenderfyniad ysgol a gynhelir yng Nghymru ynghylch a oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc (sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol) neu os ydynt yn anfodlon â CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol o'r fath, byddai disgwyl i'r anfodlonrwydd hwn gael ei ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol fel arfer neu drwy ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer anghytundebau. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, **caiff**[1] y plentyn, ei riant, neu'r person ifanc hefyd wneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y penderfyniad neu'r CDU. Er nad oes hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg mewn cysylltiad â phenderfyniadau am ADY a wnaed gan ysgol neu mewn cysylltiad â CDU a gynhelir gan ysgol, gellir apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol yn dilyn ailystyriaeth. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol gydag ychydig o addasiadau lle mae'r disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr.

17.2 Ar gais ysgol, sefydliad addysg bellach, plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc, gall awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc oddi wrth yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. Gellir hefyd apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb. Dim ond os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru y byddai modd gwneud hyn.

## *Ailystyriaeth gan yr awdurdod lleol o benderfyniad ysgol a gynhelir am ADY*

17.3 Os yw ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi gwneud penderfyniad[2] ynghylch a oes gan un o'i ddisgyblion ADY, neu os yw wedi gwrthod gwneud penderfyniad o'r fath, caiff[3] y plentyn, ei riant, neu'r person ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ailystyried y mater. Yn achos plentyn neu berson ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, gellir gwneud cais i'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnal yr ysgol ailystyried y mater.

17.4 Mae hyn yn galluogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc i herio penderfyniad yr ysgol.

17.5 Os bydd awdurdod lleol yn derbyn cais o'r fath, **rhaid**[4] iddo benderfynu p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY oni bai bod yr amgylchiadau

[1] Adrannau 26(1), 27(1) a 87(2)(a) o'r Ddeddf.
[2] Dyma benderfyniad o dan adran 11(1) o'r Ddeddf.
[3] Adrannau 26(1) ac 87(2)(a) o'r Ddeddf.
[4] Adrannau 26(2), 29 a 44(1) - (2) o'r Ddeddf, ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.

canlynol yn berthnasol:

(a) bod yr awdurdod lleol wedi ailystyried y mater eisoes ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw; neu
(b) bod y cais yn ymwneud â phlentyn sydd bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru (ac eithrio lle mae'r plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr[5]) neu blentyn neu berson ifanc sydd bellach yn ddarostyngedig i orchymyn cadw[6].

17.6 Lle gwneir cais o'r fath am ailystyriaeth, **rhaid**[7] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol a gwahodd yr ysgol i roi ei sylwadau cyn gwneud penderfyniad. Unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi dod i benderfyniad, bydd y penderfyniad hwnnw'n disodli penderfyniad yr ysgol a bydd modd apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn ei gylch[8].

17.7 Mae'r penderfyniad yn cael ei drin fel penderfyniad a wnaed o dan adran 13(1) o'r Ddeddf. Hynny yw, penderfyniad gan yr awdurdod lleol o dan yr adran honno bod gan ddisgybl, neu nad oes gan ddisgybl ADY.[9] Disgrifir y penderfyniad hwn ym mharagraffau 9.64 i 9.70.

17.8 Mae'r gofynion a orfodir ym Mhennod 9 yn ymwneud â'r penderfyniad hwn yr un mor berthnasol wrth ailystyried y penderfyniad. Fodd bynnag, fel y nodir yn y bennod honno, y cyfnod perthnasol ar gyfer rhoi hysbysiad[10] o benderfyniad nad oes gan ddisgybl ADY, ar gyfer rhoi copi o CDU, neu i'r ysgol lunio CDU (lle caiff ei gyfarwyddo gan yr awdurdod lleol i wneud hynny) mewn achosion o ailystyried, yw 7 wythnos o ddyddiad derbyn y cais i ailystyried.

17.9 Hefyd, os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac mae'r awdurdod lleol yng Nghymru yn penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, **rhaid**[11] i'r awdurdod lleol yng Nghymru naill ai lunio CDU ar ei gyfer a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal, neu gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU (ni all gynnal y CDU ei hun). Ond nid oes yn rhaid i'r awdurdod lleol yng Nghymru wneud hyn[12]:

(a) os yw'n gwneud cais i awdurdod lleol yn Lloegr sicrhau asesiad Addysg, Iechyd a Gofal a bod yr awdurdod lleol hwnnw wedyn yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014; neu
(b) os yw awdurdod lleol yn Lloegr yn cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

[5] Adran 87(2)(c) o'r Ddeddf.
[6] Mae Pennod 22 yn disgrifio beth sy'n digwydd i'r dyletswyddau o dan y Ddeddf pan fo plentyn neu berson ifanc bellach yn ddarostyngedig i orchymyn cadw, a pha ddyletswyddau sy'n berthnasol os yw'r person yn berson sy'n cael ei gadw'n gaeth.
[7] Adran 26(3) o'r Ddeddf.
[8] Adrannau 26(5) a 70 o'r Ddeddf.
[9] Adran 26(4) o'r Ddeddf
[10] Ceir canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[11] Adran 87(3)(c) o'r Ddeddf.
[12] Adran 87(3)(d) o'r Ddeddf.

17.10 Os gwneir cais i'r awdurdod lleol yn Lloegr wneud asesiad Addysg, Iechyd a Gofal a bod yr awdurdod hwnnw'n hysbysu'r awdurdod lleol yng Nghymru nad yw'n ofynnol iddo sicrhau cynllun Addysg, Iechyd a Gofal, **rhaid**[13] i'r awdurdod lleol yng Nghymru fynd ati wedyn i naill ai lunio CDU a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal, neu gyfarwyddo'r ysgol i lunio a chynnal CDU.

17.11 Os bydd awdurdod lleol yn llunio CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ni all ddisgrifio darpariaeth arall ynddo (hynny yw, lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall, neu fwyd a llety)[14].

## *Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o CDUau ysgolion a gynhelir*

17.12 Os yw ysgol yn cynnal CDU ar gyfer disgybl, **caiff**[15] y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, neu'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n cynnal yr ysgol yn achos plentyn neu berson ifanc sydd mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr, ailystyried y cynllun gyda golwg ar ei ddiwygio. **Rhaid**[16] i'r awdurdod lleol fynd ati wedyn i ailystyried y CDU a phenderfynu p'un a ddylid diwygio'r cynllun ai peidio, oni bai bod yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) bod yr awdurdod lleol eisoes wedi ailystyried y CDU ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw, ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw; neu

(b) bod y cais yn ymwneud â phlentyn sydd bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru[17] (ac eithrio lle mae'r plentyn o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr[18]) neu blentyn neu berson ifanc sydd bellach yn ddarostyngedig i orchymyn cadw[19].

17.13 Mae hyn yn galluogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc i herio cynnwys y CDU a roddwyd yn ei le ar eu cyfer gan yr ysgol.

17.14 Lle gwneir cais o'r fath, **rhaid**[20] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r ysgol a gwahodd yr ysgol i roi ei sylwadau cyn penderfynu a ddylid diwygio'r CDU.

17.15 **Rhaid**[21] i'r awdurdod lleol hefyd ystyried pa wybodaeth bellach sydd ei

---

[13] Adran 87(3)(e) o'r Ddeddf.
[14] Adran 87(3)(f) o'r Ddeddf.
[15] Adran 27(1) a 87(2) o'r Ddeddf
[16] Adrannau 27(2), 29, 44(1)-(2) ac 87(2) o'r Ddeddf ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.
[17] Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol sy'n gofalu am blant sy'n blant sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf, i gynnal y CDU: adran 35(9)-(10) o'r Ddeddf.
[18] adran 87(2)(c) o'r Ddeddf.
[19] Adran 44(1)-(2) o'r Ddeddf yn achos person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, fel arall, adran 562 o Ddeddf Addysg 1996. Gweler Pennod 22 pan fo person sydd â CDU yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.
[20] Adran 27(3) o'r Ddeddf.
[21] Gofyniad a orfodir gan y Cod ac sy'n debygol o fod yn ofynnol, mewn perthynas â'r plentyn, ei riant neu'r person ifanc, i roi effaith i ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 6 o'r Ddeddf (cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc).

hangen gan unrhyw ffynhonnell arall, gan gynnwys y plentyn, ei rieni neu'r person ifanc, i lywio ei ailystyriaeth.

17.16 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu peidio â diwygio'r CDU, **rhaid**[22] iddo hysbysu'r disgybl, a hefyd y rhiant y disgybl os yw'r disgybl yn blentyn, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto a rhoi copi o'r hysbysiad[23] hwnnw i'r ysgol.

17.17 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod angen diwygio'r CDU, **rhaid**[24] i'r awdurdod lleol lunio cynllun diwygiedig a naill ai:

(a) cyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal; neu
(b) gymryd drosodd y cyfrifoldeb am ei gynnal[25] (gweler paragraffau 17.24 i 17.35).

Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r cynllun diwygiedig i'r disgybl, a hefyd rhiant y disgybl os yw'r disgybl yn blentyn, a'r ysgol[26].

17.18 Fodd bynnag, os yw disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ni all yr awdurdod lleol yng Nghymru gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU, ac felly **rhaid**[27] iddo lunio CDU diwygiedig a chyfarwyddo'r ysgol i'w gynnal.

17.19 Ym mhob achos, pan fydd awdurdod lleol yn rhoi hysbysiad[28] o'i benderfyniad i beidio â diwygio CDU neu'n rhoi copi o'r CDU diwygiedig i'r disgybl, a hefyd rhiant y disgybl os yw'r disgybl yn blentyn, **rhaid**[29] iddo hefyd roi'r canlynol iddynt:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[30]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[31] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[32]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg ynghylch agweddau penodol ar y CDU.

17.20 **Rhaid**[33] i'r awdurdod lleol fynd ati i ailystyried a chwblhau'r camau gweithredu ym mharagraff 17.16 (os yw'n penderfynu peidio â diwygio'r CDU) neu ym

[22] Adran 27(4) a (5) o'r Ddeddf.
[23] Ceir canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[24] Adran 27(6) o'r Ddeddf.
[25] Mae ganddo'r pŵer i wneud hynny o dan adran 28(6) o'r Ddeddf.
[26] Adrannau 23(11) a 27(7) o'r Ddeddf.
[27] Adran 87(2)(e) o'r Ddeddf.
[28] Ceir canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[29] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[30] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[31] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[32] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[33] Gofyniad o ran amserlen a orfodir gan y Cod.

mharagraff 17.17 (os yw'n penderfynu diwygio'r CDU), yn brydlon ac yn sicr o fewn y cyfnod o 7 wythnos ar ôl derbyn y cais i ailystyried. Ond nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad[34] neu gopi o'r CDU diwygiedig o fewn y cyfnod 7 wythnos yn berthnasol os yw'n anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

17.21 Wrth ailystyried y CDU, **rhaid**[35] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylid cyflwyno DDdY i'r disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg ac, os yw'n penderfynu bod angen darpariaeth benodol yn Gymraeg, **rhaid**[36] i'r corff nodi hynny yn y CDU (oni bai bod y cynllun eisoes yn darparu ar gyfer hyn).

17.22 Os nad yw'r awdurdod lleol yn cynnal yr ysgol, **rhaid**[37] iddo ymgynghori â'r awdurdod sy'n cynnal yr ysgol am ei fwriad i gyfarwyddo'r ysgol cyn y gall wneud hynny. Yn achos disgyblion sydd o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, **dylai'r** awdurdod lleol gyfarwyddo ysgol a gynhelir i gynnal y CDU dim ond os yw'n ystyried bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY sy'n galw am DDdY y byddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau[38]. Lle na fyddai hyn yn rhesymol, **dylai'r** awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

17.23 Os yw'r awdurdod lleol yn disgrifio lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall a/neu fwyd a llety yn y CDU, bydd angen i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun[39] (gweler paragraffau 17.24 i 17.35).

## _Awdurdod lleol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU_

17.24 **Caiff**[40] ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach, y plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU sydd eisoes yn cael ei gynnal ar ei gyfer gan yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach. Ni ellir gwneud cais o'r fath os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr[41].

17.25 Gall ysgol neu sefydliad addysg bellach wneud cais i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal CDU os, er enghraifft, yw'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn credu na fyddai'n rhesymol bellach iddynt sicrhau'r DDdY i ddiwallu ADY plentyn neu berson ifanc. Cyn gwneud hynny, **dylai'r** ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg i gadarnhau bod hyn yn briodol.

[34] Ceir canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[35] Adran 14(5) o'r Ddeddf.
[36] Adran 14(5) o'r Ddeddf.
[37] Adran 38 o'r Ddeddf.
[38] Ceir canllawiau ym Mhennod 9 ar bryd y gallai fod yn rhesymol i ysgol sicrhau DDdY.
[39] O dan adrannau 27(6)(b) a 28(6) o'r Ddeddf.
[40] Adran 28(1) o'r Ddeddf.
[41] O dan adran 28(1) o'r Ddeddf, gellir ond gwneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ac nid yw hyn yn cael ei addasu gan adran 87.

17.26 Gall plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU os nad ydynt yn credu bod yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn gallu diwallu eu hanghenion yn llawn, neu os ydynt yn credu bod angen rhagor o DDdY arnynt, neu ddarpariaeth amgen, na all yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ei darparu (ac felly mae'r cais yn debygol o gynnwys cais i'r awdurdod lleol ailystyried y CDU).

17.27 Os yw ysgol neu sefydliad addysg bellach wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU, **rhaid**[42] iddo anfon copi o'r CDU ar yr un pryd ag y mae'n gwneud y cais. Ym mhob achos arall, **rhaid**[43] i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach anfon copi o'r CDU yn brydlon pan fydd yr awdurdod lleol yn gofyn iddynt wneud hynny.

17.28 Yn dilyn cais o'r fath, **rhaid**[44] i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU oni bai bod y naill neu'r llall o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

(a) bod yr awdurdod lleol eisoes wedi gwneud penderfyniad o'r fath mewn perthynas â chynllun y plentyn neu'r person ifanc ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad blaenorol ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd a fyddai'n cael effaith berthnasol ar y penderfyniad hwnnw; neu
(b) bod y cais yn ymwneud â phlentyn sydd bellach yn derbyn gofal gan awdurdod lleol[45] neu blentyn neu berson ifanc sydd bellach yn ddarostyngedig i orchymyn cadw[46].

17.29 Cyn gwneud penderfyniad, **rhaid**[47] i'r awdurdod lleol:

(a) hysbysu'r plentyn a'i riant, neu'r person ifanc, am y cais a gwahodd sylwadau (os mai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach sydd wedi gwneud y cais);
(b) hysbysu'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach a gwahodd sylwadau (os mai'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc sydd wedi gwneud y cais).

17.30 **Rhaid**[48] i'r awdurdod lleol ymgynghori â seicolegydd addysg hefyd cyn gwneud penderfyniad. **Dylai'r** cyngor hwn ymwneud â:

(a) nodweddion addysgol neu seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn neu'r person ifanc (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol);

[42] Gofyniad i'w orfodi gan reoliadau a wneir o dan adran 82 o'r Ddeddf.
[43] Gofyniad i'w orfodi gan reoliadau a wneir o dan adran 82 o'r Ddeddf.
[44] Adrannau 28(3) a 29.
[45] Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol sy'n gofalu am blant sy'n blant sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf, i gynnal y CDU: adran 35(9)-(10) o'r Ddeddf.
[46] Adran 44(1)-(2) o'r Ddeddf yn achos person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, fel arall, adran 562 o Ddeddf Addysg 1996. Gweler Pennod 22 pan fo person sydd â CDU bellach yn ddarostyngedig i orchymyn cadw.
[47] Adrannau 28(4) a 28(5).
[48] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

(b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn neu'r person ifanc;
(c) y ddarpariaeth a allai fod yn briodol i'r plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny, boed yn DDdY neu'n ddarpariaeth arall.

17.31 Yn ogystal, **caiff**[49] awdurdod lleol benderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun os yw'n penderfynu y dylai cynllun gael ei ddiwygio (gweler paragraffau 17.24 i 17.35)[50].

17.32 **Rhaid**[51] i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, a'r rhiant yn achos plentyn, a'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach (pa un bynnag sy'n berthnasol) am y penderfyniad (gan gynnwys penderfyniad i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU yn dilyn ailystyriaeth yn hytrach na chais i gymryd y cyfrifoldeb amdano) a'r rhesymau drosto.

17.33 **Dylai'r** awdurdod lleol weithredu'n brydlon er mwyn penderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU a rhoi'r hysbysiad[52] y cyfeirir ato ym mharagraff 17.19. **Dylai** wneud hyn o fewn cyfnod o 7 wythnos ar ôl derbyn y cais i gymryd y cyfrifoldeb am y CDU oni bai ei fod yn anymarferol i'r awdurdod lleol wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

17.34 Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun, o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad[53] y cyfeirir ato ym mharagraff 17.32, nid yw'n ofynnol i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach gynnal y cynllun bellach[54]. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb, **dylai'r** ysgol neu'r sefydliad addysg bellach ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r awdurdod lleol.

17.35 Os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb yn dilyn cais i wneud hynny, **caiff**[55] y plentyn, ei riant, neu'r person ifanc apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Tribiwnlys Addysg.

[49] Adran 28(6) o'r Ddeddf.
[50] Adran 28(6) o'r Ddeddf.
[51] Adran 28(7) o'r Ddeddf.
[52] Ceir canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[53] Ceir canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[54] Adran 28(8) o'r Ddeddf.
[55] Adran 70 o'r Ddeddf.

# Pennod 18: Cyfarfodydd am ADY a CDUau

## *Cyflwyniad*

18.1 Drwy gydol y cyfnod y bydd gan blentyn neu berson ifanc CDU, mae'n debygol y bydd yna gyfarfodydd niferus i sicrhau bod y CDU yn parhau i fod yn berthnasol. P'un a yw'r rhain yn gyfarfodydd adolygu blynyddol ffurfiol neu'n sgyrsiau byrrach am DDdY y plentyn neu'r person ifanc, mae'n bwysig dilyn rhai egwyddorion. Bydd hyn yn helpu i safoni'r cyfarfodydd a'u fformat er mwyn sicrhau disgwyliadau rhesymol gan bawb, gan ganiatáu ar yr un pryd yr hyblygrwydd i bob cyfarfod fod yn berthnasol i blentyn neu berson ifanc a'i ADY.

18.2 Gall y cyfarfodydd wahaniaethu, felly, o ran eu hyd a pha mor aml y cânt eu cynnal, a'r cydlynydd fydd yn penderfynu ar yr amseru a nifer y cyfarfodydd, gan ymgynghori â'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc.

## *Egwyddorion arfer da ar gyfer pob cyfarfod ADY*

18.3 Fel y disgrifir ym Mhennod 3, mae yna ddyletswydd gyffredinol i gynnwys plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a llunio CDUau. Mae hyn yn wir hefyd am gyfarfodydd adolygu CDU a chyfarfodydd ADY eraill llai ffurfiol. Rhoi’r lle canolog i'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses o geisio adnabod ei ADY a phenderfynu ar ei DDdY yw un o egwyddorion sylfaenol y system ADY (gweler Pennod 2).

18.4 I gyflawni'r ddyletswydd hon, **dylai'r** cydlynydd drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel rheol, gyda'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, er mwyn trafod a phenderfynu ar anghenion y person a, lle y penderfynir bod gan y person ADY, er mwyn trafod gweddill cynnwys y CDU. **Dylai'r** cydlynydd hefyd:

- redeg y cyfarfod(ydd) mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person dan sylw;
- casglu a chyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person dan sylw.

18.5 Gallai defnyddio penawdau sydd wedi'u teilwra i'r unigolyn fod o fudd er mwyn strwythuro'r broses o gasglu a chyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys ar gyfer y rheini sy'n cyflwyno cyfraniadau ysgrifenedig cyn cyfarfod:

- Beth rydych chi'n ei hoffi, yn ei edmygu neu'n ei werthfawrogi fwyaf am y dysgwr?
- Beth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf? *(os yw'n briodol)*

- Yn eich barn chi, ac o'ch safbwynt chi, beth yw dyheadau'r dysgwr ar gyfer y dyfodol?
- Yn eich barn chi, beth sydd bwysicaf ym mywyd y dysgwr ar hyn o bryd?
- Yn eich barn chi, beth sy'n bwysig i'r dysgwr i'w helpu i ddatblygu a gwneud cynnydd?
- Beth mae angen i bobl eraill ei wybod neu ei wneud er mwyn helpu'r dysgwr?
- Beth sy'n gweithio'n dda o'ch safbwynt chi ar hyn o bryd?
- Beth sydd ddim yn gweithio cystal o'ch safbwynt chi ar hyn o bryd?
- Oes gennych chi gwestiynau yr hoffech eu gofyn?

18.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau canllaw ar ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac maent ar gael ar-lein[1].

18.7 I rai plant neu bobl ifanc, gallai'r cyfarfod(ydd) fod yn fach iawn. Er enghraifft, i blentyn o dan 16 oed nad yw ei anghenion yn ddwys nac yn gymhleth, efallai mai dim ond y plentyn, ei riant/rieni a rhywun o'r ysgol fydd yno. Gallai cyfarfod i berson ifanc gynnwys y person ifanc, rhywun o'r sefydliad addysg bellach ac efallai berson arall, ee rhiant, y mae'r person ifanc wedi gwneud cais am iddo gael dod.

18.8 Fel y nodwyd yn yr adran ar weithio amlasiantaethol ym Mhennod 7, mae gan lawer o asiantaethau, gweithwyr proffesiynol ac unigolion rôl i'w chwarae o ran adnabod ADY a DDdY ac adolygu CDU. **Dylai** asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill gael eu gwahodd i gyfarfodydd neu i roi cyngor os yw eu cyfraniad yn debygol o fod yn berthnasol i'r penderfyniad neu i'r CDU sy'n cael ei lunio neu ei adolygu. **Dylai** gwahoddiadau o'r fath fod yn ysgrifenedig a dylid eu rhoi cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi digon o rybudd i bobl allu dod neu ddarparu cyngor ysgrifenedig. Pan gânt eu gwahodd i gyfrannu, **dylai** asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gael gwybod beth yw fformat arfaethedig y cyfarfod, neu beth yw'r fformat gofynnol ar gyfer cyfraniadau ysgrifenedig.

18.9 **Dylai** ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ystyried pa dystiolaeth neu gyngor y mae angen iddo geisio ei gael cyn y cyfarfod ac ystyried pwy arall ddylai ddod i'r cyfarfod.

18.10 Os bydd awdurdod lleol[2], at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, yn gwneud cais am wybodaeth neu gymorth oddi wrth gyrff penodol,

---

[1] Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?skip=1&lang=cy
Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion: offeryn hunanasesu a chamau ymarferol ar gyfer cynnydd http://learning.gov.wales/resources/browse-all/developing-as-a-person-centred-organisation/?skip=1&lang=cy-_
Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?skip=1&lang=cy
[2] Yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am y plentyn neu’r person ifanc (hy yr awdurdod lleol y mae’r person o fewn ei ardal) (adran 99(4) o’r Ddeddf). Gweler Pennod 1 i gael gwybod mwy am ystyr ‘yn ardal’.

**rhaid**[3] iddynt gydymffurfio â'r cais hwnnw oni bai y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â dyletswyddau'r cyrff eu hunain neu y byddai'n effeithio'n andwyol ar gyflawni ei swyddogaethau - gweler Pennod 15 i gael gwybod mwy.

18.11 Os gwneir cais iddynt fynd i gyfarfodydd neu gyfrannu gwybodaeth berthnasol i'r broses o benderfynu ynghylch ADY plentyn neu berson ifanc a'r gwaith pellach o lunio neu adolygu CDU, **dylai** asiantaethau a gweithwyr proffesiynol wneud eu gorau glas i wneud hynny. Fodd bynnag, efallai na fydd pob gweithiwr proffesiynol yn gallu mynd i bob cyfarfod; **dylai'r** cydlynydd o fewn y corff cyfrifol esbonio hyn i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc. Gallai fod o gymorth, felly, wrth wahodd gweithwyr proffesiynol perthnasol, nodi'r flaenoriaeth a roddir i'w presenoldeb. Bydd cyswllt â'r gwahanol bartïon dros gyfnod ac ymhell cyn y cyfarfod yn helpu gweithwyr proffesiynol i benderfynu a yw'n briodol eu bod yn dod, a bydd hefyd yn rhoi digon o rybudd iddynt. Os na all asiantaethau neu weithwyr proffesiynol ddod, **dylent** ddarparu unrhyw gyngor a thystiolaeth ofynnol cyn y cyfarfod, yn ysgrifenedig.

18.12 Os bydd gweithwyr proffesiynol wedi darparu cyngor cyn y cyfarfod, **dylid** anfon hwn at y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc hefyd er mwyn caniatáu iddo fod yn rhan lawn o'r drafodaeth. Yn dilyn cyfarfod, os bydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn dymuno trafod rhywbeth yn adroddiadau'r gweithwyr proffesiynol sy'n peri pryder, yn gyntaf **dylai** ei godi gyda'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU.

18.13 **Dylai'r** cydlynydd hefyd wahodd adborth a sylwadau gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc cyn y cyfarfod; gellir anfon adborth a sylwadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod neu gellir eu trafod yn ystod y cyfarfod.

18.14 Os bydd plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc am gymryd rhan yn y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yn rhaid i'r corff sy'n llunio'r CDU gydymffurfio â'r rhwymedigaethau perthnasol o ran y Gymraeg.[4]

18.15 **Dylid** esbonio unrhyw benderfyniad a wneir i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, ac yn enwedig felly pan fydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc o farn wahanol.

## *Fformat y cyfarfodydd*

18.16 Dylai fformat pob cyfarfod ADY fod yn debyg er mwyn sicrhau cysondeb ac y dilynir y ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc[5]. Mae hyn yn golygu ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant

[3] Adran 65(2) o'r Ddeddf.
[4] O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a safonau a hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Er enghraifft, gweler Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) a'r hysbysiadau cydymffurfio cysylltiedig a weinyddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Awdurdodau Lleol o ran y safonau unigol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol, ee mewn perthynas â gohebiaeth a chyfarfodydd.
[5] Er mwyn cydymffurfio ag adran 6 o'r Ddeddf - gweler Pennod 3 hefyd.

y plentyn, neu'r person ifanc, pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor lawn â phosibl yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â'r swyddogaeth dan sylw, a phwysigrwydd sicrhau bod y plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth sy’n ofynnol er mwyn gallu bod yn rhan o'r penderfyniadau hynny. Mae mwy o wybodaeth am gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc ym Mhennod 3.

18.17 Gan amlaf, yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei fynychu yw'r lleoliad mwyaf addas i gael cyfarfod. Weithiau, bydd yn fwy priodol i'r cyfarfodydd gael eu cynnal mewn lleoliad arall, ee canolfan blant, ysbyty, cartref y plentyn neu'r person ifanc neu swyddfeydd yr awdurdod lleol.

18.18 Fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am lunio'r CDU, fel rheol mae'n briodol i'r cydlynydd drefnu cyfarfodydd. Bydd hyn yn help i sicrhau cysondeb fformat y cyfarfodydd a chyda'r trefniadau amlasiantaethol gofynnol.

18.19 Y cydlynydd hefyd fyddai'r person priodol i arwain y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd, oherwydd ei brofiad o weithio'n agos gyda'r plentyn neu'r person ifanc, a bod ganddo ddealltwriaeth dda neu wybodaeth o ran ei gynnydd a'i ddatblygiad. Bydd hyn yn meithrin mwy o hyder ar ran y plentyn, rhiant y plentyn, a'r person ifanc.

## *Cyfarfodydd i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY ac, os oes gofyn, llunio CDU*

18.20 Pan drefnir cyfarfod i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, ac ADY yn cael ei adnabod, fel rheol bydd llunio'r CDU ar unwaith yn dilyn y penderfyniad hwnnw o gymorth. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r rheini sy'n dod i'r cyfarfod roi eu barn ar gynnwys y CDU heb oedi diangen. Gweler Pennod 7 i gael mwy o fanylion am adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol; a Phenodau 8-12 am y dyletswyddau mewn perthynas â llunio a chynnal CDUau i blant a phobl ifanc.

18.21 Efallai y bydd y cydlynydd am ystyried cynnig cyfarfod cychwynnol i drafod proses CDU a'r hyn y bydd y penderfyniad bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY yn ei olygu. Gallai hyn helpu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i gymryd rhan yn y broses, yn enwedig lle gallai fod angen esbonio'r broses hon yn bersonol yn ogystal â rhoi hysbysiad ffurfiol[6].

## *Cyfarfodydd i adolygu a diwygio CDU*

18.22 Os cynhelir cyfarfod i adolygu CDU, **dylai** cydlynydd y corff sy'n gyfrifol am gynnal y CDU wahodd yr holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol hynny y mae'n ystyried eu bod yn ofynnol er mwyn cynnal adolygiad effeithiol, gan

[6] Mae canllawiau pellach ar roi hysbysiad neu ddogfennau ym Mhennod 1.

gynnwys y rheini sydd eisoes ynghlwm wrth ddarpariaeth y CDU. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, dim ond os yw eu cyfraniad yn debygol o fod yn ddefnyddiol wrth adnabod neu gyflwyno DDdY y plentyn neu'r person ifanc yn y dyfodol y mae angen eu gwahodd, neu os yw eu cyngor yn debygol o newid dros amser. Mae'n bosibl, felly, na fydd cyfarfodydd yn cynnwys pawb a oedd yn rhan o'r gwaith o lunio'r CDU gwreiddiol bob amser.

18.23 **Dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU nodi a fydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar drosglwyddo a/neu baratoi'r plentyn ar gyfer byd oedolion (gweler Pennod 16). Os na fydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gamau fel gadael yr ysgol neu baratoi'r plentyn ar gyfer byd oedolion, gellid cynnwys gweithwyr proffesiynol gwahanol, ee arbenigwyr gyrfaoedd.

18.24 Cyn cyfarfod adolygu, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDU ddarparu adroddiad i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ar ei gynnydd.

18.25 Y prif wahaniaeth rhwng cyfarfod adolygu a'r cyfarfod gwreiddiol i benderfynu ar yr ADY ac, os oes angen, i lunio CDU, yw y bydd angen i'r rheini sy'n cyfrannu at yr adolygiad ystyried a yw'r DDdY a gyflwynwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad wedi arwain at gyflawni'r deilliannau a nodir yn y CDU.

18.26 Ni ddylai fod angen ailadrodd nac ailystyried gwybodaeth gefndirol neu dystiolaeth oni bai bod newid wedi bod. Os felly, gellir nodi'r newid yn y CDU yn ddigon hawdd.

18.27 **Dylai'r** cyfarfodydd adolygu:

- gasglu a dadansoddi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas ag ADY y plentyn neu'r person ifanc;
- ystyried a yw'r disgrifiad o ADY sydd yn y CDU yn dal yn gywir yng ngoleuni unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd;
- ymchwilio i p'un a yw'r deilliannau a nodir yn y CDU yn dal yn addas ac a fyddai'n briodol pennu deilliannau newydd a/neu dargedau interim, a diweddaru'r CDU i adlewyrchu hyn;
- ystyried a yw'r DDdY a nodir yn y CDU yn dal i fod yn addas yng ngoleuni cynnydd y plentyn neu'r person ifanc o ran y deilliannau ac unrhyw dargedau interim cysylltiedig;
- asesu a oes angen DDdY bellach;
- holi pob gweithiwr proffesiynol perthnasol am gyngor.

18.28 Er mwyn helpu i werthuso ac asesu DDdY y plentyn neu'r person ifanc, mae monitro'r effaith yn ddefnyddiol. Gall targedau tymor byrrach ddangos a yw DDdY yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, neu p'un a yw DDdY benodol yn ofynnol bellach a/neu'n cyflawni'r effaith a ddymunir.

## *Cydlynu cyfarfodydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â mwy nag un cynllun*

18.29 Gall ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol lunio, adolygu neu ddiwygio CDU ar yr un pryd ag y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol, neu gorff arall, yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall ar gyfer y person dan sylw, a gall gynnwys y ddogfen arall o fewn y CDU[7]. Gall yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gynnwys y ddogfen arall yn y CDU neu fel arall[8].

18.30 Pŵer yw hwn yn hytrach na gofyniad, a gallai fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei wneud mewn perthynas â'r ddogfen arall. Lle bo'n berthnasol, **dylai'r** awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu ystyried a yw'n briodol cydlynu'r ddau fater.

18.31 Yn gyffredinol, er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, **dylai** prosesau CDU gael eu cyd-drefnu, i'r graddau posibl, ag unrhyw brosesau cynllunio neu adolygu eraill y mae'n rhaid eu cynnal mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc. Gallai hyn olygu cael un cyfarfod lle trafodir ADY y plentyn neu'r person ifanc ar yr un pryd ag unrhyw anghenion neu ofynion eraill. Bydd yn ei gwneud yn bosibl cynllunio mewn ffordd integredig ac yn hwyluso dulliau gweithredu cyfannol. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, yn achos cynlluniau gofal a chymorth a wneir o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid oes angen i'r cyrff sy'n gyfrifol am gynnal y gwahanol gynlluniau fod yr un fath.

18.32 Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau nad yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gorfod mynd i gyfres o gyfarfodydd tebyg, a bydd yn lleihau'r angen i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc ailadrodd yr un wybodaeth i wahanol bobl. Dylai hefyd helpu gweithwyr proffesiynol drwy leihau nifer y cyfarfodydd y maent yn gorfod mynd iddynt.

18.33 Os cynhelir adolygiadau ar yr un pryd, bydd angen dilyn gofynion cyfreithiol y ddeddfwriaeth berthnasol. Er y gallai fod yn fuddiol cynnal adolygiadau o wahanol gynlluniau ar yr un pryd, **ni ddylid** gohirio adolygiadau ac asesiadau o anghenion os byddai hynny'n niweidiol i'r plentyn neu'r person ifanc. Efallai y bydd angen adolygu'r cynlluniau ar wahân er mwyn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn y ffordd orau[9].

18.34 Os yw'n bosibl, **dylai** cydlynydd y CDU fynd i bob cyfarfod sy'n ymwneud ag anghenion ehangach y plentyn neu'r person ifanc, fel bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion ehangach y person. Er enghraifft, gallai fod yn briodol i gydlynydd y CDU fynd i gyfarfodydd yn ymwneud â diogelwch plentyn ag ADY yn ogystal â chyfarfod CDU y plentyn.

[7] Adran 25 o'r Ddeddf.
[8] Adran 25 o'r Ddeddf.
[9] Gweler hefyd Bennod 16 mewn perthynas ag adolygiadau o CDUau i blant sy'n derbyn gofal.

# Pennod 19: Cynllunio ar gyfer proses drosglwyddo a'i chefnog

## *Cyflwyniad*

19.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar brosesau trosglwyddo plant a phobl ifanc sydd ag ADY i mewn i leoliadau addysgol, rhwng un lleoliad addysgol a'r llall, ac allan o leoliadau addysgol.

19.2 Dylid darllen y bennod ochr yn ochr â chynnwys y CDU (Pennod 13), sydd ag adran benodol ar drosglwyddo; ac â'r canllawiau ynghylch y dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach (Pennod 12).

19.3 Mae gwybodaeth am drosglwyddo o wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn eu harddegau i wasanaethau iechyd meddwl oedolion i'w gweld mewn canllawiau a ddatblygwyd fel rhan o Raglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc[1]; mae gwybodaeth am drosglwyddo o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion i'w gweld yng nghanllawiau NICE[2]; ac mae gwybodaeth am gefnogi'r broses o drosglwyddo plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol i'w gweld mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru[3].

19.4 Yng nghyd-destun addysg y mae plant a phobl ifanc ag ADY yn mynd drwy gyfnodau trosglwyddo amlaf. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo i un o'r canlynol, rhwng un a'r llall, a throsglwyddo allan ohono wedyn:

- lleoliad cyn-ysgol
- ysgol gynradd
- ysgol uwchradd
- addysg ôl-16
- addysg ôl-19
- lleoliad addysg arbennig a phrif ffrwd.

19.5 Mae trosglwyddo llyfn yn bwysig i bob plentyn a pherson ifanc o ran eu llesiant personol, a'u deilliannau addysgol a chymdeithasol. Mae cysylltiad rhwng prosesau trosglwyddo gwael a deilliannau llai llwyddiannus, er enghraifft gall prosesau trosglwyddo llai llwyddiannus rhwng y cartref a'r ysgol arwain at lefelau presenoldeb gwael ac ymddieithrio; ac mae prosesau

[1] Together for Children and Young People: good transition guidance. A seamless transition from transition from child and adolescent to adult mental health services. Ar gael yn: http://www.goodpractice.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=185&mid=326&fileid=751

[2] NICE (2016) Transition from Children's to Adults' Services for Young People using Health or Social Care Services. Canllaw NICE: fersiwn lawn. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng43/evidence/full-guideline-pdf-2360240173

[3] Llywodraeth Cymru (2017) Gwneud Gwahaniaeth: canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion. Ar gael yn: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/171123-making-a-difference-looked-after-children-cy.pdf

trosglwyddo llai llwyddiannus rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn gysylltiedig â lefelau uwch o ran gorbryder ac iselder.

19.6 Er bod cyfnodau trosglwyddo yn gallu bod yn gyffrous ac yn gadarnhaol, gallant fod yn fwy heriol i rai plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini ag ADY, nag i'w cyfoedion, ac felly gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

19.7 Mae angen cynllunio a chydlynu prosesau trosglwyddo yn gynnar er mwyn ei wneud yn brofiad cadarnhaol i blant a phobl ifanc sydd ag ADY. **Dylai** cynllunio trosglwyddo fod yn broses barhaus yn hytrach nag yn un digwyddiad, a dylid ei deilwra yn ôl anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

19.8 Er y bydd gan bob plentyn neu berson ifanc ofynion cymorth penodol, **dylai** pob cynllun trosglwyddo ganolbwyntio ar gyflawni eu gobeithion, eu dyheadau a'u potensial fel unigolion i sicrhau'r cyfleoedd gorau mewn bywyd, y dewisiadau gorau a'r annibyniaeth fwyaf, gyda'r nod o sicrhau gwell deilliannau ar eu cyfer.

## _Cynllunio ar gyfer trosglwyddo_

19.9 Fel y nodwyd yn y drafodaeth am egwyddorion y Cod (gweler Pennod 2), er mwyn sicrhau prosesau trosglwyddo llyfn a pharhad yn y cymorth a roddir i blentyn neu berson ifanc wrth symud i gyfnod addysg, lleoliad neu wasanaeth newydd, wrth symud rhwng un a'r llall neu wrth symud allan o gyfnod addysg, lleoliad neu wasanaeth, **dylai** cyrff perthnasol sydd â chyfrifoldebau o ran llunio, ailystyried a chynnal CDUau gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn ymhell ymlaen llaw.

19.10 Os oes angen sawl asiantaeth i helpu plant a phobl ifanc i drosglwyddo i'r cyfnod nesaf, **dylai'r** asiantaethau dan sylw gydweithio i ddarparu cymorth integredig personol sy'n sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer yr ystod oedran cyfan, o'r plant lleiaf i oedran oedolion, gan dynnu ynghyd gymorth asiantaethau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau perthnasol eraill.

19.11 Ni ddylid disgwyl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd orfod darparu'r un wybodaeth drosodd a throsodd i nifer o wasanaethau, na mynd i nifer o adolygiadau, na derbyn cymorth nad yw wedi'i gydlynu na'i gydgysylltu. Un person, felly, **ddylai** fod yn gyfrifol am gydlynu proses drosglwyddo benodol, gan gynnwys y cyfrifoldeb am rannu gwybodaeth ar draws sefydliadau ac am sicrhau bod y cynllun ar gyfer trosglwyddo'r plentyn neu'r person ifanc i'r cyfnod nesaf yn cael ei weithredu. Weithiau, caiff y rôl hon ei chyflawni gan weithiwr trosglwyddo allweddol[4]. Gallai'r person dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith o lunio'r CDU ei chyflawni (gweler Penodau 8 i 12 i gael gwybod mwy am rôl y cydlynydd dynodedig ar gyfer CDUau).

[4] Mae gwaith ymchwil ar gostau a manteision gweithwyr trosglwyddo allweddol i helpu pobl ifanc i drosglwyddo i fyd oedolion ar gael yn: https://gov.wales/docs/caecd/research/130125-costs-benefits-transition-key-working-en.pdf

## Gwybodaeth i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo i gyfnod newydd

19.12 **Rhaid**[5] i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY i bobl. **Dylai** ysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir sy'n cael cyllid awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i rieni'r plant sy'n mynychu eu lleoliad beth yw'r trefniadau. **Dylai** hyn gynnwys gwybodaeth am y trefniadau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n agosáu at gyfnod trosglwyddo.

## Amseru

19.13 Mae cynllunio ar gyfer trosglwyddo yn broses barhaus, yn enwedig pan fydd plant a phobl ifanc yn trosglwyddo o fewn lleoliad addysg, ee i'r flwyddyn nesaf yn yr ysgol neu o fewn addysg bellach.

19.14 **Dylai** cynllunio prosesau trosglwyddo fod yn rhywbeth sy'n digwydd unwaith y flwyddyn o leiaf. Disgwylir y bydd prosesau trosglwyddo yn cael eu cynllunio ar yr un pryd ag adolygu'r CDU ac, felly, dylid ystyried y trefniadau ar gyfer adolygu'r CDU.

19.15 Bydd angen cynllunio proses drosglwyddo mewn da bryd er mwyn sicrhau ei bod yn llyfn. Bydd pa mor bell ymlaen llaw i ddechrau'r gwaith cynllunio yn dibynnu ar y math o drosglwyddo sydd dan sylw.

19.16 Mae trosglwyddo i mewn ac allan o gyfnodau addysg neu leoliadau penodol yn debygol o alw am fwy o gynllunio na throsglwyddo o fewn cyfnodau neu leoliadau. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo:

- i addysg feithrin
- i addysg orfodol (Blwyddyn 1)
- o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2 (o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3)
- o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 (Blwyddyn 9 i 10)
- i addysg ôl-16 (Blwyddyn 11 i 12)
- o addysg orfodol i fyw'n annibynnol.

19.17 Ymhlith y cyfnodau trosglwyddo allweddol i bobl ifanc mae:

- addysg ôl-16 i addysg ôl-19
- addysg i fyw'n annibynnol.

19.18 Bydd angen i'r gwaith cynllunio ar gyfer y cyfnodau trosglwyddo a nodwyd ym mharagraff 19.16 uchod ddechrau ymhell cyn y trosglwyddo ei hun. Mewn rhai achosion, er enghraifft wrth symud i addysg bellach neu fyw'n annibynnol, bydd angen i'r cynllunio ddechrau o leiaf ddwy flynedd cyn y broses drosglwyddo.

19.19 Ar adegau, bydd y trosglwyddo yn annisgwyl. Ni fydd modd cynllunio ar gyfer yr achosion hynny. Mewn sefyllfa felly, **dylid** trefnu adolygiad o'r CDU cyn

[5] Adran 9(1) o'r Ddeddf.

gynted â phosibl ar ôl i'r newid mewn amgylchiadau ddod i'r amlwg er mwyn cytuno ar y trefniadau trosglwyddo. Ar yr un pryd, **dylid** ystyried a yw'r DDdY yn dal i fod yn briodol.

19.20 Mewn achosion lle mae plentyn yn bwriadu trosglwyddo o addysg orfodol i leoliad ôl-16 nas cynhelir (naill ai ysgol nas cynhelir neu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol), **rhaid**[6] i'r awdurdod lleol benderfynu, ar sail anghenion rhesymol y plentyn ac yn unol â'r rheoliadau, p'un a oes angen i'r awdurdod lleol gynnal y cynllun er mwyn diwallu ei anghenion unwaith y bydd y plentyn yn tyfu'n berson ifanc (gweler pennod 12 i gael gwybod mwy). Dylid gwneud y penderfyniad hwn ar ddechrau blwyddyn olaf addysg orfodol wrth adolygu'r CDU, a dylid adolygu'r penderfyniad pan fydd amgylchiadau yn newid.

### Pwy sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio proses drosglwyddo

19.21 Yn gyffredinol, bydd y gwaith o gynllunio proses drosglwyddo yn digwydd pan fydd CDU yn cael ei lunio neu ei adolygu. Bydd cynllunio proses drosglwyddo, felly, yn cynnwys y rheini sy'n rhan gyffredinol o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno DDdY gyfredol y plentyn neu'r person ifanc, ynghyd â'r rheini sy'n ymwneud yn benodol â'r broses drosglwyddo a gynllunnir. Gallai hyn gynnwys y lleoliad neu'r gwasanaethau y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn symud iddynt.

19.22 Fel y mae pennod 18 yn ei nodi, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y CDU gynnwys yn y broses adolygu yr holl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol hynny y mae eu hangen, yn eu barn nhw, er mwyn cynnal adolygiad effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc bob amser. Gallai hefyd gynnwys cyfaill achos, cynrychiolydd, neu eiriolwr lle bo'n briodol (gweler pennod 27 i gael gwybodaeth am gyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd a chynrychiolwyr pobl ifanc a rhieni nad oes ganddynt alluedd meddyliol, a phennod 25 mewn perthynas ag eiriolaeth). Os caiff cyfarfod ei gynllunio i adolygu CDU, **dylid** gwahodd unrhyw asiantaethau neu weithwyr proffesiynol sydd eisoes ynghlwm wrth gyflwyno darpariaeth y CDU i'r cyfarfod (gweler pennod 18 am drafodaeth bellach am gynnal cyfarfodydd CDU).

19.23 Bydd penderfynu pa asiantaethau a sefydliadau y dylid eu cynnwys mewn trefniadau cynllunio trosglwyddo yn dibynnu ar y broses drosglwyddo dan sylw. **Dylid** cynnwys y sefydliad neu'r gwasanaeth y mae'r unigolyn yn paratoi i fynd iddo bob amser.

### Cofnodi trefniadau trosglwyddo

19.24 **Dylid** cofnodi'r trefniadau trosglwyddo y cytunwyd arnynt yn adran drosglwyddo'r CDU (gweler pennod 13 ar gynnwys CDU ac Atodiad A i gael ffurflen orfodol y CDU).

[6] Adran 14 o'r Ddeddf.

## *Cefnogi trosglwyddo*

19.25 Mae'r adran hon yn trafod cefnogi plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo i leoliadau addysg, rhwng un lleoliad a'r llall, ac allan o leoliadau.

### Trosglwyddo i leoliad addysg am y tro cyntaf

19.26 Mae trosglwyddo i leoliad addysg am y tro cyntaf - er enghraifft, addysg feithrin neu flwyddyn gyntaf addysg orfodol - boed o'r cartref neu o leoliad gofal plant, yn gallu bod yn brofiad anodd i bob plentyn bach. Gall fod yn arbennig o anodd i blant ag ADY, ac i'w rhieni sydd efallai yn poeni am y trefniadau a wneir ar gyfer y plentyn, sut y bydd eu plentyn yn setlo, ac a yw natur anghenion eu plentyn yn cael eu deall yn llawn.

19.27 Mae cynllunio ar gyfer trosglwyddo yn gyfle i blant a rhieni godi unrhyw bryderon; ac i rieni drafod gyda gweithwyr proffesiynol y ffordd orau o gefnogi eu plentyn er mwyn sicrhau proses ddidrafferth wrth drosglwyddo i addysg feithrin a gofalu bod y plentyn yn cael cymorth i gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r lleoliad.

19.28 **Dylai'r** broses o gynllunio trosglwyddo plentyn i leoliad addysg newydd ganiatáu digon o amser i sefydlu'r DDdY cyn i'r plentyn gyrraedd.

19.29 Efallai y bydd angen i blant ag ADY gael mwy o gyfleoedd i ymweld â'r lleoliad ymlaen llaw na'u cyfoedion er mwyn dod i nabod y staff. Dylid caniatáu digon o amser, felly, wrth gynllunio proses drosglwyddo er mwyn i'r plentyn allu ymgyfarwyddo â'r lleoliad cyn dechrau mynychu.

19.30 I lawer o blant ag ADY, bydd trefniadau cyffredinol y lleoliad i gefnogi plant sy'n trosglwyddo i leoliad addysg am y tro cyntaf yn ddigonol i leihau unrhyw bryderon ynghylch dechrau addysg. Fodd bynnag, gallai fod angen amser a chymorth ychwanegol ar rai plant ag ADY wrth drosglwyddo i fyd addysg. Bydd y dull a ddefnyddir yn dibynnu ar y plentyn unigol, ond gallai gynnwys gwahodd rhieni i ymweld â'r lleoliad, ymweld â'r plentyn gartref a chynnal asesiad o sut y bydd y lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn, gan gynnwys sgiliau'r staff.

19.31 Mae gwahodd rhieni i ymweld â'r lleoliad yn gyfle i rieni ystyried, ynghyd â chydlynydd CDU y plentyn a/neu'r CADY, sut y gallai'r plentyn ymateb i'r lleoliad: i deganau a gweithgareddau; beth y byddent yn ei fwynhau efallai, beth fyddai'n anodd iddynt efallai, ac a allai fod angen gwneud addasiadau rhesymol.

19.32 Gall ymweld â chartref y plentyn fod yn gyfle i'r rhiant rannu gwybodaeth mewn amgylchedd lle mae ef/hi a'r plentyn yn teimlo'n gyfforddus. O safbwynt y lleoliad, mae ymweld â'r cartref yn gyfle i:

- weld y plentyn yn chwarae yn ei gartref ei hun;
- dysgu o sgiliau neu dechnegau'r rhieni i gefnogi eu plentyn;
- cael syniad o ddymuniadau, safbwyntiau a theimladau'r plentyn a'i rieni;

- cael darlun llawnach o ble mae'r plentyn arni o ran ei ddysgu a'i ddatblygu;
- cael syniad o sut y gallai fod angen i'r lleoliad addasu'r trefniadau i gyfateb ag agweddau ar y cartref.

19.33 Mae ymweliadau â'r cartref yn gyfle hefyd i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i lunio neu adolygu'r CDU.

19.34 Gall pethau cyfarwydd fel llyfrau, lluniau neu hoff wrthrychau cysur helpu i drosglwyddo rhwng y cartref a'r lleoliad. Mae ymweliadau â'r cartref yn gyfle i'r lleoliad nodi'r pethau hynny sy'n bwysig i'r plentyn gartref a allai fod ar gael neu y gellid trefnu eu bod ar gael yn y lleoliad. Mae cael lluniau o'r teulu yn y lleoliad ac o'r lleoliad gartref yn gallu helpu'r plentyn i ymgyfarwyddo a gallant helpu wrth siarad ag ef.

19.35 Os oes gan rieni bryderon am allu'r lleoliad i ddarparu amgylchedd dysgu addas ar gyfer eu plentyn, gallai cynnal asesiad gyda'r rhiant o'r ffordd y bydd y lleoliad yn diwallu anghenion y plentyn fod yn ddefnyddiol i leihau pryderon y rhieni, a gall helpu'r lleoliad i ddeall yn well unrhyw addasiadau y gallai fod angen eu gwneud er mwyn cynnwys y plentyn yn holl weithgareddau'r ysgol. Dylid ystyried sgiliau'r staff hefyd ac a allai fod angen eu hyfforddi - er enghraifft, wrth ddefnyddio systemau cyfathrebu arbennig sy’n defnyddio arwyddion neu symbolau.

**Trosglwyddo o fewn lleoliadau**

19.36 Bydd plant a phobl ifanc yn trosglwyddo nifer o weithiau o fewn lleoliadau addysg. Mae hyn yn cynnwys:

- symud i'r flwyddyn ysgol nesaf - er enghraifft, symud o'r flwyddyn dderbyn i Flwyddyn 1, neu o addysg orfodol i addysg ôl-16;
- symud i gyfnod addysg newydd - er enghraifft, symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

19.37 O ystyried pa mor aml y mae plant a phobl ifanc yn trosglwyddo, disgwylir i'r rhan fwyaf o adolygiadau CDU gynnwys cynllunio trosglwyddo.

19.38 Gallai cynllunio proses drosglwyddo o fewn lleoliad gynnwys ystyried newidiadau sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddo, ac unrhyw effaith y gallai'r rhain ei chael ar y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys newidiadau i:

- y cwricwlwm;
- amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol;
- amseroedd egwyl;
- adeiladau a chyfleusterau - er enghraifft, ystafelloedd dosbarth, toiledau, yr ardal fwyta a'r iard chwarae;
- bod gyda disgyblion neu fyfyrwyr hŷn.

19.39 Yn achos y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ag ADY, disgwylir i'r trefniadau cyffredinol a wneir gan y lleoliad addysg fod yn gefnogaeth ddigonol wrth

drosglwyddo o fewn lleoliad. Gallai hyn gynnwys cymryd rhan mewn sesiynau 'symud i fyny', lle mae plant yn treulio amser gyda'u hathro dosbarth newydd yn eu hystafell ddosbarth newydd.

19.40 I rai plant a phobl ifanc ag ADY, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft:

- treulio amser ychwanegol yn eu hystafell ddosbarth newydd;
- ymweld â'u hystafell ddosbarth newydd gyda'u hathro presennol neu eu gweithiwr cymorth;
- dechrau'r trefniadau trosglwyddo yn gynnar yn y flwyddyn ysgol; neu
- darparu lluniau o'r ystafell ddosbarth newydd y cânt fynd â nhw adref.

**Trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

19.41 Mae symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn gam mawr i bob plentyn. I blant ag ADY, gall fod yn her fwy fyth. Dyma enghreifftiau o broblemau plant ag ADY:

- teithio'n annibynnol i'r ysgol;
- ymgyfarwyddo â'r amserlen ac â'r llyfrau a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer dosbarthiadau penodol;
- dod o hyd i'w ffordd o amgylch yr ysgol;
- cario offer o gwmpas drwy'r dydd, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o'i golli;
- dysgu enwau athrawon a deall eu disgwyliadau a'u harddulliau addysgu;
- meysydd pwnc newydd;
- trefnu gwaith yn annibynnol a rheoli eu hamserlen eu hunain;
- llai o oruchwyliaeth amser egwyl ac amser cinio;
- deall rheolau'r ysgol;
- cwrdd â phlant nad ydynt yn deall eu ADY efallai; neu
- ymdopi â gweithgareddau fel newid i mewn ac allan o'u gwisg ymarfer corff.

19.42 Gall y materion uchod roi pwysau ychwanegol ar blentyn ag ADY sydd eisoes yn delio ag anawsterau cysylltiedig. Gall y pwysau ychwanegol hwn roi straen ar allu'r plentyn i ymdopi. Mewn rhai achosion, bydd yn methu ag ymdopi a gallai'r cyfnod trosglwyddo i'r ysgol uwchradd fod yn adeg o argyfwng i blentyn a oedd yn arfer ymdopi'n iawn yn yr ysgol gynradd.

19.43 Er bod ysgolion eisoes yn gwneud trefniadau cyffredinol i gefnogi plant sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, bydd angen gwneud trefniadau penodol i gefnogi rhai plant ag ADY i drosglwyddo’n llwyddiannus. Gallai hyn gynnwys:

- cyfleoedd i'r plentyn a'i riant gwrdd ag unrhyw bobl allweddol yn y broses drosglwyddo a chymryd lluniau ohonynt;
- cyfleoedd i'r plentyn a'i riant ymweld â'r ysgol sawl gwaith cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol - i gwrdd â'r staff ac ymgyfarwyddo â chynllun yr ysgol;

- creu llyfr o luniau a gwybodaeth i helpu i ymbaratoi ar gyfer symud. Gallai hyn gynnwys lluniau o'r staff addysgu ac adeiladau'r ysgol, map o gynllun yr ysgol a'r amserlen;
- trefnu cyfnod graddol o ddechrau yn yr ysgol newydd; neu
- sefydlu system gyfeillio.

19.44 Efallai y bydd ysgolion hefyd am ystyried trefnu gweithdai trosglwyddo penodol i blant ag ADY yn ystod y gwyliau. Gallai hyn helpu plant i ymarfer gweithgareddau sy'n anghyfarwydd iddynt, er enghraifft dewis a thalu am ginio, darllen amserlen a mynd o un dosbarth i un arall; ac ymarfer defnyddio unrhyw gyfarpar arbenigol o fewn y lleoliad newydd. Mae gweithdai trosglwyddo hefyd yn gyfle i'r lleoliad asesu sut mae trefniadau i blant ag ADY yn gweithio'n ymarferol.

**Trosglwyddo o addysg orfodol**

19.45 Gall trosglwyddo o'r ysgol uwchradd fod yn un o'r digwyddiadau mwyaf y bydd person ifanc yn ei wynebu, a gall y penderfyniadau a wneir wrth i berson ifanc baratoi i adael yr ysgol effeithio ar weddill ei fywyd.

19.46 Yn 16 oed, mae gan bobl ifanc ag ADY nifer o opsiynau addysg, gan gynnwys aros yn yr ysgol neu wneud cais i fynd i goleg chweched dosbarth neu sefydliad addysg bellach.

19.47 Bydd angen i'r gwaith o gynllunio proses drosglwyddo o addysg orfodol ddechrau ymhell cyn diwedd cyfnod yr addysg orfodol. Disgwylir i ysgolion ac awdurdodau lleol ddechrau cynllunio ar gyfer y broses drosglwyddo hon fel rhan o waith adolygu'r CDU o flwyddyn 9 o leiaf.

19.48 **Rhaid**[7] i ysgol neu awdurdod lleol sy'n cynnal CDU plentyn hysbysu'r plentyn am yr hawl i beidio â chydsynio i'r bwriad i gynnal y CDU unwaith y bydd yn berson ifanc (hynny yw, pan na fydd o oedran gorfodol bellach). **Rhaid**[8] gwneud hyn yn ystod yr adolygiad y disgwylir iddo fod yn adolygiad diwethaf cyn y bydd y plentyn yn berson ifanc. **Dylid** gwneud hyn fel rhan o'r gwaith o gynllunio proses drosglwyddo'r plentyn. Ar yr un pryd, **rhaid**[9] gofyn iddo a yw, serch hynny, yn hapus i'w CDU gael ei gynnal ar ôl y pwynt hwnnw a nodi ei ymateb yn y CDU.

19.49 Os nad yw'r plentyn yn gwrthwynebu'r bwriad i gynnal y CDU, **rhaid** i'r corff sy'n gyfrifol am ei gynnal barhau i'w gynnal unwaith y bydd y plentyn yn berson ifanc, hyd nes y bydd y ddyletswydd ar y corff hwnnw i'w gynnal yn peidio (a allai olygu ei drosglwyddo i gorff arall) neu hyd nes y bydd y person ifanc yn gwrthwynebu.

19.50 Os yw'r plentyn yn gwrthwynebu'r bwriad i gynnal y CDU, **dylai'r** ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU, pan fydd y plentyn yn berson ifanc, wirio a

[7] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[8] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[9] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

yw'r person yn dal i wrthwynebu ac, os felly, **rhaid**[10] i'r ysgol neu'r awdurdod lleol beidio â'i gynnal.

19.51 Unwaith y bydd plentyn sydd â CDU yn berson ifanc, ond ei fod heb nodi eisoes a yw'n hapus i'r CDU gael ei gynnal, **rhaid**[11] i'r corff sy'n cynnal y CDU ofyn am gydsyniad y person ifanc i'r bwriad i'w gynnal yn brydlon. Os rhoddwyd cydsyniad eisoes, **rhaid**[12] nodi hyn yn y CDU (gweler pennod 13 ar gynnwys CDU).

19.52 Yn ogystal â meddwl am addysg ôl-16 a chymorth ôl-ysgol, mae adolygu CDU yn gyfle i godi lefel dyheadau disgyblion a'u cefnogi i sicrhau'r deilliannau gorau posibl o ran eu haddysg ac o ran y gallu i fyw'n annibynnol.

19.53 Er mwyn helpu disgyblion i wneud penderfyniadau am eu haddysg ôl-orfodol, mae'n bwysig eu bod nhw a'u rhieni yn cael yr wybodaeth i'w galluogi i ddeall ac ystyried sut y bydd y cymorth a gânt yn newid wrth iddynt symud i leoliadau gwahanol, a pha gymorth y maen nhw'n debygol o fod ei angen er mwyn cyflawni eu huchelgais.

19.54 I'r rhan fwyaf o blant neu bobl ifanc ag ADY, bydd y cyngor gyrfaoedd a gânt fel rhan o'u haddysg brif ffrwd yn diwallu eu hanghenion. Dylai'r dysgwyr hynny sydd ag ADY sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant eisoes fod wedi'u nodi'n grŵp blaenoriaeth sydd angen gwasanaethau gwell. Efallai y bydd angen cymorth Gyrfa Cymru wrth gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hynny ag ADY a fyddai'n elwa ar wasanaethau wedi'u dwysáu.

19.55 Gallai fod yn ddefnyddiol gwahodd cynghorydd gyrfaoedd i gyfarfod adolygu CDU sy'n canolbwyntio ar drosglwyddo a pharatoi ar gyfer byd oedolion i drafod opsiynau'r plentyn neu'r person ifanc o ran gyrfa.

## Trosglwyddo i addysg bellach

19.56 Lle bo person ifanc yn bwriadu mynd i addysg bellach a bod angen cymorth ychwanegol arno i sicrhau proses ddidrafferth a/neu y bydd angen darpariaeth arbenigol arno, dylid gwahodd staff y sefydliad addysg bellach i adolygiad Blwyddyn 11. Lle bo gan blentyn anghenion arbennig o gymhleth, gallai fod yn fuddiol i staff y sefydliad addysg bellach ddod i adolygiadau blwyddyn 10 neu flwyddyn 9. Lle bo'n aneglur a fyddai'n addas i ddysgwr fynd i sefydliad addysg bellach, dylid gwahodd y sefydliad i drafod a fydd yn gallu diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Efallai y bydd yn briodol hefyd gwahodd cynghorydd gyrfaoedd (gweler uchod).

19.57 Dylai ysgolion, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol gydweithio i gefnogi'r person ifanc i drosglwyddo'n ddidrafferth.

[10] Nid yw'r ddyletswydd i'w gynnal yn berthnasol (gweler adrannau 12 ac 14 o'r Ddeddf).
[11] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[12] Gofyniad a orfodir gan y Cod.

19.58 Gall cynghorwyr gyrfaoedd ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r plentyn, y person ifanc a'r teulu ynghylch yr opsiynau gwahanol o ran gyrfa, yn ogystal â rhannu dyddiadau digwyddiadau agored, er enghraifft yn y sefydliad addysg bellach lleol. Gallant roi gwybodaeth hefyd am wahanol gyrsiau a chynnig her ac arweiniad i helpu unigolyn i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, er enghraifft parhau ym myd addysg, gyrfaoedd gwahanol a hyfforddiant galwedigaethol, yn ogystal â gwybodaeth am hawliau cyflogaeth i bobl anabl.

19.59 Gallai fod yn briodol cynnwys arbenigwyr gyrfaoedd os yw anghenion dysgwr mor fawr mai dim ond mewn sefydliad addysg bellach sy'n cynnig cymorth sylweddol drwy'r awdurdod lleol, a CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y mae ei anghenion yn debygol o gael eu diwallu.

19.60 Os gwelir bod angen i blentyn neu berson ifanc fynd i sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, bydd angen helpu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i ddeall goblygiadau hyn a dod o hyd i'r lleoliad priodol. Bydd angen rhoi gwybodaeth fanwl i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am y lleoliad posibl.

19.61 Bydd y broses drosglwyddo yn wahanol i bob person ifanc, ond gallai gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- Mynd i ddigwyddiadau agored
- Taith o amgylch coleg, naill ai yn ystod diwrnod y coleg neu ar adeg dawelach
- Sesiynau blasu
- Rhaglenni cyswllt
- Cyfleoedd i eistedd yn y dosbarth
- Cyfnodau sefydlu estynedig
- Ymweliad wedi'i deilwra, a drefnir gan y sefydliad addysg bellach.

19.62 Ar ôl ymrestru mewn sefydliad addysg bellach, fel rheol **dylid** cynnal cyfarfod i adolygu'r CDU cyn gynted â phosibl, ac ailystyried DDdY y person ifanc. Efallai y bydd angen newid y ddarpariaeth ychwanegol i adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad penodol, gan na fydd y ddarpariaeth ychwanegol a gynigir yn yr ysgol, o bosibl, yn diwallu anghenion y person ifanc mewn sefydliad addysg bellach. Er enghraifft, gallai sefydliadau addysg bellach fod yn helpu'r person ifanc i weithio tuag at fod yn fwy annibynnol byth.

19.63 Mewn rhai amgylchiadau, ni fydd sefydliad addysg bellach wedi bod yn rhan o'r broses drosglwyddo. Wrth ymrestru, **dylid** rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ADY, neu anabledd a nodi a fu ganddynt CDU yn y gorffennol ai peidio. Mae hyn yn gyfle i'r person ifanc a'r sefydliad addysg bellach drafod yr anghenion a'r gefnogaeth sy'n ofynnol. **Dylai'r** sefydliad addysg bellach helpu'r person ifanc i ddeall yr amgylchedd a rhoi gwybodaeth iddo yn ôl y gofyn, er enghraifft manylion y CADY a thiwtor personol. Pan fydd y sefydliad addysg bellach yn cynnal adolygiad o'r CDU neu'n sefydlu CDU newydd, os oes angen mwy o eglurder neu wybodaeth, efallai y gwahoddir y CADY neu'r aelod staff perthnasol o ysgol flaenorol y dysgwr. Gallai hefyd fod yn addas

cynnwys cynghorydd gyrfaoedd os yw wedi bod yn helpu'r person ifanc yn y gorffennol.

**Pobl ifanc sy'n gadael addysg/hyfforddiant**

19.64 Os yw person ifanc yn gadael addysg neu hyfforddiant, **dylid** ei helpu i drosglwyddo'n llyfn. Byddai hyn yn cynnwys ei helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael a pha opsiynau sydd ar gael o ran gyrfa. Gallai hyn gynnwys rhannu'r wybodaeth berthnasol ynghyd â'r CDU (gyda chydsyniad y person ifanc) ag asiantaethau perthnasol.

19.65 Er mwyn helpu'r person ifanc i drosglwyddo'n llyfn i fyd oedolion, gallai fod yn briodol gwahodd arbenigwyr gyrfaoedd (gweler uchod i gael gwybodaeth bellach am gynghorwyr gyrfaoedd).

19.66 Os yw'n hysbys y bydd person ifanc yn cwblhau ei gyfnod mewn addysg neu hyfforddiant yn fuan, **dylai'r** ysgol/sefydliad addysg bellach/awdurdod lleol helpu'r person ifanc i ymgysylltu â'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth y bydd yn ei defnyddio ar ôl gadael addysg. Dylai'r person ifanc wybod beth fydd yn digwydd unwaith y daw'r CDU i ben.

**Symud i Addysg Uwch**

19.67 Lle bo person ifanc yn ymrestru ar gwrs sefydliad addysg uwch, **dylai'r** ysgol/sefydliad addysg bellach gefnogi'r person ifanc i rannu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys CDU y person ifanc. Bydd hyn yn caniatáu i'r sefydliad addysg uwch ystyried pa gymorth y gall ei ddarparu a helpu i lywio'r Asesiad o Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.

19.68 Mae sicrhau lle mewn addysg uwch yn rhywbeth cadarnhaol i lawer o bobl ifanc sydd ag ADY. Os oes gan y person ifanc yr uchelgais hwn, dylid cynnig y lefel iawn o gefnogaeth a darpariaeth i'w helpu i gyflawni'r nod hwnnw lle bo modd. Dylid cynllunio proses drosglwyddo ddidrafferth i addysg uwch cyn gynted â phosibl.

19.69 **Dylai** ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol gynllunio proses drosglwyddo ddidrafferth i addysg uwch (a, lle bo'n berthnasol, i ardal yr awdurdod lleol newydd) cyn rhoi'r gorau i gynnal CDU person ifanc. Unwaith y bydd lle'r person ifanc wedi'i gadarnhau mewn sefydliad addysg uwch, ar gais y person ifanc **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r person perthnasol yn y sefydliad hwnnw cyn gynted â phosibl.

19.70 **Dylai** ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol helpu pobl ifanc i gael gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael iddynt mewn addysg uwch, gan gynnwys sut y gallant hawlio'r cymorth hwnnw.

**Paratoi ar gyfer byd oedolion**

19.71 Gyda'r gefnogaeth iawn, gall y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sydd ag ADY ddod o hyd i waith, byw'n annibynnol a chymryd rhan yn eu cymuned. **Dylai**

ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol gyfleu'r neges hon i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, lle bo'n briodol. Mae angen ystyried cynllunio ar gyfer y broses o helpu person ifanc i drosglwyddo'n ddidrafferth i fyd oedolion ymhell cyn iddo gyrraedd y pwynt hwnnw, gan ganolbwyntio ar ei ddyheadau. Mae hyn yn cynnwys codi lefel dyheadau disgyblion a myfyrwyr ag ADY o ran gyrfa ac ehangu eu gorwelion o ran cyflogaeth.

# Pennod 20: Trosglwyddo CDU

## *Cyflwyniad*

20.1 Os bydd plentyn neu berson ifanc sydd â CDU a gynhelir gan ysgol yn trosglwyddo i ysgol arall a gynhelir yng Nghymru neu i sefydliad addysg bellach yng Nghymru, bydd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU yn cael ei drosglwyddo ar yr un pryd fel arfer. Yn yr un modd, os bydd plentyn neu berson ifanc sydd â CDU a gynhelir gan awdurdod lleol yn symud i ardal awdurdod lleol arall, bydd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU yn trosglwyddo rhwng yr awdurdodau lleol fel arfer. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gofynion a'r canllawiau'n ymwneud â throsglwyddiadau o'r fath.

20.2 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r broses ar gyfer trosglwyddo CDU o awdurdod lleol i sefydliad addysg bellach, a rôl Gweinidogion Cymru yn y broses honno.

20.3 Mae'n disgrifio'r gofynion mewn perthynas â throsglwyddo CDU a gynhelir gan ysgol neu sefydliad addysg bellach i awdurdod lleol pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad.

20.4 Ceir canllawiau hefyd ynghylch paratoi CDU mewn sefyllfaoedd lle'r oedd gan blentyn neu berson ifanc CDU yn y gorffennol ond na chafodd ei drosglwyddo.

## *Trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU*

20.5 Mae'r CDU yn ddogfen sy'n datblygu dros amser a bwriedir iddo aros gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn ystod y cyfnodau amrywiol o'i addysg os yw'n dal i fod ag ADY ac, yn achos person ifanc, os yw'n cydsynio i'r CDU barhau a bod dal angen cynnal CDU ar ei gyfer. I sicrhau bod y CDU yn symud gyda'r plentyn neu'r person ifanc wrth iddo symud rhwng cyfnodau addysgol, mae'r ddyletswydd i gynnal CDU yn trosglwyddo yn yr achosion canlynol:

### Trosglwyddo rhwng ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn ystod y flwyddyn

20.6 Lle bydd plentyn neu berson ifanc yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, **rhaid**[1] i'r ysgol honno gynnal y CDU os:

(a) yn union cyn i’r plentyn neu’r person ifanc ddod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, oedd CDU yn cael ei[2]gynnal ar gyfer y plentyn neu’r person ifanc gan ysgol arall a gynhelir; ac

(b) na fwriedir i addysg neu hyfforddiant barhau i gael ei ddarparu i’r plentyn neu’r person ifanc yn yr ysgol arall honno[3].

[1] Adrannau 35(1) ac (3) o'r Ddeddf. Caiff ei gynnal wedyn o dan Adran 12 y Ddeddf.
[2] O dan adran 12 o'r Ddeddf.
[3]Os bwriedir hynny, byddai wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad. Gweler adran 30 o'r Ddeddf.

### Trosglwyddo rhwng ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar ddechrau blwyddyn academaidd

20.7 Os yw plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY yn dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru cyn diwedd mis Medi mewn blwyddyn academaidd, **rhaid**[4] i'r ysgol honno gynnal y CDU os:

(a) oedd y plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arall a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol; ac
(b) oedd CDU yn cael ei gynnal[5] ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc ar ddiwrnod olaf yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperid ar ei gyfer yn yr ysgol.

### Trosglwyddo rhwng ysgol a sefydliad addysg bellach ar ddechrau blwyddyn acadaemaidd

20.8 Os yw person ifanc yn ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru cyn diwedd mis Medi mewn blwyddyn academaidd[6], **rhaid**[7] i'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU os:

(a) oedd y person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol; ac
(b) oedd CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc gan yr ysgol ar ddiwrnod olaf yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperid ar ei gyfer yn yr ysgol.

### Trosglwyddo rhwng awdurdodau lleol

20.9 Os yw awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc ag ADY, **rhaid**[8] i'r awdurdod hwnnw gynnal y CDU os oedd CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc gan awdurdod lleol arall yn union cyn i'r awdurdod ddod yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc.

### Trosglwyddo pan fydd plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal

20.10 Os:

(a) yw plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol; ac
(b) yn union cyn i'r plentyn ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal, oedd CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn;

**rhaid**[9] i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y CDU.

[4] Adrannau 35(2) ac (3) o'r Ddeddf. Caiff ei gynnal wedyn o dan Adran 12 y Ddeddf.
[5] O dan adran 12 o'r Ddeddf.
[6] Mae "blwyddyn academaidd" yn golygu unrhyw gyfnod o 1 Awst i 31 Gorffennaf
[7] Adrannau 35(4) ac (6) o'r Ddeddf. Caiff ei gynnal wedyn o dan Adran 12 y Ddeddf.
[8] Adrannau 35(7) ac (8) o'r Ddeddf. Caiff ei gynnal wedyn o dan Adran 14 y Ddeddf.
[9] Adrannau 35(9) ac (10) o'r Ddeddf. Caiff ei gynnal wedyn o dan Adran 19 y Ddeddf.

## Trosglwyddo pan fydd plentyn yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal

20.11 Os:

(a) yw person yn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (pa un ai am ei fod yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol neu fel arall);
(b) yw awdurdod lleol yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc; ac
(c) yn union cyn peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, oedd CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc;

**rhaid**[10] i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc gynnal y CDU.

## Trosglwyddo o awdurdod lleol i sefydliad addysg bellach

20.12 Os yw awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc sydd wedi neu yn ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach, **caiff**[11] yr awdurdod lleol wneud cais i'r sefydliad addysg bellach ddod yn gyfrifol am gynnal y cynllun. **Dylai** ceisiadau o'r fath ond gael eu gwneud pan fo'r awdurdod lleol yn credu y byddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach sicrhau'r DDdY a nodir yn y CDU. **Rhaid**[12] i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig.

20.13 Os yw sefydliad addysg bellach yn cytuno i'r cais, daw'n gyfrifol am gynnal y CDU ar:

a) y dyddiad y cytunwyd arno gan y sefydliad addysg bellach a'r awdurdod lleol ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb;
b) fel arall, y dyddiad y mae'r sefydliad addysg bellach yn hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig ei fod yn cytuno i'r cais[13].

20.14 Os yw'r sefydliad addysg bellach yn methu â chytuno i'r cais o fewn 20 diwrnod (yn ystod y tymor)[14] ar ôl derbyn y cais, gall yr awdurdod lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru[15] - ond dim ond os yw'r atgyfeiriad yn cael ei wneud erbyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau o ddiwedd y cyfnod o 20 diwrnod. **Rhaid**[16] i'r awdurdod lleol atgyfeirio'r cais yn ysgrifenedig a rhoi copi o'r CDU i Weinidogion Cymru.

20.15 Os bydd awdurdod lleol wedi atgyfeirio cais iddynt, **rhaid**[17] i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylai'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU. Cyn

---

[10] Adran 35(11) - (13) o'r Ddeddf. Mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14 y Ddeddf.
[11] Adran 36(1) - (2) o'r Ddeddf.
[12] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1)(b) o'r Ddeddf.
[13] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1)(b) o'r Ddeddf. Nodir y ddyletswydd i'w gynnal yn adran 12(4) o'r Ddeddf.
[14] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 36(3) o'r Ddeddf.
[15] Adran 36(3) o'r Ddeddf
[16] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1)(b) o'r Ddeddf.
[17] Adran 36(4) o'r Ddeddf

penderfynu, **rhaid**[18] i Weinidogion Cymru hysbysu'r person ifanc a'r corff llywodraethu am yr atgyfeiriad a'u gwahodd i roi sylwadau.

20.16 Pan fyddant wedi penderfynu, **rhaid**[19] i Weinidogion Cymru hysbysu'r person ifanc, yr awdurdod lleol a'r sefydliad addysg bellach am y penderfyniad (pa un a ddylai'r sefydliad addysg bellach gynnal yr CDU) a'r rhesymau drosto.

20.17 Os yw Gweinidogion Cymru'n penderfynu y dylai'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU, **rhaid**[20] i'r sefydliad addysg bellach gynnal y CDU:

(a) o'r dyddiad sydd, o bosibl, wedi'u nodi yn yr hysbysiad o'r penderfyniad; neu

o'r dyddiad y mae'r hysbysiad yn cael ei roi i'r sefydliad addysg bellach.

## *Y broses ar gyfer trosglwyddo'r ddyletswydd i gynnal CDU*

20.18 Os yw'r ddyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo yn yr amgylchiadau a nodir uchod o un corff ("yr hen gorff") i gorff arall ("y corff newydd"), **rhaid**[21] i'r hen gorff anfon copi o'r CDU i'r corff newydd yn brydlon ar ôl dod i wybod am y trosglwyddiad.

20.19 Bydd y rhan fwyaf o'r trosglwyddiadau yn digwydd fel rhan o'r broses arferol o drosglwyddo plentyn neu berson ifanc rhwng cyfnodau addysg. Mae Pennod 19 yn darparu canllawiau ar ymdrin â throsglwyddiadau. **Dylai'r** corff newydd ystyried a ddylid adolygu'r CDU pan fydd wedi dod yn gyfrifol am ei gynnal er mwyn sicrhau bod y cynnwys, yn enwedig y DDdY, yn briodol yng nghyd-destun amgylchiadau newydd y plentyn neu'r person ifanc (hyd yn oed os oedd yn gysylltiedig â'r cynlluniau trosglwyddo).

20.20 Os:

(a) yn rhinwedd y trosglwyddiad, yw awdurdod lleol o dan ddyletswydd i sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall a ddisgrifir mewn cynllun er mwyn diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am DDdY[22]; ac
(b) yng ngoleuni'r amgylchiadau sydd wedi arwain at y trosglwyddiad, nad yw'n ymarferol mwyach i blentyn neu berson ifanc fynychu'r sefydliad;

nid yw dyletswydd yr awdurdod lleol i sicrhau lle yn yr ysgol neu'r sefydliad yn berthnasol hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r cynllun, ac eithrio lle

[18] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1)(b) o'r Ddeddf.
[19] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1)(b) o'r Ddeddf.
[20] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1)(b) o'r Ddeddf. Nodir y ddyletswydd i'w gynnal yn adran 12(4) o'r Ddeddf.
[21] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 82 o'r Ddeddf
[22] Yn unol ag adran 14(6) neu 19(4) o'r Ddeddf - gweler Pennod 11 am ragor o fanylion am hyn.

mae'r awdurdod lleol yn trefnu bwyd a llety fel y disgrifir ym mharagraff 20.21 isod[23].

20.21 Hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r CDU, **caiff** yr awdurdod lleol drefnu bwyd a llety er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc allu barhau i fynychu'r ysgol neu'r sefydliad a enwir yn y CDU[24]. Os trefnir bwyd a llety ar y sail hon, **ni chaiff**[25] yr awdurdod lleol godi tâl ar y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am y ddarpariaeth honno.

## *Trosglwyddo CDU pan fydd plentyn wedi'i gofrestru mewn dau leoliad*

20.22 Os yw ysgol neu sefydliad addysg bellach yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc, a bod y plentyn neu'r person ifanc hwnnw'n cofrestru neu'n ymrestru mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach arall (h.y. ei fod wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad), **rhaid**[26] i'r ysgol/sefydliad addysg bellach hysbysu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc eu bod yn cynnal CDU ar ei gyfer. Hefyd, **rhaid**[27] i'r ysgol/sefydliad addysg bellach anfon copi o'r CDU i'r awdurdod lleol ar yr un pryd. **Rhaid**[28] i'r awdurdod lleol gynnal y CDU o'r dyddiad y mae'n dod i wybod bod y plentyn neu'r person ifanc wedi cofrestru mewn mwy nag un sefydliad (naill ai trwy dderbyn hysbysiad gan ysgol neu sefydliad addysg bellach, neu drwy unrhyw ddull arall).

## *Achosion lle nad yw'r ddyletswydd i gynnal CDU yn cael ei throsglwyddo, ond bod gan blentyn neu berson ifanc CDU blaenorol*

20.23 Weithiau, gall fod achosion lle mae'r ddyletswydd i gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn peidio â bod yn gymwys ond heb ei drosglwyddo i gorff arall, ac yn fuan wedi hynny mae corff yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu p'un a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Gallai hyn ddigwydd mewn nifer o amgylchiadau. Er enghraifft, pan fydd plentyn neu berson ifanc yn symud o un lleoliad addysgol i leoliad arall yn dilyn bwlch yn ei addysg ac nid yw'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn cael ei throsglwyddo. Gallai hefyd ddigwydd os yw person ifanc mewn addysg bellach yn gwrthwynebu bod y CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, ond ei fod yn newid ei feddwl yn ddiweddarach. Yn ogystal, gall ddigwydd pan fydd person sydd â CDU wedi treulio cyfnod byr yn y carchar ac yn dychwelyd i'r sefydliad addysg bellach a fynychwyd ganddo'n flaenorol ar ôl cael ei ryddhau. Mewn achosion o'r fath,

[23] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1) o'r Ddeddf
[24] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 37(1) o'r Ddeddf
[25] Adran 49 o'r Ddeddf.
[26] Adran 30(3) - (6) o'r Ddeddf.
[27] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 82 o'r Ddeddf
[28] Adran 30(5) o'r Ddeddf.

gallai ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i benderfynu p'un a oes gan y person ADY ac, os felly, y ddyletswydd i baratoi a chynnal CDU. Mae'n bosibl bod yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol hwnnw wedi cynnal y CDU yn y gorffennol, neu efallai ei fod wedi'i gynnal gan ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol arall.

20.24 Os yw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn gwybod bod CDU blaenorol gan y plentyn neu'r person ifanc, **dylai'r** ysgol, sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol gymryd y CDU hwnnw (ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall) i ystyriaeth os yw ar gael. Oni bai bod amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol, dylai'r CDU blaenorol olygu bod modd gwneud penderfyniadau a pharatoi CDU newydd yn gyflymach.

# Pennod 21: Peidio â chynnal CDU

## *Cyflwyniad*

21.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r amgylchiadau amrywiol pan fydd y dyletswyddau i gynnal CDU yn peidio. Yn rhai o'r amgylchiadau hyn, bydd y dyletswyddau yn peidio yn sgil newid mewn amgylchiadau, ee os na fydd plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, bellach. Yn yr achosion hyn, efallai mai corff arall fydd wedyn â'r ddyletswydd o gynnal y CDU - gweler Pennod 20 ar drosglwyddo CDU. Mewn achosion eraill, bydd y ddyletswydd i gynnal CDU yn peidio yn dilyn penderfyniad nad oes gan y person ADY, bellach, neu (dim ond lle bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc), nad oes angen ei gynnal bellach.

21.2 Mae'r bennod hon hefyd yn nodi'r camau i'w cymryd cyn ac ar ôl penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU ar gyfer person ifanc, a'r ffyrdd y gellir herio penderfyniadau o'r fath.

## *Pan fydd dyletswydd ysgol i gynnal CDU yn peidio*

21.3 Yn achos CDU a gynhelir gan ysgol, bydd dyletswydd yr ysgol i gynnal CDU plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol[1]yn peidio yn yr amgylchiadau canlynol:

- os bydd yr ysgol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, bellach, ac os na chaiff y penderfyniad hwnnw ei herio'n llwyddiannus[2] (gweler paragraffau 21.7-21.9 isod i gael mwy o fanylion);
- os yw'r disgybl yn berson ifanc nad yw bellach yn cydsynio y dylid cynnal y CDU, neu'n blentyn sy'n tyfu'n berson ifanc nad yw'n cydsynio y dylid cynnal y CDU[3] (gweler Pennod 3 i gael mwy o fanylion am gydsyniad person ifanc);
- os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol[4]. Mewn achosion felly, efallai y bydd y ddyletswydd i gynnal cynllun yn trosglwyddo i gorff arall, yn dibynnu ar yr amgylchiadau (gweler Pennod 20 am drosglwyddo CDU);
- os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gofrestru mewn dau leoliad, hynny yw yn dod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad arall (sy'n ysgol neu'n sefydliad addysg bellach), y bydd y disgybl yn cael addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad a bod awdurdod lleol yn gyfrifol am y disgybl. Mewn achosion

[1] Nodir y ddyletswydd i'w gynnal o dan adran 12 o'r Ddeddf.
[2] Adrannau 31(5), 32 a 33 o'r Ddeddf
[3] Adran 12(2)(b) o'r Ddeddf
[4] Adran 31(1)(a) o'r Ddeddf

felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol5;
- os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros y CDU6 (gweler Pennod 17 i gael gwybod mwy am awdurdodau lleol sy'n cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros gynnal CDU);
- os yw'r disgybl yn blentyn sy'n dechrau derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru7. Mewn achosion felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod sy'n gofalu am y plentyn8 (gweler Pennod 20 am drosglwyddo CDU);
- os yw awdurdod lleol yn Lloegr yn dechrau cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc9. Dim ond os yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn digwydd;
- os daw'r plentyn neu'r person ifanc yn destun gorchymyn cadw (gweler Pennod 22 am bersonau a gedwir yn gaeth)10.

## *Pan fydd dyletswydd sefydliad addysg bellach i gynnal CDU yn peidio*

21.4 Yn achos CDU a gynhelir gan sefydliad addysg bellach ar gyfer person ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr yn y sefydliad addysg bellach, bydd dyletswydd y sefydliad addysg bellach i gynnal y CDU[11] yn peidio yn yr amgylchiadau canlynol:

- os bydd y sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes gan y person ifanc ADY, bellach, ac os na chaiff y penderfyniad hwnnw ei herio'n llwyddiannus[12] (gweler paragraffau 21.7-21.9 isod i gael mwy o fanylion);
- os nad yw'r person ifanc, bellach, yn cydsynio y dylid cynnal y CDU[13] (gweler Pennod 3 i gael mwy o fanylion am gydsyniad person ifanc);
- os bydd y person ifanc yn peidio â bod yn fyfyriwr ymrestredig yn y sefydliad addysg[14];
- os bydd y person ifanc yn cael ei gofrestru mewn dau leoliad, hynny yw yn dod yn ddisgybl cofrestredig neu'n fyfyriwr ymrestredig mewn sefydliad arall (sy'n ysgol neu'n sefydliad addysg bellach), y bydd y person ifanc yn cael addysg neu hyfforddiant yn y ddau sefydliad a bod

---

[5] Adrannau 30(3) a (4) o'r Ddeddf.
[6] Adran 28(8) o'r Ddeddf.
[7] Adran 31(1)(b) o'r Ddeddf.
[8] Adrannau 35(9) a (10) o'r Ddeddf.
[9] Adran 12 o'r Ddeddf.
[10] Adran 44 o'r Ddeddf.
[11] Nodir y ddyletswydd i'w gynnal o dan adran 12 o'r Ddeddf.
[12] Adrannau 31(5) a 33(4) o'r Ddeddf.
[13] Adran 12(2)(b) o'r Ddeddf.
[14] Adran 31(2) o'r Ddeddf.

awdurdod lleol yn gyfrifol am y person ifanc. Mewn achosion felly, mae'r ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol[15];

- os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros y CDU[16] (gweler Pennod 17 i gael gwybod mwy am awdurdodau lleol sy'n cymryd drosodd y cyfrifoldeb dros gynnal CDU);
- os yw awdurdod lleol yn Lloegr yn dechrau cynnal cynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer y person ifanc[17]. Dim ond os yw'r person ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr y byddai hyn yn digwydd;
- os daw'r person ifanc yn destun gorchymyn cadw[18] (gweler Pennod 22 am bersonau a gedwir yn gaeth).
- os yw'r person ifanc yn cyrraedd 25 oed[19], pan fydd y ddyletswydd i gynnal y CDU yn peidio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person yn cyrraedd yr oedran hwnnw[20];

## *Pan fydd dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU yn peidio*

21.5 Yn achos CDU a gynhelir gan awdurdod lleol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal y CDU[21] yn peidio yn yr amgylchiadau canlynol:

- os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, bellach, ac os na chaiff y penderfyniad hwnnw ei herio'n llwyddiannus[22] (gweler paragraffau 21.7-21.9 isod i gael mwy o fanylion);
- yn achos person ifanc nad yw'n cydsynio bellach y dylid cynnal y CDU, neu, yn achos plentyn sy'n tyfu'n berson ifanc nad yw'n cydsynio y dylid cynnal y CDU[23] (gweler Pennod 3 i gael mwy o fanylion am gydsyniad person ifanc);
- os yw'r awdurdod lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am y plentyn (ar yr amod nad yw'r plentyn yn derbyn gofal) neu'r person ifanc[24] - hynny yw, os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc o fewn ardal yr awdurdod lleol, bellach[25]; os, er enghraifft, byddai plentyn yn symud i fyw o fewn ardal awdurdod lleol arall, pan fyddai'r awdurdod lleol arall hwnnw yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y plentyn. Os bydd awdurdod lleol arall yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y plentyn neu'r person ifanc, bydd y

[15] Adrannau 30(3) a (4) o'r Ddeddf.
[16] Adran 28(8) o'r Ddeddf.
[17] Adran 12 o'r Ddeddf.
[18] Adran 44 o'r Ddeddf.
[19] Adran 34(1) o'r Ddeddf.
[20] Mae adran 34(2)(a) yn diffinio blwyddyn academaidd mewn perthynas â pherson ifanc sy'n mynychu sefydliad addysg bellach fel cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf.
[21] Nodir dyletswydd yr awdurdod lleol i'w gynnal o dan adran 14 o'r Ddeddf neu, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, o dan adran 19 o'r Ddeddf.
[22] Adrannau 31(6)(a) a 33(4) o'r Ddeddf.
[23] Adran 14(3) o'r Ddeddf.
[24] Adran 31(3)(a) o'r Ddeddf.
[25] Adran 99(4) o'r Ddeddf.

ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol arall hwnnw[26] (gweler Pennod 20 am drosglwyddo CDU);

- yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol sy'n peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (am ba reswm bynnag, gan gynnwys am fod y plentyn yn berson ifanc, bellach) a lle nad yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y person (hy nid yw'r plentyn o fewn ei ardal)[27]. Os bydd awdurdod lleol arall yn gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, bydd y ddyletswydd i gynnal y CDU yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol hwnnw (gweler Pennod 20 am drosglwyddo CDU);
- yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, sy'n peidio â bod o fewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru[28], er enghraifft pe bai'r plentyn yn cael ei osod gyda rhieni maeth yn Lloegr;
- yn achos plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, bod yr awdurdod lleol yn cyfeirio'r ysgol i gynnal y cynllun[29];
- yn achos person ifanc sydd wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, bod y sefydliad addysg bellach yn cytuno i gais gan yr awdurdod lleol i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y CDU neu fod Gweinidogion Cymru wedi pennu y dylai'r sefydliad addysg bellach gynnal y cynllun[30];
- bod y plentyn neu'r person ifanc yn dod yn destun gorchymyn cadw[31] (gweler Pennod 22 am bersonau a gedwir yn gaeth);
- yn achos person ifanc, ei fod yn cyrraedd 25 oed[32], pan fydd y ddyletswydd i gynnal y CDU yn peidio ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person yn cyrraedd yr oedran hwnnw[33];
- yn achos person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, bod yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU, bellach, i ddiwallu anghenion addysg neu hyfforddiant rhesymol y person ifanc[34]. (Gweler paragraffau 21.10-21.13 isod i gael mwy o fanylion.)

---

[26] Adrannau 35(7) ac (8) o'r Ddeddf.
[27] Adrannau 31(4)(a) (sy'n pennu bod y ddyletswydd i gynnal y cynllun o dan adran 19 yn peidio) a 35(11) - (12) (hon sy'n pennu bod y ddyletswydd i gynnal y cynllun yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol cyfrifol os oes un).
[28] Adran 31(4)(b) o'r Ddeddf.
[29] Adrannau 12(4) a 14(4) o'r Ddeddf.
[30] Adran 12(4) o'r Ddeddf.
[31] Adran 44(1) a (2)(d) o'r Ddeddf, adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 ac, mewn perthynas â phlant a oedd yn derbyn gofal yn union cyn dod yn berson a gedwir, adran 15(1)(b) o'r Ddeddf.
[32] Adran 34(1) o'r Ddeddf
[33] Mae adran 34(2)(a) yn diffinio blwyddyn academaidd i'r dibenion hyn fel a ganlyn:

- mewn perthynas â pherson ifanc sy'n mynychu sefydliad addysg bellach, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf; ac
- mewn perthynas ag unrhyw berson ifanc arall, cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae cwrs addysg neu hyfforddiant y person ifanc yn dod i ben neu'r diwrnod cyn y bydd y person ifanc yn 26 oed (pa un bynnag sydd gyntaf).

[34] Adran 31(6)(b) o'r Ddeddf.

21.6 Mewn achosion eraill sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, gallai dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar sail benodol beidio, ond gallai fod dyletswydd arno i'w gynnal ar sail arall, ee o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

(a) os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn[35] a bod y plentyn yn dechrau derbyn gofal gan yr awdurdod lleol hwnnw. Os felly, **rhaid**[36] i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y cynllun, ond ar y sail bod y plentyn yn derbyn gofal[37];

(b) os yw'r awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn y mae'n darparu gofal iddo[38], a bod y person yn peidio â derbyn gofal, at ddibenion y Ddeddf (am ba reswm bynnag, efallai am fod y plentyn yn berson ifanc, bellach) a bod yr awdurdod lleol yn gyfrifol am y person. Mewn achos felly, **rhaid**[39] i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y cynllun, ond nid ar y sail bod y person yn derbyn gofal.[40] Os yw'n fwy priodol i'r ysgol a gynhelir neu i'r sefydliad addysg bellach yng Nghymru y mae'r person ifanc yn ei fynychu gynnal y cynllun yn hytrach na'r awdurdod lleol, efallai y bydd yr awdurdod lleol cyfrifol yn rhoi cyfarwyddyd i'r ysgol gynnal y CDU neu'n gwneud cais i sefydliad addysg bellach gymryd y cyfrifoldeb drosto.

## *Penderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, bellach*

21.7 Mae anghenion ac amgylchiadau plentyn neu berson ifanc yn debygol o newid dros amser. Gallant newid i'r graddau bod person yr arferai fod ganddo ADY yn cyrraedd cyfnod pan nad oes ganddo ADY. Gall hyn ddigwydd oherwydd newid yn yr amgylchiadau a achosodd yr ADY efallai, neu am reswm arall. Mae p'un a oes gan berson ADY ar unrhyw adeg yn dibynnu bob amser ar p'un a yw'r diffiniad o ADY yn adran 2 a'r diffiniad o DDdY yn adran 3 o'r Ddeddf yn wir ar y pryd, ni waeth a oes CDU yn cael ei gynnal ar gyfer y person ai peidio. Ni ragdybir y bydd plentyn neu berson ifanc sydd wedi cael CDU yn parhau i fod angen cynllun o'r fath hyd ddiwedd ei gyfnod addysg neu hyfforddiant (er, i rai plant, efallai bod natur eu hanhawster dysgu neu eu hanabledd yn golygu bod hyn yn debygol iawn). Os nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, bellach, nid oes angen cynnal CDU, ac mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i beidio â'i gynnal.

21.8 Dim ond yn sgil adolygiad o'r CDU y **dylai** corff llywodraethu neu awdurdod lleol benderfynu nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, bellach (gweler Pennod 16 i gael gwybod am adolygiadau). Mae canllawiau ar y diffiniad o

[35] O dan adran 14 o'r Ddeddf.
[36] Adran 35(9) a (10) o'r Ddeddf ac mae'r ddyletswydd i'w gynnal ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal o dan adran 19.
[37] Mewn achos annhebygol lle bydd yr awdurdod lleol sy'n darparu gofal y plentyn yn wahanol i'r awdurdod a oedd yn cynnal CDU y plentyn cyn i'r plentyn ddechrau derbyn gofal, bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol sy'n darparu'r gofal i gynnal y CDU o dan adran 19 o'r Ddeddf, a bydd dyletswydd yr awdurdod lleol arall o dan adran 14 yn peidio: adran 35(9) - (10).
[38] O dan adran 19 o'r Ddeddf.
[39] Adran 35(11) i (13) o'r Ddeddf.
[40] Hynny yw, nid o dan adran 19, ond o dan adran 14 o'r Ddeddf.

ADY ac ar geisio adnabod a allai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY ym Mhennod 7.

21.9 Gallai'r posibilrwydd o derfynu CDU godi ofn ar blant, eu rhieni a phobl ifanc. **Dylai** ysgolion a sefydliadau addysg bellach ddarparu gwybodaeth am yr hyn y maent yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer y dysgwyr (ee cymorth parhaus drwy addysgu gwahaniaethol, a strategaethau ac arferion perthnasol eraill fel y bo'n briodol) er mwyn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

## *Penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc, bellach*

21.10 Os bydd awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, gall yr awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU os bydd yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU, bellach, i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant rhesymol y person[41].

21.11 Dim ond yn sgil adolygiad y **dylid** penderfynu nad oes angen cynnal CDU ar gyfer person ifanc, bellach (gweler Pennod 16 i gael gwybod am adolygiadau). **Rhaid**[42] i'r awdurdod lleol benderfynu yn unol â rheoliadau[43] ar pryd mae gan berson ifanc angen addysg neu hyfforddiant rhesymol a phryd y mae angen CDU i'w ddiwallu. Gweler Pennod 12 am ganllawiau pellach am y rheoliadau hyn yng nghyd-destun pryd mae angen llunio a chynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru nac wedi ymrestru fel myfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

21.12 Mae'r holl ystyriaethau a nodir ym Mhennod 12 ynghylch p'un a oes gan y person ifanc anghenion addysg neu hyfforddiant rhesymol yn berthnasol, a byddai angen eu hystyried yng ngoleuni'r sefyllfa unigol (byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, lle bydd person ifanc eisoes wedi dilyn cwrs addysg neu hyfforddiant ôl-16 a lle cynigir ei fod yn dilyn cwrs newydd, gwahanol).

21.13 Os yw person ifanc eisoes ar gwrs, ac os cynigir newid i'r cwrs hwnnw (er enghraifft, ymestyn ei hyd), **rhaid**[44] i'r awdurdod lleol, wrth ystyried y materion a nodir ym Mhennod 12, ystyried hefyd yr amser a dreuliwyd eisoes ar y cwrs, cynnydd y person ifanc a'r rhesymau pam fod unrhyw gynnydd yn llai na'r disgwyl. Unwaith bydd cwrs addysg neu hyfforddiant wedi dechrau, mae'n debygol y bydd angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant gan y person ifanc (oni bai bod unrhyw amgylchiadau eithriadol) drwy gydol y cwrs. Os na

[41] Adran 31(6)(b).
[42] Adran 31(6)(b) o'r Ddeddf
[43] I'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[44] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.

lwyddir i gyllido lleoliadau ar hyd cyfnod y cwrs, mae’n bosibl y caiff adnoddau eu gwastraffu ac y bydd yn destun gofid a dryswch i’r person ifanc.

## *Hysbysu am benderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU ar gyfer person ifanc*

21.14 Cyn y gall ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol wneud penderfyniad nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU ar gyfer person ifanc, **rhaid**[45] iddo hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn ac, yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, swyddog adolygu annibynnol y plentyn, neu'r person ifanc, ei fod yn bwriadu gwneud penderfyniad o'r fath. **Dylai** y corff wedyn ganiatáu digon o amser i'r bobl hynny ystyried y mater a rhoi eu barn arno (mae dyletswydd ar y corff[46] i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc). **Dylai** hyn ddigwydd drwy'r broses adolygu arferol.

21.15 Os yw'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol wedi mynd ymlaen i benderfynu nad oes gan y person ADY, bellach, neu nad oes angen bellach cynnal CDU, **rhaid**[47] iddo hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn ac, os yw'r plentyn yn derbyn gofal, y swyddog adolygu annibynnol, neu'r person ifanc, am y penderfyniad, a'r rhesymau drosto. Yn achos ysgol, **rhaid**[48] i'r ysgol hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ei hawl i wneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y mater[49].

21.16 Yn ogystal, **rhaid**[50] i'r hysbysiad gynnwys:

- manylion cyswllt yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol (fel y bo'n briodol);
- gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[51]. Gellid darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
- manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[52] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[53];

[45] Adran 31(7) o’r Ddeddf.
[46] O dan adran 6 o'r Ddeddf.
[47] Adran 31(8) o’r Ddeddf.
[48] Adran 31(9) o’r Ddeddf.
[49] Dyma'r hawl o dan adran 32 o'r Ddeddf.
[50] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[51] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf. Yn achos plentyn sy’n derbyn gofal, efallai mai trefniadau’r awdurdod lleol sy’n cynnal y cynllun fydd y rhain neu drefniadau’r awdurdod lleol (os yw’n wahanol) y mae’r plentyn o fewn ei ardal.
[52] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[53] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

- yn achos penderfyniadau sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol, gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

21.17 **Dylai'r** hysbysiad amlinellu hefyd, lle bo'n briodol, y camau y bydd yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol yn eu cymryd yng ngoleuni ei benderfyniad i sicrhau bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc (nad ydynt yn ADY) yn cael eu diwallu.

## *Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynlluniau er mwyn ei gwneud yn bosibl ailystyried a/neu apelio*

21.18 Yn dilyn penderfyniad gan ysgol nad oes gan ddisgybl ADY, bellach, **ni chaiff**[54] yr ysgol beidio â chynnal y CDU oni bai:

(a) bod y cyfnod o bedair wythnos[55] ar gyfer gwneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y mater wedi dod i ben ac na wnaed cais o'r fath; neu
(b) bod yr awdurdod lleol wedi ailystyried y mater ac wedi penderfynu y dylid peidio â chynnal y cynllun, a-
  - bod y cyfnod o 8 wythnos[56] ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, neu
  - bod apêl wedi'i chyflwyno yn ystod y cyfnod hwnnw a bod y mater wedi'i setlo'n llawn.

21.19 Yn achos CDU a gynhelir naill ai gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol, yn dilyn penderfyniad nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY bellach neu benderfyniad gan awdurdod lleol nad oes angen bellach cynnal y cynllun, **ni chaiff**[57] y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol beidio â chynnal y CDU hyd nes y bydd un o'r ddau opsiwn canlynol wedi digwydd, pa un bynnag fydd yn cymryd hiraf-

(a) bod y cyfnod o 8 wythnos[58] ar gyfer apelio yn erbyn y penderfyniad i'r Tribiwnlys Addysg wedi dod i ben heb i apêl gael ei chyflwyno, neu
(b) bod apêl wedi'i chyflwyno yn ystod y cyfnod hwnnw a bod y mater wedi'i setlo'n llawn.

## *Pan fydd awdurdod lleol yn ailystyried penderfyniad ysgol i beidio â chynnal CDU*

21.20 Os bydd plentyn, ei riant neu berson ifanc yn anfodlon â phenderfyniad ysgol nad oes gan y disgybl ADY bellach, disgwylir i'r anfodlonrwydd hwn gael ei

[54] Adran 33(1) - (3) o'r Ddeddf.
[55] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 32(1)(b) o'r Ddeddf.
[56] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 75 o'r Ddeddf.
[57] Adran 33(4) o'r Ddeddf
[58] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 75 o'r Ddeddf.

ddatrys yn uniongyrchol gyda'r ysgol fel rheol, neu drwy ddilyn trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer datrys anghytundebau[59].

21.21 Fel arall, neu lle nad yw'r anghytundeb wedi'i ddatrys, gall plant, eu rhieni, a phobl ifanc wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol[60] ailystyried penderfyniad yr ysgol[61]. Mae hyn yn darparu ffordd i blant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniad yr ysgol.

21.22 Mae gan blentyn, ei riant neu berson ifanc 4 wythnos[62] o ddyddiad rhoi'r hysbysiad am benderfyniad yr ysgol i wneud cais i'r awdurdod lleol cyfrifol ailystyried. Lle gwneir cais o'r fath, **rhaid**[63] i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r ysgol beidio â chynnal y CDU a **rhaid**[64] iddo hysbysu'r plentyn a rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, ac (ym mhob achos) yr ysgol, am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

21.23 Cyn i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad, **rhaid**[65] iddo roi gwybod i'r ysgol am y cais a gwahodd yr ysgol i roi ei sylwadau. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael, a chael gafael ar fwy o wybodaeth, fel y bo'n briodol, er mwyn gwneud y penderfyniad.

21.24 Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y dylid cynnal y CDU, **rhaid**[66] i'r ysgol barhau i'w gynnal. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu na ddylid cynnal y CDU, **rhaid**[67] i'r ysgol beidio â chynnal y CDU, ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ar beidio â chynnal cynllun a nodwyd uchod.

21.25 Unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi dod i benderfyniad, bydd hwnnw'n disodli penderfyniad yr ysgol, a bydd modd apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn ei gylch[68].

21.26 Os mai'r penderfyniad yw y dylai'r ysgol beidio â chynnal y CDU, **rhaid**[69] i'r hysbysiad am y penderfyniad hwnnw (y cyfeirir ato ym mharagraffau 20.15-20.17 uchod) hefyd gynnwys:

- manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
- gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY[70]. Gellid

[59] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[60] At ddibenion ceisiadau o'r fath, yr awdurdod lleol cyfrifol yn achos disgybl o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol (adran 87(2)(a) o'r Ddeddf). Ym mhob achos arall, mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ddisgybl os yw ef neu hi o fewn ardal yr awdurdod lleol (adran 99(4) o'r Ddeddf).
[61] Adran 32 o'r Ddeddf.
[62] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 32(1)(b) o'r Ddeddf.
[63] Adran 32(2) o'r Ddeddf
[64] Adran 32(3) o'r Ddeddf
[65] Gofyniad a orfodir gan y Cod.
[66] Adran 32(4) o'r Ddeddf
[67] Adran 32(5) o'r Ddeddf.
[68] Adran 70 o'r Ddeddf.
[69] Gofyniad a orfodir gan y Cod

darparu taflen gan yr awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau perthnasol yr awdurdod lleol ar y we, gan dynnu sylw at sut i gael mwy o wybodaeth a chyngor;
- manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[71] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[72]; a
- gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

[70] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[71] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[72] O dan adran 69 o'r Ddeddf.

# Pennod 22: Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw

## *Cyflwyniad*

22.1 Mae'r bennod hon yn sôn am y sefyllfa i blant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sydd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid perthnasol neu mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ('Deddf 1983'). Mae'n cynnwys eu hawl i gael penderfyniad ar ADY, eu hawl i gael DDY a'u hawl i apelio, ac yn esbonio beth sy'n digwydd i CDU tra'u bod dan gadwad. Mae'r un mor berthnasol hefyd i blant sy'n derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf cyn cael eu gwneud yn destun gorchymyn cadw.

22.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn gwahanol fathau o sefyllfaoedd cadw:

- plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sydd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr (a ddiffinnir yn y Ddeddf a'r Cod fel "person dan gadwad") – gweler paragraffau 22.4 i 22.39. Mae gan awdurdod cartref y person dan gadwad ddyletswyddau penodol o dan y Ddeddf. Ni fydd dyletswyddau ar ysgolion, SABau ac awdurdodau lleol (er y bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am ddyletswyddau'r awdurdod cartref os mai ef yw'r awdurdod cartref) o dan y Ddeddf yn berthnasol mwyach tra bod plentyn neu berson ifanc yn berson dan gadwad[1].
- plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sydd dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 – gweler paragraffau 22.40 i 22.73. Bydd dyletswyddau awdurdod lleol o dan y Ddeddf yn berthnasol yn y senario hwn fel arfer (er enghraifft, i benderfynu ar ADY ac i baratoi a chynnal CDU). Nid yw dyletswyddau ar ysgolion a SABau o dan y Ddeddf yn berthnasol yn y senario hwn[2].

22.3 Yn ogystal, ni fydd y dyletswyddau ar ysgolion, SABau ac awdurdodau lleol o dan y Ddeddf yn berthnasol tra bod plentyn neu berson ifanc yn destun gorchymyn cadw a dan gadwad heblaw mewn:

(a) llety cadw ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr (er enghraifft, mewn carchar), neu
(b) ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983[3].

[1] Adran 44(1) – (2) o'r Ddeddf.
[2] Adran 44(3) – (4) o'r Ddeddf.
[3] Adran 44(3) a (4) o'r Ddeddf ac adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y mae'n cael effaith at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf yn rhinwedd adran 44(5) – (7) o'r Ddeddf).

## *Plant a phobl ifanc dan gadwad*

### Dyletswydd awdurdod cartref i benderfynu a oes gan berson dan gadwad ADY

22.4 Os caiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu os yw'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod gan berson dan gadwad y mae'r awdurdod hwnnw'n gweithredu fel yr 'awdurdod cartref' ar ei gyfer ADY ac nad yw CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer, **rhaid**[4] i'r awdurdod:

(a) benderfynu a oes gan y person dan gadwad ADY ai peidio; ac
(b) os yw'n penderfynu bod gan y person ADY, rhaid iddo benderfynu, yn unol â rheoliadau, a fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person hwnnw ar ôl iddo gael ei ryddhau i ddiwallu ei anghenion rhesymol ar gyfer addysg neu hyfforddiant.

22.5 Gall y posibilrwydd bod gan berson dan gadwad ADY gael ei "ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Nid oes gwahaniaeth sut y caiff y posibilrwydd bod gan berson ifanc ADY ei ddwyn i sylw awdurdod lleol na sut y mae'n ymddangos iddo fel arall bod gan y person ifanc ADY; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna mae'r ddyletswydd i benderfynu yn berthnasol. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ac ar nodi pryd y gall fod gan berson ADY ym Mhennod 7).

22.6 Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol wneud y penderfyniad hwn:

- os yw'r person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud neu i gynllun gael ei baratoi; neu
- os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu yn flaenorol a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw neu benderfyniad blaenorol na fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person dan gadwad ar ôl iddo gael ei ryddhau[5].

22.7 Os oes gan awdurdod cartref ddyletswydd i benderfynu a oes gan y person dan gadwad ADY ai peidio, **rhaid**[6] iddo:-

(a) ddynodi person i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac unrhyw benderfyniad ar a oes angen CDU ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei baratoi;
(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person dan gadwad ADY;
(c) cofnodi'r dyddiad y cydsyniodd y person dan gadwad, os yw'n berson ifanc, i'r penderfyniad gael ei wneud;

[4] Adran 40(2) o'r Ddeddf.
[5] Adran 41 o'r Ddeddf.
[6] Gofyniad a osodir gan y Cod

(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd bod gan y person dan gadwad ADY ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person dan gadwad ADY;
(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau 22.8 – 22.9 isod.

22.8 Os yw'r person dan gadwad yn blentyn, **rhaid**[7] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r plentyn a rhiant y plentyn bod rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio.

22.9 Os yw'r person dan gadwad yn berson ifanc, **rhaid**[8] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon (o'r amser pan gafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY):

(a) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu'n ymddangos iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(b) gofyn i'r person ifanc gydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os penderfynir bod gan y person ifanc ADY, i CDU gael ei baratoi; a
(c) rhoi gwybod i'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio a pheidio â chydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

22.10 **Rhaid**[9] i'r hysbysiad (boed o dan baragraff 22.8 neu 22.9) gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydgysylltydd;
(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar ADY a'r system ADY[10].

22.11 **Dylai'r** hysbysiad roi syniad o'r amserlenni tebygol ar gyfer y broses.

22.12 Os na fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud, **rhaid**[11] cofnodi hyn. **Dylai** fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a all gynnwys y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau ei fod yn gwrthod cydsyniad.

22.13 Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol wneud y penderfyniad, cyn gwneud hynny, **rhaid**[12] iddo wahodd y person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol i gymryd rhan yn y penderfyniad ac, os bydd angen, i helpu i baratoi CDU.

22.14 Wrth benderfynu a oes gan berson dan gadwad ADY ai peidio, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol, er enghraifft, gan dimau troseddau ieuenctid, ynghyd ag ysgolion a SABau yr oedd y person yn

[7] Gofyniad a osodir gan y Cod
[8] Gofyniad a osodir gan y Cod
[9] Gofyniad a osodir gan y Cod
[10] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[11] Gofyniad a osodir gan y Cod
[12] Adran 40(3) o'r Ddeddf.

arfer eu mynychu. Gall gofalwyr, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a gweithwyr ieuenctid gefnogi'r gwaith o nodi ADY. Gall yr awdurdod cartref ofyn am wybodaeth neu help arall gan bobl berthnasol, gan gynnwys y person â chyfrifoldeb dros lety cadw ieuenctid perthnasol, y gall fod ei angen i wneud ei benderfyniad (mae Pennod 15 yn ymdrin â cheisiadau gan awdurdodau lleol am wybodaeth neu help arall a'r dyletswyddau cyfatebol ar bobl berthnasol).

**Penderfyniad awdurdod cartref bod gan berson dan gadwad ADY – penderfynu a fydd angen CDU**

22.15 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod gan berson dan gadwad ADY, **rhaid**[13] iddo benderfynu, yn unol â rheoliadau[14], a fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person ar ôl iddo gael ei ryddhau i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. I benderfynu hyn, bydd angen i'r awdurdod ystyried yr amgylchiadau tebygol pan fydd y person yn cael ei ryddhau. Bydd CDU yn angenrheidiol oni bai[15]:

(a) ei bod hi'n debygol y bydd y person wedi troi'n 25 oed cyn iddo gael ei ryddhau; neu
(b) yn achos person ifanc dan gadwad, ei bod hi'n annhebygol y bydd gan y person anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan fydd yn cael ei ryddhau.

22.16 Felly, yn achos plentyn dan gadwad, bydd CDU yn angenrheidiol bron bob amser. Yn achos person ifanc dan gadwad, bydd angen i'r awdurdod cartref ystyried a yw'r person yn debygol o fod ag anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant pan fydd yn cael ei ryddhau. Mae'r un materion sy'n berthnasol i benderfynu a oes gan berson ifanc nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant (fel yr amlinellir ym mhennod 12) yn berthnasol yma. Fodd bynnag, yn y sefyllfa gadw, bydd angen i'r awdurdod cartref ystyried yr amgylchiadau tebygol pan fydd y person yn cael ei ryddhau.

22.17 Os bydd yr awdurdod cartref yn penderfynu bod angen cynnal CDU ar gyfer y person ar ôl iddo gael ei ryddhau, **rhaid**[16] iddo baratoi CDU ar gyfer y person hwnnw oni bai bod y person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r cynllun gael ei baratoi.

**Penderfyniad awdurdod cartref nad oes gan berson dan gadwad ADY neu nad oes angen paratoi CDU**

22.18 Os bydd yr awdurdod cartref yn penderfynu nad oes gan y person dan gadwad ADY, neu na fydd angen cynnal CDU ar gyfer y person dan gadwad

[13] Adran 40(2) o'r Ddeddf.
[14] Rheoliadau a wnaed o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[15] Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[16] Adrannau 40(5) a 41 o'r Ddeddf.

ar ôl iddo gael ei ryddhau, **rhaid**[17] iddo roi gwybod i'r person dan gadwad, rhieni'r person dan gadwad os yw'n blentyn a'r person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. **Rhaid**[18] i'r awdurdod cartref wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon.

22.19 Yn ogystal ag egluro'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad, **rhaid**[19] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod cartref;
(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar ADY a'r system ADY[20];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod cartref ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[21] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[22]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

### Dyletswydd awdurdod cartref i baratoi CDU ar gyfer person dan gadwad

22.20 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod gan berson dan gadwad ADY ac y bydd angen cynnal CDU ar ei gyfer ar ôl iddo gael ei ryddhau, **rhaid**[23] iddo baratoi CDU ar gyfer y person hwnnw (oni bai, yn achos person ifanc, na fydd yn cydsynio i'r cynllun gael ei baratoi).

22.21 **Rhaid**[24] i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai DDY gael ei darparu i'r person dan gadwad yn y Gymraeg ac, os bydd yn penderfynu y dylai math penodol o DDY gael ei darparu yn y Gymraeg, **rhaid**[25] iddo nodi yn y cynllun y dylai gael ei darparu yn y Gymraeg.

22.22 Os bydd y person dan gadwad angen lle mewn ysgol neu sefydliad penodol, neu fwrdd a llwyth i ddiwallu ei anghenion rhesymol am DDY, pan fydd yn cael ei ryddhau, **rhaid**[26] i'r awdurdod cartref ei ddisgrifio yn y CDU. Mae hyn yn amodol ar y cyfyngiadau ar ddisgrifio lleoliadau mewn CDUau (gweler paragraff 12.42).

22.23 Bydd angen i'r awdurdod ystyried ei swyddogaethau perthnasol eraill hefyd mewn perthynas â pharatoi a chynnal CDUau, megis y ddyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir (gweler paragraffau 11.25 – 11.34) ac enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau y caiff plentyn ei dderbyn (gweler paragraffau 11.35 – 11.42). Byddai angen i'r awdurdod cartref ystyried

[17] Adran 40(4) o'r Ddeddf.
[18] Gofyniad amserlen a osodir gan y Cod
[19] Gofyniad a osodir gan y Cod
[20] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[21] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[22] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[23] Adrannau 40(5) a 41 o'r Ddeddf.
[24] Adran 40(6) o'r Ddeddf.
[25] Adran 40(6) o'r Ddeddf.
[26] Adran 40(7) o'r Ddeddf

a ddylai arfer y swyddogaethau hyn, lle'n berthnasol, yng ngoleuni'r holl amgylchiadau, a all gynnwys pryd mae'r person yn debygol o gael ei ryddhau.

22.24 Cyn iddo gael ei gwblhau, **dylai'r** awdurdod cartref roi cyfle i'r plentyn dan gadwad a rhiant plentyn dan gadwad sy'n blentyn wneud sylwadau ar ddrafft o'r CDU a **dylai** eu hannog i godi unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl. **Dylai'r** awdurdod cartref ystyried unrhyw bryderon a gweithredu arnynt fel sy'n ofynnol, efallai trwy ddiweddaru'r CDU drafft neu esbonio penderfyniadau neu faterion ymhellach.

22.25 Ar ôl ei baratoi, **rhaid**[27] i'r awdurdod cartref roi copi o'r CDU i'r person dan gadwad a rhiant plentyn dan gadwad sy'n blentyn a'r person â chyfrifoldeb dros lety cadw ieuenctid perthnasol. **Rhaid**[28] i'r awdurdod cartref wneud y penderfyniad ar ADY a'r penderfyniad ynghylch a fydd angen CDU a pharatoi'r cynllun a rhoi copi o'r cynllun yn brydlon.

**Dyletswydd awdurdod cartref i gadw CDU ar gyfer person dan gadwad ag ADY a threfnu DDY briodol**

22.26 Os oedd gan berson dan gadwad CDU a oedd yn cael ei gynnal ar ei gyfer yn union cyn dechrau ei gyfnod dan gadwad, neu os yw awdurdod cartref wedi paratoi CDU yn ystod ei gyfnod dan gadwad[29], **rhaid**[30] i'r awdurdod cartref, os yw yng Nghymru, gadw'r CDU tra bod y person dan gadwad.

22.27 Os oedd y CDU yn cael ei gynnal gan ysgol neu SAB neu gan awdurdod lleol arall cyn cyfnod y person dan gadwad, dim ond pan gaiff hyn ei ddwyn i'w sylw y mae dyletswydd yr awdurdod cartref i gadw'r CDU yn berthnasol.[31]

22.28 **Rhaid**[32] i'r awdurdod cartref roi gwybod i'r person dan gadwad a rhiant person dan gadwad sy'n blentyn ei fod yn cadw'r CDU tra bod y person dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid perthnasol. **Rhaid**[33] i'r awdurdod roi copi o'r CDU i'r person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol.

22.29 Os yw'r awdurdod cartref yn cadw CDU, **rhaid**[34] iddo drefnu i "DDY briodol" gael ei darparu i'r person dan gadwad.

22.30 Y "DDY briodol" yw'r[35]-

- DDY a nodir yn y CDU,

[27] Adran 40(5) o'r Ddeddf
[28] Gofyniad amserlen a osodir gan y Cod
[29] O dan adran 40 o'r Ddeddf
[30] Adran 42(1) – (3) o'r Ddeddf.
[31] Adran 42(5) o'r Ddeddf.
[32] Adran 42(6) o'r Ddeddf.
[33] Adran 42(7) o'r Ddeddf.
[34] Adran 42(8) o'r Ddeddf.
[35] Adran 42(9) o'r Ddeddf.

- os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'n ymarferol i'r DDY a nodir yn y CDU gael ei darparu, darpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agor â phosibl i'r DDY honno, neu
- os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'r DDY a nodir yn y CDU yn briodol i'r person dan gadwad mwyach, y DDY a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod cartref.

22.31 Os yw'r CDU yn nodi y dylai'r DDY gael ei darparu yn y Gymraeg, **rhaid**[36] i'r awdurdod cartref gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDY briodol yn cael ei darparu yn y Gymraeg.

22.32 Efallai na fydd hi'n ymarferol bob amser i awdurdod cartref sicrhau'r DDY briodol i ddiwallu anghenion person dan gadwad, neu efallai na fydd y DDY yn y CDU yn briodol mwyach. Dyma pam mai'r ddyletswydd yw trefnu DDY briodol yn hytrach na DDY sicr. Os nad yw'r DDY a amlinellir yn y CDU ar gael yn y llety cadw ieuenctid perthnasol ar hyn o bryd, nid yw hynny'n golygu na fyddai'n ymarferol ei darparu o reidrwydd. O dan amgylchiadau o'r fath, **dylai'r** awdurdod cartref weithio gyda'r person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i nodi a ellid darparu'r DDY ac, os na fyddai'n ymarferol gwneud hynny, y ddarpariaeth sy'n cyfateb mor agor â phosibl i'r DDY a amlinellir yn y CDU.

22.33 Nid yw adolygiadau mewn perthynas â CDUau a gedwir ar gyfer person dan gadwad yn ofynnol o dan y Ddeddf. Felly, efallai y daw amser pan na fydd yr ADY a'r DDY a amlinellir ynddynt yn briodol mwyach. Os yw'n ymddangos i'r awdurdod cartref nad yw'r DDY a nodir yn y CDU yn briodol mwyach, er enghraifft, os yw anghenion y person dan gadwad wedi newid ers i'r CDU gael ei baratoi neu ers i'r person fod dan gadwad, **rhaid**[37] i'r awdurdod cartref drefnu DDY a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod cartref. **Dylai** weithio gyda'r person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i bennu beth fyddai DDY briodol yn ei chynnwys.

22.34 I gyflawni'r dyletswyddau hyn, **gall**[38] awdurdodau cartref ofyn i berson perthnasol (gan gynnwys y person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol neu'r tîm troseddau ieuenctid) ddarparu gwybodaeth neu help arall. Mae Pennod 14 yn ymdrin â cheisiadau o'r fath. Mae gan dimau troseddau ieuenctid ddyletswyddau[39] i roi gwybod i awdurdodau lleol am blentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid perthnasol, yn cael ei drosglwyddo i lety cadw ieuenctid perthnasol neu ei ryddhau o lety cadw ieuenctid perthnasol.

22.35 **Dylai** awdurdod cartref weithio'n agos gyda'r person â chyfrifoldeb dros y llety cadw ieuenctid perthnasol a'r darparwr addysg i drefnu DDY briodol ar gyfer person dan gadwad. **Dylai'r** awdurdod cartref geisio gwneud hyn cyn gynted ag y daw'n ymwybodol bod y person dan gadwad yn y ddalfa a bod ganddo

[36] Adran 42(8)(b) o'r Ddeddf.
[37] Adran 42(8) a (9) o'r Ddeddf.
[38] Adran 65 o'r Ddeddf.
[39] O dan Adran 39A o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998

CDU, neu wrth iddo baratoi CDU ar gyfer y person dan gadwad, gan ddefnyddio gweithdrefnau cynllunio presennol y sefydliad gwarchod a'r tîm troseddau ieuenctid lle bo hynny'n bosibl.

22.36 Mae dedfrydau o garchar ar gyfer plant a phobl ifanc yn rhai byr yn aml. Felly, mae hi'n bwysig i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym fel arfer i alluogi'r DDY briodol i gael ei rhoi ar waith yn ddi-oed a fel bod unrhyw CDU a baratoir ar gyfer person dan gadwad yn barod i gael ei gynnal pan fydd y person yn cael ei ryddhau.

**Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer plant a phobl ifanc dan gadwad pan fyddant yn cael eu rhyddhau**

22.37 Pan fydd person dan gadwad yr oedd CDU yn cael ei gadw ar ei gyfer, os yw awdurdod lleol yn gyfrifol am y person, **rhaid**[40] iddo gynnal y CDU oni bai;

(a) bod y person yn blentyn a fydd, ar ôl cael ei ryddhau, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol arall; os felly, **rhaid**[41] i'r awdurdod lleol arall hwnnw gynnal y CDU;
(b) bod y person yn berson ifanc ac nad yw'n cydsynio i'r CDU gael ei gynnal.

22.38 Pan fo awdurdod lleol yn ymwybodol y bydd rhaid iddo gynnal CDU ar gyfer person dan gadwad sydd ar fin cael ei ryddhau o lety cadw ieuenctid perthnasol, neu sydd eisoes wedi cael ei ryddhau, **dylai'r** awdurdod ystyried a ddylid adolygu'r CDU. Mewn achosion lle cafodd y CDU ei baratoi neu ei adolygu ddiwethaf amser maith yn ôl neu lle mae'r amgylchiadau wedi newid yn fawr ers i'r CDU gael ei baratoi neu ei adolygu ddiwethaf, mae'n debygol y bydd angen cynnal adolygiad yn syth. Mewn achosion lle bydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru, a lle mae'r CDU wedi'i baratoi neu ei adolygu'n ddiweddar, efallai y bydd yr awdurdod lleol o'r farn y byddai trosglwyddo'r CDU i'r ysgol neu'r SAB yn fwy priodol, gan alluogi'r ysgol neu'r SAB i adolygu'r CDU ar ôl i'r plentyn neu'r person ifanc ailgydio yn ei addysg neu ei hyfforddiant (gweler Pennod 20 am wybodaeth am drosglwyddo CDU). **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried unrhyw dystiolaeth berthnasol a ddarperir gan y sefydliad gwarchod, y darparwr addysg a'r timau troseddau ieuenctid wrth bennu a ddylid ei adolygu, ac fel rhan o unrhyw adolygiad ac os yw'n ystyried a ddylid trosglwyddo cyfrifoldeb drosto i ysgol neu SAB.

**Hawliau apelio i bobl dan gadwad**

22.39 Mae gan berson dan gadwad hawl i apelio i'r Tribiwnlys (gweler Pennod 26 am fwy o arweiniad).

[40] Adrannau 43(1) - (2) a 14(2) – (3) o'r Ddeddf.
[41] Adran 43(3) - (4) 'r Ddeddf

## *Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw ac sydd dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983*

22.40 Mae Rhan 2 o Ddeddf 1983 yn sôn am dderbyniad gorfodol i'r ysbyty[42]. Mae'r Ddeddf yr un mor berthnasol i'r rhai sy'n cael eu derbyn yn orfodol i'r ysbyty o dan Ran 2 o Ddeddf 1983 ag ydyw i blant a phobl ifanc eraill: ni wneir unrhyw ddarpariaeth arbennig ar gyfer yr amgylchiadau hyn. Mae Penodau 9 – 12 yn berthnasol i achosion o'r fath, yn dibynnu ar a yw'r dysgwr yn blentyn neu'n berson ifanc, yn ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn SAB yng Nghymru, neu ddim yn ddisgybl neu fyfyriwr o'r fath.

22.41 Mae Rhan 3 o Ddeddf 1983 yn sôn am dderbyniad gorfodol i'r ysbyty yn ystod achos troseddol neu o dan ddedfryd. Yn yr achosion hyn, byddai'r person yn destun gorchymyn cadw (fel y'i diffinnir at ddibenion y Ddeddf). Mae gweddill y bennod hon yn sôn am y dyletswyddau[43] sy'n ddyledus i blant a phobl ifanc dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 ac mae cyfeiriadau at berson dan gadwad mewn ysbyty (sut bynnag y'i mynegir) yn cyfeirio at gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983.

22.42 Gall person fod dan gadwad mewn lle diogel rhwng gwneud gorchmyn cadw o dan Ran 3 o Ddeddf 1983 a chyfnod y person dan gadwad mewn ysbyty. Mae cyfeiriadau yn y bennod hon at sefyllfa person cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty yn cyfeirio at ei sefyllfa yn union cyn unrhyw gyfnod dan gadwad mewn lle diogel o dan Ran 3 o Ddeddf 1983, sydd yn union cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty.

22.43 Cyn cyfnod dan gadwad mewn ysbyty, efallai:

(a) na fydd gan blentyn neu berson ifanc CDU o gwbl. Gallai hyn fod, er enghraifft, os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i nodi fel bod ag ADY neu os oedd dan gadwad mewn llety heblaw llety cadw ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr;
(b) bod gan y plentyn neu'r person ifanc CDU sy'n cael ei gadw. Byddai hyn ond yn berthnasol lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc yn berson dan gadwad; neu
(c) fod gan y plentyn neu'r person ifanc CDU sy'n cael ei gynnal. Byddai hyn yn berthnasol lle nad oedd y person yn destun gorchymyn dan gadwad.

22.44 Mae'r dyletswyddau sy'n berthnasol ychydig yn wahanol yn dibynnu ar a oedd CDU o gwbl, a oedd CDU yn cael ei gadw neu a oedd CDU yn cael ei gynnal.

[42] Nid yw'r derbyniadau hyn yn golygu bod y person yn destun gorchymyn cadw fel y'i diffinnir at ddibenion y Ddeddf.
[43] Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol trwy reoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.

**Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty ADY**

22.45 Os nad oedd CDU yn cael ei gynnal neu ei gadw ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn union cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty a'i fod yn cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol perthnasol neu'n ymddangos iddo fel arall, os yng Nghymru, y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, **rhaid**[44] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY. Mae'r awdurdod lleol perthnasol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| (a) Os oedd y plentyn neu'r person ifanc yn berson dan gadwad cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty | Yr awdurdod cartref |
| (b) Os nad yw (a) yn berthnasol, os yw'r person yn blentyn sy'n derbyn gofal | Yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn |
| (c) Pob achos arall | Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc |

22.46 Gall y posibilrwydd y gall y plentyn neu'r person ifanc fod ag ADY gael ei "ddwyn i sylw" awdurdod lleol mewn sawl ffordd. Nid oes gwahaniaeth sut y caiff y posibilrwydd y gall plentyn neu berson ifanc fod ag ADY ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol na sut y mae'n ymddangos iddo fel arall bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY; os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, mae'r ddyletswydd i benderfynu'n berthnasol. (Mae canllawiau ar y diffiniad o ADY ac ar nodi pryd y gall person ifanc fod ag ADY ym Mhennod 7).

22.47 Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol perthnasol wneud y penderfyniad hwn:

- os yw'r person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud; neu
- os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu'n flaenorol a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio a'i fod yn fodlon nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad[45].

22.48 Os oes rhaid i awdurdod lleol perthnasol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, **rhaid**[46] iddo:

(a) ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydgysylltu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac unrhyw benderfyniad ar a oes angen

[44] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[45] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[46] Gofyniad a osodir gan y Cod.

CDU ar gyfer person ifanc ac, os oes angen CDU, bod yn gyfrifol am ei baratoi;
(b) cofnodi'r dyddiad y cafodd ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY;
(c) cofnodi'r dyddiad y cydsyniodd y person, os yw'n berson ifanc, i'r penderfyniad gael ei wneud;
(d) cofnodi crynodeb o sut y cafodd y posibilrwydd y gall y person ifanc fod ag ADY ei ddwyn i'w sylw neu sut yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY.
(e) rhoi'r hysbysiad perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraffau (22.49 – 22.50) isod.

22.49 Yn achos plentyn, **rhaid**[47] i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r plentyn a rhiant y plentyn bod rhaid penderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio.

22.50 Yn achos person ifanc, **rhaid**[48] i'r awdurdod lleol wneud y canlynol yn brydlon (o'r amser pan gafodd y posibilrwydd bod gan y person ifanc ADY ei ddwyn i'w sylw neu yr ymddangosodd iddo fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY):

(a) rhoi gwybod i'r person ifanc ei fod wedi ei ddwyn i'w sylw neu'n ymddangos iddo Fel arall y gall fod gan y person ifanc ADY;
(b) gofyn i'r person ifanc gydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud ac, os penderfynir bod gan y person ifanc ADY, i CDU gael ei baratoi a'i gynnal; a
(c) rhoi gwybod i'r person ifanc am ganlyniadau cydsynio a pheidio â chydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

22.51 **Rhaid**[49] i'r hysbysiad (boed o dan baragraff 22.49 neu 22.50) gynnwys:

(a) enw a manylion cyswllt y cydgysylltydd;
(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar ADY a'r system ADY[50].

22.52 **Dylai'r** hysbysiad roi syniad o'r amserlenni tebygol ar gyfer y broses.

22.53 Os na fydd y person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud, **rhaid**[51] cofnodi hyn. **Dylai** fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau priodol ar waith i hwyluso hyn, a all gynnwys y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau ei fod yn gwrthod cydsyniad.

[47] Requirement imposed by the Code
[48] Requirement imposed by the Code.
[49] Gofyniad a osodir gan y Cod
[50] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[51] Gofyniad a osodir gan y Cod

22.54 Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol perthnasol wneud y penderfyniad, **dylai** ystyried gwahodd cydgysylltydd gofal[52] y plentyn neu'r person ifanc i gymryd rhan yn y penderfyniad ac, os bydd angen, i helpu i baratoi'r CDU.

**Penderfyniad awdurdod lleol nad oes gan blentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty ADY**

22.55 Os bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, **rhaid**[53] iddo roi gwybod i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. **Rhaid**[54] i'r awdurdod wneud y penderfyniad a rhoi'r hysbysiad yn brydlon.

22.56 Yn ogystal ag amlinellu'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad, **rhaid**[55] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar ADY a'r system ADY[56];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[57] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[58]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

**Penderfyniad awdurdod lleol bod gan blentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty ADY**

22.57 Os bydd awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu bod gan berson dan gadwad mewn ysbyty ADY, **rhaid**[59] iddo baratoi CDU ar gyfer y plentyn.

22.58 Os bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu bod gan berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty ADY, **rhaid**[60] iddo benderfynu, yn unol â rheoliadau[61], a oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant (gweler Pennod 12 am arweiniad pellach ar y mater hwn). Wrth ystyried hyn, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys cadwad y person ac a oes unrhyw gwrs ar gael ac a yw'n addas. Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant, **rhaid**[62] iddo baratoi CDU ar gyfer y person hwnnw oni bai nad yw'r person yn cydsynio i'r cynllun gael ei baratoi.

---

[52] O dan adran 14 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, mae dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl i benodi unigolyn yn gydgysylltydd gofal ar gyfer claf perthnasol.
[53] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[54] Gofyniad amserlen a osodir gan y Cod.
[55] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[56] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[57] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[58] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[59] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[60] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[61] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 46 o'r Ddeddf.
[62] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.

22.59 Os bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu nad oes angen paratoi CDU ar gyfer y person ifanc, **rhaid**[63] iddo roi gwybod i'r person ifanc yn syth am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

22.60 Yn ogystal ag amlinellu'r penderfyniad a'r rhesymau drosto, **rhaid**[64] i'r hysbysiad gynnwys:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar ADY a'r system ADY[65];
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[66] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[67]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn y penderfyniad.

**Dyletswydd awdurdod lleol i baratoi CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty**

22.61 Os bydd awdurdod lleol perthnasol wedi penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty ADY ac, yn achos person ifanc, penderfynu bod angen paratoi CDU, **rhaid**[68] iddo baratoi a chynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Ond nid oes rhaid i'r awdurdod lleol wneud hynny os yw'r person yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r CDU gael ei baratoi neu ei gynnal.

22.62 **Rhaid**[69] i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai DDY gael ei darparu i'r plentyn neu'r person ifanc yn y Gymraeg ac, os bydd yn penderfynu y dylai math penodol o DDY gael ei darparu yn y Gymraeg, **rhaid**[70] iddo nodi yn y CDU y dylai gael ei darparu yn y Gymraeg.

22.63 Bydd angen i'r awdurdod ystyried ei swyddogaethau perthnasol eraill hefyd mewn perthynas â pharatoi a chynnal CDUau, megis y ddyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir (gweler paragraffau 11.25 – 11.34) ac enwi ysgol a gynhelir at ddiben sicrhau y caiff plentyn ei dderbyn (gweler paragraffau 11.35 – 11.42). Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai arfer y swyddogaethau hyn, lle'n berthnasol, yng ngoleuni'r holl amgylchiadau, gan gynnwys pryd mae'r person yn debygol o gael ei ryddhau.

---

[63] Regulations to be made under section 46 of the Act.
[64] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[65] Dyma'r trefniadau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu gwneud o dan adran 9 o'r Ddeddf.
[66] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[67] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[68] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[69] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[70] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.

22.64 Ar ôl ei baratoi, **rhaid**[71] i'r awdurdod lleol roi copi o'r CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn neu'r person ifanc. **Rhaid**[72] i'r awdurdod lleol cyfrifol wneud y penderfyniad ar ADY a'r penderfyniad ynghylch a fydd angen CDU a pharatoi'r cynllun a rhoi copi o'r cynllun yn brydlon.

22.65 **Rhaid**[73] i'r awdurdod lleol roi'r canlynol i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc:

(a) manylion cyswllt yr awdurdod lleol;
(b) gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ar ADY a'r system ADY;
(c) manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[74] a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol[75]; a
(d) gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg.

**Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty**

22.66 Os yw awdurdod lleol perthnasol wedi paratoi CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty, **rhaid**[76] iddo gynnal y CDU a sicrhau'r DDY a ddisgrifir arno.

22.67 Os oedd gan blentyn neu berson ifanc CDU a oedd yn cael ei gynnal gan ysgol neu SAB cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty, nid oes gan yr ysgol neu'r SAB unrhyw ddyletswydd i'w gynnal tra bod y person yn destun gorchymyn cadw[77]. Yn hytrach, **rhaid**[78] i'r awdurdod lleol perthnasol gynnal y CDU.

22.68 Os oedd gan blentyn neu berson ifanc CDU a oedd yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty, **rhaid**[79] i'r awdurdod lleol perthnasol gynnal y CDU.

22.69 Os oedd plentyn neu berson ifanc dan gadwad mewn llety cadw ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu Loegr cyn ei gyfnod dan gadwad mewn ysbyty, nid yw dyletswydd yr awdurdod cartref i gadw'r CDU yn berthnasol tra bod y person dan gadwad yn yr ysbyty[80]. Yn hytrach, **rhaid**[81] i'r awdurdod cartref (fel yr awdurdod lleol perthnasol) gynnal y CDU.

[71] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[72] Gofyniad amserlen a osodir gan y Cod.
[73] Gofyniad a osodir gan y Cod.
[74] O dan adran 68 o'r Ddeddf.
[75] O dan adran 69 o'r Ddeddf.
[76] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[77] Adran 44(1) – (4) o'r Ddeddf.
[78] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[79] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[80] Adran 562 o Ddeddf Addysg 1996.
[81] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.

22.70 **Rhaid**[82] i awdurdod lleol perthnasol sy'n cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd dan gadwad mewn ysbyty adolygu'r CDU yn unol â'r dyletswyddau ar adolygiadau o CDUau (a amlinellir ym Mhennod 16). Yn achos person ifanc, **dylai** adolygiad ystyried, yng ngoleuni'r holl amgylchiadau (gan gynnwys cyfnod y person dan gadwad mewn ysbyty), a oes angen parhau i gynnal y CDU i ddiwallu holl anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant (gweler Penodau 12 ac 16). Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad oes angen cynnal y CDU, efallai y bydd yn rhoi'r gorau i gynnal y CDU (gweler Pennod 21).

22.71 **Dylai'r** awdurdod lleol gynnwys y gweithwyr proffesiynol sy'n darparu'r gwasanaethau gofal iechyd i'r plentyn neu'r person ifanc mewn unrhyw benderfyniadau ac unrhyw adolygiad.

22.72 Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei ryddhau yn ôl i'r gymuned yn dilyn cyfnod dan gadwad mewn ysbyty a'i fod, yn union ar ôl cael ei ryddhau, yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, **rhaid**[83] i'r awdurdod lleol cyfrifol gynnal y CDU. Ond os yw'r person yn blentyn sydd, yn union ar ôl cael ei ryddhau, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn gynnal y CDU[84].

22.73 Os bydd y plentyn neu'r person ifanc â CDU yn symud o fod dan gadwad mewn ysbyty i lety cadw ieuenctid perthnasol, **rhaid**[85] i'r awdurdod lleol cartref gadw'r CDU (gweler paragraffau 22.26 – 22.36).

[82] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[83] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[84] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.
[85] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 45 o'r Ddeddf.

# Pennod 23: Plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol

## _Cyflwyniad_

23.1 Mae’r bennod hon yn trafod plant a phobl ifanc sydd mewn amgylchiadau penodol.

23.2 Dyma'r grwpiau hyn:

- plant a phobl ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru;
- plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ac eithrio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion;
- plant sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion;
- plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol oherwydd anghenion gofal iechyd; plant sy'n derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu heblaw yn yr ysgol;
- plant gweithwyr o’r lluoedd arfog.

## _Plant a phobl ifanc sydd o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ac yn ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru_

23.3 Os yw plentyn neu berson ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr ond yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, disgrifir dyletswyddau'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach i benderfynu a oes gan y plentyn/person ifanc ADY, a llunio a chynnal CDU ar ei gyfer, ym Mhennod 9 a 10.

23.4 Gan nad yw awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc o'r fath, nid yw dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu'n fyfyrwyr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru (fel y disgrifir ym Mhennod 9 a 10) yn berthnasol mewn cysylltiad â'r personau hyn. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau'n ymwneud ag ystyriaethau gan awdurdodau lleol a ddisgrifir ym Mhennod 17 yn berthnasol gydag addasiadau mewn achosion lle mae disgybl sy'n mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Y prif addasiad yw taw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol sy'n gyfrifol am ailystyried y penderfyniad ynghylch a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY ai peidio, a hefyd am ailystyried CDU. Disgrifir hyn, ac addasiadau pellach, ym Mhennod 17.

23.5 Mae dyletswyddau'r awdurdodau lleol mewn perthynas â gwneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a darparu gwasanaethau eirioli annibynnol, fel y amlinellir ym Mhennod 25, yn cynnwys gwneud trefniadau o'r fath ar gyfer plant neu bobl ifanc o fewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol a gynhelir yn ei ardal neu wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach yn ei ardal[1].

## *Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)*

23.6 O dan Ddeddf Addysg 1996, mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau EOTAS. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd[2] i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas i blant o oedran ysgol gorfodol na fyddent efallai, am ba reswm bynnag, yn derbyn addysg addas fel arall. Mae hefyd yn cynnwys pŵer[3] i wneud yr un peth ar gyfer pobl ifanc. Hwyrach eu bod yn sâl neu wedi'u hanafu, neu wedi'u gwahardd. Gall y ddarpariaeth EOTAS gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgolion mewn ysbytai, sefydliadau addysg bellach, ac addysg unigol (ond mae hyn yn wahanol i addysg ddewisol yn y cartref).

23.7 **Caiff**[4] awdurdod lleol drefnu i'r DDdY a ddisgrifir mewn CDU y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn, i unrhyw ran o'r ddarpariaeth honno, gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol, ond ni chaiff yr awdurdod lleol wneud hynny ond os yw'n fodlon y byddai'n amhriodol i'r DDdY gael ei gwneud mewn ysgol[5].

23.8 Os yw plentyn yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ond nid mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (trafodir plant sy'n mynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion isod yn y bennod hon) ac os yw'n cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol cyfrifol neu'n ymddangos iddo y gallai fod gan y plentyn ADY, **rhaid**[6] i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio, oni bai bod yna eithriadau. Trafodir y ddyletswydd hon, yr eithriadau a'r dyletswyddau cysylltiedig (gan gynnwys y ddyletswydd i lunio CDU) ym Mhennod 11.

23.9 Os oes gan blentyn CDU eisoes cyn bod darpariaeth EOTAS yn cael ei threfnu, a bod y CDU yn cael ei gynnal gan ysgol, bydd dyletswydd yr ysgol i'w gynnal yn peidio os yw'r plentyn yn peidio â bod yn ddisgybl cofrestredig[7]. Os felly, mae'r awdurdod lleol cyfrifol yn debygol o fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i benderfynu a oes gan y plentyn ADY, ac os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, y dyletswyddau i lunio a chynnal CDU (gweler Pennod 11). Fodd bynnag, os yw'r plentyn yn parhau i fod yn gofrestredig yn yr ysgol, efallai y byddai'n fwy priodol i'r awdurdod lleol cyfrifol gymryd

[1] Adran 69(8) o'r Ddeddf.
[2] Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996.
[3] Adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996.
[4] Adran 53 o'r Ddeddf.
[5] Adran 53(2) o'r Ddeddf.
[6] Adran 13 o'r Ddeddf.
[7] Adran 31(1)(a) o'r Ddeddf.

drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU. Os felly, **dylai'r** ysgol wneud cais iddo wneud hynny.[8] (Gweler Pennod 17 am ragor o wybodaeth ynghylch awdurdodau lleol yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU.)

23.10 Os oes gan y plentyn CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol cyfrifol eisoes pan fydd y ddarpariaeth EOTAS yn cael ei threfnu, **rhaid**[9] i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y CDU (oni bai a hyd nes bod unrhyw un o'r amgylchiadau'n codi a fyddai'n golygu bod y ddyletswydd i'w gynnal yn peidio - gweler Pennod 21). Yn aml, byddai'n briodol i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid.

23.11 Yn achos plentyn sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ond nid mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, efallai y bydd ystod y gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses CDU yn ehangach ac, mewn rhai achosion, yn wahanol i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n rhan o'r broses pan fo plentyn yn mynd i ysgol.

### Plant sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion

23.12 Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r Unedau hyn yn dod o dan y diffiniad o ysgol a gynhelir at ddibenion y Ddeddf[10] ac mae ei bwyllgor rheoli'n gyfrifol[11] am y swyddogaethau a osodir ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru (gweler Pennod 9).

23.13 Yn achos plentyn sydd wedi cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ac mewn ysgol arall a gynhelir, yr awdurdod lleol fyddai'r corff cyfrifol (gweler Pennod 20 am wybodaeth ynghylch trosglwyddo CDU pan fydd plentyn wedi cofrestru mewn dau leoliad, a Phennod 9 ar gyfer rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n mynychu ysgolion a gynhelir).

### Plant a phobl ifanc mewn darpariaeth heblaw yn yr ysgol oherwydd anghenion gofal iechyd

23.14 Mae'r dyletswyddau o dan y Ddeddf yr un mor berthnasol i blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys os yw'n dioddef amhariaeth i'w addysg o ganlyniad iddynt am ei fod, er enghraifft, wedi'i dderbyn i'r ysbyty am gyfnod hir. Mae hyn yn cynnwys cael ei dderbyn i'r ysbyty o dan Ran 2 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983[12]. Fodd bynnag, gallai'r amgylchiadau ei gwneud yn briodol neu'n angenrheidiol i awdurdod lleol, ysgol neu sefydliad addysg bellach arfer eu swyddogaethau mewn ffordd benodol, er enghraifft:

---

[8] O dan adran 28 o'r Ddeddf. Gweler pennod X.
[9] Adran 14(2)(a) o'r Ddeddf.
[10] Gweler y diffiniad o "ysgol a gynhelir" yn adran 99(1) o'r Ddeddf a'r eirfa ym Mhennod 1.
[11] Rheoliadau i'w gwneud o dan baragraff 15 o Atodlen 1 o Ddeddf Addysg 1996 i ddarparu ar gyfer dirprwyo swyddogaethau awdurdod lleol mewn cysylltiad ag Uned Cyfeirio Disgyblion i bwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion.
[12] Ar gyfer cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, gweler Pennod 22.

- os caiff plentyn neu berson ifanc â CDU ei dderbyn i'r ysbyty (neu i ddarpariaeth EOTAS arall oherwydd anghenion iechyd) am gyfnod hir, gallai fod yn briodol neu'n angenrheidiol i adolygu'r CDU. Gweler Pennod 16 ar adolygiadau am ganllawiau ar y broses i'w dilyn wrth ystyried a ddylid adolygu CDU;
- os yw ysgol yn cynnal CDU ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc, fel y nodir uchod, gallai fod yn briodol i'r awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

23.15 Yn yr un modd, os yw plentyn neu berson ifanc ag anghenion gofal iechyd yn dychwelyd i addysg brif ffrwd yn dilyn arhosiad hir mewn ysbyty, gallai fod yn briodol i'r swyddogaethau gael eu harfer mewn ffordd benodol. Er enghraifft, efallai y byddai'r awdurdod lleol yn cyfarwyddo'r ysgol a gynhelir lle mae'r person yn ddisgybl cofrestredig i gynnal y cynllun, neu efallai y byddai'n briodol adolygu CDU oherwydd bod yr amgylchiadau wedi newid.

## *Plant sy'n derbyn addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu heblaw yn yr ysgol*

23.16 Mae dyletswyddau awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal yn berthnasol lle bynnag y mae'r plentyn yn cael ei addysgu. Mae Pennod 11 yn delio â dyletswyddau awdurdodau lleol mewn achosion lle nad yw plentyn o'r fath yn cael ei addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

23.17 Mae hyn yn cwmpasu plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref, y rheini sy'n mynychu ysgol annibynnol (nas cynhelir) a'r rheini sy'n mynychu ysgol yn Lloegr (yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn yn yr achosion hyn). O dan y Ddeddf, nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol benderfynu a oes ADY gan ddisgybl sy'n mynychu'r ysgol na chynnal CDU ar gyfer disgyblion ag ADY - yr awdurdod lleol sy'n arfer y dyletswyddau hyn.

23.18 Weithiau, efallai y bydd awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf i leoli plentyn mewn ysgol annibynnol. Mae anghenion y plentyn, dymuniadau’r rhieni, ac a yw lleoliad arfaethedig yn gydnaws neu’n anghydnaws â darparu effeithlon a chan osgoi gwariant cyhoeddus afresymol, yn berthnasol i benderfyniadau o’r fath[13]. Gweler Pennod 11 am ragor o wybodaeth am leoliadau awdurdodau lleol.

## *Plant a phobl ifanc y lluoedd arfog*

23.19 Mae’r Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu cyngor ac arweiniad i rieni sy’n aelodau o'r lluoedd arfog, sefydliadau addysgol ac awdurdodau lleol ar faterion addysgol yn ymwneud â phlant y

[13] Gweler, yn benodol, adran 51 o’r Ddeddf ac adran 9 o Ddeddf Addysg 1996.

lluoedd arfog, gan gynnwys materion yn ymwneud ag ADY. Mae Addysg Plant y Lluoedd Arfog yn darparu addysg brif ffrwd ar gyfer plant aelodau o'r lluoedd arfog mewn rhai lleoliadau tramor. Gan fod yr adnoddau sydd ar gael dramor yn wahanol i'r rhai yn y DU, mae gwasanaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cwblhau *Assessment of Supportability Overseas* (MASO) ar gyfer plant aelodau o'r lluoedd arfog sydd ag anghenion cymhleth cyn cytuno ar leoliad tramor.

23.20 Gall plant y mae eu rhiant/rhieni'n aelodau o'r lluoedd arfog wynebu anawsterau sy'n unigryw i natur cyflogaeth eu rhieni. Efallai y bydd yr anghenion hyn yn codi o ganlyniad i:

- symud oherwydd gwasanaeth – efallai y bydd aelodau o'r lluoedd arfog yn adleoli'n amlach na gweddill y boblogaeth ac, weithiau, ar fyr rybudd. Bydd angen i drosglwyddiadau o'r fath gael eu rheoli'n dda er mwyn osgoi oedi wrth adnabod a diwallu ADY plant y lluoedd arfog; neu
- anfon rhieni sy'n aelodau o'r lluoedd arfog i sefyllfaoedd gweithredol – er na fyddai hyn yn arwain at ADY ynddo'i hun, gallai arwain at bryder i blentyn neu berson ifanc a dirywiad yn ei berfformiad addysgol a/neu anawsterau emosiynol. Gall plant a phobl ifanc wynebu trafferthion tebyg hefyd os bydd eu brodyr neu eu chwiorydd yn cael eu hanfon i sefyllfaoedd gweithredol.

23.21 **Dylai** awdurdodau lleol ystyried anghenion penodol unrhyw gymunedau lluoedd arfog o fewn eu ffiniau wrth gyflwyno neu gynllunio DDdY ar gyfer plant a phobl ifanc y lluoedd arfog sydd ag ADY (gweler Pennod 5 am gyfarwyddyd pellach ar adolygu DDdY yn rheolaidd).

23.22 O ran plant a phobl ifanc y lluoedd arfog, **dylai'r** ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch ADY a llunio a/neu gynnal CDU:

- ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â'r lluoedd arfog (e.e. symud oherwydd gwasanaeth);
- ystyried gofyn am gyngor gan y Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Plant; a
- defnyddio'r holl dystiolaeth berthnasol yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc - gan gynnwys unrhyw gynlluniau AIG (Lloegr), datganiadau (Gogledd Iwerddon), Cynlluniau Cymorth Cydgysylltiedig (yr Alban) a'r Asesiad o Anghenion Plant y Lluoedd Arfog (SCAN) a gwblhawyd ar eu cyfer gan Addysg Plant y Lluoedd Arfog - wrth wneud penderfyniadau am ADY, llunio neu gynnal CDU a gwneud DDdY ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

# Pennod 24: Rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (y CADY)

## *Y ddyletswydd ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach i ddynodi CADY*

24.1 **Rhaid**[1] i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ddynodi person, neu fwy nag un person – a elwir yn CADY – a fydd yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.

24.2 Gall fod yn briodol weithiau i rai lleoliadau rannu CADY. Gallai hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, lle mae meithrinfa a gynhelir yn rhan o ysgol brif ffrwd; lle mae yna nifer o leoliadau bach o fewn ardal leol; neu os oes ffederasiwn o ysgolion yn cael ei reoli gan un corff llywodraethu. Nid oes disgwyl i leoliadau mawr, fel sefydliadau addysg bellach, rannu CADY. Os oes trefniant rhannu ar waith, **dylai'r** corff/cyrff llywodraethu perthnasol sicrhau, wrth gyflawni ei ddyletswydd/eu dyletswydd i benodi CADY, fod y lleoliadau addysg yn parhau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cod hwn.

24.3 O dan eu dyletswydd i ddynodi person i fod yn CADY, **dylai** ysgolion a sefydliadau addysg bellach ystyried set sgiliau'r unigolyn i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a ragnodir yn y gyfraith. **Dylai** fod gan CADYau gymwysterau sylweddol a **dylai** fod ganddynt arbenigedd mewn ymdrin ag amrywiaeth eang o ADY. Hefyd gallant ddewis arbenigo mewn mathau penodol o ADY a rhannu'r arbenigedd hwn y tu allan i'w lleoliad addysg penodol (gweler y manylion am gymwysterau CADYau ym mharagraff 24.24).

24.4 Nid yw dynodi CADY yn gwneud i ffwrdd â chyfrifoldebau'r gweithlu ehangach; mae pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu hadnabod a'u diwallu.

24.5 Mae'n hanfodol bod gan y CADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth. **Dylai** pennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y CADY yn cael y gefnogaeth briodol. Drwy neilltuo amser clir a digonol, bydd modd sicrhau bod y CADY yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol.

24.6 Os yw rôl y CADY yn cael ei chyfuno â chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, mae'n bwysig sicrhau bod y dyletswyddau eraill yn gydnaws â'r dyletswyddau y disgwylir iddo eu cyflawni fel CADY ac na fyddant yn amharu ar ei gyfrifoldebau yn y cyswllt hwn.

[1] Adran 60 o'r Ddeddf

## *Rôl y CADY*

24.7 Er bod pob athro ac aelod o'r staff addysgu yn addysgu plant a phobl ifanc ag ADY, y CADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. Mae ei rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg a **dylai**, felly, naill ai fod yn aelod o'r uwch dîm arwain **neu** fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arwain[2]. Bydd hyn o gymorth i'r lleoliad wrth gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran adnabod a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

24.8 Bydd yr uwch dîm arwain yn cynghori, yn cefnogi ac yn herio'r systemau a'r prosesau i adnabod a diwallu anghenion dysgwyr. Gall yr awdurdod lleol gefnogi rôl y CADY, gan gynnwys darparu arweiniad lle bo hynny'n briodol.

24.9 Bydd angen i'r CADY gyfrannu at y gwaith o gydlynu adnoddau ADY mewn ffordd strategol, er enghraifft trefnu a chefnogi staff a gweithio gydag aelodau o'r uwch dîm arwain i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad. Mae angen i'r CADY gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau yn ymwneud â chyllidebau ac adnoddau i helpu i gynllunio darpariaeth briodol.

24.10 Ni ddisgwylir i'r CADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr unigol ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny, ond mae staff cymorth dysgu yn gallu helpu'r CADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.

24.11 Bydd y CADY yn darparu arweiniad, cyngor a chymorth proffesiynol ar gyfer athrawon ac, os oes angen, gwybodaeth a chymorth ar gyfer rhieni ac asiantaethau/sefydliadau eraill.

### Dyletswyddau CADYau

24.12 Ni fydd gofyn i'r CADY ddatblygu pob CDU - ond bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod gan bob dysgwr sydd ag ADY ledled y lleoliad addysg CDU. **Rhaid**[3] i CADYau drefnu bod ADY y dysgwyr yn cael eu hadnabod a chydlynu'r broses o greu DDdY sy'n diwallu'r anghenion hynny.

24.13 Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, **dylai** CADYau sicrhau, pryd bynnag y bydd gan eu lleoliad ddyletswydd i benderfynu a oes gan ddisgybl/myfyriwr ADY, fod person wedi'i ddynodi i gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwn ac, os bydd angen CDU yn sgil hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio (gweler Penodau 8-12 ar y ddyletswydd i ddynodi cydlynwyr).

[2] Yr uwch dîm arwain yw'r pennaeth a'r uwch reolwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros bob agwedd ar arwain a rheoli'r ysgol. Efallai y bydd rhai lleoliadau addysg yn defnyddio terminoleg wahanol i gyfeirio at yr uwch dîm arwain.

[3] Rheoliad 5(a) a 6(a) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft. Ddeddf.

24.14 **Rhaid**[4] i CADYau sicrhau bod CDUau ac unrhyw gofnodion cysylltiedig eraill sy'n ymwneud ag ADY a DDdY dysgwyr yn cael eu cynnal a'u diweddaru. Mae hyn yn cynnwys cynnal y cofnodion ysgrifenedig y mae'n **rhaid**[5] eu creu o'r dyddiad pan dynnir sylw lleoliad addysg, neu pan fydd yn ymddangos i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY (gweler Pennod 7 i gael gwybod mwy).

24.15 **Rhaid**[6] i CADYau sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi DDdY y dysgwr yn ôl y gofyn. Bydd angen cymorth asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol ar rai dysgwyr ag ADY. Bydd y CADY yn gyfrifol am gydweithio â'r gwasanaethau arbenigol hyn. Darperir mwy o wybodaeth am gynnwys gwasanaethau eraill yn y gwaith o adnabod ADY a phenderfynu ar y DDdY sy'n ofynnol ym Mhennod 7.

24.16 **Rhaid**[7] i CADYau drafod a chydweithredu â phlentyn, person ifanc neu riant plentyn ag ADY yn rheolaidd a darparu gwybodaeth iddynt am ADY, CDU a DDdY y dysgwr hwnnw.

24.17 **Rhaid**[8] i CADYau hyrwyddo'r arfer o gynnwys y dysgwr yng nghymuned yr ysgol/sefydliad addysg bellach a hwyluso mynediad iddo i gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol y lleoliad. Wrth wneud, **rhaid**[9] i'r CADY roi sylw i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc.

24.18 **Rhaid**[10] i CADYau baratoi ac adolygu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei chyhoeddi yn unol â'r Cod ADY.

24.19 **Rhaid**[11] i CADYau roi gwybod i athrawon yn yr ysgol/sefydliad addysg bellach am ddulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol i ddisgyblion unigol ag ADY.

24.20 **Rhaid**[12] i CADYau oruchwylio a threfnu ar gyfer hyfforddiant gweithwyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY. Gall gweithwyr cymorth dysgu fod yn adnodd pwysig i'r CADY pan fydd yn mynd ati i gydlynu darpariaeth cymorth ledled y lleoliad addysg. Gall gweithwyr cymorth dysgu ddarparu sgiliau arbenigol i gefnogi dysgwyr ag ADY, a byddant yn cynnig cymorth ymarferol a gweinyddol i'r CADY. Ni fydd yn briodol defnyddio gweithwyr cymorth dysgu ym mhob achos, ond maent yn un o nifer o adnoddau a ddylai fod ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY.

[4] Rheoliad 5(c) a 6(c) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[5] Gofyniad a orfodir gan y Cod
[6] Rheoliad 5(b) a 6(b) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft..
[7] Rheoliad 7(d) a 6(d) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[8] Rheoliad 5(e) a 6(e) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[9] Adran 6 o'r Ddeddf
[10] Rheoliad 5(f) a 6(f) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[11] Rheoliad 5(g) a 6(g) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[12] Rheoliad 5(h) a 6(h) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.

24.21 **Rhaid**[13] i CADYau gyfrannu at hyfforddiant mewn swydd i athrawon yn y lleoliad addysg i'w helpu i gyflawni'r tasgau y cyfeirir atynt uchod. Bydd y CADY yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o roi cyngor ar y cymorth ehangach sy'n cael ei ddarparu yn y lleoliad addysg ac ym maes dysgu proffesiynol ar gyfer aelodau staff eraill, ac wrth gyfrannu at y cymorth hwn. Felly, mae'n hollbwysig ei fod yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau, cymorth a thystiolaeth o arferion gorau ym maes ADY.

24.22 **Rhaid**[14] i CADYau fonitro effeithiolrwydd unrhyw DDdY. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd y CADY am wneud defnydd effeithiol o'r systemau gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan y lleoliad addysg i fonitro effaith ymyriadau ac asesu cynnydd yn erbyn deilliannau a gynlluniwyd ar gyfer pob dysgwr ag ADY. Os nad yw cynnydd y dysgwr yn bodloni'r disgwyliadau, **dylai** ymyriadau gael eu hadolygu gan y CADY a'r staff, a'u haddasu yn ôl yr angen. Mae rhagor o wybodaeth am fonitro effaith ar gael ym Mhennod 16.

## Cyfrifoldebau eraill y CADY

24.23 Yn ogystal â'r tasgau gorfodol uchod, **dylai** cyfrifoldebau allweddol y CADY gynnwys:

- goruchwylio'r gwaith o weithredu trefniadau ADY y lleoliad addysg o ddydd i ddydd;
- goruchwylio'r DDdY ledled y lleoliad addysg ar gyfer diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi mewn CDUau. **Dylai'r** CADY sicrhau bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r DDdY ar gyfer dysgwyr yn ei leoliad a, lle bo hynny'n briodol, arwain y broses adolygu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i ddiwallu'r anghenion a nodwyd;
- sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n briodol (yn unol â Phennod 16 o'r Cod hwn);
- cefnogi dysgwyr â CDU wrth drosglwyddo o un lleoliad addysg i un arall neu i fyd oedolion, astudiaethau pellach neu fyd gwaith (gweler Pennod 19);
- goruchwylio'r broses o drosglwyddo gwybodaeth am ADY a DDdY y dysgwr yn briodol o un lleoliad addysg i'r llall;
- cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno gweithdrefnau a systemau ADY priodol yn y lleoliad addysg, gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, defnyddio adnoddau a chasglu a dadansoddi data yn effeithiol, gyda'r nod o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- datblygu i fod yn ffynhonnell arbenigedd ym maes ADY drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- bod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r cymorth diweddaraf sydd ar gael ar gyfer ADY;
- gwella ei ddysgu proffesiynol ei hun drwy gydweithio â'r rhwydwaith lleol o CADYau (**dylai** awdurdodau lleol ystyried sefydlu a hwyluso'r

[13] Rheoliad 5(i) a 6(i) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[14] Rheoliad 5(j) a 6(j) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.

rhwydweithiau hyn) a, lle bo hynny'n briodol, drwy gydweithio ag ysgolion arbennig i ddatblygu a rhannu profiad ac arferion gorau;

- sicrhau bod y cofnod o'i rôl a'i ddysgu proffesiynol sy'n rhan o'i fanylion cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi'i ddiweddaru mewn perthynas ag ADY;
- darparu cymorth proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff fel bod modd adnabod achosion yn gynnar, asesu a chynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY. Gall hyn gynnwys cefnogi staff i olrhain disgyblion ar lefel ysgol/sefydliad addysg bellach cyfan a'u helpu i reoli'r gwaith o osod targedau;
- sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdod lleol i osgoi a datrys anghytundebau yn cael eu defnyddio'n llawn fel sy'n briodol;
- gweithredu fel yr unigolyn cyswllt allweddol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant a chymorth yr awdurdod lleol perthnasol, asiantaethau allanol, sefydliadau annibynnol/gwirfoddol, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, seicolegwyr addysg etc;
- trafod a chydweithredu ag arbenigwyr gyrfaoedd i sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn derbyn cyngor priodol ar yrfaoedd;
- gweithio mewn ffordd strategol gyda'r uwch dîm arwain a llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y Cod hwn a Deddf Cydraddoldeb 2010.

## *Cymwysterau a phrofiad a ragnodir ar gyfer CADYau*

24.24 **Rhaid**[15] i'r CADY mewn ysgol fod wedi'i gofrestru'n athro ysgol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Yn yr un modd, bydd angen i CADY sy'n gweithio mewn sefydliad addysg bellach fod wedi'i gofrestru'n athro addysg bellach gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

24.25 **Rhaid**[16] i'r CADY mewn ysgol fod wedi cwblhau cyfnod sefydlu statudol yn unol â'r gyfraith[17]. Y cyfnod sefydlu statudol a ragnodir ar gyfer unigolyn a gyflogir yn amser llawn yw tri thymor academaidd. I'r rheini a gyflogir yn rhan-amser, rhaid dilyn 380 o sesiynau, sy'n cyfateb i dri thymor academaidd. Er nad oes rheidrwydd ar athrawon sefydliadau addysg bellach i gwblhau cyfnod sefydlu statudol, **dylai** cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ystyried a oes gan yr unigolyn y profiad angenrheidiol i gyflawni rôl CADY.

24.26 Gall unigolion a oedd yn gweithredu fel cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA) mewn ysgol benodol cyn i'r Ddeddf ddod i rym, yn amodol ar gytundeb y corff llywodraethu, ymgymryd â rôl y CADY yn yr ysgol honno[18]. Fodd bynnag, bydd gofyn i CADYau newydd fodloni'r gofynion a ragnodir yn y gyfraith.

[15] Rheoliad 3(a) a 4 o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[16] Rheoliad 3(a) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.
[17] Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015
[18] Rheoliad 3(b) o Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru drafft.

# Pennod 25: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol

## *Cyflwyniad*

25.1 O dro i dro, gall anghytundebau godi ynglŷn ag ADY neu DDdY. Hyd y gellir, **dylid** eu hosgoi neu eu datrys cyn gynted â phosibl.

25.2 Mae'r bennod hon yn cyflwyno canllawiau a gofynion yn ymwneud â dyletswyddau awdurdodau lleol i wneud trefniadau i osgoi a datrys anghytundebau ac ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

## *Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau*

25.3 **Rhaid**[1] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng:

(a) cyrff addysg (ysgolion a gynhelir, sefydliad addysg bellach neu awdurdodau lleol) a
(b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt, neu yn achos plant o'r fath, eu rhieni

ynghylch arfer gan y corff addysg o'i swyddogaethau o dan y system ADY.

25.4 Hefyd, **rhaid**[2] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng:

(a) perchnogion 'sefydliadau perthnasol' a
(b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt ac sydd ag ADY ac, yn achos plant o'r fath, eu rhieni

ynghylch y DDdY a wneir ar gyfer plant neu bobl ifanc.

25.5 At ddibenion paragraff 25.4, ystyr 'sefydliadau perthnasol' yw:

(a) ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
(b) sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
(c) sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ar y rhestr a gynhelir o dan adran 56;
(d) ysgol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr;
(e) ysgol arbennig nas cynhelir;
(f) Academi.

[1] Adran 68 o'r Ddeddf.
[2] Adran 68 o'r Ddeddf.

25.6 At ddibenion y dyletswyddau ym mharagraffau 25.3 a 25.4, yr awdurdod lleol cyfrifol yw:

- yn achos plentyn neu berson ifanc sy'n preswylio 'yn ardal' awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu os yw wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol yng Nghymru neu ardal yr awdurdod lle mae'r sefydliad addysg bellach wedi'i leoli[3];
- yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn[4];
- yn achos pob plentyn a pherson ifanc arall, ardal yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio

25.7 Mae Pennod 25 yn ymdrin â dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar y trefniadau a wneir ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw.

25.8 **Rhaid**[5] i awdurdodau lleol hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau, er enghraifft trwy sicrhau bob plant, eu rhieni, a phobl ifanc yn derbyn manylion y trefniadau wrth dderbyn hysbysiad o benderfyniad gan yr awdurdod lleol. Mae Penodau 8, 9, 10, 11, 12, 16 a 21 yn nodi'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth am y trefniadau yn dilyn penderfyniad i beidio â llunio cynllun, pan fydd CDU diwygiedig yn cael ei gynnig, neu yn dilyn penderfyniad i beidio â chynnal CDU. Hefyd, bydd cyfleoedd tebyg eraill i ddarparu gwybodaeth yn codi.

25.9 Yn ogystal, **rhaid**[6] i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu trefniadau ar eu gwefannau. Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, **dylid** sicrhau ei bod mewn fformat addas er mwyn helpu plant, eu rhieni, a phobl ifanc i ddeall y trefniadau, er enghraifft, trwy ddefnyddio iaith syml. **Dylai'r** wybodaeth gynnwys sut i ddefnyddio'r trefniadau hyn, trwy ddarparu enw, rhif ffôn, man cyswllt ac ati.

25.10 **Rhaid**[7] i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ar gael yn ddi-dâl yn y man darparu.

25.11 **Rhaid**[8] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn deall y system ADY yn fanwl. I sicrhau hyn, **dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am y trefniadau yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol, a bod hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru er mwyn gwella safonau.

---

[3] Adran 87(4) o'r Ddeddf.
[4] Adran 68(8) o'r Ddeddf.
[5] Adran 68(4) o'r Ddeddf.
[6] Gofyniad y Cod.
[7] Adran 49 o'r Ddeddf.
[8] Gofyniad y Cod.

25.12 **Rhaid**[9] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn yn ddiduedd i ganlyniad unrhyw anghytundebau posibl.

25.13 **Rhaid**[10] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu gwneud yn hygyrch i blant a phobl ifanc, a'u bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n diwallu eu dewisiadau ac anghenion cyfathrebu (gweler Pennod 3 ar gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni, a phobl ifanc).

25.14 Bydd rhai plant eisiau cael mynediad i'r trefniadau hyn gyda'u rhieni, neu gyda chyfaill achos os yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai plant, yn enwedig plant hŷn, eisiau cael mynediad i'r trefniadau yn annibynnol ar eu rhieni. **Rhaid**[11] i awdurdodau lleol hwyluso hyn.

25.15 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau yn briodol ac o ansawdd addas. Er enghraifft, wrth gyflwyno'r trefniadau hyn, **dylai'r** awdurdod lleol:

- dderbyn cyfrifoldeb am safon gyffredinol y trefniadau, gan gynnwys creu cynllun datblygu â thargedau clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- sicrhau bod strwythurau rheoli priodol ar waith ar gyfer y trefniadau, gan gynnwys goruchwylio, monitro'n rheolaidd ac adolygu'r trefniadau;
- sicrhau bod digon o adnoddau a staff ar gael i ddiwallu anghenion plant, eu rhieni, a phobl ifanc yn yr ardal;
- sicrhau bod y trefniadau'n cael eu hysbysebu'n dda (er enghraifft, trwy daflenni, posteri, gwefannau, canolfannau cyswllt wyneb yn wyneb, a llinellau cymorth) ar gyfer plant, eu rhieni, a phobl ifanc;
- gofyn am adborth ar y trefniadau gan y bobl sy'n eu defnyddio er mwyn llywio datblygiad a gwelliant parhaus y trefniadau;
- datblygu cynlluniau cyllido a chyllidebu clir ar gyfer y trefniadau.

## Trefniadau i osgoi anghytundebau

25.16 Bwriad y broses gynhwysol o ddatblygu CDU a'r ddyletswydd[12] i ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc (gweler Pennod 3) yw helpu i oresgyn pryderon yn gynnar yn y broses ac osgoi anghytundebau rhag codi. Dylai ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ganolbwyntio ar roi cyfle i blant, eu rhieni, a phobl ifanc fynegi pryderon neu ofyn cwestiynau yn ystod pob cam o'r broses. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys yn ddi-oed, gan sicrhau nad yw problemau'n gwaethygu.

25.17 Mae cyflwyno trefniadau i osgoi anghytundebau yn gallu helpu i ddatblygu a chynnal cysylltiadau da rhwng pawb sy'n cyfrannu at y broses o gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Dylai hyn helpu i feithrin dealltwriaeth bod y

[9] Gofyniad y Cod.
[10] Gofyniad y Cod.
[11] Gofyniad y Cod.
[12] Adran 6 o'r Ddeddf.

plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r broses, gyda phawb yn cydweithio i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

25.18 **Dylai'r** trefniadau i osgoi anghytundebau ddarparu'r canlynol:

- cyngor ar hawliau plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc sydd angen cymorth;
- cymorth i ddeall anawsterau a chynllunio ffordd ymlaen gyda phawb arall sy'n rhan o'r broses;
- cyfarfodydd wyneb yn wyneb i benderfynu'r camau nesaf;
- cymorth i fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd;
- cymorth parhaus os yw'n anodd datrys problemau.

25.19 **Dylai'r** trefniadau geisio datblygu ymddiriedaeth rhwng partïon ac osgoi anghytundebau trwy:

- gynorthwyo'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a gweithwyr proffesiynol, fel sy'n briodol, i dderbyn yr un wybodaeth o'r un ffynhonnell y gellir ymddiried ynddi;
- sicrhau plant, eu rhieni, a phobl ifanc y bydd trafodaethau a phenderfyniadau'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc ac y byddant yn derbyn lefel briodol o gymorth;
- gwella cyfathrebu a datblygu ymddiriedaeth rhwng partïon i greu amgylchedd lle mae'r plentyn, ei riant a'r person ifanc yn cael eu trin fel partneriaid yn y broses, a bod modd mynd i'r afael â phryderon trwy siarad yn agored ac yn adeiladol;
- sicrhau partïon bod y rhai sy'n ymwneud â'r broses o osgoi anghytundebau yn ddiduedd i ganlyniad unrhyw anghytundebau posibl;
- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu hegluro mewn ffordd sy'n ddealladwy i'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc;
- egluro'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud, a chynorthwyo'r plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r person ifanc i herio'r penderfyniadau hyn, gan eu cyfeirio i wasanaethau eirioli annibynnol yn ôl yr angen;
- darparu cyfle cynnar i gwestiynu penderfyniadau, sy'n allweddol i osgoi anghytundebau, a sicrhau bod problemau'n cael eu cyflwyno a'u datrys yn ddi-oed yn hytrach na'u bod yn gwaethygu;
- helpu i archwilio'r CDU er mwyn deall sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud ac ystyried a oes unrhyw dystiolaeth wedi'i hanwybyddu.

25.20 Gall eiriolwyr annibynnol a chyfeillion achos (os ydynt wedi'u penodi) chwarae rhan allweddol yn y broses o sicrhau bod trefniadau ar gyfer osgoi anghytundebau yn gweithredu'n effeithiol. Gweler paragraffau 25.55 - 25.73 ar gyfer rhagor o wybodaeth am wasanaethau eirioli annibynnol, a Phennod 27 ar gyfer canllawiau ar gyfeillion achos.

**Trefniadau i ddatrys anghytundebau**

25.21 Os nad oedd modd atal anghytundebau rhag codi, **dylai'r** anghytundebau gael eu datrys mor gyflym ac effeithiol â phosibl. Mae datrys anghytundebau yn gynnar yn fanteisiol iawn i'r plentyn neu'r person ifanc, gan osgoi straen diangen ar gyfer unigolion a'u teuluoedd, er enghraifft os oes angen datrys problem yn y Tribiwnlys yn y pen draw.

25.22 **Rhaid**[13] i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau rhwng ysgol a gynhelir, sefydliad addysg bellach, awdurdod lleol a pherchennog sefydliad perthnasol, a phlentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc. **Rhaid**[14] i'r trefniadau hyn gynnwys dulliau ysgolion/sefydliadau addysg bellach/awdurdodau lleol o gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, a'u dulliau o lunio a darparu DDdY, gan gynnwys mewn achosion honedig lle nad yw DDdY yn cael ei darparu mewn ffordd addas neu i safon addas.

25.23 Yn y lle cyntaf, **dylid** cynorthwyo'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i fynegi eu pryderon ar y lefel leol fwyaf addas. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn digwydd yn y lleoliad addysg a fynychir gan y plentyn neu'r person ifanc, e.e. lleoliad cyn ysgol, ysgol neu sefydliad addysg bellach.

25.24 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut mae eu trefniadau'n gallu cynnwys neu ategu gweithdrefnau cwyno sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach er mwyn sicrhau bod modd datrys anghytundebau mor fuan â phosibl ar y lefel fwyaf lleol posibl.

25.25 Diben gwasanaethau datrys anghytundebau yw mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i ddatrys anawsterau yn gyflym. Mae'r trefniadau'n gallu helpu i ddatrys problemau a rhoi cyfle i adfer neu wella'r berthynas rhwng y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc a'r ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol. Hefyd, gallant helpu i feithrin dealltwriaeth bod y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r broses, gyda phawb yn cydweithio i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.

25.26 Yn ogystal, os oes ysgol a gynhelir wedi penderfynu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, neu ei bod wedi gwrthod gwneud penderfyniad, mae gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc gyfle i wneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.[15] Yn yr un modd, os oes ysgol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc a bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ystyried nad yw'r CDU yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc, gellir gwneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried a diwygio'r cynllun[16].

25.27 Dylai trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau ymdrin ag unrhyw gwestiynau gan y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc. Dylid

[13] Adran 68(1) a (2) o'r Ddeddf.
[14] Gofyniad y Cod.
[15] Adran 26 o'r Ddeddf.
[16] Adran 27 o'r Ddeddf.

egluro bod y trefniadau'n anffurfiol ac yn hygyrch, a'u nod yw darparu proses syml i ddod â'r ddwy ochr ynghyd er mwyn cadarnhau'r problemau a'u datrys.

25.28 Yn gyffredinol, bydd defnyddio'r trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau'n lleihau'r angen am fynd ag anghydfod i'r Tribiwnlys, gan ddatrys unrhyw anghytundebau'n gyflymach, arbed amser ac arian sylweddol i'r partïon perthnasol, a lleihau unrhyw amharu posibl ar addysg y plentyn neu'r person ifanc.

25.29 Amcanion datrys anghytundeb yw:

- helpu i ddod â'r partïon perthnasol ynghyd;
- cefnogi anghenion y plentyn a'r person ifanc;
- helpu i sicrhau bod anghytundebau'n cael eu datrys yn gynnar ac yn anffurfiol trwy drafod a chytuno;
- trafod yr holl ddewisiadau posibl;
- amharu cyn lleied â phosibl ar addysg y plentyn neu'r person ifanc.

25.30 Mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y broses, gan gynnwys y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc, deimlo'n hyderus y bydd pobl yn gwrando ar eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Nid rhoi bai yw diben datrys anghytundeb, a nod y broses yw datrys anghytundebau trwy sicrhau datrysiad i wahaniaeth barn er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

25.31 Os yw plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn penderfynu defnyddio'r trefniadau datrys anghytundeb, **dylai'r** partïon drefnu i gyfarfod ar amser sy'n addas i bawb, a **dylid** cynnal sianel gyfathrebu agored ac ymateb yn gyflym i unrhyw geisiadau. **Dylid** trefnu hyn mor fuan â phosibl er mwyn hwyluso datrysiad cyflym. **Rhaid**[17] cefnogi'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i fynegi eu safbwyntiau.

25.32 Er enghraifft, dylai defnydd da o drefniadau datrys anghytundebau wneud y canlynol:

- lleihau'r meysydd anghytuno mewn un rhan neu fwy o anghydfod;
- nodi gwahaniaethau ond cynnal neu greu perthynas waith dda rhwng y partïon;
- datgloi darpariaeth o wybodaeth bellach neu gynorthwyo partïon i gytuno ar ffeithiau allweddol;
- egluro'r cwestiynau allweddol sydd angen eu hateb er mwyn datrys yr anghydfod;
- ceisio dod i gytundeb ar bwyntiau penodol.

25.33 Mae'r trefniadau'n gallu cynnwys elfennau fel sgyrsiau cyn y cyfarfod gyda dwy ochr yr anghytundeb, lleoliad niwtral ar sail amserlen y cytunir arni (mae'n bosibl y bydd angen cynnal mwy nag un cyfarfod) a datganiad 'cytundebau a sicrhawyd' a/neu 'gytundeb i anghytuno' yn dilyn y broses.

[17] O dan Adran 6 o'r Ddeddf.

### Annibyniaeth personau sy'n helpu i ddatrys anghytundebau

25.34 Fel rhan o'r trefniadau datrys anghytundebau, **rhaid**[18] i'r awdurdod lleol gynnwys darpariaeth i bartïon mewn anghytundeb gael mynediad at gymorth i ddatrys yr anghytundeb oddi wrth bersonau sy'n annibynnol ar y partïon.

25.35 Bydd angen profiad, gwybodaeth a chymwysterau amrywiol ar berson/personau annibynnol sy'n helpu i ddatrys anghytundebau, gan gynnwys er enghraifft:

- hyfforddiant a phrofiad ym maes datrys anghytundebau, e.e. eirioli;
- sgiliau cwnsela a negodi;
- y gallu i sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol;
- gwybodaeth am ddeddfwriaeth ADY, rheoliadau cysylltiedig, y Cod hwn a materion addysgol perthnasol eraill;
- y gallu i weithredu mewn ffordd gyfrinachol a diduedd.

Nid rhestr gynhwysfawr mo hon.

25.36 Ni ddylai'r person fod wedi ymwneud â'r plentyn, y teulu neu'r person ifanc o'r blaen ac ni ddylai fod ag unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniad. Mae'r person annibynnol yn gallu helpu partïon i drafod yr anghytundeb a chanfod ateb sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

## *Cyfraniad cyrff iechyd at drefniadau osgoi a datrys anghytundebau*

25.37 Tra bod y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ymgysylltu â threfniadau osgoi anghytundebau neu drefniadau datrys anghytundebau'r awdurdod lleol, **dylai'r** awdurdod lleol ystyried a fyddai'n fanteisiol cynnwys corff perthnasol y GIG yn y trefniadau hyn. Gall sefyllfa o'r fath godi os yw'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn mynegi pryderon am iechyd, neu DDdY y mae'r corff iechyd yn gyfrifol amdani.

25.38 Os yw awdurdod lleol yn credu y byddai'n fanteisiol cynnwys corff y GIG mewn trefniadau osgoi a datrys anghytundebau, dylai gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO) i ofyn am ei gyngor. Dylai hyn fod yn rhan o waith y DECLO (gweler Pennod 15).

25.39 Dylai'r DECLO ystyried a yw cyfraniad cyrff y GIG at y trefniadau yn gallu helpu i ddatrys anghytundebau, ac os felly cymryd rhan yn y trefniadau.

25.40 Yn ogystal â defnyddio trefniadau osgoi anghytundebau a threfniadau datrys anghytundebau awdurdodau lleol, os oes pryder ynglŷn â chyfraniad maes iechyd neu ddarpariaeth cyrff y GIG, **dylid** annog y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i drafod eu pryder â'r darparwr iechyd.

[18] Adran 68(3) o'r Ddeddf.

25.41 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefniadau ar gyfer rheoli pryderon a chwynion yn ymwneud â'r GIG yng Nghymru: *Gweithio i Wella.*[19] Mae Gweithio i Wella yn seiliedig ar ddull integredig, gan ddwyn ynghyd y broses o reoli cwynion, digwyddiadau a hawliadau ar sail yr egwyddor 'ymchwiliwch unwaith, ymchwiliwch yn fanwl'.

25.42 Os yw'r awdurdod lleol yn deall bod y pryder, yr anghytundeb neu'r gŵyn yn ymwneud â'r maes iechyd, boed yn asesiad, yn driniaeth neu'n wasanaeth a ddarparwyd gan y GIG, neu unrhyw bryder arall, **dylai'r** awdurdod lleol gynghori'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc i ddefnyddio trefniadau Gweithio i Wella.

25.43 Mewn amgylchiadau penodol, gellir mynd ati i ddefnyddio trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer datrys anghytundebau a'r broses Gweithio i Wella ar gyfer yr un anghydfod. Er bod achosion o'r fath yn debygol o fod yn brin, **dylai'r** awdurdod lleol a'r DECLO wneud trefniadau fel bod un man cyswllt yn gallu ceisio datrys y mater. Os oes angen gwasanaeth eirioli neu gymorth ar gyfer y plentyn, y person ifanc neu aelod teulu, **dylai** un unigolyn fod yn gyfrifol amdano.

### Cydberthynas â'r Tribiwnlys

25.44 Nid yw'r broses o ddefnyddio trefniadau datrys anghytundebau, neu benderfynu peidio â'u defnyddio, yn effeithio ar hawliau i apelio i'r Tribiwnlys. Ni all y Tribiwnlys ddod i unrhyw gasgliad os nad yw plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc sy'n ymwneud â'r anghytundeb wedi defnyddio'r trefniadau datrys anghytundebau. Gweler Pennod 26 ar gyfer gwybodaeth am apelio i'r Tribiwnlys.

25.45 Mae cyfarfodydd datrys anghytundebau yn gyfrinachol ac nid ydynt yn ymrwymo proses y Tribiwnlys. Gall y Tribiwnlys drafod materion tebyg i'r hyn a drafodwyd trwy'r trefniant datrys anghytundeb, ond bydd yn dod i ganfyddiadau a chasgliadau annibynnol. Gall cytundeb rhannol sy'n deillio o ddefnyddio trefniadau o'r fath helpu i ganolbwyntio ar y meysydd anghytuno sy'n weddill mewn unrhyw apêl ddilynol i'r Tribiwnlys.

25.46 Yn dilyn apêl, gallai trefniadau'r awdurdod lleol helpu'r teulu a'r awdurdod lleol i gydweithio ac osgoi rhagor o anghytundebau.

## *Dulliau eraill o herio*

25.47 Yn ogystal ag apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (nodir y seiliau ar gyfer gwneud hynny ym Mhennod 26), gall dysgwyr a'u teuluoedd ddefnyddio sawl dull arall o herio corff cyhoeddus os ydynt yn teimlo bod y

[19] Mae gwybodaeth am 'Gweithio i Wella' ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

corff wedi methu cyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys y dyletswyddau o dan y Ddeddf.

25.48 Fel y nodwyd ym mharagraff 25.42 uchod, mae plentyn, ei riant neu berson ifanc yn gallu cwyno am gyrff y GIG i wasanaeth Gweithio i Wella'r GIG.

25.49 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gallu ystyried cwynion am unrhyw ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cwynion yn ymwneud ag iechyd ac unrhyw gorff sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff y GIG.

25.50 Gall rhieni a phobl ifanc wneud cais i'r Llys Gweinyddol am adolygiad barnwrol yn ymwneud â chyfreithlondeb penderfyniad neu weithred corff cyhoeddus, gan gynnwys y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad. Mae cyfyngiadau llym ar waith ar gyfer cymryd camau o'r fath. Mae'r Llys Gweinyddol[20] yn gallu ystyried penderfyniadau awdurdodau lleol wrth arfer eu dyletswyddau, gan gynnwys penderfyniadau yn ymwneud ag ADY ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, gall adolygiad barnwrol yn ymwneud â chynllun datblygu unigol ganolbwyntio ar adolygu'r broses o wneud y penderfyniadau sydd wedi llywio'r cynllun yn hytrach na rhinweddau'r penderfyniadau. Ni fydd cais am adolygiad barnwrol yn cael ei ystyried nes bod pob dewis arall ar gyfer datrys y mater wedi'i ddihysbyddu.

25.51 Hefyd, gellir cyflwyno cwynion a phroblemau'n ymwneud â'r system ADY i Weinidogion Cymru, sydd â phwerau i ymyrryd ar gyfer materion addysg sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol ac ysgolion.

25.52 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ymyrryd mewn awdurdodau lleol sy'n methu cyflawni swyddogaethau addysg yn briodol, sy'n gweithredu'n afresymol neu sy'n methu cyflawni swyddogaethau addysg yn unol â safon ddigonol. Hefyd, mae ganddynt bwerau i gyhoeddi hysbysiadau rhybuddio a chyfarwyddydau y mae'n **rhaid**[21] i awdurdodau lleol gydymffurfio â nhw. Mae'r Uchel Lys yn gallu gorfodi cydymffurfiaeth â chyfarwyddydau trwy orchymyn yn dilyn cais Gweinidogion Cymru.

25.53 Hefyd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau ar wahân mewn cysylltiad â sefydliadau addysg bellach, er enghraifft os ydynt wedi methu cyflawni eu dyletswyddau neu wedi gweithredu'n afresymol[22].

25.54 Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Llys Gweinyddol y pŵer i wneud penderfyniadau ynglŷn ag a oedd awdurdod lleol yn gweithredu'n anghyfreithlon neu'n afresymol wrth wneud penderfyniad.

[20] Llys Gweinyddol: https://www.judiciary.gov.uk/you-and-the-judiciary/going-to-court/high-court/queens-bench-division/courts-of-the-queens-bench-division/administrative-court/
[21] O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
[22] O dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

## *Gwasanaethau eirioli annibynnol*

25.55 **Rhaid**[23] i awdurdodau lleol:

(a) gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;
(b) atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano sy'n gwneud cais am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol;
(c) atgyfeirio unrhyw berson sy'n gyfaill achos i blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gwneud cais am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol.

25.56 At ddibenion y dyletswyddau ym mharagraff 25.55, yr awdurdod lleol cyfrifol yw:

- yn achos plentyn neu berson ifanc sy'n preswylio 'yn ardal' awdurdod lleol yn Lloegr ond sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu os yw wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru, yr awdurdod sy'n cynnal yr ysgol yng Nghymru neu ardal yr awdurdod lle mae'r sefydliad addysg bellach wedi'i leoli[24];
- yn achos plentyn sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n gofalu am y plentyn[25];
- yn achos pob plentyn a pherson ifanc arall, ardal yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio.

25.57 Mae gwasanaethau eirioli annibynnol yn darparu cyngor a chymorth arbenigol, trwy gynrychiolaeth neu fel arall, i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos plentyn, lle bo'r plentyn neu'r person ifanc:

- yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, apêl i'r Tribiwnlys;
- yn ystyried pa un ai i apelio i'r Tribiwnlys ai peidio; neu
- yn cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundeb.

25.58 Mae gwasanaethau eirioli'n gallu cynorthwyo'r plentyn a'r person ifanc i fynegi a chynrychioli eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau. Gall eirioli:

- gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau a sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed;
- siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau neu eu teimladau, neu os yw ond yn gallu mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau neu eu teimladau yn rhannol;

[23] Adran 69 o'r Ddeddf.
[24] Adran 87(4) o'r Ddeddf.
[25] Adran 68(8) o'r Ddeddf.

- gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth;
- cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall eu hanghenion, deall y prosesau perthnasol, deall eu hawliau, cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a deall goblygiadau unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- darparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc, eu helpu i ddeall eu dewisiadau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a'u cynorthwyo i herio'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach os yw'n teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu;
- cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i geisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon sydd wedi'u nodi gan y plentyn neu'r person ifanc, helpu'r plentyn neu'r person ifanc i egluro eu cwyn a'u helpu i ddeall y canlyniadau y maent yn ceisio eu sicrhau;
- darparu cymorth i blant a phobl ifanc o ganlyniad i unrhyw heriau emosiynol sy'n deillio o'r broses, fel mynegi barn wahanol i farn eu rhieni.

25.59 **Rhaid**[26] i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol yn hysbys i:

(a) blant a phobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;
(b) rhieni plant y mae'n gyfrifol amdanynt;
(c) penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ganddo; a
(d) phersonau eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod lleol, e.e. cyfeillion achos, Byrddau Iechyd, lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar, sefydliad addysg bellach ac ati.

25.60 Hefyd, **rhaid**[27] i'r awdurdod lleol hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau eirioli annibynnol, er enghraifft trwy sicrhau bod plant, eu rhieni, a phobl ifanc yn derbyn manylion y trefniadau pan fyddant yn derbyn hysbysiad o benderfyniad gan yr awdurdod lleol. Mae Penodau 8, 9, 10, 11, 12, 16 a 21 yn cyflwyno'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth am y trefniadau yn dilyn penderfyniad i beidio â llunio cynllun, pan fydd CDU diwygiedig yn cael ei gynnig, neu pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i beidio â chynnal CDU. Bydd cyfleoedd tebyg eraill i ddarparu gwybodaeth yn codi hefyd.

25.61 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY yn briodol ac o ansawdd addas. Wrth roi'r trefniadau hyn ar waith, **rhaid**[28] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth eirioli:

(a) yn cael ei hysbysebu'n dda (er enghraifft, trwy daflenni, posteri, gwefannau, canolfannau cyswllt wyneb yn wyneb a llinellau ffôn cymorth) a'i fod ar gael yn hwylus;

[26] Gofyniad y Cod.
[27] Gofyniad y Cod.
[28] Gofyniad y Cod.

(b) yn cynnwys gweithdrefn gwyno glir a hawdd i'w defnyddio, yn hyrwyddo adborth ac yn defnyddio adborth i lywio gwelliannau;
(c) yn ymatebol ac yn darparu cymorth a chyngor yn gyflym i bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth;
(d) yn meddu ar gynlluniau cyllido a chyllidebu clir ac adnoddau digonol, yn cael ei reoli'n dda ac yn darparu gwerth am arian.

25.62 **Rhaid**[29] i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei wasanaeth eirioli yn cael ei ddarparu yn ddi-dâl yn y man darparu.

25.63 **Rhaid**[30] i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob eiriolwr:

(a) yn deall y system ADY gan gynnwys y trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau a gweithdrefnau'r Tribiwnlys;
(b) yn meddu ar hyfforddiant priodol, gan gynnwys ym maes cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ac unigolion ag anawsterau cyfathrebu, gan barhau i dderbyn hyfforddiant a datblygiad priodol er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol a gwella safonau;
(c) yn meddu ar wybodaeth berthnasol am ADY y plentyn neu'r person ifanc;
(d) yn cadw cofnodion cyfrinachol;
(e) nad ydynt wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant (yn achos eiriolwyr plant) neu gydag oedolion (yn achos eiriolwyr pobl ifanc y credir eu bod yn "wynebu risg"[31]). Os nad oes gan y darparwyr eiriolaeth y wybodaeth hon, **rhaid**[32] i'r awdurdod lleol sicrhau bod y darparwyr yn gwneud cais am ddatgeliad manylach a gwiriad o restr y rhai sydd wedi'u gwahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn symud ymlaen.

25.64 Er bod plant a phobl ifanc yn gallu dewis gofyn am eiriolaeth, **dylai** awdurdodau lleol fynd ati i gynnig cyfle i ddefnyddio eiriolwr os oes angen. Os yw'r cynnig yn cael ei wrthod yn y lle cyntaf, dylid mynd ati i'w gynnig yn rheolaidd neu yn ôl y gofyn, gan gynnwys mewn cyfarfod adolygu CDU. Dylai staff fod â sgiliau priodol i adnabod plant a phobl ifanc a fyddai'n elwa ar wasanaeth eiriolwr.

25.65 **Dylai'r** awdurdod lleol, yr ysgol a'r sefydliad addysg bellach roi camau rhesymol ar waith i gynorthwyo'r eiriolwr i wneud ei waith, er enghraifft hysbysu asiantaethau eraill bod eiriolwr yn cynorthwyo plentyn neu berson ifanc, hwyluso mynediad i'r plentyn neu'r person ifanc, ac os yn briodol, hwyluso mynediad i wybodaeth berthnasol. **Dylai** personau perthnasol gydnabod rôl yr eiriolwr wrth gynorthwyo neu gynrychioli'r plentyn neu'r person ifanc.

---

[29] Adran 49 o'r Ddeddf.
[30] Gofyniad y Cod.
[31] O dan adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
[32] Gofyniad y Cod.

## Annibyniaeth gwasanaethau eirioli

25.66 Mae annibyniaeth yr eiriolwr yn hanfodol er mwyn ei alluogi i weithredu ar ran yr unigolyn yn effeithiol.

25.67 **Rhaid**[33] i'r awdurdod lleol roi sylw i'r egwyddor bod rhaid i unrhyw wasanaethau eirioli a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY fod yn annibynnol ar unrhyw berson sydd:

(a) yn destun apêl i'r Tribiwnlys; neu
(b) yn ymwneud ag ymchwilio i apêl o'r fath neu ddyfarnu arni.

25.68 Mae ymarfer presennol yng Nghymru yn seiliedig ar sicrhau annibyniaeth trwy gomisiynu gwasanaethau eirioli gan ddarparwr allanol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth eiriolaeth, **dylai** gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth gael eu cyllido a'u rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn annibynnol ar y sefydliad comisiynu. **Dylai** comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau sicrhau bod unrhyw faterion yn ymwneud â her a gwrthdaro yn dryloyw ac yn gadarn, a'u bod yn cael eu nodi a'u datrys yn y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y comisiynydd a darparwr y gwasanaeth.

## Eiriolaeth a ddarperir o dan ddeddfwriaeth arall

25.69 **Dylai'r** awdurdod lleol ystyried ai'r dull mwyaf effeithiol o ddarparu eiriolaeth o dan y Ddeddf yw trwy gysylltu'r ddarpariaeth â dyletswyddau awdurdodau lleol i ddarparu eiriolaeth o dan Ddeddfau eraill.

25.70 Mewn amgylchiadau o'r fath, **dylid** ystyried sut i ddarparu cyfleoedd i sicrhau cysondeb o ran anghenion eiriolaeth unigolion, gan gynnwys lleihau'r angen i'r unigolyn ailadrodd ei brofiadau a'i ganlyniadau dymunol i eiriolwyr gwahanol. Lle bynnag y bo modd, **dylai'r** partïon geisio cytuno ar un eiriolwr i gynorthwyo'r unigolyn.

25.71 Er enghraifft, mae'n bosibl bod gan blentyn sy'n derbyn gofal ADY hefyd, ac felly byddai ganddo hawl i eiriolwr o dan y system ADY ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn mewn angen. Mewn sefyllfa o'r fath, **dylai'r** awdurdod lleol sicrhau bod yr eiriolwr yn gymwys i ddarparu gwasanaeth eirioli, a'i fod yn deall y ddwy system sy'n destun ei eiriolaeth.

## Awdurdodau lleol yn darparu eiriolwyr annibynnol i weithredu fel cyfeillion achos

25.72 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd plentyn yn dewis aelod agos o'r teulu neu oedolyn y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i fod yn gyfaill achos. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl bod angen cyfaill achos

[33] Adran 69(3) o'r Ddeddf.

ar blentyn, ond nad yw’n adnabod neb priodol i weithredu fel cyfaill achos. Er enghraifft, os oes Tribiwnlys yn penderfynu bod plentyn nad oes ganddo alluedd yn cyflwyno achos neu apêl heb gyfaill achos, **dylai’r** Tribiwnlys atal yr achos nes bod gan y plentyn gyfaill achos.

25.73 Hefyd, **caiff** eiriolwyr annibynnol wneud cais i’r Tribiwnlys am fod yn gyfaill achos plentyn. Gall hyn ddigwydd os oes angen cyfaill achos ar blentyn ond nad yw’n gallu gofyn i aelod o’r teulu neu oedolyn agos y mae’n ymddiried ynddo i fod yn gyfaill achos.

# Pennod 26: Apeliadau a cheisiadau i Dribiwnlys Addysg Cymru

## *Cyflwyniad*

26.1 Mae'r Tribiwnlys yn gwrando ar ac yn penderfynu ar apeliadau a cheisiadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a alla fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn benodol, mae'n gwrando ar ac yn penderfynu ar apeliadau ynghylch penderfyniadau Sefydliad Addysg Bellach (SAB) neu awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn gwrando ar hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag ysgolion: fodd bynnag mae'r bennod hon yn canolbwyntio'n llwyr ar apeliadau sy'n ymwneud ag ADY. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth, ar awdurdodau lleol, ysgolion a SAB; ac mae ei benderfyniadau yn rhwymo mewn cyfraith.

26.2 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru a wnaed dan y Ddeddf[1], yn amlinellu'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn mewn achosion cyn y Tribiwnlys. Mae hyn yn cynnwys y broses o gychwyn yr apêl a'r achosion sy'n dilyn.

26.3 Mae'r Tribiwnlys yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar ei wefan ynghylch y broses apelio a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

26.4 Yn ogystal ag apeliadau i Dribiwnlys Addysg Cymru, mae sawl dull arall y gall dysgwyr a'u teuluoedd eu defnyddio i herio corff cyhoeddus os ydyn nhw'n teimlo nad yw'r corff wedi cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus, yn cynnwys y dyletswyddau hynny o dan y Ddeddf. Nodir y rhain ym Mhennod 25, paragraffau 25.47-25.54.

## *Materion y gellir cyflwyno apeliadau amdanynt*

26.5 Gall plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc[2] apelio i'r Tribiwnlys ynghylch:

- penderfyniad gan SAB[3] neu awdurdod lleol[4] ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY;
- yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol[5] ynghylch a oes angen paratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU);
- disgrifiad o ADY yr unigolyn yn y CDU;

---

[1] Adrannau 74(1), 75(1), 75(2), 75(4), 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o Ddeddf 2018.
[2] Adran 70 o'r Ddeddf.
[3] Adran 11 o'r Ddeddf
[4] Adrannau 13, 18 a 26 o'r Ddeddf
[5] Adran 14(1)(c)(ii) o'r Ddeddf

- y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) sydd mewn CDU, neu'r ffaith nad oes DDdY mewn CDU, yn cynnwys a yw cynllun yn nodi y dylid darparu'r DDdY yn Gymraeg;
- y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cynllun datblygu unigol gan awdurdod lleol o dan adrannau 14(6) neu 19(4) neu'r ffaith nad yw darpariaeth dan yr adrannau hynny mewn cynllun (mae hyn ynghylch a ellir diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc oni bai bod yr awdurdod lleol hefyd yn sicrhau llety neu leoliad mewn ysgol benodol neu sefydliad arall[6]);
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben derbyn plentyn mewn sefydliad a enwir[7], neu os na enwir ysgol mewn CDU at ddiben derbyn;
- penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio ag adolygu CDU pan ofynnwyd i'r awdurdod lleol gan blentyn neu gan riant plentyn neu berson ifanc i ailystyried CDU a gynhelir gan ysgol a gynhelir[8];
- penderfyniad gan awdurdod lleol i beidio ag ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU, a gynhelir gan ysgol, lle y gofynnwyd iddynt wneud hynny gan blentyn neu ei riant, gan berson ifanc neu gorff llywodraethu'r ysgol honno[9];
- penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU[10];
- os gwrthodir penderfynu ar fater ar y sail nad oes newid perthnasol mewn anghenion ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n berthnasol ar y penderfyniad[11].

26.6 **Gall**[12] person dan gadwad neu riant person dan gadwad sy'n blentyn apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y materion canlynol:

- penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a oes gan berson dan gadwad ADY;
- penderfyniad yr awdurdod cartref a fydd angen cynnal CDU ar gyfer person dan gadwad pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw;
- disgrifiad o ADY y person mewn CDU;
- y DDdY mewn CDU, neu'r ffaith nad oes DDdY wedi'i chynnwys yn y cynllun, yn cynnwys a yw'r cynllun yn nodi y dylai'r DDdY fod yn Gymraeg (a dyma fydd y DDdY a fydd yn berthnasol pan ryddheir y person o leoliad cadw);
- y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn CDU o dan adran 40(7) o'r Ddeddf, neu'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth o dan yr adran honno yn y cynllun;
- yr ysgol a enwir mewn CDU at ddibenion sicrhau lle yn yr ysgol (sef derbyn lle pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw);
- os na enwir ysgol mewn CDU ar y diben hwnnw;

[6] Adrannau 14(6) a 19(4) o'r Ddeddf
[7] Adran 48 o'r Ddeddf
[8] Adran 27 o'r Ddeddf
[9] Adran 28 o'r Ddeddf
[10] Adrannau 31(5) and 31(6) o'r Ddeddf
[11] Lle bo adrannau 11(3)(b), 13(2)(b), 18(2)(b) neu 29(2)(a) yn berthnasol
[12] Adran 72 o'r Ddeddf

- os gwrthodir penderfynu a oes gan berson dan gadwad ADY ar y sail bod ei awdurdod cartref yn y gorffennol wedi gwneud penderfyniad o'r fath, nid yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol ac nid oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol naill ai ar y cyfryw benderfyniad neu ar benderfyniad a fydd angen cynllun pan gaiff ei ryddhau.

26.7 **Gall**[13] plentyn neu riant plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad fod y plentyn naill ai â'r gallu neu heb y gallu i ddeall[14]:

- gwybodaeth neu ddogfennau sy'n ofynnol i'w cyflwyno i blentyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf;
- beth yw ystyr defnyddio'r hawliau a drosglwyddir i blentyn yn ôl Rhan 2.

## *Gall penderfyniadau'r Tribiwnlys wneud fel a ganlyn*

26.8 Yn yr apêl, mae'r Tribiwnlys **yn gallu**[15]:

- gwrthod yr apêl;
- rhoi gorchymyn bod gan y person ADY o fath a nodir yn y gorchymyn neu fel arall;
- rhoi gorchymyn i SAB neu awdurdod lleol baratoi CDU;
- rhoi gorchymyn i SAB neu awdurdod lleol ddiwygio CDU fel y nodir mewn gorchymyn;
- rhoi gorchymyn i ysgol, SAB neu awdurdod lleol barhau i gynnal CDU (gyda neu ddiwygiadau);
- rhoi gorchymyn i awdurdod lleol ysgwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU;
- rhoi gorchymyn i SAB neu i awdurdod lleol adolygu CDU;
- ailgyflwyno'r achos i SAB neu i awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater ystyried o'r newydd gan roi sylw priodol i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Tribiwnlys ynghylch yr angen am benderfyniad gwahanol ynglŷn â'r mater neu a oes angen cymryd unrhyw gamau gwahanol.

26.9 O ran apeliadau mewn perthynas â phersonau dan gadw, mae'r Tribiwnlys **yn gallu**[16]:

- gwrthod yr apêl;
- rhoi gorchymyn bod gan y person ADY o fath a nodir yn y gorchymyn neu fel arall;
- rhoi gorchymyn i'r awdurdod cartref baratoi CDU;

[13] Adran 70(3) o'r Ddeddf.
[14] Adran 84 o'r Ddeddf.
[15] Adrannau 71 a 73 o'r Ddeddf.
[16] Adran 73 o'r Ddeddf.

- rhoi gorchymyn i'r awdurdod cartref ddiwygio CDU fel y nodir yn y gorchymyn;
- ailgyflwyno'r achos i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater ystyried o'r newydd gan roi sylw priodol i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Tribiwnlys ynghylch yr angen am benderfyniad gwahanol ynglŷn â'r mater neu a oes angen cymryd unrhyw gamau gwahanol.

26.10 Gall plant ddod â'u hapeliadau eu hunain i'r Tribiwnlys os oes ganddyn nhw ddigon o ddealltwriaeth i wneud hynny. Felly gall y Tribiwnlys wneud penderfyniadau am allu plentyn i ddeall y materion sy'n ymwneud â'r system ADY, yn cynnwys yr hyn mae'n ei olygu i ddod ag apêl gerbron y Tribiwnlys. **Gall**[17] y Tribiwnlys:

- os yw'r plentyn neu riant plentyn yn gofyn i'r Tribiwnlys[18], ddatgan bod gan y plentyn neu nad oes gan y plentyn y gallu i ddeall gwybodaeth neu ddogfennau a gyflwynir i'r plentyn o dan Ran 2 o'r Ddeddf, neu'r gallu gofynnol i ddefnyddio'r hawliau a drosglwyddir i blentyn gan Ran 2[19];
- os yw wedi datgan nad oes gan y plentyn ddigon o allu i ddeall, gall benodi cyfaill achos ar gyfer y plentyn sy'n dod â'r apêl gerbron o dan ei enw ei hun (a gall ddiddymu person fel cyfaill achos ar gyfer y plentyn hwnnw lle bo'n briodol)[20] (gweler Pennod 27 am ragor o wybodaeth am gyfeillion achos).

## *Amserlenni sy'n ymwneud â'r broses apeliadau a chydymffurfio â gorchmynion*

26.11 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru yn nodi'r amserlenni ar gyfer apeliadau a'r broses apelio a rhaid i'r apelyddion, awdurdodau lleol, SAB, ysgolion a chyrff y GIG gydymffurfio â'r broses fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod:

- y mae'n **rhaid**[21,22] i gais apêl a datganiad i gefnogi achos gael eu derbyn gan y Tribiwnlys;
- y mae'n **rhaid**[23] i ddatganiad achos gael ei ddarparu i'r Tribiwnlys gan y SAB neu'r awdurdod lleol dan sylw;
- y mae'n **rhaid**[24] cydymffurfio â gorchymyn Tribiwnlys
- y mae'n **rhaid**[25] i gorff GIG adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys ynghylch argymhelliad a wnaed gan banel y Tribiwnlys.

---

[17] Adran 71(2) o'r Ddeddf.
[18] Adran 70(3) o'r Ddeddf
[19] Adran 71 o'r Ddeddf.
[20] Adran 85 o'r Ddeddf.
[21] Rheoliad12(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[22] Rheoliad 19(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[23] Rheoliad 19(3) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[24] Rheoliad 60 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[25] Rheoliad 65 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth.

26.12 Ar unrhyw adeg yn ystod achosion Tribiwnlys, **gall**[26] unrhyw barti sy'n ymwneud â'r achos wneud cais am saib er mwyn ystyried setliad neu ddatrysiad arall i'r anghydfod. Byddai saib i'r holl achos, yn cynnwys yr amserlenni os cymeradwyir y saib, gyda'r achos yn ailgychwyn ar ddiwedd cyfnod y saib fel y pennir gan y Tribiwnlys.

26.13 Nid oes eithriadau i'r amserlenni a nodir yn y rheoliadau. Fodd bynnag, **gall**[27] awdurdod lleol neu SAB perthnasol ofyn i'r Tribiwnlys am estyniad i'r amserlen. **Dylai'r** awdurdod lleol neu'r SAB nodi yn eu cais beth yw eu rhesymau am ofyn am estyniad. **Gall**[28] y Tribiwnlys estyn amserlen yn unol â'i ddisgresiwn os yw'n barnu ei bod yn deg gwneud hynny.

## *Cais am apêl a chyfnod datganiad achos*

26.14 **Rhaid**[29,30] i'r Tribiwnlys dderbyn cais am apêl a datganiad achos ategol (tystiolaeth) ar bapur ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod 8 wythnos gan ddechrau ar y dyddiad pan roddwyd yr hysbysiad[31] am benderfyniad yr awdurdod lleol neu'r SAB.

26.15 **Rhaid**[32] i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon y cais am apêl ac unrhyw ddogfennau ategol yn cynnwys y datganiad achos llawn (y gellir fod wedi ei gyflwyno gan yr apelydd yr un adeg ag y cyflwynwyd y cais cyntaf am apêl), at y SAB neu'r awdurdod lleol perthnasol pan fydd y Tribiwnlys yn derbyn y dogfennau. **Rhaid**[33] i SAB neu awdurdod lleol yr ymatebydd gyflwyno ei ddatganiad achos gan ymateb i'r apêl o fewn 4 wythnos i'r Tribiwnlys dderbyn copi o ddatganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd.

## *Amserlenni sy'n ymwneud â chydymffurfio â gorchymyn*

26.16 Os bydd y Tribiwnlys yn rhoi gorchymyn yn dilyn gwrandawiad, **rhaid**[34] i'r awdurdod lleol neu'r SAB dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn hwnnw a darparu copïau o ddogfennau perthnasol (e.e. CDU diwygiedig) i'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc o fewn yr

[26] Rheoliad 8(2) o Reoliadau'r Tribiwnlys Addysg Crymru drafft.
[27] Rheoliad 66(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[28] Rheoliad 66(2) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[29] Rheoliad 12(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[30] Rheoliad 19(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[31] Ceir canllawiau pellach ar roi rhybudd neu ddogfennau ym Mhennod 1.
[32] Rheoliad 15(2)(a) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[33] Rheoliad 19(4) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[34] Rheoliad Adran 77(1) o'r Ddeddf.

amserlen a nodir yn Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru; nodir yr amserlenni hyn fel a ganlyn. Yn achos gorchymyn:

a) yn erbyn awdurdod lleol i baratoi CDU, **rhaid**[35] iddo baratoi a darparu copi o'r CDU i'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc cyn pen 7 wythnos;
b) yn erbyn SAB i baratoi CDU, **rhaid**[36] paratoi a darparu copi o'r CDU i'r person ifanc cyn pen 35 o ddiwrnodau yn ystod y tymor;
c) yn erbyn awdurdod lleol i ddiwygio CDU, **rhaid**[37] iddo adolygu'r CDU a rhoi copi i'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc cyn pen 7 wythnos;
d) yn erbyn SAB i ddiwygio CDU, **rhaid**[38] iddo adolygu'r CDU a darparu copi i'r person ifanc cyn pen 35 o ddiwrnodau yn ystod y tymor;
e) i barhau i gynnal CDU (gyda neu heb ddiwygiadau), **rhaid**[39] iddo wneud hynny ar unwaith.
f) yn erbyn awdurdod lleol i ysgwyddo cyfrifoldeb am gynnal CDU, **rhaid**[40] iddo wneud hynny o'r dyddiad a nodir gan y Tribiwnlys.
g) yn erbyn awdurdod lleol i ddiwygio CDU, **rhaid**[41] iddo gynnal adolygiad a hysbysu'r[42] plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc o ganlyniad yr adolygiad, yn ysgrifenedig cyn pen 7 wythnos,
h) yn erbyn SAB yng Nghymru i adolygu CDU, **rhaid**[43] iddo gynnal adolygiad a hysbysu'r person ifanc o ganlyniad yr adolygiad, yn ysgrifenedig cyn pen 35 o ddiwrnodau yn ystod y tymor;
i) i gyflwyno'r achos i'r awdurdod lleol cyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Tribiwnlys, a oes angen cymryd penderfyniad arall neu gamau gwahanol, **rhaid**[44] i'r awdurdod lleol wneud hynny, a rhoi gwybod[45] i'r plentyn, i riant y plentyn neu'r person ifanc beth yw canlyniad yr ystyriaeth bellach cyn pen 7 wythnos:
j) i gyflwyno'r achos i'r SAB cyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Tribiwnlys, a oes angen cymryd penderfyniad arall neu gamau gwahanol, **rhaid**[46] i'r awdurdod lleol wneud hynny, a rhoi gwybod i'r plentyn, i riant y plentyn neu'r person ifanc beth yw canlyniad yr ystyriaeth bellach cyn pen 35 o ddiwrnodau'r tymor

26.17 **Gall**[47] y Tribiwnlys, yn dilyn gwrandawiad apêl yn ymwneud â phlentyn dan gadwad neu berson ifanc, wneud gorchymyn yn ei gwneud yn

[35] Rheoliad 60(2)(a) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[36] Rheoliad 60(2)(b) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[37] Rheoliad 60(2)(c) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[38] Rheoliad 60(2)(d) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[39] Rheoliad 60(2)(e) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[40] Rheoliad 60(2)(f) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[41] Rheoliad 60(2)(g) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[42] Mae canllawiau pellach ar hysbysu neu ddogfennau ar gael ym Mhennod 1.
[43] Rheoliad 60(2)(h) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[44] Rheoliad 60(2)(i) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft
[45] Mae canllawiau pellach ar hysbysu neu ddogfennau ar gael ym Mhennod 1.
[46] Rheoliad 60(2)(i) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[47] Adran 73 o'r Ddeddf

ofynnol i'r awdurdod cartref perthnasol gyflawni'r camau a nodir yn a) c) neu i) o'r rhestr a nodir ym mharagraff 26.16. Os yw'r Tribiwnlys yn gwneud gorchymyn o'r fath, **rhaid**[48] i'r awdurdod cartref gyflawni'r cam hwnnw cyn pen 7 wythnos.

26.18 **Rhaid**[49] i'r SAB neu'r awdurdod lleol perthnasol wneud adroddiad i'r Tribiwnlys yn nodi a yw a sut bydd yn cydymffurfio â'r gorchymyn cyn diwedd cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod a ragnodwyd.

26.19 Fel y nodir ym mharagraff 26.13 uchod, **gall**[50] ymestyn yr amserlenni hyn yn ôl disgresiwn y Tribiwnlys yn unig yn dilyn cais gan awdurdod lleol neu SAB.

## *Cyrff y GIG: tystiolaeth ac argymhellion y Tribiwnlys*

26.20 Mewn perthynas ag apêl a wneir o dan Ran 2 o'r Ddeddf, **gall**[51,52] y Tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i gorff y GIG ddarparu tystiolaeth am ymarfer swyddogaethau'r corff a gwneud argymhellion am ymarfer swyddogaethau'r corff.

26.21 Os bydd y Tribiwnlys yn gwneud argymhelliad i gorff y GIG, **rhaid**[53] i'r corff hwnnw adrodd i'r Tribiwnlys, cyn pen 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaed yr argymhelliad. **Rhaid**[54] i'r adroddiad ddatgan:

- y cam gweithredu a gyflawnodd corff y GIG neu y mae'n bwriadu ei gyflawni i ymateb i argymhelliad y Tribiwnlys;
- pam nad yw'r corff wedi cyflawni a pham nad yw'n bwriadu cyflawni unrhyw gam er mwyn ymateb i'r argymhelliad.

## *Adolygiadau ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys*

### Adolygiadau

26.22 **Gall**[55] unrhyw barti i'r achos wneud cais i Ysgrifennydd y Tribiwnlys am adolygu penderfyniad gan banel y Tribiwnlys ar y sail:

(a) bod y penderfyniad anghywir wedi'i gymryd o ganlyniad i wall
(b) sylweddol ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys;

[48] Rheoliadau 60(4)(a), (b) ac (c) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[49] Adran 77(2) o'r Ddeddf
[50] Rheoliad 66 o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[51] Adran 76(1)(a) o'r Ddeddf
[52] Adran 76(1)(b) o'r Ddeddf
[53] Rheoliad 65(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[54] Adran 76(4) o'r Ddeddf
[55] Rheoliad 55(1) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.

(c) bod parti a oedd â hawl i gael gwrandawiad yn yr achos wedi methu ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, a bod ganddo reswm da a digonol am beidio ag ymddangos;
(d) bod gwall amlwg a sylweddol yn y penderfyniad;
(e) bod angen gwneud er lles cyfiawnder.

27.23 **Gall**[56] Llywydd neu Gadeirydd panel y Tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad adolygu a neilltuo neu amrywio penderfyniad fel y cyfryw, neu wrthod cais am adolygu penderfyniad os ydyn nhw o'r farn nad yw'r achos yn debygol o lwyddo. **Rhaid**[57] i'r partïon dan sylw gael cyfle i gael gwrandawiad cyn y gellir pennu bod adolygiad o benderfyniad yn digwydd.

**Apeliadau**

26.24 **Gall**[58] parti i unrhyw achos apelio i'r Uwch Dribiwnlys ynghylch unrhyw bwynt o'r gyfraith sy'n codi o benderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys. **Gellir**[59] cyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys dim ond os yw'r Tribiwnlys neu'r Uwch Dribiwnlys wedi rhoi caniatâd i'r apêl gael ei ddwyn gerbron.

26.25 Felly, os yw plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn ystyried bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir yn ôl y gyfraith, gallant apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys. Ni fydd yr Uwch Dribiwnlys yn ystyried rhagoriaethau'r achos, nac yn gwrando ar unrhyw ddadleuon sy'n codi o'r achos, ac eithrio pwyntiau'r gyfraith.

[56] Rheoliadau 55(3) a (4) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[57] Rheoliad 55(7) o Reoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft.
[58] Adran 81(1) o'r Ddeddf
[59] Adran 81(2) o'r Ddeddf

# Apelio yn erbyn penderfyniad i dribiwnlys addysg Cymru

Os yw plentyn, rhieni plentyn, neu berson ifanc neu gyfaill i'r achos ar ran y plentyn yn dymuno apelio i'r Tribiwnlys Addysg, gweler amlinelliad o'r broses isod:

Ydy'r apêl ynghylch penderfyniad SAB neu awdurdod lleol yng Nghymru (yn cynnwys penderfyniadau ynghylch personau a gedwir yn gaeth)?

→ Na: Ni ellir apelio.
Os yw'r mater ynghylch penderfyniad a wnaed gan ysgol, gellir ei gyfeirio at yr awdurdod lleol i'w ailystyried.
Os yw'r mater ynghylchpenderfyniad gan gorff y GIG, dylid dilyn trefn gwyno'r GIG (trowch i Bennod 25).

↓ Ydy

Ydy'r apêl am un o'r materion a nodir yn adran 70 o'r Ddeddf (neu adran 72 yn achos personau a gedwir yn gaeth)?

→ Na: Ni ellir apelio

↓ Ydy

Ydy'r apêl o fewn yr amserlen statudol (h.y. yn cael ei chyflwyno o fewn yr 8 wythnos o roi'r penderfyniad?)

→ Na: Ni ellir apelio, ac eithrio yn ôl disgresiwn y Tribiwnlys

↓ Ydy

## Y Broses Apelio

Cyflwyno apêl, a'r partïon yn darparu tystiolaeth o fewn cyfnod y datganiad achos (paragraff 26.14-26.15) → Ydy → Bydd y Tribiwnlys yn gwrando ar yr apêl → Ydy → Bydd y Tribiwnlys yn hysbysu'r partion o'u penderfyniad

## Cydymffurfio ac Adrodd

Mewn perthynas â gorchmynion, rhaid i'r awdurdod lleol neu'r SAB perthnasol gydymffurfio â'r gorchymyn o fewn yr amserlen a nodwyd (paragraff 26.16) ac adrodd ynghylch i ba raddau y mae wedi cydymffurfio.

Mewn perthynas ag argymhellion i gyrff y GIG, rhaid i'r corff dan sylw adrodd i'r Tribiwnlys ymhen 6 wythnos yn egluro pa gamau mae wedi'u cymryd neu gynlluniau i'w cyflawni i ymateb i'r argymhelliad, neu pam nad yw wedi gweithredu ac nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau.

**Dylech nodi fod gan blant sy'n preswylio yn Lloegr ond yn mynychu ysgol yng Nghymru hawliau i apelio sydd ychydig yn wahanol**

# Pennod 27: Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd

## _Cyflwyniad_

27.1 Mae'r Bennod hon yn egluro sut y gall plentyn nad oes ganddo alluedd, fel y diffinnir yn y Ddeddf, ddefnyddio cyfaill achos i weithredu ar ei ran wrth arfer hawliau penodol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am rôl cyfaill achos, a sut y caiff ei benodi a'i ddiswyddo.

27.2 Waeth a oes gan blentyn alluedd ai peidio, mae'n dal i allu gwneud cyfraniad sylweddol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am ei ADY a **rhaid**[1] iddo gael gwybodaeth a chymorth i'w alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny (gweler Pennod 3). Os nad oes gan blentyn alluedd, mae'r ddyletswydd[2] gyffredinol ar y rheini sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw i'r canlynol yn berthnasol o hyd:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn;
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau; a
- phwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i'r plentyn er mwyn ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

27.3 Ar gyfer plant yn y system ADY, mae galluedd yn ymwneud yn benodol â'u gallu i ddeall materion yn ymwneud â'r system ADY (gweler paragraff 27.5).

27.4 I sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u parchu, a'u galluogi i arfer eu hawliau o dan y system ADY, **gall**[3] plant nad oes ganddynt alluedd ddefnyddio cyfaill achos i'w cynrychioli a'u cynorthwyo a gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae cyfeillion achos yn arbennig o bwysig pan fydd plentyn nad oes ganddo alluedd yn dymuno cyflwyno apêl yn ei enw ei hun, er enghraifft pan nad oes ganddo riant sy'n fodlon neu'n gallu mynd ati ar ran y plentyn i ddatrys anghydfod neu gyflwyno achos i'r Tribiwnlys.

[1] Adran 6 o'r Ddeddf.
[2] O dan adran 6 o'r Ddeddf.
[3] Adran 85 o'r Ddeddf.

## _Plant nad oes ganddynt alluedd_

27.5 Mae'r Ddeddf yn nodi bod plentyn nad oes ganddo'r galluedd i ddeall y canlynol[4]:

- gwybodaeth neu ddogfennau y mae'n rhaid eu rhoi iddo mewn perthynas â'i ADY; neu
- beth y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau a roddir iddo o dan y system ADY;
- yn blentyn nad oes ganddo alluedd at ddibenion y Ddeddf. Mewn rhai achosion, oedran y plentyn fydd y rheswm nad oes ganddo alluedd. Mewn achosion eraill, efallai mai ADY y plentyn fydd y rheswm. Gall gallu plentyn i ddeall newid dros amser.

27.6 Os bydd awdurdod lleol, ysgol, sefydliad addysg bellach neu gorff GIG yn ystyried nad oes gan blentyn alluedd, nid yw'r dyletswyddau neu'r amodau penodol canlynol yn berthnasol[5]:

- y ddyletswydd i hysbysu plentyn neu i roi gwybod i blentyn[6] (gweler Pennod 1);
- y ddyletswydd i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig i blentyn[7] (Gweler Pennod 16);
- y ddyletswydd i roi gwybod i blentyn bod corff yn bwriadu atgyfeirio mater i gorff GIG, a rhoi cyfle i'r plentyn i drafod a ddylai'r atgyfeiriad gael ei wneud[8] (gweler Pennod 15);
- y ddyletswydd i adolygu cynllun yn dilyn cais gan blentyn[9] (gweler Pennod 16);
- y ddyletswydd i ailystyried yn dilyn cais gan blentyn[10] (gweler Pennod 17);
- y ddyletswydd i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gymryd drosodd cynllun a gynhelir gan gorff llywodraethu yn dilyn cais gan blentyn[11] (Gweler Pennod 17).

27.7 Nid yw'r eithriadau uchod (ym mharagraff 27.6) yn cynnwys y dyletswyddau cyfatebol yn ymwneud â rhiant y plentyn. Bydd rhieni'n parhau i fod â'r hawliau hyn (a gallant eu defnyddio ochr yn ochr â hawliau cyfaill achos y plentyn os penodwyd cyfaill achos).

---

[4] Adran 83 o'r Ddeddf.
[5] Y dyletswyddau a'r amodau hyn yw'r rheini a restrir yn adran 84(1) o'r Ddeddf.
[6] O dan adran 11(4), 13(3), 18(3), 22(2), 23(10), 24(9), 27(4), 28(4), 28(7), 31(7), 31(8), 31(9), 32(3), 40(4) neu 42(6) o'r Ddeddf. Mae'r holl gyfeiriadau hyn yn cwmpasu'r dyletswyddau yn y Ddeddf i hysbysu neu roi gwybod i blentyn.
[7] O dan adran 22(1), 23(11), 24(10) neu 40(5) o'r Ddeddf.
[8] Fel y mae'r amodau'n berthnasol i blentyn o dan baragraffau (a) a (b) o adran 20(3) o'r Ddeddf.
[9] O dan adran 23(8) neu 24(7).
[10] O dan adran 26(1), 27(1) neu 32(1)(b). Mae'r rhain yn ymwneud â'r dyletswyddau i ailystyried a oes gan y plentyn neu'r person ifanc ADY, i ailystyried CDU a phenderfynu a ddylid ei ddiwygio ai peidio, ac i ailystyried y penderfyniad i beidio â chynnal CDU.
[11] O dan adran 28(1) o'r Ddeddf.

## Asesu galluedd plant

27.8 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr athrawon yn yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu yn gwybod p'un a oes ganddo alluedd ai peidio am eu bod yn gweithio gyda'r plentyn yn ddyddiol. Gall cyrff GIG ac awdurdodau lleol hefyd asesu galluedd.

27.9 Os yw plentyn neu riant y plentyn yn anghytuno â phenderfyniad nad oes gan y plentyn alluedd, gellir ei herio fel a ganlyn:

- Gall penderfyniad bod gan, neu nad oes gan blentyn alluedd gael ei atgyfeirio gan blentyn neu ei riant i'w ailystyried gan yr awdurdod lleol. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn alluedd, gall y plentyn arfer yr hawliau penodol a roddwyd iddo[12]:
- Gall plentyn neu riant plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad bod gan, neu nad oes gan blentyn alluedd[13]. Os yw'r Tribiwnlys yn datgan bod gan y plentyn alluedd, gall y plentyn arfer yr hawliau penodol a roddwyd iddo;
- Yn dilyn cais gan unrhyw berson, neu ar ei ysgogiad ei hun, caiff y Tribiwnlys drwy orchymyn benodi person i fod yn gyfaill achos ar gyfer plentyn nad oes ganddo alluedd. Pan fydd cyfaill achos wedi'i benodi, caiff yr hawliau a roddwyd i'r plentyn eu harfer gan y cyfaill achos ar ran y plentyn.

27.10 Os penderfynir bod gan blentyn alluedd, ni chaniateir iddo gael cyfaill achos. Fodd bynnag, bydd cymorth arall ar gael iddo[14], er enghraifft bydd modd iddynt ddefnyddio eiriolwyr annibynnol.

27.11 Yn ogystal, gall y Tribiwnlys benderfynu ynghylch galluedd plentyn ar ei ysgogiad ei hun. Er enghraifft, os yw plentyn yn cyflwyno apêl ei hun heb gyfaill achos, gall y Tribiwnlys asesu galluedd y plentyn. Os yw'r Tribiwnlys o'r farn nad yw'r plentyn yn deall beth y mae'n ei olygu i arfer ei hawliau, bydd yn atal yr achos hyd nes bod cyfaill achos wedi'i benodi.

27.12 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd tystiolaeth gan athro/athrawes y plentyn neu weithwyr proffesiynol perthnasol eraill sy'n adnabod y plentyn yn ddigon i'r Tribiwnlys allu gwneud asesiad o'i alluedd. Ond mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen tystiolaeth arbenigol ar y Tribiwnlys i gefnogi ei benderfyniad.

27.13 Bydd y math o gynrychiolaeth a chymorth sydd ar gael i'r plentyn er mwyn ei alluogi i arfer ei hawliau o dan y Ddeddf, yn dibynnu ar b'un a oes gan blentyn alluedd ai peidio. Mae cyfeillion achos ond ar gael i blant nad oes ganddynt alluedd. Gall plant eraill sy'n dymuno cyflwyno achos ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol[15].

---

[12] Adrannau 84(5) a (6) o'r Ddeddf.
[13] Adran 70(3) o’r Ddeddf.
[14] Adrannau 6 a 69 o'r Ddeddf.
[15] Gweler Pennod 25 - Osgoi a datrys anghydfodau.

## *Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd*

27.14 Mae'r Ddeddf yn nodi y gall plentyn nad oes ganddo alluedd gael rhywun i'w gefnogi, sef "cyfaill achos". Gall cyfaill achos:

- gynrychioli a chefnogi'r plentyn; a
- gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ran y plentyn.

27.15 **Rhaid**[16] i gyfeillion achos:

(a) weithredu mewn ffordd deg a chymwys;
(b) peidio â bod â buddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn;
(c) sicrhau bod yr holl gamau a phenderfyniadau a wneir gan y cyfaill achos er lles y plentyn; ac
(d) ystyried barn y plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

### Diben a swyddogaethau cyfaill achos

27.16 Mae gan blant, a rhieni, hawl i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys. Mae cyfeillion achos yn caniatáu i blant nad oes ganddynt alluedd ac sydd angen cyflwyno ei hachos eu hunain, gael cynrychiolaeth a llais os, er enghraifft, nad yw eu rhieni'n gallu cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys neu fynd ati i ddatrys anghydfod. Lle bo angen, gall plentyn ddefnyddio cyfeillion achos yn gynharach yn y broses cyn gweithdrefn fwy ffurfiol ar gyfer datrys anghydfod neu apêl.

27.17 Mae cyfeillion achos yn wahanol i eiriolwyr annibynnol am eu bod yn arfer hawliau'r plentyn ar ei ran o dan ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf[17], tra bod eiriolwyr annibynnol yn cynnig cyngor, cymorth a chynrychiolaeth[18]. Mae cyfeillion achos yn gwrando ar y plentyn ac yn gweithio gydag ef i sicrhau bod ei lais yn cael ei gynrychioli bob amser mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno.

27.18 Fel arfer, bydd rhiant neu warcheidwad gyda'r plentyn pan fydd yn trafod ei ADY gydag athro neu gydlynydd ADY, neu pan fydd yn mynd i gyfarfod ynghylch CDU. Fodd bynnag, os penodwyd cyfaill achos, gall y cyfaill achos hefyd fynd i'r cyfarfodydd hyn i'w gefnogi a'i gynrychioli a gwneud penderfyniadau yn ymwneud â'i ADY.

27.19 Os yw'r plentyn yn anghytuno â'i ADY, gall cyfaill achos ddefnyddio'r trefniadau a wnaed gan yr awdurdodau lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau[19]. Wrth wneud y trefniadau hyn, bydd angen i'r awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gallai cyfeillion achos gael eu defnyddio a sicrhau bod unrhyw drefniadau a gweithdrefnau hefyd yn cynnwys y cyfaill achos, lle bo'n briodol. Gall defnyddio cyfeillion achos o'r cychwyn cyntaf fod yn ddefnyddiol er mwyn datrys materion ar yn gynnar, gan osgoi llwybr mwy

[16] Adran 85(6) o'r Ddeddf.
[17] Adran 85(4) o'r Ddeddf.
[18] Adran 69(2) o'r Ddeddf.
[19] Adran 68 o'r Ddeddf.

ffurfiol a beichus i'r Tribiwnlys. Gweler Pennod 25 am ragor o wybodaeth ynghylch osgoi a datrys anghytundebau.

27.20 Os yw anghytundeb yn cyrraedd y Tribiwnlys, gellir defnyddio cyfeillion achos yn ystod y gwrandawiad ei hun ac yn ystod y broses ffurfiol cyn ac ar ôl y gwrandawiad. Er nad oes angen i'r plentyn gael cydsyniad ei riant i gyflwyno apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys, **rhaid**[20] i'r plentyn gael cyfaill achos cyn cyflwyno apêl neu hawliad yn ei enw ei hun os nad oes ganddo alluedd.

27.21 Os defnyddir cyfaill achos pan fydd plentyn yn cyflwyno achos neu apêl i'r Tribiwnlys, **rhaid**[21] i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl wybodaeth a dogfennau perthnasol yn ymwneud â'r apêl neu'r achos i'r cyfaill achos yn lle'r plentyn. Gweler Pennod 26 i gael gwybod mwy am apelau.

27.22 Mae gwasanaethau eirioli annibynnol hefyd ar gael i gyfeillion achos. **Rhaid**[22] i awdurdod lleol gyfeirio cyfaill achos at ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol os yw'r cyfaill achos wedi gwneud cais am y gwasanaeth hwn. Efallai y bydd cyfeillion achos sy'n gweithredu ar ran plant angen cymorth gan rywun sydd â dealltwriaeth fanwl o'r system ADY.

### Penodi a diswyddo cyfaill achos

27.23 Gellir ond penodi neu ddiswyddo cyfeillion achos drwy'r Tribiwnlys[23].

27.24 Gall y Tribiwnlys benodi cyfaill achos ar ei ysgogiad ei hun, neu yn dilyn cais gan rywun arall.

27.25 Wrth benodi cyfaill achos yn dilyn cais, bydd y Tribiwnlys yn penderfynu ar ei gymhwystra drwy asesu ffurflen gais sy'n cynnwys datganiad o addasrwydd a gwblhawyd gan y person sy'n gwneud cais i fod yn gyfaill achos. Lluniwyd y ffurflen gan y Tribiwnlys ac mae ar gael ar ei wefan neu drwy wneud cais am gopi yn ysgrifenedig. Caiff y ffurflen ei defnyddio hefyd os bydd eiriolwr annibynnol yn gwneud cais i fod yn gyfaill achos ar gyfer plentyn.

27.26 Gellir gwneud cais i'r Tribiwnlys ar unrhyw adeg pan fo angen cyfaill achos ar blentyn i'w helpu i ymgysylltu â'r system ADY. Nid oes yn rhaid aros nes cymryd rhan yn y trefniadau ar gyfer osgoi neu ddatrys anghytundebau, neu hyd nes bod apêl wedi'i hanfon i'r Tribiwnlys.

27.27 **Rhaid**[24] i'r cais adlewyrchu'r meini prawf cymhwystra sy'n seiliedig ar bedwar amod y mae'n **rhaid**[25] i gyfeillion achos eu dilyn (gweler paragraff 27.15).

27.28 Fel arfer, bydd cyfaill achos yn berthynas neu'n gyfaill agos i deulu'r plentyn. Fodd bynnag, gall fod yn unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ac

[20] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[21] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[22] Adran 69(1)(c) o’r Ddeddf.
[23] Adran 85(2) o’r Ddeddf.
[24] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[25] Adran 85(6) o’r Ddeddf.

nad yw ar restr waharddedig y plentyn. Yn ogystal, **rhaid**[26] atodi gwiriad DBS manylach a gwybodaeth yn ymwneud â'r rhestr waharddedig gyda'r ffurflen datgan addasrwydd, oni bai bod y person sy'n dymuno bod yn gyfaill achos yn berthynas agos (rhiant, llys-riant, brawd, llys-frawd, chwaer, llys-chwaer, hanner brawd, hanner chwaer, nain, taid, ewythr, modryb, nai neu nith).

27.29 **Rhaid**[27] i'r cais hefyd gynnwys manylion cyswllt y person sy'n dymuno bod yn gyfaill achos, a **rhaid**[28] cynnwys barn y plentyn a'i riant am y person sy'n gwneud cais i weithredu fel cyfaill achos, neu eglurhad o'r rhesymau pam nad yw'r person wedi cael barn y rhiant.

27.30 **Rhaid**[29] i'r cais gael ei lofnodi gan y person sy'n ymgeisio i fod yn gyfaill achos i'r plentyn.

27.31 Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, **rhaid**[30] i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gofnodi ei fod wedi dod i law ac, os gwnaeth y Tribiwnlys dderbyn y cais, hysbysu'r cyfaill achos am ei benderfyniad. Yn ogystal, **rhaid**[31] i'r Ysgrifennydd sicrhau bod pob parti wedi cael gwybod bod gan y plentyn gyfaill achos.

27.32 Wrth benodi cyfaill achos ar ei ysgogiad ei hun, gall y Tribiwnlys holi a oes gan y plentyn rywun i weithredu fel cyfaill achos iddo, ac wedyn aros am ei gais. Yn y mwyafrif o achosion, bydd y plentyn yn dewis aelod agos o'r teulu neu oedolyn arall y mae'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i fod yn gyfaill achos.

27.33 Gall fod amgylchiadau pan fo angen cyfaill achos ar blentyn ond nad yw'n adnabod unrhyw un i ofyn iddynt fod yn gyfaill achos. Yn y sefyllfa hon, gall eiriolwr annibynnol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol wneud cais i fod yn gyfaill achos i'r plentyn. Bydd hyn yn caniatáu i gyfaill achos gael ei roi i blentyn nad oes ganddo rywun i weithredu yn y rôl honno.

27.34 Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu nad oes galluedd gan blentyn sy'n cyflwyno apêl yn ei enw ei hun heb gyfaill achos, bydd yn atal yr achos hyd nes bod cyfaill achos gan y plentyn.

27.35 Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu ar ei ysgogiad ei hun bod angen penodi cyfaill achos ar gyfer plentyn, bydd yn ofynnol i'r cyfaill achos arfaethedig gwblhau'r ffurflen gais berthnasol. Bydd hyn yn galluogi'r Tribiwnlys i asesu addasrwydd yr unigolyn.

27.36 **Caiff**[32] y Tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos naill ai ar ei ysgogiad ei hun neu drwy gais gan rywun arall a gefnogir gan dystiolaeth.

---

[26] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[27] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[28] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[29] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[30] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[31] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf.
[32] Adran 85(2)(b) o’r Ddeddf.

27.37 Os caiff cyfaill achos ei ddiswyddo, **rhaid**[33] Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r holl bartïon dan sylw am hyn a hysbysu'r cyfaill achos nad yw bellach yn gallu gweithredu ar ran y plentyn.

[33] Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 85(8) o'r Ddeddf

# Atodiad A: Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Ffurflen orfodol

## *Rhan 1.*

| **Adran 1A: Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc[1] a manylion cyswllt** | |
|---|---|
| 1A.1) Enw llawn: | |
| 1A.2) Enw a ffefrir: | |
| 1A.3) Dyddiad geni: | |
| 1A.4) Rhywedd: | |
| 1A.5) Lleoliad(au) addysgol presennol: | |
| 1A.6) Cyfeiriad cartref a rhif ffôn: | |
| 1A.7) Enwau'r rhieni[2]: | |
| 1A.8) Cyfeiriad e-bost (dim ond os yw'r plentyn/rhiant/person ifanc yn fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau'n electronig): | |
| 1A.9) Cyfeiriad(au) y rhieni a rhif(au) ffôn (os yn wahanol)[2]: | |
| 1A.10) Gofynion a dewisiadau cyfathrebu: | |
| 1A.11) Ar gyfer person ifanc, manylion ei gydsyniad i lunio/cynnal CDU: | |
| 1A.12) Materion galluedd: | |

| **Adran 1B: Cyfrifoldeb am y CDU** | |
|---|---|
| 1B.1) Y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal y CDU: | |
| 1B.2) Y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r CDU: | |
| 1B.3) Y dyddiad adolygu arfaethedig: | |

[1] *Mae person ifanc yn berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond o dan 25 oed*
[2] Dylid ond nodi'r manylion hyn ar gyfer pobl ifanc os ydynt wedi cydsynio i hyn ac os ydynt yn cytuno y gellir rhannu gwybodaeth â'u rhieni

| **Adran 1C: Proffil un dudalen** |
|---|
| |

## *Rhan 2.*

Mae Rhan 2 yn cynnwys yr elfennau hynny o'r CDU y gellir apelio yn eu herbyn i Dribiwnlys Addysg Cymru.
Mae'r elfennau hyn wedi'u marcio mewn **print coch a thrwm a'u tanlinellu**.

| **Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc** |
|---|
| |

| **Adran 2B: Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y plentyn neu'r person ifanc** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yn wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod | | | | |

## Adran 2C: Disgrifiad o'r DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w gyflwyno:** | **2C.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w gyflwyno:** | **2C.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau ar gyfer y DDdY a restrir uchod | | | | |

| **Adran 2D: Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir neu fwyd/llety** |
|---|
| **2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi** |
| |
| **2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddi/o** |
| |
| **2D.3) Disgrifiad o unrhyw fwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau** |
| |

## *Rhan 3.*

| **Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU** |
|---|
| Os caiff gwybodaeth ei gynnwys fel atodiad i'r CDU, rhestrwch ef yma. |

| **Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol** |
|---|
| 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY: |
| |
| 3B.2) Lleoliadau addysgol blaenorol a fynychwyd gan y plentyn (a'r dyddiadau): |
| |

| **Adran 3C: Trosglwyddo** |
|---|
| |

# Atodiad B: Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal: Ffurflen orfodol

Mae'r elfennau hynny o'r CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal y gellir apelio yn eu herbyn i Dribiwnlys Addysg Cymru **wedi eu marcio mewn print coch a thrwm a'u tanlinellu**.

| **Adran 2A: Disgrifiad o ADY y plentyn neu'r person ifanc** |
|---|
| |

| **Adran 2B: Disgrifiad o DDdY y plentyn neu'r person ifanc** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yn wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yn wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2B.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg?** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yn wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adran 2C: Y DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG** | | | | |
| 2C.1) Y canlyniad a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg?** | 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | |
|---|---|
| 2C.1) Y canlyniad a fwriedir: | |

| **2C.2) Y DDdY i'w chyflwyno:** | **2B.3) A ddylid cyflwyno'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg?** | 2C.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn cyflwyno'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen:** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod | | | | |

| **Adran 2D: Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir neu ddarpariaeth bwyd/llety** |
|---|
| **2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn iddi.** |
| |
| **2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddi/o** |
| |
| **2D.3) Darpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau** |
| |

| **Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU** |
|---|
| _Os caiff gwybodaeth ei chynnwys fel atodiad i'r CDU, rhestrwch hi yma._ |

| **Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol** |
|---|
| _3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY:_ |
| |

# Atodiad C: Y DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG: Ffurflen nad yw'n orfodol

| **Gwybodaeth sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc** | |
|---|---|
| Enw llawn: | |
| Dyddiad geni: | |
| Cyfeiriad cartref a rhif ffôn: | |
| Cyfeiriad(au)[1] a rhif(au) ffôn y rhieni (os yn wahanol): | |
| Cyfeiriad yr ysgol / sefydliad addysg bellach (os yn berthnasol): | |
| Iaith/ieithoedd a siaredir gartref: | |

| **Manylion yr achos sy'n cael ei atgyfeirio** | |
|---|---|
| Dyddiad atgyfeirio: | |
| Dyddiad anfon y manylion iechyd: | |
| Manylion cyswllt cydlynydd y CDU (gan gynnwys ei enw, ei rif ffôn a'i gyfeiriad ebost): | |

[1] Mae "rhieni" yn cynnwys unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhieni.

<table>
<tr><th colspan="5">Manylion y DDdY i'w sicrhau gan gorff GIG</th></tr>
<tr><td>Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo):</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno:</td><td>I'w chyflwyno yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith?</td><td>Angen adolygiad cynharach?</td><td>Dyddiad dechrau a gorffen / dyddiad adolygu:</td><td>Manylion cyswllt y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol (enw, rhif ffôn, cyfeiriad ebost):</td></tr>
<tr><td>Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo):</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno:</td><td>I'w chyflwyno yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith?</td><td>Angen adolygiad cynharach?</td><td>Dyddiad dechrau a gorffen / dyddiad adolygu:</td><td>Manylion cyswllt y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol (enw, rhif ffôn, cyfeiriad ebost):</td></tr>
<tr><td>Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo):</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno:</td><td>I'w chyflwyno yn</td><td>Angen</td><td>Dyddiad dechrau</td><td>Manylion cyswllt y gweithiwr</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith? | adolygiad cynharach? | a gorffen / dyddiad adolygu: | iechyd proffesiynol perthnasol (enw, rhif ffôn, cyfeiriad ebost): |
| Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod: | | | | |
| Y canlyniad a fwriedir, gan gynnwys yn y tymor byr / y tymor canolig (y flwyddyn academaidd) a'r tymor hir (trosglwyddo): | | | | |
| Disgrifiad o'r DDdY i'w chyflwyno: | I'w chyflwyno yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith? | Angen adolygiad cynharach? | Dyddiad dechrau a gorffen / dyddiad adolygu: | Manylion cyswllt y gweithiwr iechyd proffesiynol perthnasol (enw, rhif ffôn, cyfeiriad ebost): |
| Y rhesymau am y DDdY a restrir uchod: | | | | |